Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 57/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mawrth 2026

# Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-83745-326-9

Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad terfynol

Awduron: Lisa Rutherford, Debbie Collins, Dhru Shah, Aditi Das, Alessandra Radicati, Yasmin Begum, Katherine Rogers, Robyn Swannack, ac Alys Young

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Rutherford, L., Collins, D., Shah, D., Das. A., Radicati, A., and Begum, Y., Rogers, K., Swannack. R., & Young, A. (2026). Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 57/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Laura Tolland

Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 5
1.1 Cefndir ..... 5
1.2 Trosolwg o'r ymchwil ..... 7
1.3 Ystyriaethau'r ymchwil ..... 8
1.4 Goruchwylio'r prosiect ..... 9
2. Y Cam Darganfod ..... 11
2.1 Trosolwg o becynnau gwaith y cam darganfod ..... 11
2.2 Synthesis o ganfyddiadau'r cam darganfod ..... 12
2.3 Argymhellion o'r cam darganfod ..... 18
3. Cam Alffa - Pecyn gwaith 4: dyluniad cwestiynau ..... 20
3.1 Nodau ..... 20
3.2 Datblygu cwestiynau amhariadau newydd ..... 21
3.3 Datblygu cwestiynau rhwystrau newydd ..... 25
3.4 Cynhyrchu fersiynau gwahanol o gwestiynau ..... 29
3.5 Allbwn pecyn gwaith 4 - cwestiynau i'w profi'n wybyddol ..... 34
4. Y cam alffa - Pecyn gwaith 5: cyfweliadau gwybyddol ..... 35
4.1 Nodau ..... 35
4.2 Trosolwg o ddulliau profion gwybyddol ..... 36
4.3 Gwaith maes ..... 37
4.4 Rheoli a dadansoddi data ..... 39
4.5 Canfyddiadau'r profion gwybyddol - cwestiynau amhariadau ..... 39
4.6 Canfyddiadau'r profion gwybyddol - cwestiynau rhwystrau ..... 47
4.7 Geiriad arfaethedig cwestiynau ar gyfer Panel Barn NatCen (pecyn gwaith 6)..57
4.8 Profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ..... 63
5. Cam alffa - pecyn gwaith 6: prawf maes meintiol ..... 75

5.1 Nodau ..... 75
5.2 Dulliau ..... 75
5.3 Canfyddiadau ..... 77
6. Argymhellion ..... 121
6.1 Amhariadau ..... 121
6.2 Rhwystrau ..... 123
6.3 Canllawiau’r cwestiynau ..... 127
6.4 Cwestiynau newydd a argymhellir ..... 128

Atodiad A: Safonau wedi’u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) .. 136
Atodiad B: Pecyn gwaith 4 - cwestiynau amhariadau ..... 138
Atodiad C: Pecyn gwaith 4 - cwestiynau rhwystrau ..... 144
Atodiad D: Pecyn gwaith 5 - manyleb recriwtio ar gyfer profion gwybyddol ..... 150
Atodiad E: Pecyn gwaith 5 - cwotâu recriwtio ..... 154
Atodiad F: Pecyn gwaith 5 - protocol profion ..... 157
Atodiad G: Pecyn gwaith 6 - Gwybodaeth dechnegol Panel Barn NatCen ..... 173
Atodiad H: Pecyn gwaith 6 - profiad o rwystrau yn ôl math o amhariad ..... 187

## Rhestr o dablau


Tabl 1: Cyfran y mathau o amhariadau gan ddefnyddio cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS, ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr a oedd yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd

Tabl 2: Cyfran y cyfranogwyr gyda phob math o amhariadau wedi'u cysoni GSS - cymharu Panel NatCen (2025) a'r FRS (2023 i 2024)

Tabl 3: Cyfran y mathau o amhariadau gan ddefnyddio cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol, ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr a oedd yn bodloni 2 ddiffiniad y model cymdeithasol o anabledd

Tabl 4: Cyfran yr holl gyfranogwyr sy'n nodi math o amhariad, gan gymharu fersiwn amhariadau wedi'i chysoni GSS a fersiwn y model cymdeithasol

Tabl 5: Cyfran y mathau o amhariadau gan ddefnyddio gwahanol fersiynau o'r cwestiwn amhariadau a gwahanol ddiffiniadau o anabledd

Tabl 6: Canran yr ymatebion 'Arall' yn fersiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS o'r cwestiwn, a chwestiwn amhariadau'r model cymdeithasol

Tabl 7: Cymharu ymatebion cyfranogwyr i fersiwn amhariadau wedi'i chysoni GSS o'r cwestiwn a chwestiwn amhariadau y model cymdeithasol

Tabl 8: Canran sy'n adrodd am brofiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr sydd ag un neu fwy o amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol)

Tabl 9: Nifer y meysydd bywyd y profwyd rhwystrau ynddynt ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr ag un neu fwy o amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol)

Tabl 10: Cyfran y diffyg ymateb ar gyfer rhwystrau mewn meysydd bywyd, yn ôl dull cyflwyno - lle'r oedd yr opsiynau'n gudd neu heb eu cuddio

Tabl 11: Canran sy'n adrodd am brofiad o wahanol fathau o rwystrau, ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr sydd ag un neu fwy o amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol)

Tabl 12: Nifer y mathau o rwystrau a brofwyd ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr ag un neu fwy o amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol)

Tabl 13: Cyfran y diffyg ymateb ar gyfer mathau o rwystrau, yn ôl dull cyflwyno - lle'r oedd yr opsiynau'n gudd neu heb eu cuddio

Tabl 14: Patrymau mewn ymatebion unigol i'r ddau gwestiwn rhwystrau

Tabl 15: Cyffredinrwydd pobl anabl (diffiniad o’r Ddeddf Cydraddoldeb) yn ôl ffynhonnell data

Tabl 16: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 ddull gwahanol sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol

Tabl 17: Cyffredinrwydd pobl anabl (gan gynnwys ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’), ar sail diffiniadau'r Ddeddf Cydraddoldeb a’r model cymdeithasol

Tabl 18: Cyfraddau diffyg ymateb, yn ôl y dull o gyflwyno ymatebion ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio ateb’

Tabl 19: Cyffredinrwydd pobl anabl lle cafodd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ eu heithrio, yn seiliedig ar ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb a diffiniad y model cymdeithasol

Tabl 20: Cymharu categorïau cyfranogwyr yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb a dulliau model cymdeithasol

## Rhestr o’r ffigurau

Ffigur 1: Cyffredinrwydd rhyw ac oedran pobl anabl ar sail diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb

Ffigur 2: Cyffredinrwydd pobl anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) ac incwm misol

Ffigur 3: Cyffredinrwydd pobl anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) a’r lefel uchaf o gymhwyster ffurfiol

Ffigur 4: Cyffredinrwydd pobl anabl yn ôl rhyw, gan ddefnyddio’r 2 fesur model cymdeithasol

Ffigur 5: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 fesur model cymdeithasol, mewn gwahanol grwpiau oedran

Ffigur 6: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 fesur model cymdeithasol, yn ôl lefelau incwm misol

Ffigur 7: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 fesur model cymdeithasol, gyda'r lefel uchaf o gymhwyster ffurfiol

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1 Cefndir

Yn hanesyddol, mae'r model meddygol o anabledd wedi siapio polisi a deddfwriaeth y DU. Fe'i defnyddiwyd fel sail i Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac mae'n parhau i ddylanwadu ar sut mae 'anabledd' yn cael ei ddehongli a'i ddeall heddiw.

Mae'r model meddygol o anabledd yn ystyried amhariad unigolyn fel achos sylfaenol unrhyw anfantais, gydag 'anabledd' yn cael ei ddiffinio fel problem sy'n deilio o'r unigolyn (Andrews et al., 2022[1]). Mae'n canolbwyntio ar wella, lleihau difrifoldeb, neu reoli amhariadau gan ddefnyddio ymyriadau meddygol, gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel yr arbenigwyr (Crawford et al., 2012[2]; Cockburn et al., 2023[3]).

Ledled y DU, mae casglu data a chynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â phobl anabl yn cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r model meddygol o anabledd yn dylanwadu arnynt.

Yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS), mae gwaith casglu data'r llywodraeth wedi tueddu i ddefnyddio'r safon cyflyrau iechyd a salwch hirdymor wedi'i chysoni a'r safonau cyfyngu ar weithgarwch wedi'u cysoni, neu'r safon amhariadau wedi'i chysoni (Atodiad A). Mae hyn yn sicrhau cysondeb a chymharedd wrth gasglu data, ac yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, fel y nodwyd hefyd yng nghanllawiau'r GSS, efallai na fydd y cwestiynau cyson hyn yn cyfleu'r boblogaeth niwrowahanol yn gywir; y rheini sy'n derbyn triniaeth neu feddyginiaeth; y rheini sydd â chyflyrau anwadal, cynyddol neu benodol; a'r rheini sydd wedi cael eu 'cyfyngu' yn flaenorol gan amhariad neu gyflwr yn y gorffennol.

Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r model cymdeithasol o anabledd yn ffurfiol, gan wneud Cymru yn un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i wneud hynny. Mae'r model hwn yn pwysleisio gwahaniaeth pwysig rhwng 'amhariad' ac 'anabledd'. Mae'n awgrymu bod 'anabledd' yn deillio o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu mewn cymdeithas, nid amhariad unigolyn. Datblygwyd y model cymdeithasol gan bobl anabl ac mae wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar

---

[1] Andrews, E.E., Powell, R.M., and Ayers, K. (2022). The evolution of disability language: choosing terms to describe disability. Disability and Health Journal, 15(3), 101328.

[2] Crawford, C., Dinca-Panaitescu, M., Fougeyrollas, P., and Rioux, M. (2012). Towards a statistical model for monitoring the exercise of human rights under the UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities – Canadian Case Study. Review of Disability Studies: An International Journal, 8(4).

[3] Cockburn, L., Roberts, J., Lee, S., Nganji, J., Ho, N.C.W., and Kuntjoro, A. (2023). Considerations when asking about "disability" in disability inclusive research. Disability and Rehabilitation, 46(21), 5114-5133.

Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP), y mae'r DU wedi ymrwymo iddo. Nododd Llywodraeth Cymru fod angen cwestiynau arolwg newydd i sicrhau bod y model cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu wrth gasglu data a gwneud penderfyniadau, ac wrth ddarparu pob gwasanaeth ledled Cymru.

Yn 2024, comisiynodd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn Llywodraeth Cymru y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i ddatblygu a phrofi set o gwestiynau arolwg demograffig, opsiynau ymateb, a chanllawiau cysylltiedig. Roedd angen i'r cwestiynau gasglu profiadau pobl anabl yn unol â'r model cymdeithasol mewn ffordd gyson a safonol. Roedd angen i'r cwestiynau hefyd fod yn addas i'w defnyddio ochr yn ochr â mesurau sydd eu hangen ar gyfer dibenion deddfwriaethol (er enghraifft, y Ddeddf Cydraddoldeb) a dibenion monitro polisi, ac ar gyfer cynllunio ar gyfer y galw am wasanaethau.

Y bwriad oedd datblygu cwestiynau y gellid eu rhannu â chyrff cyhoeddus, y trydydd sector, a chynhyrchwyr ystadegau eraill. Y bwriad oedd rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r ymchwil hon â Thîm Cysoni GSS a gwledydd eraill y DU. Nod yr ymchwil hon oedd annog mabwysiadu'r cwestiynau newydd yn ehangach ledled Cymru, ac mewn llywodraeth ledled y DU.

Rhestrir nodau ac amcanion yr ymchwil isod.

### 1.1.1 Nodau'r ymchwil

- Datblygu cyfres o gwestiynau arolwg, opsiynau ymateb a dogfennau canllaw sy'n adlewyrchu'r model cymdeithasol ac yn galluogi dull safonol a chyson o fesur.
- Ymchwilio i fodelau a ffyrdd eraill o fesur cyffredinrwydd pobl anabl yn y boblogaeth i asesu a ddylid defnyddio cwestiynau sy'n seiliedig ar y model cymdeithasol ar eu pen eu hunain, ochr yn ochr â mesurau eraill, neu eu hategu (er enghraifft, safonau wedi'u cysoni GSS).
- Datblygu cwestiynau sy'n addas i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru o leiaf, ac yn ddelfrydol ledled y DU.
- Datblygu canllawiau a chwestiynau y gellir eu defnyddio ar gyfer oedolion a phlant ar draws gwahanol ddulliau casglu.
- Llunio cwestiynau a chanllawiau sy'n briodol i bobl ag amrywiaeth eang o anghenion hygyrchedd, ac mewn gwahanol ieithoedd a chyd-destunau.

### 1.1.2 Amcan yr ymchwil

- Deall y gwahanol fodelau anabledd a sut mae'r modelau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cwestiynau arolwg a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau'r llywodraeth.

- Deall y gwahanol ffyrdd y mae defnyddwyr data ar hyn o bryd yn cynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â phobl anabl neu bobl sydd ag amhariadau o ddata arolygon, a'r bylchau data yn yr ystadegau presennol.

- Nodi'r ystod lawn o gwestiynau arolwg, opsiynau ymateb a chanllawiau sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n casglu data am bobl anabl ar yr un pryd ag adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd.

- Os nad oes cwestiynau arolwg priodol yn bodoli, mynd ati i greu, mireinio, profi a gwerthuso cyfres newydd o gwestiynau, opsiynau ymateb a dogfennau canllaw i gasglu data sy'n seiliedig ar y model cymdeithasol.

Mae gweddill yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r camau ymchwil a'r pecynnau gwaith, a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar yr ymchwil. Mae Adran 2 yn crynhoi cam cyntaf yr ymchwil, sef y 'cam darganfod'. Trafodir nodau, dulliau a chanfyddiadau pob pecyn gwaith yn ail gam a cham olaf yr ymchwil, y 'cyfnod alffa', yn Adrannau 3 i 5. Mae Adran 6 yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau, argymhellion a chamau nesaf y cam alffa.

## 1.2 Trosolwg o'r ymchwil

Yn unol â'r Fframwaith Dylunio sy'n Canolbwyntio ar yr Atebydd, rhannodd y fethodoleg ymchwil y prosiect yn 2 gam: cyfnod 'darganfod', ac yna cyfnod 'alffa'. Roedd canfyddiadau pob pecyn gwaith yn y camau hyn yn sail i gamau dilynol yr ymchwil.

Nod y cyfnod darganfod oedd asesu'r modelau anabledd a chwestiynau'r arolwg sydd ar gael ar hyn o bryd; ac archwilio beth fyddai ei angen ar bobl anabl a'r rhai sy'n defnyddio data sy'n gysylltiedig ag anabledd ar gyfer cwestiynau arolwg newydd. Roedd yn cynnwys 3 phecyn gwaith olynol a chysylltiedig:

- pecyn gwaith 1: mapio anghenion defnyddwyr data ac adolygiad llenyddiaeth

- pecyn gwaith 2: adolygu cwestiynau arolygon presennol

- pecyn gwaith 3: gweithdai trafod gyda phobl anabl

Cwblhawyd y cam darganfod ym mis Ebrill 2025. Cyhoeddwyd adroddiad interim yn amlinellu methodoleg a chanfyddiadau'r cam hwn, ac adolygiad llenyddiaeth ar wahân ym mis Gorffennaf 2025.

Defnyddiodd y cam alffa ganfyddiadau'r cam darganfod i ddylunio, datblygu a phrofi cwestiynau newydd yn seiliedig ar y model cymdeithasol o anabledd. Cafodd ei gynnal rhwng mis Mai 2025 a mis Ionawr 2026, ac roedd hefyd yn cynnwys 3 phecyn gwaith olynol a chysylltiedig:

- pecyn gwaith 4: dylunio cwestiynau arolwg

- pecyn gwaith 5: profi cwestiynau arolwg yn wybyddol
- pecyn gwaith 6: prawf maes meintiol

## 1.3 Ystyriaethau'r ymchwil

Cynhaliwyd yr ymchwil hon o fewn cyfyngiadau clir, gan gynnwys gofyniad i gwblhau'r gwaith erbyn mis Mawrth 2026 ac aros o fewn cyllideb sefydlog. Yn yr un modd â'r holl ymchwil gymdeithasol a wneir o fewn paramedrau diffiniedig, mae'r terfynau hyn yn siapio cwmpas y gwaith a dehongliad y canfyddiadau.

Un o'r nodau cynnar oedd datblygu set eang o gwestiynau arolwg. Roedd tystiolaeth o'r cam darganfod yn dangos y byddai cofnodi anghenion a phrofiadau pob person anabl yn llawn yn gofyn am nifer fawr o gwestiynau ac offeryn arolwg ar wahân o bosibl. Nid oedd hyn yn ymarferol o ystyried cyfyngiadau amser a chyllideb. Felly cytunodd y grŵp llywio i dderbyn argymhellion ymchwil y cam darganfod a blaenoriaethu profi safon amhariadau ddiwygiedig wedi'i chysoni a chwestiwn ar y rhwystrau y mae pobl ag amhariadau yn eu hwynebu. Roedd tensiwn o hyd rhwng cofnodi'r ystod lawn o rwystrau a chadw cwestiynau'n gryno ac yn hawdd eu deall.

Nod arall oedd dylunio cwestiynau a oedd yn addas ar gyfer sawl dull casglu data. Gan fod gwahanol ddulliau'n gallu cynhyrchu gwahanol batrymau ymateb, mabwysiadwyd dull un modd. Cafodd cwestiynau eu profi'n wybyddol mewn dull wyneb yn wyneb a dull hunan-lenwi; a chawsant eu profi yn y maes ar-lein a thros y ffôn. Er bod gwelliannau wedi'u gwneud ar sail y canfyddiadau hyn, ni chafodd y cwestiynau eu profi mewn fformat papur hunan-lenwi, a byddai'n ddoeth cynnal profion ychwanegol ar gyfer y dull hwnnw.

Ar draws pob cam, nod y fethodoleg oedd bod mor gynhwysol â phosibl, ond o fewn ffiniau'r astudiaeth. Roedd yr ymchwil ddesg a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod darganfod yn drylwyr ond nid yn hollgynhwysfawr ac wedi'i gyfyngu i ffynonellau Saesneg. Er bod camau wedi cael eu cymryd i leihau hepgoriadau, roedd risg o hyd na chafodd rhai gwahaniaethau neu ddatblygiadau diweddar eu cofnodi, yn enwedig mewn dadleuon ar fodelau anabledd. Felly, dylid ystyried yr adolygiad yn grynodeb lefel uchel.

Nid oedd yr ymchwil yn ceisio mynd i'r afael â'r ystod lawn o ofynion iaith neu hygyrchedd sy'n bresennol yng Nghymru. Datblygwyd cwestiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg; ac fe'u cyfieithwyd i Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a fformat hawdd ei ddeall. Roedd profion gwybyddol yn cwmpasu'r 3 iaith a fformatau hawdd eu deall, ond cynhaliwyd profion meintiol yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unig. Roedd canfyddiadau sy'n ymwneud ag Iaith Arwyddion Prydain a fformatau hawdd eu deall yn seiliedig ar samplau bach a dylid eu dehongli'n ofalus. Byddai profion pellach yn cryfhau hyder bod y cwestiynau'n diwallu anghenion grŵp ehangach o ddefnyddwyr.

Fel gyda phob gwaith maes, mae risg o dangynrychioli neu orgynrychioli rhai grwpiau, a allai gyflwyno rhagfarn. Roedd mesurau lliniaru wedi'u gwreiddio ar sawl cam a, lle bo'n bosibl, roedd data profion maes yn cael ei gymharu â ffynonellau allanol i asesu cywirdeb.

Roedd dyluniad yr ymchwil yn caniatáu rhywfaint o fireinio iteraidd, yn enwedig yn dilyn y rownd gyntaf o gyfweliadau gwybyddol, ond nid oedd profion iteraidd llawn yn ymarferol. Byddai rowndiau ychwanegol o brofion gwybyddol ar ôl y prawf maes wedi darparu dilysiad cryfach.

Mabwysiadwyd dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr drwyddi draw, gan sicrhau bod pobl anabl a defnyddwyr data yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf. Er bod hyn wedi helpu i gydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, ni fyddai'r allbynnau terfynol yn cytgordio holl anghenion rhanddeiliaid.

Yn olaf, gall integreiddio cwestiynau diwygiedig i arolygon presennol gyflwyno heriau gweithredol. Mae cynhyrchu deunyddiau canllaw yn lleihau rhai o'r risgiau hyn, ond efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith.

## 1.4 Goruchwylio'r prosiect

### 1.4.1 Grŵp llywio'r prosiect

Sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio, a oedd yn cynnwys swyddogion polisi, arbenigwyr allanol, a phobl â phrofiad uniongyrchol o amhariadau a/neu rwystrau, i oruchwylio'r ymchwil. Dyma gyfrifoldebau'r grŵp llywio: rhoi adborth ar brif ddogfennau'r prosiect; darparu mewnbwn arbenigol; a chynghori ar foeseg, hygyrchedd dulliau, a glynu wrth GDPR y DU.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp llywio ar ddechrau'r cam darganfod, lle bu'r grŵp yn trafod dyluniad arfaethedig yr ymchwil. Lle bo'n ymarferol, ymgorfforwyd argymhellion gan y grŵp yn y dyluniad cyn symud ymlaen i'r cam adolygu moesegol.

Cynhaliwyd sesiwn fyrrach gyda'r grŵp llywio cyn yr ymchwil ymgynghori i gasglu adborth ar strwythur y gweithdy a'r ymarferion senarios. Trafodwyd a chytunwyd ar ofynion ac ystyriaethau hygyrchedd ar gyfer y gweithdai ymgynghori.

Cynhaliwyd y cyfarfod nesaf ar ôl cwblhau'r cam darganfod a chyn dechrau'r cam alffa. Cyflwynwyd canfyddiadau'r cam darganfod i'r grŵp llywio, ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer y cam alffa, i'w hadolygu a'u cymeradwyo.

Cynhaliwyd y grŵp llywio terfynol ar ôl cwblhau'r cam alffa. Cyflwynwyd canfyddiadau o becyn gwaith 5 (profion gwybyddol) a phecyn gwaith 6 (prawf maes) i aelodau'r grŵp llywio, ac argymhellion terfynol o'r ymchwil.

Gwahoddwyd aelodau'r grŵp llywio hefyd i ymgysylltu â'r ymchwil y tu allan i'r lleoliad cyfarfod mwy ffurfiol. Roedd dogfennau'r prosiect yn cael eu rhannu o bryd i'w gilydd er mwyn cael adborth ac adolygiad; er enghraifft, wrth ddylunio cwestiynau

ym mhecyn gwaith 4, lle cafodd aelodau'r grŵp llywio gwestiynau drafft cynnar a chyfle i rannu eu hadborth. Darparodd aelodau unigol eu harbenigedd a'u cyngor hefyd ar wahanol gamau o'r ymchwil, gan gynnwys drwy awgrymiadau o lenyddiaeth i'w bwydo i'r adolygiad tystiolaeth, adolygu iaith a therminoleg y model cymdeithasol, a chynghori ar hygyrchedd dulliau ymchwil.

### 1.4.2 Adolygiad moesegol

Yn ystod y broses o ddatblygu'r ymchwil, bu'r prosiect yn destun craffu moesegol. Roedd hyn yn sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau ymchwil a oedd ar waith yn gadarn ac yn foesegol, a bod lles ymchwilwyr a chyfranogwyr yn cael ei ddiogelu.

Cafodd rhestr wirio moeseg Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) ei chwblhau ar wahân ar gyfer y camau darganfod ac alffa i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei chynnal yn unol â 5 egwyddor Sicrwydd Moesegol GSR ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol mewn Llywodraeth.

Adolygwyd dau gam y prosiect ar wahân gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ei hun. Roedd gweithdrefnau'r REC hefyd yn bodloni gofynion Cod GSR.

Derbyniodd holl staff y prosiect gopi o god moesegol y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol (SRA) ac roeddent yn rhwym wrtho. Dewiswyd y cod hwn gan mai'r SRA, sy'n elusen gofrestredig, yw prif gorff aelodaeth broffesiynol y DU ar gyfer ymchwilwyr cymdeithasol. Cafodd tîm y prosiect hefyd eu briffio ar ganllawiau proffesiynol GSR, a'u cyfarwyddo i gydymffurfio â'r Llyfr Magenta, y Llyfr Gwyrdd a'r Llyfr Acwa ym mhob agwedd ar yr ymchwil. Rhoddwyd hyfforddiant llawn i gyfwelwyr ynghylch sensitifrwydd posibl a allai godi a sut i fynd i'r afael â'r rhain yn rhagweithiol drwy hwyluso cysur, dewis a rheolaeth cyfranogwyr. Roedd staff a oedd yn gwneud gwaith maes wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

### 1.4.3 Nodyn ar derminoleg

Wrth grynhoi'r llenyddiaeth a chwestiynau presennol yr arolwg, atgynhyrchwyd yr iaith a'r cysyniadau gwreiddiol, i gynrychioli'r cynnwys yn gywir. O ganlyniad, efallai na fydd rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i iaith y model cymdeithasol.

Yn yr un modd, roedd disgrifiadau o sut yr ymatebodd cyfranogwyr yr ymchwil i gwestiynau'r arolwg a gyflwynwyd iddynt yn adlewyrchu'n gywir yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt. Felly er mwyn peidio â chamddehongli tystiolaeth na chamgynrychioli barn cyfranogwyr, defnyddir eu geiriau eu hunain (crynodebau ac union ddyfyniadau) yn yr adroddiad hwn. Nid yw dyfyniadau wedi'u golygu ac ni fyddant bob amser yn cyfateb i iaith y model cymdeithasol.

# 2. Y Cam Darganfod

## 2.1 Trosolwg o becynnau gwaith y cam darganfod

Mae'r adran hon yn crynhoi'r 3 phecyn gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y cam darganfod, ynghyd â throsolwg byr o'u priod nodau a dulliau. Mae adroddiad interim y cam darganfod yn cynnwys adolygiad manylach o'r pecynnau gwaith hyn.

### 2.1.1 Pecyn gwaith 1: mapio anghenion defnyddwyr data ac adolygiad llenyddiaeth

Nod yr adolygiad llenyddiaeth oedd syntheseiddio llenyddiaeth academaidd a llwyd ar wahanol fodelau o anabledd, gan werthuso eu manteision a'u hanfanteision ar gyfer dylunio a chyflwyno ymchwil arolwg. Y canlyniad oedd crynodeb lefel uchel yn seiliedig ar y sampl o gyhoeddiadau a nodwyd drwy'r meini prawf cynnwys, yn hytrach na throsolwg cynhwysfawr o'r sylfaen dystiolaeth. Wrth ddehongli'r crynodeb hwn, anogir darllenwyr i gofio bod modelau anabledd yn esblygu, yn ogystal â'r cyd-destunau a'r cymwysiadau y cânt eu defnyddio ynddynt.

Defnyddiwyd dyluniad ymchwil adolygiad llenyddiaeth i gasglu astudiaethau perthnasol o fewn amserlen gyfyngedig, y daethpwyd i gasgliadau cyffredinol ar sail hynny. Roedd y dyluniad yn cynnwys y camau ychwanegol canlynol sy'n arwydd o ddull gweithredu mwy systematig. Cafodd astudiaethau academaidd a llenyddiaeth lwyd a adolygwyd gan gymheiriaid eu rhoi ar y rhestr fer mewn 2 gam: adolygiad o'r teitl a chrynodeb, neu grynodeb gweithredol, ac yna adolygiad o'r testun llawn. Dewiswyd tua 50 o astudiaethau i'w cynnwys yn yr adolygiad. Roedd fframwaith dadansoddiad thematig yn helpu i sicrhau bod themâu canolog a bylchau mewn tystiolaeth yn cael eu nodi. Cyhoeddwyd yr adolygiad o fodelau anabledd ac arolygon fel adroddiad annibynnol.

I ategu'r adolygiad llenyddiaeth, cynhaliwyd gweithdai ar wahân gyda defnyddwyr data yn Llywodraeth Cymru; gweithwyr y llywodraeth a'r sector cyhoeddus; a gweithwyr elusennau a'r trydydd sector. Nod y gweithdai hyn oedd casglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n defnyddio neu'n ymgynghori â data am bobl anabl yng Nghymru. Roedd y ffocws ar ddeall y data maen nhw'n ei ddefnyddio, sut a pham mae'r data hyn yn cael eu defnyddio, a'u barn ar gwestiynau presennol (yn enwedig safonau wedi'u cysoni GSS) gan gynnwys cryfderau, cyfyngiadau a gwelliannau posibl i adlewyrchu'r model cymdeithasol yn well. Roedd cynnal gweithdai gyda gwahanol fathau o ddefnyddwyr data wedi datgelu'r amrywiaeth o safbwyntiau o fewn grwpiau, tra'n arsylwi ar yr hyn sy'n debyg neu'n wahanol rhwng defnyddwyr data o bob un o'r 3 gweithdy. Cafodd y data ei godio'n thematig i nodi'r safbwyntiau cyffredin neu bennaf yn fras.

### 2.1.2 Pecyn gwaith 2: adolygu cwestiynau arolygon presennol

Pwrpas pecyn gwaith 2 oedd cynnal adolygiad systematig cynhwysfawr o fesurau arolygon presennol a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth am bobl anabl. Roedd yn canolbwyntio ar nodi a gwerthuso i ba raddau yr oedd y mesurau hyn yn diwallu anghenion defnyddwyr data, neu y gellid eu haddasu i ddiwallu'r anghenion hynny, ac a ydynt yn cyd-fynd ag iaith y model cymdeithasol o anabledd.

Nodwyd arolygon perthnasol oedd â'r nod o gasglu gwybodaeth am amhariad a/neu bobl anabl, o'r DU ac yn rhyngwladol. At ei gilydd, adolygwyd cwestiynau o 20 arolwg, gyda phob un yn cael ei godio yn erbyn set o feini prawf gwerthuso a ddatblygwyd gan dîm ymchwil NatCen. Roedd y meini prawf, a restrir yn Atodiad D yr adroddiad interim, yn ymdrin â gwybodaeth ddisgrifiadol a chyd-destunol, cysyniadau a fesurwyd, i ba raddau y maent yn diwallu anghenion defnyddwyr data a nodweddion gweinyddu.

### 2.1.3 Pecyn gwaith 3: gweithdai trafod gyda phobl anabl

Dan arweiniad Canolfan Drafod NatCen, cynhaliwyd ymchwil ymgynghori i ddeall safbwyntiau pobl anabl ar arolygon a chasglu data yng Nghymru. Yn benodol, ei nod oedd casglu: eu barn am gysyniadau ynghylch 'amhariad' ac 'anabledd' ac a oedd y termau hyn yn adlewyrchu eu profiadau personol; eu barn am safonau wedi'u cysoni GSS a chwestiynau arolwg sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol; a manteision a chyfaddawdau gwahanol gwestiynau'r arolwg.

Cymerodd cyfanswm o 40 o gyfranogwyr ran yn yr ymchwil ymgynghori dros 2 ddiwrnod, gydag 20 o bobl yn cael eu dyrannu i bob gweithdy ar-lein. Roedd y cyfranogwyr yn newid rhwng sesiynau llawn ac ystafelloedd ymneilltuo. Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol yn gasgliadol, gan ddefnyddio themâu a phenawdau o'r ymarferion gweithdy; ac yn anwythol, trwy ddadansoddiad manwl o'r nodiadau a thrawsgrifiadau. Roedd ymchwil ymgynghorol yn galluogi sgyrsiau manwl a myfyriol i gael eu cynhyrchu, gan roi cipolwg ar werthoedd a rhesymeg cyfranogwyr na fyddent o bosibl wedi cael eu casglu drwy fathau eraill o ymgysylltu.

## 2.2 Synthesis o ganfyddiadau'r cam darganfod

### 2.2.1 Adolygiad llenyddiaeth

Y prif fodelau anabledd a drafodwyd yn y llenyddiaeth a adolygwyd oedd y modelau meddygol, cymdeithasol a bioseicogymdeithasol. Dros amser, bu mwy o ffocws yn y

llenyddiaeth ar rwystrau a hwyluswyr cymdeithasol ac amgylcheddol; a symud oddi wrth ffocws ar agweddau biofeddygol (Forstner, 2022[4]).

Canfuwyd mai prif fantais y model cymdeithasol oedd ei ffocws ar nodi ac eirioli dros newidiadau yn yr amgylchedd ei hun. Mae lleihau neu ddileu rhwystrau amgylcheddol, systematig a chymdeithasol, a mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol-wleidyddol yn helpu i alluogi pobl anabl i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas (Benni, 2023[5]; Burchardt, 2004[6]; Cappa et al., 2015[7]; Norwich et al., 2016[8]). Fodd bynnag, awgrymodd rhai awduron fod angen cydnabod natur ymgorfforedig amhariadau ymhellach. Gallai canolbwyntio ar ffactorau a dehongliadau amgylcheddol a chymdeithasol olygu tanamcangyfrif effeithiau a realiti cynhenid amhariadau ar fywyd bob dydd (Beaudry, 2016[9]; Crawford et al., 2012).

Awgrymodd rhai awduron fod y model bioseicogymdeithasol yn darparu dealltwriaeth fwy cynnil, gydag 'anabledd' yn digwydd ar y croestoriad rhwng cyflwr iechyd unigolyn, ei amhariad, a dylanwadau amgylcheddol a chymdeithasol (Bennani, 2023; Norwich et al., 2016). Fodd bynnag, roedd y prif feirniadaethau'n ymwneud â'i ehangder a diffyg cymhwyso posibl mewn cyd-destun polisi. Roedd y llenyddiaeth hefyd yn cynnwys pryderon, lle mae'r model bioseicogymdeithasol wedi cael ei ddefnyddio'n ymarferol, ei fod bellach yn canolbwyntio ar amhariadau (Bennani, 2023).

### 2.2.2 Gweithdai defnyddwyr data

Disgrifiodd defnyddwyr data (gweithwyr proffesiynol sy'n defnyddio ystadegau am bobl anabl fel rhan o'u gwaith) ddefnyddio gwahanol ffynonellau data i fonitro ac asesu tueddiadau neu werthuso a gwella amgylchiadau pobl anabl; gwerthuso amrywiaeth y gweithlu; a deall anghenion y cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli ac yn eiriol ar eu rhan. Y ffynonellau a grybwyllwyd gan ddefnyddwyr data oedd data

[4] Forstner, M. (2022). Conceptual models of disability: the development of the consideration of non-biomedical aspects. Disabilities, 2(3), 540-563.

[5] Bennani, H. (2023). From experiences to numbers: the production of international disability statistics. Disability & Society, 39(7), 1859–1883.

[6] Burchardt, T. (2004). Capabilities and disability: the capabilities framework and the social model of disability. Disability & Society, 19(7), 735-751.

[7] Cappa, C., Petrowski, N., and Njelesani, J. (2015). Navigating the landscape of child disability measurement: a review of available data collection instruments. European Journal of Disability Research, 9(4), 318-330.

[8] Norwich, B. (2016). Conceptualizing Special Educational Needs using a biopsychosocial model in England: the prospects and challenges of using the International Classification of Functioning Framework. Frontiers in psychiatry, 1, 6.

[9] Beaudry, J-S. (2016). Beyond (models of) disability? Journal of Medicine and Philosophy, 41(2), 210-228.

arolwg poblogaeth cyffredinol a ariannwyd gan y llywodraeth; data arolwg sefydliadol; ac arolygon o bobl anabl a oedd yn casglu data am eu profiadau bywyd.

Roedd y cymhellion dros gasglu data am bobl anabl yn debyg ymysg defnyddwyr data - asesu i ba raddau y mae pobl anabl yn cael eu heithrio o gymdeithas a datblygu polisïau i wella eu profiadau. Fodd bynnag, o ran cwestiwn/cwestiynau'r arolwg neu ffynhonnell/ffynonellau data i'w defnyddio, roedd defnyddwyr data yn teimlo'n gryf y dylai'r penderfyniad hwn gael ei lywio gan y cyd-destun yr oedd angen y data ynddo a nodau'r ymchwil.

Amlinellwyd cyfyngiadau cysyniadol dulliau casglu data cyfredol, gyda'r angen i symud i ffwrdd o "fodel diffyg" a chael "newid ieithyddol" i ddileu nodweddion gwaharddol, fel iaith wedi dyddio neu iaith dramgwyddus. Edrychwyd ar ymarferoldeb casglu data i gyfranogwyr ac ymchwilwyr, cael fformatau a dulliau gwahanol o gasglu data, a chymharu ac olrhain data dros amser. Roedd gan rai defnyddwyr data ddiddordeb mewn cynnal y gallu i gymharu data, tra bod eraill yn poeni llai ac yn cydnabod bod dulliau a chwestiynau'n newid dros amser. Roedd hyd yr holiadur yn ystyriaeth bwysig i ddefnyddwyr data, a bwysleisiodd fod angen ei gadw mor fyr â phosibl. Byddai unrhyw addasiad i gwestiynau presennol yn gofyn am "brofion trylwyr" i sicrhau y byddai cwestiynau newydd yn cynhyrchu'r data a ddymunir.

Datgelodd yr adolygiad desg o gwestiynau ystod eang o arolygon a oedd yn mesur 'anabledd' o'r DU a ffynonellau rhyngwladol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw setiau o gwestiynau'n defnyddio'r model cymdeithasol yn unig. Canfuwyd amrywiol gwestiynau sy'n casglu gwybodaeth am amhariadau mewn gwahanol fformatau. Nid oedd yr un o'r rhain yn gwbl rydd o iaith a oedd yn awgrymu bod amhariadau'n effeithio ar weithgareddau neu'n cyfyngu ar weithrediad mewn rhyw ffordd. Roedd y rhan fwyaf o setiau cwestiynau yn cynnwys cyfeiriadau at gyflyrau iechyd neu iechyd. Roedd hyd yn oed y cwestiynau hynny a oedd yn nodi eu bod yn seiliedig ar y model cymdeithasol yn ymddangos fel pe baent yn cyd-fynd yn agosach â'r model bioseicogymdeithasol.

### 2.2.3 Gweithdai ymgynghori

Yn ystod y gweithdai ymgynghori, bu'r cyfranogwyr yn trafod iaith sy'n gysylltiedig ag anabledd ond nid oedd consensws ar y termau a oedd yn cael eu ffafrio. Roedd rhai yn ffafrio termau fel 'anghenion', 'gwahaniaethau', a 'chyflyrau' yn hytrach nag 'amhariadau' neu 'bod yn anabl'. Nid oedd iaith y model cymdeithasol (er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng bod ag amhariad a bod yn berson anabl) yn taro tant yn gyson. Roedd rhai o'r farn bod y ddau derm yn negyddol, tra bod gwahanol grwpiau o gyfranogwyr hefyd a oedd yn gweld un term yn negyddol ond nid y llall, ac i'r gwrthwyneb.

Wrth benderfynu pa gwestiynau y dylid eu defnyddio ar gyfer arolygon yng Nghymru yn y dyfodol, roedd cyfranogwyr y gweithdai'n teimlo y dylai defnyddio iaith nad yw'n

eithrio ac sy'n adlewyrchu'r ystod ehangaf bosibl o amhariadau fod yn bwysicach na chymharu data. Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr yn gyfarwydd â chymharedd, gan seilio eu barn ar eu profiadau fel rhai a gwblhaodd yr arolwg yn hytrach na defnyddwyr ystadegau.

Teimlai rhai y gallai termau hen ffasiwn neu aneglur yn y cwestiynau wedi'u cysoni, fel defnyddio'r term 'anhwylder', arwain at ddata anghywir. Awgrymwyd y dylai gwella cwestiynau i bobl Cymru fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru o ran cynnal cysondeb ag arolygon yn y gorffennol neu ledled y DU.

Dangosodd y cyfranogwyr fwy o gefnogaeth i ddefnyddio cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS yn hytrach na'r cwestiynau wedi'u cysoni am gyflyrau iechyd hirdymor a chyfyngu ar weithgarwch. Ystyriwyd bod yr iaith yn fwy cynhwysol yn y cwestiwn amhariadau, er bod cyfranogwyr yn teimlo y gellid ei fireinio o hyd. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng y cwestiynau wedi'u cysoni. Roedd rhai cyfranogwyr yn hoffi cynnwys y categori 'Arall' a gallu dewis 'pob ateb perthnasol'. Roedd y rhain yn caniatáu i bobl uniaethu ag unrhyw fath o amhariad ac yn adlewyrchu profiadau pobl anabl yn fwy cywir. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo bod lefel y manylion a'r agwedd fwy agored yn anodd ac yn llethol, gan ffafrio cwestiwn deuaidd 'ie neu na'. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid cael rhestr hirach o amhariadau a mireinio rhai categorïau a ddisgrifiwyd fel rhai amwys a goddrychol.

Roeddent yn gadarnhaol ynghylch cynnwys cwestiwn am rwystrau cymdeithasol i ategu cwestiwn am amhariadau, gan ddweud y gallai wella canfyddiadau o'r cwestiwn a osodwyd. Nododd y cyfranogwyr y dylid defnyddio unrhyw gwestiynau rhwystrau newydd wrth lunio polisïau ac nid dim ond i gyd-fynd â'r model cymdeithasol. Yn ystod y gweithdai ymgynghori, cyflwynwyd cwestiwn rhwystrau sampl iddynt i'w asesu. Awgrymodd trafodaeth fod y cwestiwn yn rhy hir ac y byddai creu cwestiwn syml, cynhwysfawr yn heriol.

### 2.2.4 Manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau

Roedd manteision ac anfanteision i bob un o brif gwestiynau'r arolwg a drafodwyd yn ystod y cam darganfod.

#### 2.2.4.1 Cwestiynau safonol GSS wedi'u cysoni am salwch a chyflyrau iechyd hirdymor, a chyfyngu ar weithgarwch

**Manteision**

- **Cymharedd**: mae defnyddio cwestiynau safonedig yn golygu ei bod yn bosibl mesur tueddiadau dros amser a chymharu data rhwng gwahanol wledydd.
- **Aliniad â deddfwriaeth**: mae'r iaith yn cyd-fynd â geiriad Deddf Cydraddoldeb (2010), gan gynnwys ei diffiniad o 'anabledd'.

- **Ymarferoldeb**: cyflymach i'w weinyddu; canllawiau cwestiynau ar gael; a chyfieithiadau Cymraeg wedi'u dilysu.
- **Hunaniaeth yr ymatebydd**: nid yw'r cwestiynau'n cyfeirio'n uniongyrchol at 'anabledd' - nid oes angen i bobl ystyried eu hunain yn anabl.

**Anfanteision**

- **Iaith waharddol**: mae defnyddio iaith model meddygol o bosibl yn eithrio'r rheini sydd ag amhariad na fyddent yn disgrifio eu hunain fel rhywun sydd â salwch neu gyflwr iechyd, er enghraifft pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu bobl niwrowahanol.
- **Gwrthdaro ag egwyddorion model cymdeithasol**: mae gofyn a yw 'cyflwr iechyd neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau' yn mynd yn groes i egwyddorion craidd y model cymdeithasol.
- **Diffiniadau cyfyngol:** mae cynnwys 'hirdymor' yn golygu nad yw'n glir sut y dylai pobl sydd ag amhariadau anwadal neu'r rhai sy'n ansicr am ba hyd y gallai eu amhariad bara, ateb.
- **Dewis yr ymatebydd**: dyma'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio leiaf gan gyfranogwyr yn y gweithdai ymgynghori.

#### 2.2.4.2 Cwestiwn safonol GSS wedi'i gysoni am amhariadau

**Manteision**

- **Cymharedd**: yn cael ei ddefnyddio'n llai aml na'r cwestiynau wedi'u cysoni ynghylch cyflwr iechyd a chyfyngu ar weithgarwch, ond gellir ei gymharu o hyd ar draws rhai arolygon a gwledydd yn y DU (Cymru o'i chymharu â Lloegr).
- **Aliniad agosach â'r model cymdeithasol**: mae mesur amhariadau, yn hytrach na chyflyrau iechyd neu salwch, yn golygu ei fod yn cyd-fynd yn well â'r model cymdeithasol o anabledd.
- **Ymarferoldeb**: mae mwy o enghreifftiau o beth i'w gynnwys a'i eithrio o'i gymharu â chwestiynau anabledd GSS wedi'u cysoni; mae'n gyflym i'w weinyddu; gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â chwestiynau demograffig-gymdeithasol eraill; ac mae cyfieithiadau Cymraeg ar gael.
- **Iaith fwy cynhwysol**: nid yw'n sôn am amhariad yn uniongyrchol - roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod y gair hwn yn rhy negyddol.

**Anfanteision**

- **Iaith neilltuol**: nid yw rhywfaint o'r iaith yn cyd-fynd yn llwyr â'r model cymdeithasol gan ei fod yn cyfeirio at 'salwch neu gyflyrau iechyd'.

- **Terminoleg hen ffasiwn neu dramgwyddus**: mae'n defnyddio iaith hen ffasiwn a allai fod yn dramgwyddus ac yn stigmateiddio, er enghraifft, yr opsiwn ymateb 'Cymdeithasol neu ymddygiadol' ac 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth sy'n cynnwys syndrom Asperger' yn hytrach nag 'awtistiaeth'.

- **Opsiynau ymateb cyfyngol**: roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod y rhestr o amhariadau yn anghyflawn ac o bosibl yn amwys. Roedd pryderon ynghylch sut i fesur amhariadau sy'n gysylltiedig â gweithrediad gwybyddol a niwroamrywiaeth.

- **Cyfleustod ar gyfer plant a phobl ifanc**: codwyd materion penodol ynghylch sut y dylai rhieni ateb am blant anabl, a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

#### 2.2.4.3 Cwestiynau presennol ac enghreifftiol am rwystrau cymdeithasol y mae pobl anabl yn dod ar eu traws

**Manteision**

- **Aliniad â'r model cymdeithasol**: mae'r cwestiwn yn cyd-fynd ag egwyddorion craidd y model cymdeithasol ac felly'r egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt.

- **Dewis yr ymatebydd**: roedd gan y cyfranogwyr rai ymatebion cadarnhaol i'r cwestiwn enghreifftiol a dreialwyd yn ystod y trafodaethau, yn enwedig y cyfeiriad at 'wahaniaethu' fel rhwystr.

**Anfanteision**

- **Diffyg safon bresennol**: cynlluniwyd cwestiynau rhwystrau presennol i ategu cwestiynau am gyflyrau iechyd a/neu amhariadau, yn hytrach nag fel dewis amgen ar wahân.

- **Baich ar ymatebwyr**: mae cwestiynau am rwystrau presennol yn tueddu i gael eu gofyn yng nghyd-destun arolygon hirach am fywydau pobl anabl. Nid oedd unrhyw gwestiynau presennol y gellid eu hychwanegu at arolwg pwnc lluosog heb effeithio ar hyd. Gall nifer uwch o gwestiynau ddatgymell cyfranogwyr i beidio â chymryd rhan ac effeithio ar fabwysiadu cwestiynau gan ddefnyddwyr data.

- **Angen mireinio ymhellach**: roedd yr ymatebion i'r cwestiwn sampl yn gymysg, gyda rhai cyfranogwyr yn awgrymu ei fod yn rhy hirwyntog neu nad oedd yn cynnwys digon o opsiynau o rwystrau y daethpwyd ar eu traws.

- **Cyfyngiadau ymarferol**: ni allai un cwestiwn gasglu gwybodaeth am bob math o rwystrau posibl. Yr her yw cynnwys cynifer o rwystrau posibl â phosibl

ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl anabl, gan gadw'r cwestiwn yn fyr ac yn hawdd ei ddeall.

Ni nodwyd un set o gwestiynau, a oedd yn diwallu anghenion pob grŵp, yn ystod y cam darganfod. Mae'r tensiwn rhwng blaenoriaethau croes gwahanol randdeiliaid yn golygu ei bod yn annhebygol y gellid creu set o gwestiynau o'r fath yn ymarferol.

## 2.3 Argymhellion o'r cam darganfod

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cam darganfod, blaenoriaethwyd yr opsiynau canlynol ar gyfer datblygu holiaduron ar gyfer cam nesaf y prosiect.

### 2.3.1 Cwestiwn amhariadau wedi'i ddiweddaru

Argymhellodd tîm ymchwil NatCen y dylai'r cam alffa flaenoriaethu datblygu cwestiwn amhariadau wedi'i ddiweddaru yn seiliedig ar [safon amhariad wedi'i chysoni GSS](). Y ffocws oedd mireinio'r cwestiwn presennol am amhariadau i fynd i'r afael â rhai o'r materion a'r anfanteision a godwyd yn ystod y cam darganfod drwy:

- ddileu terminoleg hen ffasiwn sy'n ymwneud ag 'anhwylderau' a 'salwch'
- dileu iaith hen ffasiwn ac iaith sy'n stigmateiddio sy'n ymwneud â chyflyrau sy'n effeithio ar bobl yn 'gymdeithasol neu'n 'ymddygiadol'
- darparu eglurder ar gyfer amhariadau anwadal
- sicrhau bod y cwestiwn newydd yn gweithio i rieni sy'n ateb am eu plant

Dylai'r gwaith datblygu gynnwys adolygu'r gwahanol gwestiynau am amhariadau a nodwyd yn yr adolygiad desg, gyda'r syniad o 'ddewis a dethol' y nodweddion gorau o'r gwahanol gwestiynau. Argymhellwyd hefyd y dylid profi'r cwestiwn newydd a sefydlu a yw'n addas ar gyfer arolygon hunan-lenwi.

### 2.3.2 Cwestiwn newydd am rwystrau cymdeithasol

Yr ail argymhelliad o'r cam darganfod oedd y dylid creu cwestiwn newydd am y rhwystrau cymdeithasol y mae pobl ag amhariadau yn eu hwynebu. Dylai fod yn gwestiwn unigol gyda rhestr 'dewiswch bob un sy'n berthnasol' o opsiynau posibl. Byddid yn gofyn i gyfranogwyr sy'n nodi bod ganddynt amhariadau ddisgrifio a ydynt wedi wynebu unrhyw rwystrau oherwydd eu amhariadau a nodi beth oedd y rhwystrau hyn. Nododd y cyfranogwyr fod un cwestiwn yn annhebygol o gasglu gwybodaeth fanwl am bob math o rwystrau y daeth pobl ar eu traws. Dylai'r gwaith o ddatblygu cwestiynau ganolbwyntio ar lunio rhestr lefel uchel o rwystrau sy'n berthnasol i lunwyr polisïau ac amrywiaeth eang o bobl anabl.

Yn ganolog i ddatblygu'r holiadur oedd gweithio gyda phobl anabl i greu a mireinio rhestr glir o'r rhwystrau sydd fwyaf enbyd yn eu barn nhw, ac sydd fwyaf perthnasol i wahanol fathau o amhariadau.

### 2.3.3 Y camau nesaf ar gyfer y cam alffa

Cafodd argymhellion o’r cam darganfod eu hadolygu a’u cymeradwyo gan y grŵp llywio ym mis Mai 2025, ynghyd â gwelliannau arfaethedig ar gyfer y cam alffa. Roedd gohirio'r dyddiad dechrau, ynghyd â dyddiad cwblhau penodol, yn golygu bod cwmpas ymchwil y cam alffa wedi cael ei leihau i ganolbwyntio ar ddylunio a phrofi cwestiynau i oedolion a rhieni yn unig. Ni fyddai’r gwaith dylunio a phrofi yn y cam alffa yn cynnwys plant a phobl ifanc. Cafodd profion gwybyddol hefyd eu lleihau o 2 rownd i 1 i sicrhau bod dyddiad cwblhau’r prosiect yn cael ei fodloni.

# 3. Cam Alffa - Pecyn gwaith 4: dyluniad cwestiynau

## 3.1 Nodau

Nodau cytunedig y pecyn gwaith hwn oedd gweithredu argymhellion y cam darganfod a datblygu:

- cwestiwn amhariadau wedi'i ddiweddaru, yn seiliedig ar safon amhariad wedi'i chysoni GSS
- cwestiwn arolwg newydd am rwystrau cymdeithasol y mae pobl ag amhariadau yn eu hwynebu

Roedd angen i'r cwestiynau arolwg newydd hyn fod yn addas i'w defnyddio gydag oedolion, a rhieni sy'n ateb am eu plant; ac ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), ac mewn fformat hawdd ei ddeall. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gymerodd ran yn y cam darganfod o blaid gofyn cwestiwn am amhariadau a gofyn cwestiwn dull model cymdeithasol gyda'i gilydd, gan bwysleisio'r angen i gysylltu'r ddau gwestiwn. Ar ôl eu datblygu, byddai'r cwestiynau arolwg newydd hyn yn cael eu profi'n wybyddol ym mhecyn gwaith 5.

Cafodd geiriad cwestiynau newydd yr arolwg ei ddrafftio, ei adolygu a'i fireinio'n systematig gan dîm o 4 ymchwilydd o Ganolfan Datblygu a Phrofi Holiadur (QDT) NatCen. Dylanwadodd adborth gan Lywodraeth Cymru a'r grŵp llywio drwy gydol pecyn gwaith 4 ar ddatblygu a mireinio'r cwestiynau newydd. Cynlluniwyd sawl fersiwn o'r cwestiynau newydd fel y gellid treialu'r rhain yn ystod y cyfweliadau gwybyddol.

Llywiwyd y broses ddylunio iteraidd gan ganfyddiadau o bob un o'r pecynnau gwaith yn y cam darganfod ac fe'i llywiwyd gan yr egwyddorion cyffredinol canlynol.

- Defnyddio iaith glir a brawddegau byr, a gofyniad i gwestiynau fod yn glir ac yn syml i'w deall a'u hateb.
- Osgoi rhagfarnau hysbys fel cwestiynau arweiniol, cyfarwyddiadau cymhleth, ac effeithiau trefn[10].
- Dylid defnyddio cyn lleied â phosibl o ddiffiniadau i leihau hyd a chymhlethdod cwestiynau'r arolwg. Os oes angen, dylai diffiniadau ac esboniadau fod yn rhan o fôn y cwestiwn yn hytrach na chael eu darparu fel cyfarwyddiadau ategol. Mae hyn er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu

[10] Krosnick, J. A. (2018). Questionnaire design. In Vannette, D.L. and Krosnick, J.A. (Eds). The Palgrave handbook of survey research, Cham: Springer International.

darllen, er enghraifft: 'Faint yw eich oed? Rhowch eich oedran mewn blynyddoedd cyfan'.

- Llunio cwestiynau i'w defnyddio mewn arolygon a allai gasglu ymatebion mewn gwahanol ffyrdd: wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar-lein, neu ar bapur. Gall gwahanol ddulliau o gasglu data effeithio ar sut mae cwestiynau'n cael eu hateb[11,12]. Gelwir yr effeithiau hyn yn wallau mesur a gallant ei gwneud yn anodd cymharu ymatebion i'r un cwestiwn a ofynnir mewn gwahanol foddau. Byddai cymhwyso egwyddorion dylunio cwestiynau un dull yn golygu y gellid cyflwyno'r cwestiynau mor debyg â phosibl, ar draws gwahanol ddulliau.

- Llunio cwestiynau am amhariadau a rhwystrau i weithredu fel mesurau ar wahân, yn annibynnol ar ei gilydd ac ar unrhyw gwestiynau blaenorol.

- Dilyn egwyddorion model cymdeithasol o anabledd wrth ddrafftio cwestiynau. Mae'r egwyddorion hyn yn pwysleisio profiadau bywyd pobl anabl, yn symud y ffocws o amhariad unigolyn i'r rhwystrau maen nhw'n dod ar eu traws mewn cymdeithas, ac yn osgoi termau meddygol (er enghraifft, enwi salwch neu gyflyrau penodol) ac iaith diffyg (er enghraifft, canolbwyntio ar yr hyn nad yw pobl yn gallu ei wneud, neu'r hyn maen nhw wedi'u cyfyngu rhag ei wneud).

- Llunio cwestiynau i gynnwys pobl niwrowahanol ac arwyddwyr BSL byddar.

- Llunio cwestiynau sy'n addas i oedolion (18 oed a hŷn) a rhieni sy'n ateb am eu plant.

Cytunwyd y byddai'r fersiwn i oedolion yn cael ei ddrafftio yn gyntaf ac y byddai cyn lleied â phosibl o newidiadau'n cael eu gwneud i'r fersiwn i rieni.

## 3.2 Datblygu cwestiynau amhariadau newydd

Y man cychwyn ar gyfer datblygu'r cwestiynau amhariadau newydd oedd y gofyniad i fynd i'r afael â chyfyngiadau hysbys y safon amhariad wedi'i chysoni GSS bresennol. Dechreuodd y broses ddylunio gydag adolygiad o'r canfyddiadau a'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg o weithdai gyda defnyddwyr data a phobl anabl yn ystod y cam darganfod. Byddai cadw cwestiwn amhariadau yn diwallu anghenion defnyddwyr data. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr anabl yn y gweithdai ymgynghori eu bod yn ffafrio safon amhariad wedi'i chysoni GSS yn hytrach na

---

[11] D' Ardenne, J., Bull, R., Das, A., Perera, Z., and Sexton, O. (2025). 'How to mitigate against measurement effects when surveys move online'. Survey Futures Survey Practice Guide 2. Colchester, UK: University of Essex.

[12] Schouten, B., van den Braken, J., Buelens, B., Giesen, D., Luiten, A. and Meertens, V. (2020). Mode-specific measurement effects in mixed-mode specific surveys, design and analysis, Chapter 3 CRC Press.

mesurau eraill. Argymhellwyd felly y dylid datblygu cwestiwn amhariadau newydd, yn seiliedig ar safon amhariad wedi'i chysoni GSS. Fodd bynnag, byddai angen iddo fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y cam darganfod.

Y cynllun cychwynnol oedd datblygu 3 fersiwn amgen o'r cwestiwn amhariadau i'w profi ochr yn ochr â safon wedi'i chysoni GSS. Yn gynnar yn y cam alffa, daeth yn amlwg y byddai profi 3 fersiwn o amhariadau, yn ogystal â phrofi cwestiynau rhwystrau newydd, yn heriol mewn un cyfweliad gwybyddol. Byddai'r baich ymateb ar gyfranogwyr yn sylweddol a byddai amser cyfyngedig ar gyfer holi'n wybyddol ar bob fersiwn. Cytunodd tîm ymchwil NatCen â Llywodraeth Cymru i leihau nifer y fersiynau o'r cwestiwn am amhariadau i'w profi, i 2.

Cynlluniwyd y ddau fersiwn o'r cwestiwn amhariadau er mwyn:

- mesur y cysyniad o amhariad, fel y'i diffinnir gan y model cymdeithasol o anabledd
- gweithredu fel cwestiynau annibynnol heb ymholiadau blaenorol - ni ddylai fod angen y cwestiynau wedi'u cysoni am salwch hirdymor a chyfyngu ar weithgarwch fel rhagflaenyddion
- rhestru amhariadau gan ddefnyddio iaith ac enghreifftiau model cymdeithasol o anabledd, gan sicrhau bod y disgrifiadau hyn yn cynnwys niwrowahaniaeth a chyflyrau anwadal
- sicrhau cydbwysedd rhwng cael mwy o opsiynau ymateb i amhariadau a nodwyd o brofiadau bywyd pobl, a rheoli'r baich ymateb
- cynnal peth cymharedd â chwestiwn amhariadau safonol wedi'i gysoni GSS
- darparu data cymaradwy ar draws dulliau casglu data

Roedd y ddau fersiwn yn dilyn strwythur safon amhariadau wedi'i chysoni GSS, gyda bôn cwestiwn a rhestr o opsiynau ymateb. Roedd y rhan fwyaf o'r categorïau ymateb hyn yn gyson ar draws y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni a'r ddau fersiwn o'r cwestiwn amhariadau newydd. Fodd bynnag, diwygiwyd y categori 'Cymdeithasol neu ymddygiadol' yn y ddau fersiwn newydd. Roedd argymhellion o'r cam darganfod yn awgrymu newid yr iaith yn y categori hwn i ddileu termau hen ffasiwn a thramgwyddus, a dywedodd rhai cyfranogwyr yn y gweithdai ymgynghori nad oedd amhariadau cyfathrebu wedi cael eu cofnodi'n ddigonol. Felly, fe'i rhannwyd yn ddau gategori ar wahân: 'Rhyngweithio neu gyfathrebu cymdeithasol' a 'Prosesu synhwyraidd'. Nod hyn oedd cyfleu profiadau bywyd pobl niwrowahanol yn well ac ychwanegu categori a oedd yn cynnwys cyfathrebu.

Cyflwynwyd dau gategori ychwanegol yn y ddau fersiwn: un ar gyfer cyflyrau awtoimiwn, ac un ar gyfer poen. Canfu ail gam adolygiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o safonau data anabledd wedi'u cysoni fod poen yn cael ei gofnodi'n

gyffredin yn y categori ‘Arall, rhowch fanylion’. Roedd cysgu, deiet a phwysau, ac anymataliaeth hefyd yn cael eu cofnodi’n aml yn y categori ‘Arall’. Ni chafodd y 3 amhariad olaf hyn eu cynnwys fel categorïau newydd oherwydd y credid eu bod yn cael eu cwmpasu gan y categorïau presennol. Er enghraifft, mae cwsg wedi’i gynnwys yn y categori sy’n ymwneud â lefelau egni.

Roedd yr opsiynau ymateb yn y ddau fersiwn newydd yn dilyn yr un fformat: disgrifiad lefel uchel o’r categori amhariad mewn testun trwm (er enghraifft, ‘Clyw’), ac enghreifftiau i ddilyn.

Roedd y ddau fersiwn hefyd yn cynnwys gwahaniaethau bwriadol o ran geiriad, gan alluogi tîm ymchwil NatCen i arbrofi â gwahanol eiriad a oedd yn mynd i’r afael ag argymhellion y cam darganfod, a’u profi.

Roedd geiriad y disgrifiad lefel uchel a’r enghreifftiau’n wahanol rhwng y 2 fersiwn, fel yr oedd geiriad bôn y cwestiwn. Defnyddiwyd termau gwahanol ar gyfer ‘amhariad’ yn y 2 fersiwn i brofi effaith iaith a therminoleg. Roedd hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau o’r cam darganfod, na chanfu gonsensws ar derminoleg a ffefrir, ond a awgrymodd eiriad amgen i’w brofi.

Roedd pwyntiau eraill a godwyd yn ystod y cam darganfod yn fwriadol wahanol yn y ddau fersiwn. Nod hyn oedd canfod pa fersiynau oedd yn cael eu ffafrio yn ystod y cam profi gwybyddol. Disgrifir y gwahaniaethau hyn yn yr is-adrannau canlynol.

### 3.2.1 Fersiwn 1 y cwestiwn amhariadau

Dyluniwyd Fersiwn 1 i gyd-fynd yn agosach â safon amhariadau wedi’i chysoni GSS o ran geiriad a strwythur bôn y cwestiwn a chategorïau ymateb. Fodd bynnag, diwygiwyd rhywfaint o’r geiriad i adlewyrchu iaith y model cymdeithasol yn well.

Dyluniwyd y cwestiwn ar gyfer dull hunan-ofyn (ar y we neu ar bapur), a oedd yn golygu bod cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn cael eu darparu fel rhan o’r cwestiwn.

Yn yr un modd â’r safon amhariadau wedi’i chysoni, gofynnwyd i’r cyfranogwyr wirio’r holl gategorïau ymateb a oedd yn berthnasol iddynt. Roedd y rhestr o ddewisiadau ymateb yn cynnwys ‘Arall, rhowch fanylion’ a ‘Dim un o’r uchod’.

Roedd bôn y cwestiwn yn defnyddio’r termau ‘amhariadau neu gyflyrau’ yn hytrach na ‘chyflyrau iechyd neu salwch’ ac nid oedd ganddo ddatganiad penodol ar gynnwys cyflyrau anwadal. Roedd yn cynnwys yr ymadrodd ‘hirdymor’ wrth gyfeirio at gyflwr person, ond nid y ‘meysydd’ a oedd yn ffurfio’r rhestr o opsiynau ymateb. Ni chafodd diffiniad o ‘hirdymor’ ei gynnwys, felly gellid asesu dealltwriaeth cyfranogwyr fel rhan o’r profion gwybyddol.

Roedd yr opsiynau ymateb yn defnyddio’r rhan fwyaf o’r geiriad a oedd wedi’i gynnwys yn y safon wedi’i chysoni ar gyfer y penawdau amhariadau, fel ‘Golwg’ a ‘Deheurwydd’. Diwygiwyd rhai penawdau i gyd-fynd â chanfyddiadau’r cam

darganfod, ac ychwanegwyd opsiynau ymateb ychwanegol. Yn wahanol i safon wedi'i chysoni GSS, dilynwyd pob un o'r penawdau amhariadau gan un neu 2 enghraifft i helpu dealltwriaeth cyfranogwyr.

### 3.2.2 Fersiwn 2 y cwestiwn amhariadau

Dyluniwyd Fersiwn 2 i fod yn llai cydnaws â safon amhariadau wedi'i chysoni GSS, gan wneud newidiadau mwy helaeth yn unol ag iaith ac egwyddorion y model cymdeithasol.

Dyluniwyd y cwestiwn i'w ofyn gan gyfwelydd, gyda chyfarwyddiadau'n rhan o'r sgript a ddarllenwyd i gyfranogwyr. Darllenodd y cyfwelydd fôn y cwestiwn a dangoswyd rhestr o amhariadau i'r cyfranogwyr. Gofynnwyd iddynt roi ateb 'ie', 'na' neu 'mae'n well gen i beidio â dweud'.

Roedd bôn y cwestiwn yn gofyn a oedd cyfranogwyr yn 'profi problemau neu wahaniaethau', gan adlewyrchu canfyddiadau terminoleg o'r cam darganfod, ac argymhellion gan y grŵp llywio. Nid oedd yn defnyddio'r termau 'amhariad' na 'cyflwr' na 'hirdymor'. Roedd ganddo gyfarwyddyd i gynnwys 'unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser'. Roedd hyn er mwyn cofnodi cyflyrau anwadal nad oes cyfeiriad penodol atynt yn y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni cyfredol. Nodwyd hyn fel cyfyngiad gan ddefnyddwyr data a phobl anabl yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y cam darganfod.

### 3.2.3 Dyluniad cwestiynau amhariadau i rieni

Cytunwyd â Llywodraeth Cymru mai ychydig iawn o wahaniaethau ddylai fod rhwng y fersiynau i oedolion o'r cwestiynau am amhariad a'r fersiynau i'w defnyddio gyda rhieni. Dyluniwyd y fersiwn i oedolion yn gyntaf ac yna ychydig iawn o addasiadau a wnaed i'w defnyddio gyda rhieni am eu plant. Addaswyd bôn y cwestiwn i sicrhau y byddai'n gweithio gyda rhiant sy'n ateb am ei blentyn. Yna, adolygwyd yr opsiynau ymateb yn systematig i asesu priodoldeb y penawdau, a'r enghreifftiau cysylltiedig. Mae fersiwn oedolion a rhieni o'r cwestiynau amhariadau ar gael yn Atodiad B.

Roedd drafftiau cychwynnol yn arbrofi gydag ychwanegu enghreifftiau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ond roedd y rhain yn tueddu i ychwanegu at hyd disgrifiadau'r categorïau. Gan fod llawer o'r enghreifftiau yn y fersiwn i oedolion yn briodol i blant, er enghraifft 'dallineb' a 'darllen, cyfrif, dilyn cyfarwyddiadau', cytunwyd mai dim ond pan nad oedd enghraifft i oedolion yn briodol y dylid defnyddio enghreifftiau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Roedd y penawdau ymateb a'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn y cwestiynau amhariadau fersiwn 1 i oedolion a rhieni yn union yr un fath. Ar gyfer fersiwn 2, roedd yr holl benawdau ymateb yn union yr un fath, ac roedd yr enghreifftiau yr un fath ar gyfer 8 o'r 12 opsiwn ymateb. Ar gyfer y 4 ymateb arall yn fersiwn 2, dyma oedd y gwahaniaethau rhwng y fersiwn i oedolion a'r fersiwn i rieni:

- **Clyw**: cafodd y fersiwn i rieni ei symleiddio, gan hepgor yr enghraifft o 'ddilyn sgyrsiau mewn mannau swnllyd'
- **Defnyddio eich dwylo neu'ch bysedd**: newidiwyd enghreifftiau yn y fersiwn i oedolion o 'gwisgo, ysgrifennu neu ddefnyddio bysellfwrdd' i 'gwisgo eu hunain, dal pensil, codi tegan, defnyddio bysellfwrdd'
- **Cofio neu ganolbwyntio**: roedd fersiwn oedolion yr opsiwn ymateb hwn yn cynnwys yr enghraifft 'cofio digwyddiadau diweddar' a newidiwyd i 'cofio beth wnaethon nhw yn yr ysgol'
- **Lefelau egni neu anadlu**: cafodd yr enghreifftiau o 'golchi, coginio' eu disodli gan 'chwarae' yn y fersiwn rhieni

## 3.3 Datblygu cwestiynau amhariadau newydd

Y man cychwyn ar gyfer dylunio cwestiwn arolwg newydd ar rwystrau cymdeithasol a wynebwyd gan bobl ag amhariadau oedd y cwestiwn a ddrafftiwyd i ysgogi trafodaeth ymysg cyfranogwyr gweithdy ymgynghori ym mhecyn gwaith 3. Cafodd adborth cyfranogwyr ar y cwestiwn ei goladu a'i adolygu i nodi cryfderau a chyfyngiadau'r cwestiwn drafft hwn. Ochr yn ochr â hyn, adolygwyd canfyddiadau pecyn gwaith 1 i sicrhau bod barn defnyddwyr data hefyd yn sail i ddyluniad cwestiynau. Arweiniodd canfyddiadau'r cam darganfod, nodau profion gwybyddol, a chyfres o egwyddorion dylunio trosfwaol, y penderfyniadau wrth ddylunio cwestiynau rhwystrau newydd. Roeddent hefyd wedi dylanwadu ar y graddau yr oedd angen i ddyluniad y cwestiwn fod yn wahanol i'r cwestiwn drafft cychwynnol a adolygwyd yn ystod pecyn gwaith 3, sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad interim y cam darganfod.

Y bwriad yn wreiddiol oedd y byddai'r ddau fersiwn o'r cwestiwn rhwystrau a symudwyd ymlaen i brofion gwybyddol (pecyn gwaith 5) yn mesur yr un lluniad (profiad o rwystrau). Byddai'r fersiynau'n cynnwys gwahaniaethau hysbys a byddai effaith y rhain yn cael ei hasesu yn ystod y cam profi gwybyddol. Byddai un fersiwn yn cyd-fynd yn llwyr â'r model cymdeithasol a byddai'r fersiwn amgen, er ei bod yn llai cydnaws, yn dal i osgoi mesur cysyniadau model meddygol neu ddefnyddio iaith model meddygol.

Yn ystod y cyfnod dylunio, daeth yn amlwg bod yr opsiynau ymateb a gynhwyswyd yn y cwestiwn drafft o becyn gwaith 3 yn ceisio mesur gwahanol gysyniadau, i gyd o fewn un cwestiwn arolwg. Roedd rhai opsiynau ymateb yn cofnodi'r mathau ehangach o rwystrau y gallai person anabl eu hwynebu (er enghraifft, 'diffyg gwybodaeth hygyrch'), tra bod eraill yn ceisio cofnodi profiad o rwystrau mewn meysydd neu barthau bywyd penodol (fel 'rhwystrau rhag cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'i defnyddio'). Wrth gynllunio cwestiynau arolwg, mae'n hanfodol bod yr opsiynau ymateb yn gyson ac yn cyd-fynd yn glir â'r cysyniad sy'n

cael ei fesur, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu darparu atebion cywir ac ystyrlon.[13]

Ynghyd â Llywodraeth Cymru, ailedrychodd ymchwilwyr NatCen ar y nodau arfaethedig ar gyfer y cwestiwn rhwystrau, gan archwilio a chytuno ar ba luniadau y dylai'r cwestiynau newydd eu mesur. Roedd canfyddiadau'r adolygiad o gwestiynau ym mhecyn gwaith 2 yn dangos bod enghreifftiau rhyngwladol o gwestiynau arolwg ar rwystrau yn tueddu i fesur y meysydd bywyd y mae person wedi profi rhwystrau ynddynt, er enghraifft iechyd, cyflogaeth neu drafnidiaeth. Yn ogystal â drafftio cwestiwn am brofiadau o rwystrau mewn meysydd bywyd penodol, mynegodd Llywodraeth Cymru ddiddordeb mewn archwilio dichonoldeb mesur y mathau o rwystrau y gallai person eu hwynebu, er enghraifft o ran agwedd neu'r amgylchedd. Awgrymwyd y gallai gwahanol fersiynau o gwestiwn rhwystrau fod â gwahanol gymwysiadau ymarferol ar draws arolygon.

Roedd y newid hwn i gwmpas y pecyn gwaith yn golygu diwygio nod y broses ddylunio. Y nod newydd oedd meddwl am gwestiynau arolwg ar wahân a digyswllt a oedd yn cofnodi dimensiynau gwahanol rhwystrau mewn meysydd neu barthau bywyd, a mathau ehangach o rwystrau.

### 3.3.1 Fersiwn 1 o'r cwestiynau rhwystrau - profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd

Man cychwyn y fersiwn hwn o'r cwestiwn rhwystrau oedd yr arolygon a nodwyd yn yr adolygiad o gwestiynau pecyn gwaith 2 a oedd yn cynnwys cwestiynau ar rwystrau amgylcheddol a chymdeithasol. Yn ogystal â'r Arolwg Cyfleoedd Bywyd ac Arolwg Anabledd y DU, adolygodd ymchwilwyr ehangder y meysydd bywyd y gofynnwyd amdanynt mewn cwestiynau rhwystrau mewn arolygon anabledd ar wahân yng Nghanada a Seland Newydd. Cafodd gwefan Llywodraeth Cymru ei hadolygu hefyd i sicrhau bod unrhyw opsiynau ymateb arfaethedig yn cynnwys y prif feysydd polisi sy'n rhan o gylch gwaith Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Cafodd yr allbwn, rhestr o feysydd bywyd y gallai rhywun brofi rhwystrau ynddynt, ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a'i ddiwygio nes cytunwyd ar fôn cwestiwn terfynol a rhestr o 9 opsiwn ymateb.

### 3.3.2 Fersiwn 2 o'r cwestiynau rhwystrau - profiad o wahanol fathau o rwystrau

Wrth ddylunio opsiynau ymateb ar gyfer fersiwn 2 o'r cwestiwn rhwystrau, cafodd y tîm ymchwil ei arwain gan ddosbarthiad model cymdeithasol cyffredin o 4 math o rwystrau (agweddol, sefydliadol, amgylcheddol a chyfathrebu). Adolygwyd hefyd y disgrifiadau a'r iaith a ddefnyddiwyd gan gyfranogwyr anabl yn ystod pecyn gwaith 3

[13] Groves, R. M., Fowler, F. J., Couper, M. P., Lepkowski, J. M., Singer, E., and Tourangeau, R. (2009). Survey methodology (2nd ed.). Wiley.

(gweithdai trafod). Ystyriwyd y rhain wrth ddatblygu geiriad a oedd yn adlewyrchu orau'r opsiynau ymateb i'r gwahanol fathau o rwystrau, a chynhwyswyd enghreifftiau i helpu i egluro pob un ohonynt.

### 3.3.3 Cymharu cwestiynau rhwystrau - fersiynau 1 a 2

Yn ogystal â'r gofyniad i ddefnyddio set wahanol o opsiynau ymateb, cyflwynwyd gwahaniaethau bwriadol eraill wrth ddrafftio fersiynau 1 a 2 o'r cwestiwn rhwystrau. Roedd y gwahaniaethau hyn yn seiliedig ar bwyntiau a godwyd yn ystod y cam darganfod a byddent yn cael eu profi a'u hasesu yn ystod cyfweliadau gwybyddol.

- **Defnyddio'r gair 'rhwystrau', term amgen, neu ddim byd**: trafododd cyfranogwyr yn y gweithdai ymgynghori a oedd y term 'rhwystrau' yn hawdd ei ddeall. Roedd fersiwn 1 yn cynnwys y gair 'rhwystrau' ym môn y cwestiwn, ac ni ddefnyddiwyd term cyfatebol yn fersiwn 2.

- **Cysylltu profiad o rwystrau yn benodol i bresenoldeb amhariad neu gyflwr, neu ddim**: roedd bôn cwestiwn fersiwn 1 yn cynnwys testun yn gofyn i gyfranogwyr feddwl am eu amhariadau neu gyflyrau hirdymor wrth ateb, ac ni chafodd unrhyw beth cyfatebol ei gynnwys yn fersiwn 2.

- **Gwahanol ddimensiynau o rwystrau**: gofynnodd fersiwn 1 am brofiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd, a gofynnodd fersiwn 2 am y mathau o rwystrau a brofwyd.

- **Effaith opsiwn ymateb 'Mae'n well gen i beidio â dweud'**: roedd fersiwn 2 yn cynnwys opsiwn 'Mae'n well gen i beidio â dweud' penodol, nid oedd fersiwn 1 yn gwneud hynny.

- **Pa gyfnod cyfeirio, os o gwbl, sydd angen ei gynnwys**: nid oedd y naill fersiwn na'r llall yn cynnwys cyfnod cyfeirio penodol. Roedd hyn er mwyn gallu cynhyrchu data ansoddol ar y cyfnodau amser nodweddiadol y mae pobl anabl yn meddwl amdanynt wrth ystyried eu profiad personol o rwystrau. Ym môn y cwestiwn ar gyfer fersiwn 1, gofynnwyd i'r cyfranogwyr 'pa rwystrau ydych chi'n eu profi', a gofynnodd fersiwn 2 i'r cyfranogwyr pa rwystrau 'ydych chi wedi'u profi'.

Roedd y ddau fersiwn o'r cwestiwn rhwystrau:

- angen alinio â'r model cymdeithasol o anabledd
- yn addas i'w defnyddio gydag oedolion, a gyda rhieni plant anabl
- yn caniatáu i gyfranogwyr ddewis 'pob un sy'n berthnasol' o'r rhestr o ymatebion
- yn cynnwys opsiwn ymateb 'Dim un o'r rhain'

- yn cynnwys opsiwn ymateb 'Arall' i roi cyfle i gyfranogwyr ddweud rhywbeth arall a disgrifio, yn eu geiriau eu hunain, unrhyw brofiadau eraill o rwystrau y gallent fod wedi'u cael; roedd hefyd yn gyfle i asesu i ba raddau roedd yr opsiynau ymateb a ddrafftiwyd yn cynnwys rhwystrau cyffredin

### 3.3.4 Dyluniad cwestiynau amhariadau i rieni

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo geiriad y cwestiwn a'r opsiynau ymateb ar gyfer y ddau fersiwn o'r cwestiwn rhwystrau i oedolion, trodd y sylw at unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol sydd eu hangen i sicrhau bod y ddau fersiwn o gwestiwn yr arolwg yn addas i riant eu hateb am ei blentyn. Y cam cyntaf oedd diweddaru geiriad bôn y cwestiwn a'r opsiynau ymateb. Roedd hyn er mwyn sicrhau ei bod yn glir bod cwestiwn yr arolwg yn gofyn i rieni am eu plentyn neu berson ifanc, ac nid nhw eu hunain yn bersonol.

Yna cafodd yr opsiynau ymateb ar gyfer y fersiynau oedolion o'r cwestiynau eu hadolygu'n systematig. Roedd yn asesu priodoldeb penawdau opsiynau ymateb ac enghreifftiau cysylltiedig, i'w defnyddio gyda rhiant sy'n ateb am ei blentyn neu berson ifanc. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru y dylid gwneud cyn lleied â phosibl o newidiadau i'r fersiynau rhieni a ddatblygir. Ni ddylid diweddaru oni bai fod opsiwn ymateb, neu enghreifftiau cysylltiedig, yn amherthnasol neu'n amhriodol i blentyn neu berson ifanc. Mae fersiynau 1 a 2 o'r cwestiynau rhwystrau i oedolion a rhieni ar gael yn Atodiad C.

#### 3.3.4.1 Fersiwn 1

Ystyriwyd mai dim ond un opsiwn ymateb o'r cwestiwn rhwystrau i oedolion fersiwn 1 oedd yn anaddas i'w gynnwys yn y fersiwn o'r cwestiwn a ddrafftiwyd ar gyfer rhieni - 'Cyfleoedd pleidleisio a chyfranogiad gwleidyddol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion'. Roedd rhieni'n ateb ar ran eu plentyn 15 oed ac iau, sy'n golygu na fyddent yn ddigon hen i bleidleisio yn y DU. Cafodd 'Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi fy anghenion' eu cadw a'u diweddaru ar gyfer y fersiwn i rieni.

Roedd llawer o'r enghreifftiau a oedd wedi'u cynnwys yn yr opsiynau ymateb fersiwn 1 ar gyfer oedolion yn briodol i'w defnyddio gyda rhieni'n ateb am eu plentyn. Er enghraifft, roedd 'apwyntiadau nad ydynt yn gweithio' yn berthnasol i blant yn ogystal ag oedolion, o dan yr opsiwn ymateb sy'n ymwneud â 'Gofal a chymorth iechyd'. Roedd yr un peth yn wir am enghreifftiau fel 'dim digon o addasiadau i'r cartref presennol' (o dan yr opsiwn 'Trefniadau tai a byw'n annibynnol') a 'gweithgareddau a gynhelir mewn mannau nad ydynt yn hygyrch i mi' (enghraifft a ddefnyddir yn yr opsiwn 'Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol').

Cafodd yr enghreifftiau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymateb 'Addysg a hyfforddiant' eu diweddaru i gynnwys 'diffyg cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth' ac i gyfeirio at 'staff yr ysgol' yn hytrach na 'tiwtoriaid'. Yn yr un modd, diweddarwyd yr enghreifftiau ar

gyfer ‘Trafnidiaeth a theithio’ i gyfeirio’n benodol at rwystrau sy’n ymwneud â thrafnidiaeth i ‘ysgol a meithrinfa’.

#### 3.3.4.2 Fersiwn 2

Roedd angen llai o ddiweddariadau i Fersiwn 2 y cwestiwn rhwystrau, sy’n cofnodi profiad o’r mathau o rwystrau, er mwyn galluogi’r cwestiwn i weithio gyda rhieni. Roedd y 4 math o rwystr y gofynnwyd amdanynt yn y fersiwn hon yn berthnasol i oedolion a phlant. Roedd yr enghreifftiau a ddefnyddiwyd i helpu i roi opsiynau ymateb yn eu cyd-destun i gyd yn ddigon generig fel eu bod yn berthnasol i rieni a oedd yn ateb am eu plentyn heb fod angen diweddaru. Ychydig iawn o newidiadau iaith a wnaed i adlewyrchu bod y cwestiwn yn cael ei ofyn i rieni am eu plentyn, er enghraifft ‘trin fy mhlentyn yn wahanol’ yn hytrach na ‘fy nhrin yn wahanol’.

## 3.4 Cynhyrchu fersiynau gwahanol o gwestiynau

Ar ôl cytuno ar eiriad terfynol y fersiynau i oedolion a rhieni o gwestiynau’r arolwg ar gyfer amhariadau a rhwystrau, dechreuodd y broses o gynhyrchu’r cwestiynau mewn fformatau gwahanol. Cyn cynnal profion gwybyddol, cynhyrchwyd fersiynau Cymraeg, Saesneg hawdd ei ddeall, a Chymraeg hawdd ei ddeall.

### 3.4.1 Y Gymraeg

Cafodd y gwaith cyfieithu ei wneud gan asiantaeth gyfieithu sy’n cyflogi ieithyddion â chymwysterau proffesiynol sy’n gweithio yn eu mamiaith. Yn yr un modd â fersiynau Saesneg y cwestiynau, roedd angen defnyddio iaith a oedd yn cyd-fynd â’r model cymdeithasol. Ar ôl eu cyfieithu, adolygwyd y fersiynau hyn gan siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru.

### 3.4.2 Fformat hawdd ei ddeall

Ar gyfer fersiynau hawdd eu deall, darparwyd copïau terfynol o holl gwestiynau’r arolwg amhariadau a rhwystrau yn Saesneg i ddarparwr arbenigol cyfathrebu hygyrch allanol. Mae’r darparwr yn aelod o Gymdeithas y DU ar gyfer Fformatau Hygyrch ac mae wedi defnyddio arbenigwyr mewnol profiadol i ddarparu drafft cyntaf o’r holl fersiynau hawdd eu deall yn Saesneg. Cynhyrchwyd fersiynau dilynol gan yr asiantaeth gan ddefnyddio’r adborth a ddarparwyd gan dîm ymchwil NatCen a Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd fersiynau Saesneg hawdd eu deall terfynol i gynhyrchu fersiynau Cymraeg cyfatebol. Yna cynhyrchwyd y PDFs hygyrch terfynol, sy’n cydymffurfio â safonau hygyrchedd WCAG 2.1 ar Lefel AA.

### 3.4.3 Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Cynhaliwyd profion gwybyddol o fersiynau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) o gwestiynau’r arolwg ychydig yn hwyrach na’r profion gwybyddol Cymraeg, Saesneg a hawdd eu deall. Gan fod gwaith maes BSL yn cyd-daro â’r prawf maes meintiol

(pecyn gwaith 6) o gwestiynau Cymraeg a Saesneg, mabwysiadwyd y cwestiynau hyn fel man cychwyn ar gyfer y cyfieithiad BSL.

Cydweithiodd NatCen ag ymchwilwyr yn Ymchwil Gymdeithasol gyda Phobl Fyddar (SORD) ar ofynion BSL ar gyfer pecynnau gwaith 4 a 5. Mae SORD yn arbenigwyr ar fethodoleg dylunio cwestiynau ar gyfer BSL ac mae ganddynt brofiad o drosi ac addasu asesiadau safonedig yn Iaith Arwyddion Prydain. Roedd y weithdrefn gyfieithu hon yn cynnwys sicrhau bod yr heriau cyffredin o gyfieithu asesiadau i BSL yn cael sylw, ar sail eu gwaith blaenorol.

#### 3.4.3.1 Cyfieithu cwestiynau'r arolwg

Defnyddiwyd proses gyfieithu ymlaen ac yn ôl i gyfieithu fersiynau Saesneg i oedolion o'r cwestiynau prawf maes a dogfennau ymatebwyr eraill i BSL. Nod y broses hon oedd sicrhau bod ystyr gwreiddiol, naws ddiwylliannol a chywirdeb y cwestiynau gwreiddiol yn cael eu cadw wrth gynhyrchu fersiwn BSL. Roedd 8 cam yn y broses gyfieithu.

1. Rhoddodd NatCen wybodaeth i dîm SORD am gwmpas y gwaith, y broses dylunio cwestiynau, a darparodd gwestiynau arolwg i'w cyfieithu o Saesneg i BSL.

2. Roedd dau gyfieithydd ymlaen wedi cyfieithu cwestiynau'r arolwg yn annibynnol i BSL (drafft cyntaf). Mae un yn gyfieithydd iaith arwyddion cofrestredig cymwysedig (RSLT) ac yn ddehonglydd cyfnewid rhwng ieithoedd cofrestredig. Mae'r llall yn ddehonglydd cyfnewid rhwng ieithoedd dan hyfforddiant. Mae'r ddau yn bobl Fyddar[14] sy'n ddwyieithog yn rhugl, sydd wedi cael hyfforddiant cymhwyso, sydd â'r dynodiad Cyfieithydd Iaith Arwyddion Cofrestredig (RSLI), ac sydd wedi cofrestru â'r Gofrestr Genedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu Proffesiynol sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Dall Fyddar (NRCPD).

3. Cyfarfu ymchwilwyr SORD â'r cyfieithwyr ymlaen llaw i drafod unrhyw anawsterau sy'n codi o'r cyfieithiad, a nodwyd y rhain.

4. Golygodd SORD y fersiynau BSL drafft cyntaf i gyfieithwyr yn ôl eu gweld, heb weld fersiwn Saesneg gwreiddiol y cwestiynau.

5. Yn annibynnol, cyfieithodd dau gyfieithydd yn ôl ddrafft cyntaf y fersiynau BSL yn ôl i'r Saesneg. Mae'r tîm cyfieithu yn ôl yn gyfieithwyr iaith arwyddion

[14] Mae'r prif lythyren 'D' a ddefnyddir yma yn cyfeirio at y rheini sy'n ystyried eu hunain yn Fyddar yn ddiwylliannol.

cofrestredig cymwysedig yn ogystal â dehonglwyr cyfnewid rhwng ieithoedd cofrestredig.

6. Cyfarfu ymchwilwyr SORD â’r tîm o gyfieithwyr i drafod y gymhariaeth rhwng y fersiwn Saesneg wreiddiol a’r fersiwn Saesneg wedi’i ôl-gyfieithu, ar gyfer pob drafft cyntaf o’r fersiwn BSL. Gan fod pawb a oedd yn bresennol yn ddwyieithog mewn BSL a Saesneg, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn mewn BSL a heb ddehonglwyr, gan wella ansawdd ac effeithlonrwydd y broses ymchwil. Lle’r oedd gwahaniaethau rhwng fersiynau Saesneg a BSL, archwiliwyd tarddiad y rhain. Y nod oedd dod o hyd i gydbwysedd rhwng yr angen i sicrhau bod yr ystyr a fwriadwyd yn cael ei gadw, ei fod yn gweithio gyda’r gynulleidfa darged, a lleihau’r tebygolrwydd o gamddealltwriaeth mewn BSL.

7. Lluniwyd ail ddrafft o’r fersiwn BSL gan un o’r cyfieithwyr ymlaen. Cyfarfu cyfieithwyr ymlaen ac yn ôl gan gytuno ar fersiwn diwygiedig. Atgynhyrchodd y cyfieithydd ymlaen, gyda chymorth cyfieithydd yn ôl, yr ail ddrafft i’w ddefnyddio yn y cyfweliad gwybyddol.

8. Golygwyd yr ail ddrafft gan dîm SORD a’i wirio gan un o’r cyfieithwyr yn ôl.

#### 3.4.3.2 Ystyriaethau ar gyfer cyfieithiadau BSL

Yn ogystal â’r broses gyfieithu ymlaen ac yn ôl, ystyriodd tîm cyfieithu BSL ddefnyddioldeb y cwestiynau. Nid oedd y cwestiynau wedi’u strwythuro’n llwyr mewn ffordd sy’n gweithio i BSL, er enghraifft, roedd y cwestiynau’n hir iawn. Wrth ddarllen fersiwn testun, mae hyn yn llai pwysig oherwydd gall darllenydd fynd yn ôl ac adolygu’r cwestiwn ysgrifenedig yn ôl yr angen. Wrth wylio cwestiwn, mae mwy o ddisgwyliad i ddeall y cwestiwn llawn ar unwaith. Dyma un rheswm pam ei bod yn fwy arferol cael cwestiynau byrrach a mwy uniongyrchol mewn BSL. Roedd llawer o opsiynau ymateb i’w hystyried hefyd. Mae llwyth gwybyddol ar gyfranogwr yn llawer mwy wrth wylio a chofio opsiynau, o’i gymharu â darllenydd sy’n gallu sganio’n ôl ar draws testun ysgrifenedig. Mae strwythuro cwestiynau mewn ffordd sy’n gydnaws â BSL yr un mor bwysig â chyfieithu cywir er mwyn creu cwestiynau effeithiol a chyfwerthedd cyfranogiad i’r boblogaeth BSL.

Mae rhai enghreifftiau o’r heriau a godwyd gan gyfieithwyr BSL wedi’u cynnwys isod.

- Mae’r cyfieithiad nid yn unig o’r Saesneg i BSL, ond o un modd i’r llall (o’r ysgrifenedig i’r gweledol). Dylanwadodd hyn ar gyfieithiad rhai eitemau. Er enghraifft, gan y byddai cyfranogwyr yn gwylio’r holiadur yn hytrach na darllen testun, roedd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i ragenwau a chawsant eu newid o ‘fi’ i ‘ti’.

- Efallai na fydd gan iaith a geiriad Saesneg a ddewiswyd yn fwriadol i dynnu sylw at safbwynt penodol yr hyn sy’n cyfateb mewn BSL sy’n amlygu’r un gwahaniaeth. Er enghraifft, gall yr arwyddion ar gyfer ‘cyflwr’ a ‘salwch’ fod yr

un fath, ar wahân i wahaniaethau mewn patrymau gwefusau tawel. Cytunwyd i ddefnyddio arwyddion gwahanol ar gyfer ‘cyflwr’ a ‘salwch’ ond efallai nad yw’r arwydd ar gyfer ‘cyflwr’ mor gyfarwydd i rai cyfranogwyr yn y cyd-destun hwn.

- Gellir cyfieithu geiriau anghyfarwydd mewn BSL o’r Saesneg gan ddefnyddio sillafu gyda bysedd, ond nid yw hynny’n sicrhau dealltwriaeth. Er enghraifft, nododd cyfieithwyr ymlaen na fyddai sillafu ‘Deheurwydd’ â bysedd yn unig yn ddigon. Cytunwyd i ddefnyddio’r arwydd ar gyfer ‘Deheurwydd’ a oedd yn cael ei ddefnyddio’n gyffredin mewn gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer pobl fyddar sy’n defnyddio BSL yn Lloegr.

- Gall goblygiadau rhai geiriau ac arwyddion fod yn wahanol rhwng arwyddwyr BSL a chymunedau sy’n clywed. Mae’r goblygiadau hyn sydd wedi’u gwreiddio’n ddiwylliannol yn effeithio ar sut mae gair yn cael ei dderbyn ac yr ymatebir iddo. Er bod cyfieithu’r geiriau hyn i BSL yn syml, nid yw’r goblygiadau’n cyfateb. Dyma rai enghreifftiau: y termau ‘amhariad’, ‘byddardod’, a ‘rhannol fyddar’ gan yr ystyrir yn aml eu bod yn atgyfnerthu’r model meddygol, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn fformat holi sy’n fwy seiliedig ar fodel cymdeithasol. Ar ben hynny, mae pobl fyddar fel arfer yn deall y model meddygol fel rhywbeth sy’n groes i hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol pobl fyddar sy’n defnyddio BSL, neu sy’n tanseilio’r hunaniaeth honno.[15]

- Roedd rhai termau hen ffasiwn nad ydynt yn benodol i BSL a gafodd eu cyfieithu a’u cynnwys, er enghraifft, ‘Asperger’s’.

- Roedd pryder bod rhai o’r cwestiynau’n ymddangos yn rhy eiriog, haniaethol a beichus, gan effeithio o bosibl ar sut maen nhw’n cael eu dehongli a’u deall. Roedd hyn yn peri cyfyng-gyngor oherwydd ei bod hefyd yn bwysig i’r cyfieithiad lynu mor agos â phosibl at yr hyn yr oedd y cwestiynau’n ei ofyn a sut yr oeddent yn ei ofyn, yn hytrach nag aralleirio neu ailstrwythuro cyn profi yn y maes.

- Roedd angen bod yn fwy penodol yn y cyfieithiad. Er enghraifft, y cyfarwyddyd Saesneg i ‘dewiswch bob un sy’n berthnasol’ wrth gyfeirio at ymatebion i opsiynau oedd ‘dewiswch pa rai’ mewn BSL.

- Roedd rhai geiriau’n gofyn am fwy o drafodaeth er mwyn i’r union ystyr fod yn fanwl gywir pan gânt eu mynegi mewn BSL. Er enghraifft, nid yw’r arwydd ar gyfer ‘blinder’ o reidrwydd yn golygu teimlo’n flinedig; gall olygu wedi ymlâdd

[15] Ladd, P. (2003). Understanding deaf culture: in search of deafhood. Celvedon, Multilingual Matters.

neu wedi blino'n lân ond heb yr angen i gysgu. Roedd trafod yr ystyr hwn yn bwysig wrth wneud dewisiadau ynghylch pa arwydd i'w ddefnyddio a sut i'w arwyddo. Er enghraifft, gellir newid yr arwydd ar gyfer 'wedi blino' mewn gwahanol ffyrdd drwy symud neu ailadrodd neu fynegiant wyneb i ddangos dwysedd a natur gronig y cyflwr, hyd yn oed pan ddefnyddir yr un arwydd sylfaenol.

- Mae'r arwyddion ar gyfer rhai termau yn newid, yn union fel y mae unrhyw iaith yn esblygu. Er enghraifft, canfuwyd bod yr arwydd ar gyfer 'awtistiaeth' a ddefnyddiwyd yn y cyfieithiad ymlaen wedi dyddio. Arweiniodd yr adolygiad o'r drafft cyntaf at ddefnyddio arwydd mwy cyfredol yn y drafft nesaf.
- Pwysigrwydd pwysleisio rhai o'r prif dermau o ran sut maen nhw'n cael eu harwyddo i atgyfnerthu'r ystyr. Er enghraifft, ar gyfer 'cydweithwyr...yn fy ngadael allan' yn fersiwn 2 y cwestiwn rhwystrau, byddai cyfieithiad syml o 'gadael allan' wedi methu bwriad ystyr cael eich gadael allan. Felly, yn y fersiwn BSL, defnyddiwyd yr arwydd ar gyfer 'cael eich eithrio' i wneud y pwynt yn gliriach.

#### 3.4.3.3 Llunio'r cwestiynau wedi'u cyfieithu

Cafodd y cwestiynau a gyfieithwyd i BSL eu rhoi yn Qualtrics ar ffurf fideos a oedd yn cyd-fynd â thestun ysgrifenedig y cwestiwn. Roedd defnyddio fideos wedi'u hymgorffori mewn holiadur gyda chymorth cyfrifiadur yn sicrhau bod yna ddelwedd gyson o ffurf ysgrifenedig y cwestiwn.

I reoli faint o ymdrech, prosesu meddyliau, a gweithgarwch y cof (llwyth gwybyddol) yr oedd angen i gyfranogwyr ei ddefnyddio, golygwyd y fideos BSL yn sawl clip byrrach yn hytrach nag un dilyniant parhaus. Gan fod y deunyddiau'n cael eu cyfieithu'n gyfan gwbl i BSL, nid oedd cyfranogwyr yn gallu sganio nac ailddarllen testun yn gyflym; roedd yn rhaid iddynt wylio pob fideo yn llawn i gael gafael ar yr wybodaeth. Byddai cael sawl opsiwn ateb mewn un fideo yn gofyn am lwyth gwybyddol uwch gan y byddai'n rhaid i gyfranogwyr gofio a chymharu pob opsiwn o'r cof, heb fynd yn ôl at rannau penodol yn hawdd.

Er mwyn lleihau'r angen hwnnw, dangoswyd pob cwestiwn mewn un fideo, ac yna fideos ar wahân ar gyfer pob opsiwn. Roedd y strwythur hwn yn galluogi cyfranogwyr i ail-wylio opsiynau unigol yn ôl yr angen, gan gefnogi'r cof a'r broses gwneud penderfyniadau ar yr un pryd â lleihau ymdrechion gwybyddol diangen. Nododd ymchwil a gyhoeddwyd faterion tebyg yn ymwneud ag ymdrech wybyddol a phrosesu gwybodaeth mewn deunyddiau wedi'u harwyddo.

Fodd bynnag, roedd gan y dull hwn yr anfantais bosibl o beidio â chynhyrchu profiad cyfatebol i'r profiad o lenwi holiadur Saesneg. Rhaid agor y fideos ar gyfer pob cwestiwn a phob opsiwn ymateb yn ddilyniannol, sy'n golygu naill ai bod yn rhaid i ymatebydd gofio'r holl ddewisiadau a rhannau o bob cwestiwn, neu sgrolio'n ôl i

segmentau fideo eraill i weld y cwestiwn neu'r opsiynau ymateb eto. Mewn dogfen Saesneg hunan-lenwi, cyflwynir cwestiynau ac opsiynau ymateb ar un sgrin neu dudalen ar yr un pryd.

## 3.5 Allbwn pecyn gwaith 4 - cwestiynau i'w profi'n wybyddol

Yr allbynnau terfynol o becyn gwaith 4 oedd:

- 2 fersiwn wahanol o gwestiwn arolwg ar amhariadau
- 2 gwestiwn arolwg newydd sy'n cofnodi gwahanol ddimensiynau o brofiad pobl o rwystrau

Cynhyrchwyd fersiynau i oedolion a rhieni o'r cwestiynau hyn yn ystod y cam dylunio. Cafodd fersiynau Cymraeg, hawdd ei ddeall (yn Gymraeg ac yn Saesneg) ac Iaith Arwyddion Prydain eu creu wedyn. Aethpwyd â phob cwestiwn ymlaen i becyn gwaith 5: profion gwybyddol. Mae Atodiad B yn rhestru'r 2 gwestiwn gwahanol am amhariadau ar gyfer oedolion a rhieni. Mae Atodiad C yn rhestru'r cwestiynau i oedolion a rhieni ar gyfer dau ddimensiwn y rhwystrau: meysydd bywyd a'r mathau o rwystrau a wynebir.

# 4. Y cam alffa - Pecyn gwaith 5: cyfweliadau gwybyddol

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau o gyfweliadau gwybyddol, a oedd yn profi'r cwestiynau rhwystrau ac amhariadau newydd a ddatblygwyd ym mhecyn gwaith 4. Profwyd y 2 fersiwn o'r cwestiynau amhariadau a rhwystrau gydag oedolion anabl a rhieni plentyn anabl. Profwyd cwestiynau mewn Cymraeg, Saesneg a fformat hawdd ei ddeall (Cymraeg a Saesneg). Cyflwynir canfyddiadau ar gyfer pob fersiwn yn y drefn ganlynol:

- fersiynau Cymraeg a Saesneg
- fersiynau Cymraeg a Saesneg hawdd eu deall

Cynhaliwyd profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar yr un pryd â'r prawf maes (pecyn gwaith 6). Felly, profodd y cwestiynau a oedd wedi'u cynnwys ym Mhanel NatCen, yn hytrach na'r rhai a ddefnyddiwyd ym mhecyn gwaith 5. Trafodir y profion gwybyddol BSL yn Adran 4.8.

## 4.1 Nodau

Nod pecyn gwaith 5 oedd:

- profi 2 fersiwn wahanol o'r cwestiwn amhariadau a 2 gwestiwn rhwystrau gwahanol gydag oedolion a rhieni plant anabl (0 i 15 oed) yn Gymraeg, Saesneg, Cymraeg a Saesneg hawdd ei ddeall, ac Iaith Arwyddion Prydain
- nodi unrhyw dermau neu ymadroddion problemus na ddylid eu defnyddio
- nodi a oes angen unrhyw gyfarwyddiadau (pellach) i sicrhau bod cyfranogwyr yn deall y cwestiynau a'r dasg ymateb
- nodi a fyddai'n well gan gyfranogwyr fersiwn 1 neu fersiwn 2 o'r cwestiynau rhwystrau ac amhariadau
- asesu a yw'r drefn y gofynnir y cwestiynau (amhariadau yna rhwystrau, neu rwystrau ac yna amhariadau) yn cael unrhyw effaith ar sut mae'r cwestiynau'n cael eu dehongli
- nodi unrhyw faterion neu ddewisiadau sy'n ymwneud â'r dull (hunan-lenwi o'i gymharu â chyfwelydd yn gofyn)
- nodi unrhyw broblemau gyda chyfieithiadau (Cymraeg, Saesneg a Chymraeg hawdd eu deall, BSL)
- cynhyrchu tystiolaeth i lywio'r gwaith o gwblhau cwestiynau i'w profi gan Banel NatCen ym mhecyn gwaith 6

## 4.2 Trosolwg o ddulliau profion gwybyddol

Mae cyfweliadau gwybyddol yn ddull a ddefnyddir yn gyffredin sy'n galluogi ymchwilwyr i asesu a yw cwestiynau arolwg yn mesur yr hyn a fwriadwyd, a ydynt yn glir ac yn ddiamwys, ac a oedd cyfranogwyr yn fodlon eu hateb.[16] Roedd y dull yn cynnwys gofyn i gyfranogwyr ateb cwestiynau arolwg a siarad wrth wneud hynny, gan leisio eu prosesau meddwl. Gelwir hyn yn 'feddwl yn uchel'.[17] Gofynnodd y cyfwelydd gwestiynau treiddgar hefyd, naill ai ar yr un pryd neu ar ôl i'r cyfranogwr geisio ateb y cwestiwn, er mwyn archwilio'n fanylach:

- sut aeth y cyfranogwr ati i ateb y cwestiwn
- eu dealltwriaeth o'r cwestiwn
- sut yr adalwyd y wybodaeth
- sut y gwnaethant benderfynu ar eu hateb
- unrhyw anawsterau neu bryderon penodol a oedd gan y cyfranogwr wrth ateb y cwestiwn

Arweiniwyd y recriwtio gan Shift Insight gan ddilyn protocolau a gynlluniwyd gan dîm ymchwil NatCen. Datblygwyd y protocolau hyn mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a'r grŵp llywio, ac roeddent yn dilyn arferion moesegol a amlinellir yn Adran 1.4.2. Ceir y protocolau recriwtio yn Atodiad D.

Rhoddwyd holiadur sgrinio a chwotâu (targedau) i Shift Insight i sicrhau bod cyfweliadau'n cael eu cynnal gydag amrywiaeth eang o oedolion a rhieni. Roedd y targedau hyn yn cynnwys oedran, rhyw, math o ardal (trefol neu wledig), ethnigrwydd, cymhwyster addysgol uchaf, a math o salwch neu gyflwr hirdymor. Roedd y cwestiynau sgrinio a gynlluniwyd i recriwtio pobl ag amrywiaeth o amhariadau a chyflyrau iechyd yn fwriadol wahanol i'r cwestiynau amhariadau a oedd yn cael eu profi. Roedd yr holl gyfranogwyr a recriwtiwyd yn byw yng Nghymru. Gofynnodd yr holiadur sgrinio a oedd y cyfranogwr (neu ei blentyn):

- ag unrhyw salwch neu gyflwr iechyd meddwl neu gyflwr corfforol sydd wedi para am 12 mis neu fwy neu'n debygol o bara am hynny?

---

[16] Beatty, P.C. and Willis, G.B. (2007). Research synthesis: The practice of cognitive interviewing. Public Opinion Quarterly, 71(2), 287-311.

[17] Willis, G. (2005). Cognitive Interviewing: A tool for improving questionnaire design. Thousand Oaks, CA. Sage.

- wedi wynebu rhwystrau mewn bywyd bob dydd ond ddim yn ystyried eu hunain yn anabl, er enghraifft, pobl fyddar sy’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu bobl niwrowahanol
- wedi cael eu heffeithio gan salwch a chyflyrau iechyd hirdymor mewn unrhyw un o’r ffyrdd a restrwyd

Mae’r holiadur sgrinio wedi’i gynnwys ar ddiwedd Atodiad F ac mae cwotâu manwl ar gyfer cyfranogwyr yn Atodiad E.

## 4.3 Gwaith maes

Cynhaliwyd cyfweliadau gwybyddol (ar wahân i’r rhai mewn BSL) gan ymchwilwyr hyfforddedig o Shift Insight. Datblygodd NatCen y protocolau cyfweld a darparodd hyfforddiant ar ddefnyddio’r protocolau, goruchwyliaeth a sicrwydd ansawdd.

Cynhaliwyd gwaith recriwtio a gwaith maes yn unol â’r model cymdeithasol o anabledd i sicrhau bod pawb a oedd eisiau cymryd rhan yn gallu gwneud hynny. Roedd yr holiadur sgrinio ar gyfer recriwtio yn cynnwys cwestiynau a oedd yn sefydlu a oedd rhywun eisiau i’w gyfweliad fod yn Gymraeg, Saesneg neu hawdd ei ddeall. Cyn y cyfweliad, roedd y cyfranogwyr yn cael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig, gan gynnwys gwybodaeth hawdd ei deall, am yr hyn i’w ddisgwyl yn y cyfweliad ac a hoffent gael cymorth i gymryd rhan. Hysbyswyd pawb y byddai egwyl wedi’i threfnu; cynigiwyd cyfle i gael rhywun gyda nhw yn ystod y cyfweliad i roi cymorth neu i’w helpu i gymryd rhan; a gofynnwyd a oedd ganddynt unrhyw ofynion hygyrchedd neu ofynion iaith. Gwiriwyd y wybodaeth hon eto ar ddechrau’r cyfweliad.

Roedd y broses o drefnu cyfweliadau yn hyblyg, gyda chyfranogwyr yn dewis amser a oedd yn gyfleus iddynt. Gallai cyfranogwyr ddewis rhwng cyfweliadau wyneb yn wyneb, fideo-gynadledda (Zoom), neu gyfweliadau dros y ffôn. Cynigiwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb hefyd i sicrhau bod cyfranogwyr sydd â mynediad digidol cyfyngedig yn cael eu cynnwys. Cynhaliwyd y rhain gartref neu mewn lleoliad arall a ddewiswyd gan y cyfranogwr.

Roedd y cyfwelwyr yn defnyddio canllaw, a oedd wedi cael ei ddylunio gan NatCen a’i adolygu gan Lywodraeth Cymru. Ceir manylion y canllaw cyfweld yn Atodiad F ac roedd yn cynnwys:

- ar gyfer y cyfwelydd - nodyn i’w atgoffa o nodau’r profion
- cyflwyniad, yn atgoffa’r cyfranogwr am bwrpas yr ymchwil, strwythur y cyfweliad, a beth fyddai’n digwydd i’w ddata
- cadarnhau bod y cyfranogwr yn cytuno i gymryd rhan
- gwirio anghenion cymorth a hygyrchedd
- esboniad ac arddangosiad o’r dull meddwl yn uchel

- y cwestiynau i'w profi, gyda chyfarwyddiadau i'r cyfwelydd ar sut i gynnal y prawf a chofnodi ymatebion i gwestiynau'r prawf
- y cwestiynau treiddgar gwybyddol i'w gofyn
- atgoffa beth fyddai'n digwydd nesaf
- gwirio gwybodaeth sgrinio, at ddibenion rheoli ansawdd

Byddai'r cyfweliadau'n para hyd at 60 munud, gyda chyfle ffurfiol i gael seibiant hanner ffordd drwodd. Ni chafodd cyfweliadau y tu hwnt i 60 munud eu hargymell gan fod risg uwch o achosi blinder i gyfranogwyr, gan arwain at golli ansawdd data. Roedd adborth gan gyfwelwyr ar ôl y cyfweliadau cyntaf yn dangos na ellid gofyn yr holl gwestiynau treiddgar o fewn yr amser a neilltuwyd. Mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru a NatCen, cytunwyd y byddai llai o gwestiynau treiddgar i sicrhau bod cyfweliadau'n cael eu cadw o fewn 60 munud. Roedd hyn yn cynnwys blaenoriaethu rhai cwestiynau treiddgar, gydag eraill yn cael eu gofyn yn ôl disgresiwn y cyfwelydd, os oedd amser yn caniatáu.

Roedd y drefn y gofynnwyd y cwestiynau amhariadau a rhwystrau yn amrywio ar gyfer oedolion a rhieni. Gofynnwyd y cwestiynau amhariadau i hanner y cyfranogwyr hyn yn gyntaf (grŵp A), a gofynnwyd y cwestiynau rhwystrau i'r hanner arall yn gyntaf (grŵp B). Roedd dyraniad i grŵp A neu B yn seiliedig ar a oedd cyfeirnod yr achos yn odrif neu'n eilrif. Ni chafodd trefn y cwestiynau ei hap-ddethol ar gyfer cyfranogwyr a brofodd y cwestiynau hawdd eu deall gan nad oedd digon o achosion i ddadansoddi unrhyw effaith ar drefn y cwestiynau. Mae'r canllaw cyfweld terfynol ar gyfer y profion i oedolion wedi'i gynnwys yn Atodiad F. Mae fersiynau eraill ar gyfer rhieni plant anabl, cyfranogwyr sy'n derbyn cwestiynau hawdd eu deall, a phrofion Iaith Arwyddion Prydain ar gael ar gais.

Cafodd y cyfranogwyr daleb siopa gwerth £40 fel arwydd o werthfawrogiad am gymryd rhan. Anfonwyd hwn at gyfranogwyr ar ôl y cyfweliad.

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda:

- 35 o oedolion, ac o'r rhain:
  - roedd 20 wedi'u cynnal yn Saesneg
  - 11 yn Gymraeg
  - roedd 4 yn rhai hawdd eu deall - 3 yn Gymraeg a 3 yn Saesneg
- 17 rhiant, ac o'r rheini:
  - roedd 8 wedi'u cynnal yn Saesneg
  - 8 yn Gymraeg

- roedd un yn hawdd ei ddeall (Saesneg)

## 4.4 Rheoli a dadansoddi data

Recordiwyd cyfweliadau gyda chytundeb y cyfranogwyr. Cyfeiriodd y cyfwelwyr at y recordiadau hyn wrth wneud nodiadau a chrynhoi cyfweliadau gan ddefnyddio profforma. Roedd y profforma hwn yn gyfres o fatricsau (taflenni gwaith yn Excel). Roedd pob cwestiwn yn un matrics a oedd yn cynnwys manylion pob cyfranogwr, eu hatebion i'r cwestiynau amhariadau a rhwystrau, a'u hymatebion i'r cwestiynau meddwl yn uchel a phob cwestiwn treiddgar.

Adolygwyd y matricsau wedi'u cwblhau gan dîm ymchwil NatCen a oedd yn asesu'r data ar gyfer pob cwestiwn, gan adolygu'r ymatebion gan bob cyfranogwr yn annibynnol ac ar y cyd i ateb cwestiynau'r ymchwil.

## 4.5 Canfyddiadau'r profion gwybyddol - cwestiynau amhariadau

Profwyd dau fersiwn o'r cwestiwn amhariadau gydag oedolion a rhieni plant anabl (Atodiad B). Rhoddwyd Fersiwn 1 i gyfranogwyr ei ateb, gan efelychu fformat arolwg hunan-lenwi. Roedd y cwestiwn yn cyd-fynd yn agos â'r safon amhariadau wedi'i chysoni bresennol ac yn gofyn am 'amhariadau neu gyflyrau tymor hir'. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr 'ddewis pob un sy'n berthnasol' o restr o ddewisiadau ymateb.

Profodd Fersiwn 2 newidiadau mwy helaeth i'r geiriad a chafodd ei ddarllen yn uchel i'r cyfranogwr mewn fformat cyfwelydd yn gofyn. Gofynnodd y cyfwelydd i'r cyfranogwyr a oeddent yn 'profi problemau neu wahaniaethau' o restr o amhariadau a roddwyd iddynt. Roedd y cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at amhariadau anwadal, gan ofyn i gyfranogwyr 'gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser'. Gallai cyfranogwyr ateb 'ie', 'na', neu 'mae'n well gen i beidio â dweud'.

Cynlluniwyd fersiynau i oedolion a rhieni o gwestiynau'r prawf i leihau gwahaniaethau o ran geiriad. Lle'r oedd gwahaniaethau, roedd y rhain yn enghreifftiau penodol i blant o fewn y categorïau amhariadau a restrwyd.

Nod profion gwybyddol y 2 gwestiwn hyn oedd asesu:

- a oedd pob fersiwn yn nodi pobl ag amhariadau neu gyflyrau yn briodol - a gafodd rhai pobl eu methu, neu eu cynnwys pan na ddylent gael eu cynnwys
- a oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau fersiwn o ran y mathau o amhariadau a gofnodwyd
- a oedd y cwestiynau a'r opsiynau ymateb wedi cael eu deall yn y ffyrdd a fwriadwyd
- a oes angen diffiniad 'hirdymor' o amhariad ai peidio, drwy brofi a oedd cyfranogwyr yn deall bod y cwestiynau'n gofyn am amhariadau neu gyflyrau hirdymor pan na ddarparwyd diffiniad

- a oedd enghreifftiau ar gyfer pob math o amhariad yn ddefnyddiol ai peidio er mwyn mynd i'r afael â'r tensiwn rhwng hyd cwestiwn a chategorïau amhariadau cynhwysfawr
- a oedd y canllawiau newydd a gynhwyswyd yn fersiwn 2 ar sut i ystyried amhariadau sy'n amrywio dros amser yn angenrheidiol ac yn ddefnyddiol
- a oedd cyfranogwyr yn ffafrio cael ymateb 'ticiwch bob un sy'n berthnasol' neu 'ie-na' i'r cwestiwn
- a oedd yn well gan gyfranogwyr fersiwn 1 neu fersiwn 2 - y nod yn y pen draw oedd cael un fersiwn o'r cwestiwn amhariadau ar gyfer y prawf maes gyda Phanel NatCen ym mhecyn gwaith 6

Nod y profion gwybyddol hefyd oedd nodi unrhyw faterion neu nodweddion a ffefrir sy'n ymwneud â'r dull (hunan-lenwi o'i gymharu â chyfwelydd yn gofyn).

Cyflwynir canfyddiadau ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg, a'r fersiynau hawdd eu deall yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### 4.5.1 Canfyddiadau Cymraeg a Saesneg

#### 4.5.1.1 Fersiwn 1 - deall y cwestiwn

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i gyfranogwyr "Ym mha rai o'r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae amhariadau neu gyflyrau hirdymor yn effeithio arnoch? Dewiswch bob un sy'n berthnasol."

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn deall ac yn dehongli'r cwestiwn hwn fel un a oedd yn gofyn a oedd ganddynt hwy neu eu plentyn unrhyw gyflyrau iechyd hirdymor, amhariadau, "anableddau", neu "faterion". Fe'u disgrifiwyd fel rhywbeth a oedd wedi effeithio arnynt dros gyfnod hir - misoedd lawer, blynyddoedd neu ers eu geni - ac sy'n annhebygol o wella. Ystyriwyd bod y termau 'amhariadau' a 'chyflyrau' ym môn y cwestiwn yn golygu'r un peth.

Roedd y ffyrdd yr oedd cyfranogwyr yn deall y cwestiwn yn adlewyrchu eu profiadau bywyd eu hunain. Pan ofynnwyd y cwestiwn am y tro cyntaf, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi gweld y math hwn o gwestiwn o'r blaen. Roedd cyfranogwyr sy'n oedolion yn gyfarwydd â rhai tebyg mewn ffurflenni hawlio budd-daliadau. Soniodd rhieni ac oedolion am gael y math hwn o gwestiwn wrth ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, fel ysbytai ac ysgolion.

Er nad oedd tystiolaeth bod y term 'amhariadau' yn aneglur nac yn anghyfarwydd i gyfranogwyr, mynegwyd rhai pryderon y gallai'r term fod yn aneglur neu'n anghyfarwydd i eraill.

Bu rhai pryderon ynghylch y gair Cymraeg 'amhariad'. Mae hwn yn derm cymharol newydd ac roedd yn anghyfarwydd i rai cyfranogwyr Cymraeg eu hiaith. Tan yn

ddiweddar, defnyddiwyd gair arall, ‘nam’, sydd bellach â chysylltiadau negyddol. Ymysg cyfranogwyr Cymraeg eu hiaith, roedd ffafriaeth amlwg i’r term ‘cyflyrau’.

#### 4.5.1.2 Fersiwn 1 - categorïau ymateb

Roedd labeli’r categorïau ymateb mewn testun trwm. Dywedodd y cyfranogwyr fod y testun trwm hwn yn ddefnyddiol, gan eu galluogi i nodi’r categorïau ymateb perthnasol yn gyflym. Dywedodd rhai cyfranogwyr hefyd eu bod yn disgwyl gweld enwau’r cyflyrau a oedd ganddynt wedi’u rhestru yn yr opsiynau ymateb.

Roedd y categorïau ymateb yn cynnwys enghreifftiau, a oedd yn ddefnyddiol ym marn y cyfranogwyr. Fodd bynnag, teimlai rhai cyfranogwyr fod gormod o enghreifftiau, ac felly gormod o destun iddynt ei brosesu. Dywedodd y rhai a fynegodd y farn hon eu bod yn tueddu i ddarllen y testun trwm yn unig ac nid yr enghreifftiau.

Roedd yr opsiwn ymateb ‘Prosesu synhwyraidd’ yn cael ei ddeall yn dda ac wedi’i ddewis yn bennaf gan gyfranogwyr ADHD ac awtistig. Mewn rhai achosion, eglurodd cyfranogwyr niwrowahanol sut roeddent yn ystyried a oeddent am ddewis y categori hwn neu’r categori ‘Clyw’. Ar ôl pwyso a mesur, fe wnaethon nhw ddewis y categori ‘Prosesu synhwyraidd’, gan eu bod yn teimlo mai dyma’r opsiwn mwyaf priodol iddyn nhw. Dewiswyd y categori ‘Prosesu synhwyraidd’ hefyd gan gyfranogwr ag amhariad ar ei olwg, a ddewisodd y categori i adlewyrchu’r effaith a gawsai gormod o olau ar ei olwg a’i les.

Nodwyd y materion canlynol gyda’r opsiynau ymateb a’r enghreifftiau yn fersiwn 1.

- **Deheurwydd:** Roedd y term ‘dexterity’ yn anghyfarwydd i rai cyfranogwyr yn Saesneg, ac roedd y term ‘deheurwydd’ yn anghyfarwydd i rai cyfranogwyr Cymraeg. Roedd un cyfranogwr Cymraeg ei iaith yn teimlo bod ganddo arwyddocâd negyddol a’i fod yn gysylltiedig â ‘dde’ (defnyddio’r llaw dde).
- **Rheoleiddio’r system imiwnedd:** Fel y bwriadwyd, dewiswyd yr opsiwn hwn gan y rhai ag amodau awto-imiwn, ond teimlai’r cyfranogwyr y gallai geiriad y categori a’r enghreifftiau fod yn gliriach.
- **Rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu:** Roedd cyfranogwyr yn deall y categori hwn ond nid oedd y penderfyniad ynghylch a ddylid ei ddewis bob amser yn syml. Er enghraifft, dywedodd rhai cyfranogwyr fod rhyngweithio cymdeithasol yn eu llethu ond nad oeddent yn cael trafferth mynegi eu hunain na chynnal perthnasoedd. Fodd bynnag, roeddent yn cymeradwyo’r categori ymateb hwn yn gyffredinol.
- **Gwneud synnwyr o’r byd o’ch cwmpas:** Defnyddiwyd yr enghraifft hon yn yr opsiwn ‘Iechyd meddwl’. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod yr ymadrodd hwn yn ymwneud â chysyniadau ehangach iechyd meddwl a’u lle yn y byd. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr â chyflyrau iechyd meddwl yn teimlo

bod yr ymadrodd yn amwys a byddent wedi ffafrio enghreifftiau mwy penodol, fel “gorbryder” neu “iselder”.

#### 4.5.1.3 Fersiwn 1 - derbynioldeb

Atebodd yr holl gyfranogwyr y cwestiwn, gyda neb yn dewis yr opsiynau ‘Dim un o’r rhain’ neu ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’. Roedd cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r math hwn o gwestiwn, a oedd yn ei wneud yn brofiad llai sensitif i rai.

Fodd bynnag, i gyfranogwyr eraill, roedd rhywfaint o anesmwythder a sensitifrwydd ynghylch ateb y cwestiwn a nodi pa gategorïau amhariadau oedd yn berthnasol iddynt. Roedd datgelu amhariadau a chyflyrau meddyliol neu emosiynol yn teimlo’n fwy anghyfforddus i rai na datgelu amhariadau corfforol. Ymysg rhieni, gallai’r cwestiwn fod yn heriol yn emosiynol i’w ateb, gan ei fod wedi tynnu sylw at effaith amhariad neu gyflwr eu plentyn ar eu bywydau. Nododd y cyfranogwyr y byddai’r diben a’r cyd-destun y byddai’r cwestiwn yn cael ei ofyn ynddo yn dylanwadu ar ba mor ymwthiol y byddai’n teimlo.

#### 4.5.1.4 Fersiwn 2 - deall y cwestiwn

Roedd fersiwn 2 y cwestiwn amhariadau yn gofyn i gyfranogwyr “Ydych chi’n profi problemau neu wahaniaethau gydag unrhyw un o’r canlynol? Cofiwch gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser.” Roedd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr yn deall y cwestiwn fel un sy’n gofyn pa broblemau, anawsterau neu rwystrau roedden nhw neu eu plentyn yn eu hwynebu mewn bywyd bob dydd. Fel arall, pa agweddau ar fywyd sy’n cael eu heffeithio gan eu cyflwr.

Cafodd y termau ‘problemau’ a ‘gwahaniaethau’ eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y term ‘gwahaniaethau’ yn amwys ac o bosibl yn negyddol. Roedd y term ‘problemau’ yn haws ei ddeall ond roedd weithiau’n cael ei weld fel rhywbeth negyddol. Yn y fersiwn Gymraeg, cafodd ‘issues’ ei gyfieithu fel ‘problemau’, gyda rhai cyfranogwyr yn ffafrio’r term hwn yn hytrach na ‘materion’.

Roedd cael y cyfarwyddyd i ‘gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser’ yn annog cyfranogwyr i feddwl am gyflyrau cyson ac amrywiol neu anwadal. Dywedodd cyfranogwyr â chyflyrau fel MS a Parkinsons eu bod yn teimlo bod y geiriad hwn yn ddefnyddiol.

#### 4.5.1.5 Fersiwn 2 - categorïau ymateb

Roedd cyflwyniad y categorïau amhariadau yn fersiwn 2 yn debyg i’r hyn a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1. Roedd disgrifiadau’r categorïau mewn testun trwm, gydag enghreifftiau i ddilyn. Fodd bynnag, nid oedd fersiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr ddewis pob un o’r categorïau amhariadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw neu i’w plentyn. Yn hytrach, gofynnodd am ymateb cyffredinol ‘ie’ neu ‘na’. Roedd y categorïau wedi’u geirio’n wahanol ac yn seiliedig ar ferfau, er enghraifft ‘Gweld’, ‘Clywed’. Yn gyffredinol, roedd yn well gan gyfranogwyr y

categorïau hyn sy’n seiliedig ar ferfau a ddefnyddiwyd yn fersiwn 2, gan eu bod yn haws eu deall na’r rhai a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1. Ystyriwyd bod y fformat hwn yn fwy syml ac yn fwy perthnasol i brofiadau’r cyfranogwyr o ddydd i ddydd.

Nodwyd y materion canlynol gyda’r opsiynau ymateb ac enghreifftiau yn fersiwn 2.

- **Lles meddyliol:** Roedd y term hwn yn ehangach ac yn llai clir na’r opsiwn ymateb ‘Iechyd meddwl’ a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1, gan arwain at rywfaint o ddryswch. Roedd rhai cyfranogwyr yn cysylltu ‘Lles meddyliol’ â theimladau ac emosiynau newidiol a allai amrywio dros amser, ac nid â chyflwr iechyd meddwl a oedd yn cael ei ystyried yn fwy difrifol. Roedd rhai cyfranogwyr â chyflyrau iechyd meddwl yn teimlo’n gryf y dylai’r cwestiwn gyfeirio at ‘Iechyd meddwl’ ac nid ‘Lles meddyliol’ am y rheswm hwn.

- **Gweld neu glywed pethau nad yw pobl eraill yn eu gweld na’u clywed:** Achoswyd dryswch gan yr enghraifft hon yn yr opsiwn ‘Lles meddyliol’. Roedd rhai cyfranogwyr yn ei ddehongli fel rhywbeth sy’n ymwneud â sensitifrwydd synhwyraidd, tra bod eraill yn meddwl ei fod yn cyfeirio at gyflyrau fel sgitsoffrenia. Y bwriad oedd cwmpasu rhithweledigaethau, fel y profir mewn seicosis.

- **Profiad o’r byd:** Ystyriwyd bod y term hwn yn amwys ac arweiniodd at ddehongliadau amrywiol o’r opsiwn ymateb, fel cyflyrau iechyd meddwl, awtistiaeth, a heriau synhwyraidd fel bod mewn amgylcheddau swnllyd neu orlawn. Roedd yn well gan rai cyfranogwyr y term ‘Prosesu synhwyraidd’ a ddefnyddid yn fersiwn 1.

- **Ymatebion imiwnedd:** Roedd y categori hwn yn cael ei ddeall yn gyffredinol ac yn cael ei ddewis yn gyson gan y rhai â chyflyrau system imiwnedd. Awgrymodd y cyfranogwyr symleiddio’r disgrifiad categori a defnyddio gwahanol enghreifftiau a oedd yn adlewyrchu eu profiadau bywyd. Dyma’r awgrymiadau: “yn fwy tueddol o gael heintiau”, ac “yn llai abl i frwydro yn erbyn heintiau”.

#### 4.5.1.6 Fersiwn 2 - derbynioldeb

Atebodd yr holl gyfranogwyr fersiwn 2, gyda neb yn dewis yr opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’. Cafodd y gofyniad i roi ateb ‘ie’ neu ‘na’ ei anwybyddu i raddau helaeth, gyda’r cyfranogwyr eisiau nodi’r amhariadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw neu i’w plentyn. O’r herwydd, nid oedd unrhyw ddata o’r profion gwybyddol ar gyfer penderfynu a fyddai fformat ateb ‘ie-na’ yn fwy derbyniol i gyfranogwyr. Pe bai data ar gael, byddai disgwyl i’r fersiwn mwy derbyniol gael llai o ymatebion ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’.

#### 4.5.1.7 Y fersiwn a ffefrir

Gofynnwyd i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a oeddent yn ffafrio fersiwn 1 neu 2. Ymysg oedolion, dywedodd 12 eu bod yn ffafrio fersiwn 1 yn bendant. Y rhesymau dros ei ffafrio oedd:

- roedd yr opsiynau ymateb yn fyrrach, gan ei gwneud yn haws i bobl ei darllen
- hoffi'r fformat ymateb - gallu 'ticio bob un sy'n berthnasol'
- mewn rhai achosion, ffafriwyd geiriad yr opsiynau ymateb a'r defnydd o dermau "meddygol"

Dywedodd 4 cyfranogwr ychwanegol eu bod yn ffafrio fersiwn 1, ond dim ond os defnyddir y dull hunan-lenwi; bod ganddo fformat ymateb 'ie neu na'; neu ei fod yn defnyddio iaith fersiwn 2.

I'r gwrthwyneb, dywedodd 12 oedolyn a gymerodd ran eu bod yn ffafrio fersiwn 2. Roedd y cyfranogwyr hyn yn hoffi'r iaith a ddefnyddiwyd yn fersiwn 2, a oedd yn cael ei hystyried yn "llai ffurfiol" a "symlach". Roedd cynnwys enghreifftiau ar gyfer pob opsiwn ymateb yn helpu cyfranogwyr i ddeall y categori. Roedd cael y term 'newid dros amser' ym môn y cwestiwn hefyd yn cael ei werthfawrogi. Dywedodd rhai cyfranogwyr, er bod yn well ganddynt fersiwn 2, y byddent wedi defnyddio fformat ymateb 'ticiwch bob un sy'n berthnasol' yn hytrach na 'ie neu na'.

Ymysg rhieni, roedd yn amlwg bod yn well ganddynt fersiwn 2, gydag 11 rhiant yn ffafrio'r fersiwn hwn. Y rhesymau dros ffafrio fersiwn 2 oedd yr iaith "fwy hygyrch" symlach, a'r enghreifftiau a oedd yn helpu cyfranogwyr i ddeall penawdau'r categorïau ymateb.

Roedd 5 rhiant yn ffafrio Fersiwn 1 ac am resymau tebyg i'r cyfranogwyr sy'n oedolion. Roedd yn "llai geiriol" na fersiwn 2, roedd ganddo fformat ymateb 'ticiwch bob un sy'n berthnasol', ac roedd yn cyfeirio'n benodol at 'amhariadau hirdymor'. Yn ogystal, roedd un rhiant yn hoffi ei fod yn cynnwys categori 'Arall', a oedd yn caniatáu iddynt gynnwys unrhyw beth nad oedd wedi'i gynnwys ar y rhestr.

#### 4.5.1.8 Gwahaniaethau o ran dull

Dyluniwyd Fersiwn 1 ar gyfer hunan-ofyn. Rhannodd y cyfwelydd gwybyddol ei sgrin â'r cyfranogwr er mwyn iddo allu gweld y cwestiwn a dweud wrth y cyfwelydd pa opsiwn/opsiynau ymateb y byddai'n eu dewis. Ni welwyd unrhyw broblemau gyda'r dull hwn o ofyn.

Dyluniwyd Fersiwn 2 i'w gyflawni gan gyfwelydd, a ddarllenodd y cwestiwn ac a ddangosodd y rhestr o amhariadau i'r cyfranogwr. Roedd yn gyffredin i'r cyfranogwyr ddewis pob amhariad a restrwyd a oedd yn berthnasol iddyn nhw neu eu plentyn, yn hytrach nag ateb ie neu na. Fodd bynnag, roedd y rhestr hon yn hir ac yn cynnwys mwy o enghreifftiau na fersiwn 1. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai cyfranogwyr

yn gallu cofio'r cwestiwn ar ôl darllen drwy'r rhestr o gategorïau ymateb, gan ddweud y byddent wedi hoffi cael y cwestiwn i gyfeirio'n ôl ato.

### 4.5.2 Canfyddiadau hawdd ei ddeall (Cymraeg a Saesneg)

Adeg sgrinio, nododd 4 oedolyn (3 yn Saesneg, un yn Gymraeg) ac un rhiant i blentyn anabl (yn Saesneg) yr hoffent gael eu cyfweld gan ddefnyddio fersiynau hawdd ei ddeall o'r cwestiynau. Gofynnwyd y 2 gwestiwn amhariadau i'r holl gyfranogwyr yn gyntaf, yna'r cwestiynau rhwystrau. Ni nodwyd unrhyw faterion gyda'r fersiwn Cymraeg hawdd ei deall o'r cwestiynau amhariadau.

Roedd profi'r cwestiwn i rieni yn tynnu sylw at yr angen am gyfarwyddyd ar yr hyn y dylai rhieni ei wneud os oedd ganddynt fwy nag un plentyn ag amhariad. Roedd gan y rhiant a gymerodd ran 2 o blant ag amhariadau a phenderfynodd ateb y cwestiynau mewn perthynas â'u plentyn hynaf.

#### 4.5.2.1 Fersiwn 1 - deall y cwestiwn

Roedd pob un o'r 5 cyfranogwr yn deall bod y cwestiwn yn gofyn am "gyflyrau", "salwch" neu "anabledd" sy'n gallu para am "fis neu flynyddoedd" ac na fyddai'n "diflannu". Dywedodd dau oedolyn a gymerodd ran eu bod yn meddwl bod y cwestiwn yn gofyn am effaith eu hamhariadau neu gyflyrau ar eu "gallu i gael ansawdd bywyd da" ac ar "sut mae'n gwneud i chi deimlo". Roedd dealltwriaeth y cyfranogwyr o'r cwestiwn yn adlewyrchu eu profiad bywyd personol. Roedd un cyfranogwr yn meddwl am ei ymatebion i'r cwestiwn gan ddefnyddio'r diffiniad o "salwch neu anabledd hirdymor" a ddefnyddir wrth wneud cais am Daliadau Annibyniaeth Personol (PIP). Roedd rhiant plentyn anabl wedi diffinio 'hirdymor' gan ddefnyddio diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, oherwydd eu bod yn gweithio yn y maes cyfreithiol. Roedden nhw'n meddwl tybed a fyddai pobl eraill yn gwybod bod 'hirdymor' yn golygu 12 mis neu fwy. Roedd y cyfranogwr hwn wedi cynnwys holl gyflyrau eu plentyn - gyda diagnosis a heb ddiagnosis, gan nad oedd unrhyw gyfarwyddyd a oedd yn dweud na ddylid cynnwys cyflyrau heb ddiagnosis.

#### 4.5.2.2 Fersiwn 1 - categorïau ymateb

Dewisodd pob un o'r 5 cyfranogwr nifer o opsiynau ymateb, gan ddewis y rhai a oedd, yn eu barn nhw, yn adlewyrchu eu profiad nhw neu brofiad bywyd eu plentyn orau. Teimlai'r cyfranogwyr fod y rhestr o gategorïau ymateb yn hir. Cafwyd awgrym gan un oedolyn a gymerodd ran y gellid cyfuno'r categorïau canlynol i gwtogi'r rhestr, oherwydd eu bod yn teimlo bod y categorïau'n gorgyffwrdd:

- 'Symud neu gryfder' gyda 'Teimlo'n anghyfforddus neu mewn poen'
- 'Dysgu' gyda 'Cof neu ganolbwyntio'

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol am y fformat a'r delweddau hawdd eu deall, a oedd yn eu helpu i brosesu'r rhestr hir o opsiynau ymateb. Fodd

bynnag, dywedodd un cyfranogwr fod yr enghreifftiau a ddarparwyd ar gyfer y categori ymateb ‘Synhwyrau’ yn amwys, ac nad oedd yr enghraifft ‘rydych chi’n ei chael hi’n anodd cysgu’ ar gyfer y categori ‘Anadlu neu deimlo’n flinedig’ yn ddefnyddiol, gan y gallai rhywun deimlo’n flinedig hyd yn oed gyda chwsg da. Gwnaethant hefyd sylw bod y ddelwedd a ddefnyddiwyd ar gyfer ‘Iechyd meddwl’ yn cyfleu ymddygiad ymosodol. Dywedodd y cyfranogwr hwn a’r rhiant a gymerodd ran yn y profion fod yr enghraifft o dan ‘Ymladd salwch’ - ‘eich corff yn ymladd gormod neu ddim digon’ - yn ddryslyd.

#### 4.5.2.3 Fersiwn 1 - derbynioldeb

Roedd yr holl gyfranogwyr yn fodlon ateb y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, dywedodd y rhiant a gymerodd ran fod rhywfaint o sensitifrwydd ynghylch ateb cwestiynau am gyflyrau eu plentyn. Byddent am gael sicrwydd ynghylch dilysrwydd y cais am yr wybodaeth hon.

#### 4.5.2.4 Fersiwn 2 - deall y cwestiwn

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod y cwestiwn hwn yn gofyn am anawsterau yr oeddent hwy neu eu plentyn yn eu profi a/neu wahaniaethau yn eu profiadau hwy neu brofiadau eu plentyn o'i gymharu ag eraill. Roedd rhai cyfranogwyr yn hoffi’r term ‘problemau’, gan deimlo ei fod yn gynhwysol ac yn awgrymu nad oedd yn rhaid gwneud diagnosis o gyflyrau i’w cynnwys. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y gellid ei ystyried yn derm negyddol. Nid oedd rhai cyfranogwyr yn hoff o’r term ‘gwahaniaethau’, gan fod iddo arwyddocâd negyddol.

Roedd y cyfarwyddyd i gynnwys ‘unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser’ yn bwysig i un cyfranogwr yn benodol. Roeddent wedi cynnwys amhariad ar glyw eu plentyn sy’n effeithio ar eu plentyn pan fydd mewn mannau swnllyd. Ni fyddent wedi ei gynnwys pe na bai’r cyfarwyddyd hwn wedi bod yno.

#### 4.5.2.5 Fersiwn 2 – categorïau ymateb

Roedd y cyfranogwr sy’n rhiant yn ddryslyd i ddechrau ynghylch sut i ateb y cwestiwn hwn, gan ofyn am eglurhad gan y cyfwelydd. Efallai mai canlyniad y profion gwybyddol oedd hyn. Gofynnwyd fersiwn 1 iddynt yn flaenorol, a oedd yn gofyn iddynt ‘ticiwch bob un sy’n berthnasol’ yn hytrach na darllen drwy’r rhestr o amhariadau ac ateb ‘ie neu na’.

Cafwyd sylwadau gan un cyfranogwr bod y delweddau a ddefnyddiwyd yn yr opsiynau ymateb ar gyfer fersiwn 2 yn aneglur:

- **Symud o gwmpas:** roedd hi’n anodd gweld mai grisiau oedd ddelwedd.
- **Defnyddio eich dwylo neu eich bysedd**: roedd perthnasedd y ddelwedd o 2 berson yn sefyll o flaen rheilen ddillad i label y categori yn aneglur.
- **Lles**: roedd y ddelwedd yn ddryslyd ac yn cael ei dehongli fel wyneb blin.

- **Egni ac anadlu**: nid oedd yn glir beth roedd y person yn y ddelwedd yn ei wneud.
- **Teimlo'n anghyfforddus neu mewn poen**: nid oedd y ddelwedd o'r person yn plygu drosodd yn cyfleu'r syniad o rywun mewn poen.

#### 4.5.2.6 Fersiwn 2 - derbynioldeb

Rhoddodd yr holl gyfranogwyr ateb i'r cwestiwn, a dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn ffafrio fersiwn 2. Roedd gallu ateb 'ie neu na' yn "symlach" na gorfod edrych yn ofalus ar bob disgrifiad o amhariad.

#### 4.5.2.7 Y fersiwn a ffefrir

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch pa fersiwn oedd yn cael ei ffafrio, gyda 3 chyfranogwr yn ffafrio fersiwn 1, a 2 gyfranogwr yn ffafrio fersiwn 2. Y rhesymau dros ffafrio fersiwn 1 oedd yr opsiynau ymateb byrrach a chael fformat ymateb 'ticiwch bob un sy'n berthnasol'. Ffafriwyd Fersiwn 2 oherwydd bod cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn haws ateb 'ie neu na'. Nid oeddent yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddarllen yr holl destun ar gyfer pob amhariad mor ofalus ag yr oeddent ar gyfer fersiwn 1.

#### 4.5.2.8 Gwahaniaethau o ran dull

Er bod fersiwn 1 yn un hunan-gyflawni a bod cyfwelydd yn gofyn cwestiynau fersiwn 2, roedd y ddau fersiwn hawdd eu deall yn cynnwys cyflwyniad gweledol o'r categori cwestiwn a'r categori amhariad i gyfranogwyr. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau o ran dull.

#### 4.5.2.9 Trefn cwestiynau

Wrth adolygu canfyddiadau'r profion gwybyddol, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod trefn y cwestiynau, o ran p'un a oedd y cwestiynau amhariadau yn cael eu gofyn cyn neu ar ôl y cwestiynau rhwystrau, wedi cael unrhyw effaith ar y ffordd yr oedd y cwestiynau'n cael eu deall neu'n cael eu hateb.

## 4.6 Canfyddiadau'r profion gwybyddol - cwestiynau rhwystrau

Profwyd dau fersiwn o'r cwestiwn rhwystrau yn wybyddol (Atodiad C). Rhoddwyd Fersiwn 1 i gyfranogwyr ei ateb, gan efelychu fformat arolwg hunan-lenwi. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn wynebu rhwystrau mewn unrhyw un o'r meysydd bywyd a restrwyd (fel gofal iechyd, trafnidiaeth a chyflogaeth) a gofynnwyd iddynt dicio'r holl opsiynau ymateb a oedd yn berthnasol iddynt.

Darllenwyd fersiwn 2 yn uchel i'r cyfranogwr, mewn fformat cyflawni gan gyfwelydd. Gofynnodd y cyfwelydd i'r cyfranogwyr - Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u profi? "Dewiswch bob un sy'n berthnasol" a gofyn iddyn nhw ddewis yr holl opsiynau ymateb ar y cerdyn sy'n berthnasol iddyn nhw. Opsiynau ymateb sy'n cyd-

fynd â chategorïau rhwystrau yn y model cymdeithasol: agweddol, sefydliadol, cyfathrebu ac amgylcheddol.

Fel yr amlinellwyd yn Adran 3.3.4, cynlluniwyd fersiynau i oedolion a rhieni o’r cwestiynau i sicrhau cyn lleied o wahaniaethau â phosibl. Roedd gwahaniaethau yng nghwestiwn fersiwn 1 yn ymwneud ag enghreifftiau o opsiynau ymateb, gyda rhai’n cael eu diwygio i fod yn rhai penodol i blant. Roedd yr opsiynau ymateb ar gyfer iteriadau o fersiwn 2 y cwestiwn rhwystrau i oedolion a rhieni yn union yr un fath.

Nod profi'r cwestiynau hyn yn wybyddol oedd:

- asesu a oedd fersiynau 1 a 2 o’r cwestiynau rhwystrau yn nodi’r rhwystrau a brofir gan bobl y mae amhariadau neu gyflwr yn effeithio arnynt - a oedd rhai rhwystrau wedi cael eu methu, neu rai wedi cael eu cynnwys na ddylid fod wedi’u cynnwys
- asesu a oedd y cwestiynau a’r opsiynau ymateb wedi cael eu deall yn y ffyrdd a fwriadwyd
- sefydlu parodrwydd cyfranogwyr i ateb y cwestiynau a nodi ffactorau a allai effeithio ar hyn
- nodi unrhyw ffafriaeth tuag at fersiwn 1 neu fersiwn 2 a deall y rhesymau pam
- nodi unrhyw faterion neu ddewisiadau sy’n ymwneud â’r dull (hunan-lenwi o’i gymharu â chyflawni gan y cyfwelydd)
- archwilio a oedd trefn y cwestiynau yn effeithio ar ddealltwriaeth y cyfranogwyr o’r cwestiynau rhwystrau

Cyflwynir y canfyddiadau sy’n ymwneud â fersiwn 1 a fersiwn 2 ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg, a’r fersiynau hawdd eu deall yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### 4.6.1 Canfyddiadau Cymraeg a Saesneg

#### 4.6.1.1 Fersiwn 1 - deall y cwestiwn

Roedd y cwestiwn fersiwn 1 yn gofyn “Gan feddwl am yr amhariad(au) neu gyflwr/cyflyrau hirdymor (hwn/hyn) pa rai o’r rhwystrau canlynol ydych chi’n eu hwynebu, os o gwbl? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.” Roedd cyfranogwyr yn gyson yn deall y cwestiwn hwn fel un sy’n gofyn i ba raddau yr oedd eu amhariad(au) neu eu cyflwr/cyflyrau hirdymor yn golygu eu bod yn profi rhwystrau mewn gwahanol agweddau ar fywyd bob dydd.

> “Mae’n gofyn i mi ... a yw unrhyw un o’r pethau hyn yn fy rhwystro rhag mwynhau fy mywyd.”

Defnyddiwyd 2 ffrâm gyfeirio. Roedd un yn cynnwys model mwy meddygol o feddwl am anabledd, gyda chyfranogwyr yn defnyddio termau fel ‘problemau’ ac ‘anawsterau’ wrth ddisgrifio sut roeddent yn dehongli’r cwestiwn. Roedd y llall yn cynnwys model mwy cymdeithasol o ddehongli anabledd, gan gydnabod bod y cwestiwn yn gofyn am bethau nad ydynt ar waith i gefnogi anghenion person.

> “Mae’n gofyn i mi beth y gellid ei wneud yn well i wella bywyd fy mab... beth sy’n achosi problemau.”

> “Mae’r cwestiwn yn edrych ar i ba raddau y mae’r meysydd a restrir yn helpu ac yn cefnogi pobl ag anableddau megis problemau symudedd neu broblemau gyda’u golwg.”

Nodwyd nifer yr opsiynau ymateb a faint o destun oedd angen ei brosesu, a oedd angen ei ailddarllen gan rai. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos ei fod yn effeithio ar sut roedd y cwestiwn yn cael ei ddeall a’i ddehongli, na pharodrwydd i ateb. Roedd rhywfaint o dystiolaeth nad oedd rhieni’n deall i ddechrau bod y cwestiwn yn gofyn am brofiadau eu plentyn. Fodd bynnag, roedd pob rhiant yn gallu ateb y cwestiwn.

Nid oedd y dehongliad bod y cwestiwn yn gofyn am rwystrau a brofwyd mewn perthynas ag amhariad neu gyflwr hirdymor yn gyffredinol. Cyfeiriwyd at fod mewn ardal wledig, er enghraifft, fel rheswm dros brofi rhwystrau gyda ‘Trafnidiaeth’ a ‘Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol’. Yn yr un modd, dewiswyd rhwystrau sy’n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd hefyd. Roedd yn ymddangos bod y mater hwn yn ymwneud yn bennaf â threfn cwestiynau gan ei fod yn fwy cyffredin ymysg yr hanner sampl o gyfranogwyr a holwyd am rwystrau cyn amhariadau.

Roedd y cyfranogwyr yn deall y gair ‘rhwystrau’ yn dda ar y cyfan. Roeddent yn ei ddisgrifio fel rhywbeth sy’n cwmpasu pethau na ellir eu symud o gwmpas neu sy’n atal person rhag gwneud pethau y gall eraill eu gwneud, neu sy’n atal rhywun rhag manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Wedi dweud hynny, dehonglwyd ei fod yn ymwneud yn bennaf, neu’n gyfan gwbl, â rhwystrau ffisegol. Roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith y rhai ag amhariadau corfforol, a’r rhai na ofynnwyd y cwestiwn amhariadau iddynt cyn y cwestiwn rhwystrau.

Yn gyffredinol, roedd y gair ‘rhwystrau’ yn cael ei ffafrio yn hytrach na thermau eraill, fel ‘problemau’, gyda’r olaf yn cael ei ystyried ar wahân yn rhy wan ac yn rhy gryf. Lle’r oedd ‘problemau’ yn cael eu ffafrio yn hytrach na ‘rhwystrau’, roedd hyn yn cyd-daro â ffafriaeth tuag at geiriau eraill fel ‘heriau’ ac ‘anawsterau’.

Roedd y cyfnod yr oedd cyfranogwyr yn meddwl amdano wrth ateb y cwestiwn yn amrywio. Ymysg cyfranogwyr sy’n oedolion, ystyriwyd profiadau yn ystod plentyndod a thyfu i fyny wrth ateb. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i gyfyngu profiadau i gyfnod o 12 mis ac roedd y dystiolaeth am yr effaith a gafodd cynnwys hynny ar yr ymateb yn gymysg.

Ar gyfer y cyfieithiad Cymraeg, roedd rhai yn anghyfarwydd â'r term 'amhariad' a ddefnyddiwyd ym môn y cwestiwn.

#### 4.6.1.2 Fersiwn 1 - categorïau ymateb

Roedd naw o'r categorïau ymateb yn ymdrin â meysydd bywyd lle gellir profi rhwystrau. Ategwyd pob pennawd opsiwn ymateb mewn testun trwm gydag enghreifftiau o rwystrau posibl y gellid eu profi yn y maes hwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw opsiynau ymateb ar goll o'r rhestr, nac y dylid dileu unrhyw un o'r rhai a restrwyd. Er bod rhieni wedi cwestiynu i ddechrau pa mor berthnasol oedd yr opsiwn ymateb mewn perthynas â 'Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith' wrth ateb cwestiwn am eu plentyn, roeddent yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael eu holi am amhariad hirdymor eu plentyn, neu amhariadau a rhwystrau a oedd yn effeithio arnynt yn bersonol a'u plentyn, yn anuniongyrchol.

Roedd y farn am ddefnyddioldeb testun trwm yn gymysg, gyda'r farn ei fod yn ddefnyddiol ond hefyd yn ailadroddus. Gallai cynnwys 'ddim yn cefnogi fy anghenion' fod yn annymunol, er ei bod yn ymddangos bod y term yn cael ei ddeall yn gyson.

Er bod cynnwys enghreifftiau yn arwain at gwestiwn hirach, roedd y farn am eu cynnwys yn tueddu i fod yn niwtral neu'n gadarnhaol, ond gyda chonsensws eu bod yn rhy hir. Ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol i helpu i ddeall a dehongli'r cwestiwn. Roedd hefyd yn ymddangos eu bod yn annog cyfranogwyr i feddwl am ac ystyried rhwystrau nad ydynt yn rhai corfforol.

> "[Yr enghreifftiau oedd] yr unig ffordd yr oeddwn i'n mynd i'w deall."

Awgrymodd y cyfranogwyr amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gwella'r enghreifftiau. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau'r nifer a ddarperir a'u cuddio y tu ôl i fotwm gwybodaeth y gellid cael gafael arno, pe bai angen.

Nodwyd y materion canlynol gydag opsiynau ymateb penodol.

- **Gofal iechyd a chymorth**: cafwyd adborth bod gormod o enghreifftiau'n ymwneud â rhwystrau corfforol. Sylwodd cyfranogwyr a'r tîm ymchwil hefyd fod llawer o'r enghreifftiau'n faterion cyffredinol - gallent hefyd fod yn berthnasol i bobl heb amhariad neu gyflwr hirdymor.

- **Addysg a hyfforddiant**: roedd cyfranogwyr yn tueddu i fyfyrio ar brofiadau yn yr ysgol wrth ateb, weithiau o sawl degawd yn ôl. Roedd y dehongliad hwn yn tynnu sylw at yr angen i gynnwys cyfnod cyfeirio neu ganllawiau, os mai'r bwriad oedd y dylid eithrio profiad o addysg hanesyddol wrth ateb.

- **Cyfleoedd pleidleisio a chyfranogiad gwleidyddol**: roedd ansicrwydd ynghylch yr hyn yr holwyd amdano, gyda thystiolaeth mai pleidleisio oedd yr unig beth a ystyriwyd wrth ateb. Roedd dealltwriaeth gymysg o'r enghraifft 'cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus'. Roedd cyfranogwyr nad oeddent yn

deall y term yn tueddu i ystyried rhwystrau sy'n ymwneud â phleidleisio yn unig wrth ateb.

Y prif faterion sy'n ymwneud â chyfieithu fersiwn 1 o'r opsiynau ymateb oedd:

- ystyriwyd bod 'nad ydyn nhw' yn gyfieithiad ffurfiol iawn o 'do not / does not support my needs', gyda 'sydd ddim' yn cael ei ystyried yn fwy priodol
- nid yw 'hygyrch', sy'n cael ei ddefnyddio ar draws nifer o enghreifftiau o opsiynau ymateb fel y cyfieithiad o 'accessible' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yn Gymraeg
- O dan 'Cefnogaeth a gwasanaethau ariannol', awgrymwyd bod 'budd-dal' yn fwy priodol - ystyriwyd bod 'lles' yn rhy ffurfiol

#### 4.6.1.3 Fersiwn 1 – derbynioldeb

Atebodd yr holl gyfranogwyr y cwestiwn, gydag un oedolyn ac un rhiant yn dewis yr opsiwn 'Dim un o'r rhain'. Dewisodd y cyfranogwyr amlder o rhwng 1 a 6 opsiwn wrth ateb. Roedd y cyfranogwyr yn gyfforddus yn ateb y cwestiwn, a lle mynegwyd anesmwythder, roedd hyn yn ymwneud â myfyrio ar brofiadau anodd a heriol. Fodd bynnag, roedd yr anesmwythder hwn yn cael ei dderbyn ynghyd â chydnabyddiaeth ei bod yn bwysig gofyn y cwestiwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y cwestiwn yn cael ei ystyried yn ymwthiol nac yn rhy bersonol i'w ateb. Ystyriwyd bod y cwestiwn yn un cadarnhaol ac yn cydnabod profiadau pobl anabl. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn teimlo'n "eithaf angerddol" am y cwestiwn.

Roedd consensws bod y cwestiwn yn rhy hir, a'i fod yn cymryd gormod o amser i'w brosesu a'i ateb. Roedd cael yr opsiynau cwestiwn ac ateb wrth lunio ymateb yn cael ei werthfawrogi, gan roi cyfle i gyfranogwyr ailddarllen adrannau a phrosesu'r wybodaeth ar eu cyflymder eu hunain. Cafwyd digon o adborth i awgrymu y gallai peidio â chael yr opsiynau cwestiwn ac ateb sydd ar gael effeithio ar y gallu i ddehongli ac ateb y cwestiwn. Roedd y farn am sut i ddatrys y mater yn gymysg. Er y gwerthfawrogwyd ehangder y meysydd bywyd a defnyddioldeb yr enghreifftiau, gofynnwyd am iaith symlach a mwy cryno hefyd.

#### 4.6.1.4 Fersiwn 2 - deall y cwestiwn

Roedd ail fersiwn y cwestiwn rhwystrau yn gofyn i'r cyfranogwyr: "Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi eu profi? Dewiswch bob un sy'n berthnasol". Deallwyd bod y cwestiwn yn gofyn i ba raddau y profodd rhywun rwystrau sy'n gysylltiedig â'i amhariad(au) neu gyflyrau hirdymor. Roedd cyfranogwyr yn tueddu i ddefnyddio iaith model meddygol wrth ddisgrifio beth oedd y cwestiwn yn ei ofyn. Roedd tystiolaeth yn awgrymu bod y cwestiwn yn cael ei ddehongli'n gyffredinol, ond nid bob amser, fel un sy'n gofyn am rwystrau a brofwyd ar draws ystod eang o feysydd bywyd. Yn ôl un cyfranogwr:

> “Rydych chi’n gofyn i mi am bethau a ddylai fod ar waith, ond nad ydyn nhw, ac sy’n gwneud bywyd yn anodd i mi fel person anabl... gwneud gwaith neu rywbeth yn hygyrch”.

Roedd y rhai a oedd yn dehongli’r cwestiwn yn gul o ran y meysydd bywyd yr oedd yn holi amdanynt, yn tueddu i fyfyrio’n drwm ar eu profiadau bywyd eu hunain wrth ateb. Er enghraifft, roedd defnyddiwr cadair olwyn yn deall bod y cwestiwn yn gofyn am rwystrau sy’n gysylltiedig â mynediad yn yr amgylchedd adeiledig.

Roedd y materion a achosodd ddryswch, ond nad oedd yn ymddangos eu bod yn amharu ar ddealltwriaeth, yn cynnwys:

- diffyg eglurder ynghylch a oedd y cwestiwn yn ymwneud yn benodol â rhwystrau sy’n gysylltiedig ag amhariadau
- diffyg cyfnod cyfeirio ym môn y cwestiwn
- llawer iawn o destun
- cymhlethdod canfyddedig strwythur rhai brawddegau
- ystyriwyd bod rhai o’r cyfieithiadau Cymraeg yn rhy ffurfiol, gan wneud y cwestiwn yn anoddach ei ddeall

#### 4.6.1.5 Fersiwn 2 - categorïau ymateb

Dyluniwyd Fersiwn 2 fel bod yr opsiynau ymateb i gyd yn cyfleu un o’r mathau o rwystrau a ddefnyddir mewn dosbarthiadau model cymdeithasol cyffredin. Cafodd opsiwn ymateb ‘Arall’ ei gynnwys hefyd. Roedd yn caniatáu i gyfranogwyr ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain unrhyw rwystrau eraill a brofwyd, ac i helpu i asesu cyflawnder y categorïau ymateb. Ategwyd pob opsiwn ymateb mewn testun trwm a ddisgrifiodd fath o rwystr gydag enghreifftiau.

Cafwyd safbwyntiau cymysg ynghylch defnyddioldeb penawdau’r opsiynau ymateb gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddigonol ac yn glir, ac yn rhy hir a geiriog. Roedd safbwyntiau ar yr enghreifftiau hefyd yn gwrth-ddweud ei gilydd. Disgrifiodd cyfranogwr y cwestiwn fel a ganlyn: “yn glir, yn gryno, ac wedi rhoi enghreifftiau da iawn”.

Roedd tystiolaeth hefyd bod yr enghreifftiau a ddarparwyd yn rhy amwys i rai ac yn rhy gymhleth i eraill.

Nodwyd y materion canlynol gyda’r opsiynau ymateb ac enghreifftiau yn fersiwn 2.

- **Adeiladau a mannau dan do ac awyr agored nad ydynt yn addas:** Roedd tuedd i ystyried, neu i roi mwy o bwyslais ar, y rhwystrau corfforol y gallai’r rheini sydd ag amhariad neu gyflwr corfforol hirdymor ddod ar eu traws.

- **Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw’n hygyrch:** Roedd y cyfieithiad Cymraeg yn cynnwys termau anghyfarwydd fel ‘hygyrch’. Er ei fod yn peri dryswch, nid oedd yn effeithio ar y gallu i ateb y cwestiwn.

- **Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn gefnogol:** Cafwyd gwahanol ddehongliadau o’r opsiwn ymateb hwn. Deallwyd ei fod yn gofyn i ba raddau y mae staff proffesiynol mewn meysydd fel iechyd neu addysg, wedi cael eu hyfforddi, yn sensitif ac yn gefnogol i anghenion unigol. Roedd dehongliadau eraill yn llawer ehangach, ac yn ehangach na’r bwriad. Roedd cyfranogwr wedi dewis yr opsiwn hwn gan ei fod yn teimlo bod “llawer o anwybodaeth am niwrowahaniaeth”. Cyfeiriodd naratifau cyfranogwyr hefyd at ddryswch rhwng hyn ac opsiwn ymateb 4 ‘Safbwyntiau ac ymddygiad gan eraill nad ydynt yn gefnogol’. Roedd dryswch fel petai’n ymwneud â’r dehongliad o’r enghraifft ‘pethau sy’n cael eu gwneud mewn ffordd sy’n golygu fy mod yn cael fy nhrin yn annheg’ ac a ddylai triniaeth annheg gan staff proffesiynol oherwydd diffyg hyfforddiant ddod o dan opsiwn ymateb 3 neu 4.

- **Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol:** Teimlwyd bod gorgyffwrdd rhwng hyn ac opsiwn 3 ‘Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn gefnogol’. Y goblygiad oedd bod y rhai a ddylai fod wedi dewis opsiwn ymateb 4, wedi dewis opsiwn ymateb 3 yn lle hynny.

#### 4.6.1.6 Fersiwn 2 – derbynioldeb

Atebodd un cyfranogwr ‘Dim un o’r rhain’ i fersiwn 2 y cwestiwn rhwystrau, gyda phawb arall yn dewis amlder o rhwng 1 a 4 ymateb. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo’n niwtral neu’n gyfforddus ynghylch ateb. Nododd un cyfwelydd:

> “...roedd yr ymatebydd yn hapus i ateb y cwestiwn hwn ac yn meddwl eu bod yn gwestiynau defnyddiol i’w gofyn i wella cyfleusterau ac agweddau tuag at anableddau.”

Lle mynegwyd anesmwythder, roedd hyn naill ai’n ymwneud â dewis personol o beidio â bod eisiau meddwl am brofiadau; neu’n gysylltiedig â theimladau o euogrwydd ynghylch y canfyddiad o ddiffyg difrifoldeb cyflwr hirdymor. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y cwestiwn yn cael ei ystyried yn rhy sensitif i’w ateb. Nododd un cyfranogwr bod cynnwys opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ yn:

> *...ddiwerth. Os gall pobl wrthod ei ateb, beth fyddai pwrpas gwneud yr arolwg hwn beth bynnag?”

Nid oedd y cyfranogwr hwn yn teimlo bod y cwestiwn yn gofyn am wybodaeth a oedd yn “rhy bersonol neu adnabyddadwy”.

Er bod cyfranogwyr yn fodlon ateb y cwestiwn, roedd teimlad cyffredinol ei fod yn rhy hir ac yn cymryd gormod o amser i’w brosesu. Roedd tystiolaeth bod hyn yn cynyddu baich ar gyfranogwyr, gyda chyfranogwyr yn awgrymu amrywiaeth o ffyrdd o wella’r

cwestiwn. Roedd enghreifftiau'n cynnwys symud y rhan fwyaf o'r testun i fôn y cwestiwn, dileu rhai enghreifftiau, ychwanegu delweddau, a gwella'r cyflwyniad.

#### 4.6.1.7 Gwahaniaethau o ran dull

Dyluniwyd Fersiwn 1 i gael ei gyflawni mewn dull hunan-gyflawni ar-lein, gyda bôn y cwestiwn i'w weld ochr yn ochr ag opsiynau ymateb. Cyflwynwyd fersiwn 2 mewn fformat cyfwelydd wyneb yn wyneb. Fel sy'n nodweddiadol o gwestiynau'r arolwg sy'n cael eu cyflawni fel hyn, darllenodd y cyfwelydd fôn y cwestiwn ac roedd y cerdyn arddangos cysylltiedig yn cynnwys opsiynau ymateb yn unig. Ar gyfer fersiwn 2, roedd y canfyddiadau'n awgrymu y gallai peidio â chynnwys bôn y cwestiwn ar y cerdyn arddangos fod wedi gwneud y cwestiwn yn anoddach ei ateb. Dywedodd un cyfranogwr ei bod yn anoddach deall beth roedd y cwestiwn hwn yn ei ofyn o'i gymharu â fersiwn 1, a dywedodd nifer yn benodol y byddai'n well ganddynt gael geiriad y cwestiwn ar y cerdyn. Nid oedd unrhyw ganfyddiadau penodol yn ymwneud â dull fersiwn 1. Fodd bynnag, mae adborth o fersiwn 2 a'r canfyddiad cyffredinol bod fersiwn 1 yn hir ac yn heriol yn awgrymu y gallai cael y cwestiwn yn weladwy wrth ateb helpu rhai cyfranogwyr.

### 4.6.2 Canfyddiadau hawdd ei ddeall (Cymraeg a Saesneg)

Profwyd fersiynau hawdd eu deall o'r 2 gwestiwn rhwystrau gyda 4 oedolyn ac un rhiant i blentyn anabl. Cynhaliwyd pedwar cyfweliad yn Saesneg, a chynhaliwyd un cyfweliad ag oedolyn yn Gymraeg. Roedd gan y rhiant a gymerodd ran 2 o blant ag amhariadau ac atebodd y cwestiynau rhwystrau mewn perthynas â'u plentyn hynaf.

#### 4.6.2.1 Fersiwn 1 - deall y cwestiwn

Deallwyd y cwestiwn fel un sy'n gofyn i gyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn profi rhwystrau mewn bywyd bob dydd sy'n gysylltiedig â chael amhariad neu gyflwr hirdymor. Roedd disgrifiadau cyfranogwyr o'r hyn yr oedd y cwestiwn yn ei ofyn yn tueddu i gynnwys yn y term 'anawsterau' neu dermau eraill wedi'u gwreiddio mewn iaith model meddygol, gan gynnwys 'heriau' a 'problemau.' Disgrifiodd un cyfranogwr y cwestiwn fel a ganlyn:

> *...gofyn i mi, gyda pha bethau y mae gen i broblemau oherwydd fy anabledd ... beth yw'r pethau y gellid eu gwneud mewn ffordd well i mi."

Roedd tystiolaeth bod y cwestiwn yn aneglur i rai cyfranogwyr. Roedd dau reswm dros y diffyg eglurder hwn. Arweiniodd gwall testunol bach yn y fersiwn i rieni o'r cwestiwn at rywfaint o ansicrwydd ynghylch a oedd rhiant i fod i ateb amdanynt eu hunain neu am eu plentyn. Roedd swmp y testun, ac yn benodol y nifer fawr o opsiynau ymateb, hefyd yn gwneud dehongli'n anodd.

Ystyriodd y cyfranogwyr y mis diwethaf, y llynedd, neu'r blynyddoedd diwethaf wrth ateb, a oedd yn effeithio ar y broses o ddewis ymatebion. Nododd un rhiant, gan feddwl am y mis diwethaf, y byddai wedi dewis mwy o opsiynau ar gyfer eu plentyn

pe baent wedi cael eu holi am eu profiad o rwystrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, byddai cyfnod cyfeirio o 12 mis wedi golygu bod un cyfranogwr wedi dad-ddewis ‘Addysg’ gan eu bod yn meddwl am ddiwrnodau ysgol wrth ateb.

Cwestiynwyd y cyfieithiad Cymraeg ‘cyflyrau’, gyda’r unigol ‘cyflwr’ yn fwy cyfarwydd.

#### 4.6.2.2 Fersiwn 1 - categorïau ymateb

Atebodd yr holl gyfranogwyr y cwestiwn, gan ddewis amlder o rhwng 1 ac 8 o opsiynau ymateb ar gyfer rhwystrau mewn meysydd bywyd. Roedd y farn am nifer yr opsiynau ymateb a oedd ar gael yn gymysg. Ystyriwyd bod y rhestr yn rhy hir ac roedd yn ei gwneud yn anodd i rai cyfranogwyr ddeall y cwestiwn.

Roedd y safbwyntiau ar benawdau’r opsiynau ymateb a’r enghreifftiau hefyd yn gwrthdaro. Ni fynegodd rhai cyfranogwyr unrhyw bryderon ynghylch hyd nac eglurder, tra bod eraill yn awgrymu y gallai’r penawdau fod yn fyrrach ac yn gliriach. Dywedodd y cyfranogwyr y dylid nodi’n glir nad oedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn rhestr gynhwysfawr. I ddechrau, roedd yn ddryslyd i un rhiant bod rhai opsiynau ymateb yn ymddangos fel pe baent yn ymwneud â phrofiadau eu plentyn tra bod eraill yn ymddangos yn fwy perthnasol iddynt fel rhiant. Effeithiodd hyn ar eu gallu i ateb y cwestiwn yn ôl y bwriad.

Roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol am y fformat hawdd ei ddeall a’r delweddau, gan gydnabod ei fod wedi helpu i brosesu’r rhestr hir o ymatebion. Nododd un cyfranogwr:

> “...byddai wedi cymryd hydoedd i mi fynd drwy hyn pe bai mewn fformat arferol, heb luniau.”

Dyma oedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella:

- **Gofal iechyd**: rhoi delwedd o feddyg, nyrs neu rywun mewn meddygfa yn lle’r ddelwedd o 2 berson ar y ffôn
- **Eich ardal leol**: byddai enghreifftiau neu ddelweddau penodol o’r mathau o ‘adeiladau lleol’ wedi helpu cyfranogwr a oedd yn ansicr a fyddai llyfrgell yn dod o dan y diffiniad hwn ai peidio
- **Gweithgareddau a digwyddiadau**: newid y ddelwedd am weithgareddau go iawn neu gyfuniad o ddigwyddiadau fel beicio a nofio

Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â’r cyfieithiad Cymraeg o’r opsiynau ymateb.

#### 4.6.2.3 Fersiwn 1 - derbynioldeb

Roedd yr holl gyfranogwyr yn fodlon ateb y cwestiwn hwn. Nid oedd unrhyw ddryswch nac ansicrwydd a fynegwyd yn effeithio ar barodrwydd i ateb y cwestiwn.

Dewiswyd opsiynau ymateb dilys, gan gynnwys ‘Gofal iechyd’, gan y cyfranogwr a oedd o’r farn bod iechyd yn bwnc sensitif i holi yn ei gylch.

#### 4.6.2.4 Fersiwn 2 - deall y cwestiwn

Roedd y cyfranogwyr yn deall bod y cwestiwn yn gofyn i ba raddau roeddent yn profi’r mathau o rwystrau a restrir ar y cerdyn. Yn yr un modd â’r canfyddiadau Cymraeg a Saesneg, roedd yr oedolion a’r rhiant a gyfwelwyd i gyd yn dehongli’r cwestiwn fel un a oedd yn gofyn am rwystrau a brofwyd mewn perthynas ag amhariadau neu gyflyrau hirdymor. Mynegwyd rhai dehongliadau yn iaith y model meddygol, tra bod eraill yn cyd-fynd â’r model cymdeithasol. Er enghraifft, nododd cyfranogwr fod y cwestiwn hwn yn gofyn a oedd unrhyw un o’r opsiynau a restrir yn “anghefnogol” i’ch cyflwr.

Roedd dehongliadau am y meysydd bywyd yr oedd y cwestiwn yn holi amdanynt yn tueddu i fod yn eithaf eang. Yr eithriad oedd y rhiant a oedd yn deall bod y cwestiwn yn gofyn am anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau, ac i ba raddau nad oedd addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer eu plentyn. Fodd bynnag, roedd cyfiawnhad y rhiant dros eu hopsiynau ymateb yn awgrymu eu bod yn meddwl yn ehangach na’r gwasanaethau a ddarperir wrth ateb.

Wrth ateb, roedd yn ymddangos bod cyfranogwyr sy’n oedolion yn ystyried profiadau presennol, neu’r rheini yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Myfyriodd y cyfranogwr sy’n rhiant ar y rhwystrau yr oedd eu plentyn wedi’u profi erioed. Byddai cynnwys cyfnod cyfeirio o 12 mis wedi effeithio ar yr opsiynau ymateb a ddewiswyd.

Gofynnodd y cyfranogwr Cymraeg am eglurhad ynghylch ystyr y term ‘profi’, a oedd yn dehongli ei ystyr fel rhoi prawf ar rywbeth neu ddangos prawf.

#### 4.6.2.5 Fersiwn 2 - categorïau ymateb

Atebodd pedwar cyfranogwr y cwestiwn, gyda phob un yn dewis rhwng 2 a 5 ymateb. Ni atebodd y pumed cyfranogwr y cwestiwn hwn oherwydd cyfyngiadau amser. Sylwodd un cyfranogwr fod fersiynau 1 a 2 yn gofyn am wahanol ddimensiynau o rwystrau a nododd ei bod yn well ganddynt gael eu holi am y mathau o rwystrau a brofwyd (fersiwn 2).

Roedd y farn am nifer yr opsiynau ymateb yn niwtral neu’n gadarnhaol. Teimlwyd bod pum opsiwn yn nifer priodol, ac yn well na’r nifer fwy yng nghwestiwn rhwystrau fersiwn 1. Roedd yr adborth ar yr enghreifftiau ym mhob opsiwn ymateb yn gymysg. Roedd rhai cyfranogwyr o’r farn bod yr enghreifftiau a’r delweddau cysylltiedig yn glir ac yn berthnasol. Roeddent hefyd yn cael eu hystyried yn rhy amwys ac y byddai cael enghreifftiau mwy penodol wedi bod yn ddefnyddiol.

- **Rheolau nad ydynt yn cefnogi eich anghenion:** Roedd tystiolaeth mai dim ond cyflogaeth oedd yn cael ei ystyried wrth ateb.

- **Cael eich trin yn wahanol:** Deallwyd y pennawd hwn mewn gwahanol ffyrdd, gyda chyfranogwr yn ei ddehongli fel mai rhywbeth cadarnhaol yw bod yn wahanol. Dewisodd y cyfranogwr hwn yr opsiwn hwn i adlewyrchu ei brofiad o aelod o'r teulu yn cefnogi ei anghenion ac yn anfon post ato y gallai ei ddarllen. Teimlai'r cyfranogwyr hefyd nad oedd yr enghraifft gysylltiedig yn cyfateb yn dda i'r pennawd.
- **Rhywbeth arall:** Roedd cyfranogwr a ddewisodd yr opsiwn ymateb hwn yn tybio ei bod yn orfodol rhoi sylw.

Roedd yr adborth ar y delweddau a ddefnyddiwyd yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol cael y cwestiynau mewn fformat hawdd ei ddeall. Roedd adborth penodol yn cynnwys yr awgrym i newid y llun ar gyfer 'Mannau neu adeiladau sy'n anodd eu defnyddio' gyda llun o fynedfa anabl i adeilad. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys newid y ddelwedd ar gyfer 'Rheolau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion' gan ei bod yn ddryslyd; a gwella'r ddelwedd ar gyfer 'Cael eich trin yn wahanol' drwy roi delwedd o berson mewn cadair olwyn yn ei lle.

Nid oedd unrhyw broblemau gyda'r cyfieithiad Cymraeg o unrhyw un o'r penawdau ymateb na'r enghreifftiau cysylltiedig.

#### 4.6.2.6 Fersiwn 2 - derbynioldeb

Roedd yr holl gyfranogwyr a gafodd y fersiwn hawdd ei ddeall o'r cwestiwn hwn yn gallu ac yn fodlon ei ateb. Wedi dweud hynny, roedd tystiolaeth bod angen ailddarllen y cwestiwn sawl gwaith er mwyn helpu i'w ddehongli a'i ateb. Roedd yn cael ei ystyried yn gwestiwn sensitif ond os oedd yn cael ei ofyn am reswm dilys, yna roedd yn cael ei ystyried yn un cyfiawn.

## 4.7 Geiriad arfaethedig cwestiynau ar gyfer Panel Barn NatCen (pecyn gwaith 6)

Gwnaed argymhellion gan dîm ymchwil NatCen ar gyfer geiriad a fformat y cwestiynau amhariadau a rhwystrau i'w profi gan Banel Barn NatCen, ym mhecyn gwaith 6. Roedd canfyddiadau profion gwybyddol, adborth gan y grŵp llywio, a chanfyddiadau gan ddefnyddwyr data a phobl anabl yn ystod y cam darganfod yn sail i'r argymhellion hyn. Mae'r adran hon yn crynhoi rhesymeg y cwestiynau arfaethedig a symudwyd ymlaen i becyn gwaith 6.

### 4.7.1 Cwestiwn amhariadau

Wrth brofi 2 fersiwn o'r cwestiwn amhariadau, roedd modd arbrofi gyda gwahanol eiriad a fformatau ymateb. Yn ôl adborth gan oedolion anabl a rhieni plant anabl a gymerodd ran yn y profion gwybyddol, nid oedd yn amlwg bod un fersiwn yn well ganddynt na'r llall. Yn hytrach, nododd tîm ymchwil NatCen nodweddion cwestiynau

yr oedd cyfranogwyr yn eu ffafrio yn fersiynau 1 a 2, i'w hymgorffori yn yr un fersiwn i'w phrofi'n feintiol.

#### 4.7.1.1 Geiriad y cwestiwn

Dylai'r cwestiwn ofyn am 'gyflyrau neu amhariadau hirdymor', tebyg i fersiwn 1, yn hytrach na 'problemau neu wahaniaethau'. Roedd tystiolaeth o'r profion gwybyddol yn dangos bod arwyddocâd negyddol i'r ymadrodd 'problemau neu wahaniaethau' i rai cyfranogwyr. 'Cyflwr' oedd y term a oedd yn cael ei ffafrio yn y profion gwybyddol ac roedd rhai cyfranogwyr yn ei ffafrio yn y gweithdai ymgynghori. Roedd y term 'amhariadau' yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan rai cyfranogwyr mewn profion gwybyddol ac yn negyddol gan eraill. Argymhellir ei ddefnyddio oherwydd bod y term yn ganolog i'r model cymdeithasol o anabledd. Argymhellwyd defnyddio terminoleg y model cymdeithasol o anabledd gan y grŵp llywio ac yng nghanfyddiadau'r cam darganfod.

Dylai'r cwestiwn gynnwys cyfarwyddyd i gynnwys cyflyrau 'a all fynd a dod neu amrywio dros amser'. Dangosodd profion gwybyddol fod y cyfarwyddyd hwn yn ddefnyddiol i oedolion a rhieni plant sydd ag amhariadau neu gyflyrau anwadal. Roedd hyn yn annog cyfranogwyr i gynnwys y cyflyrau hyn wrth ateb y cwestiwn.

#### 4.7.1.2 Fformat ymateb

Argymhellwyd y fformat 'dewiswch bob un sy'n berthnasol' a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1. Dangosodd profion gwybyddol fod hyn yn dderbyniol, gyda'r holl gyfranogwyr yn ateb y cwestiwn. Roedd y fformat hwn yn seiliedig ar safon amhariadau wedi'i chysoni GSS, a gafodd ei dderbyn yn gadarnhaol gan rai o'r bobl anabl a gymerodd ran yn y cam darganfod. Byddai'r opsiynau ymateb a geiriad y cwestiynau wedi'u diweddaru yn rhoi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr data am natur amhariadau, ac yn fwy manwl na'r safon amhariadau wedi'i chysoni bresennol. Yn ystod y cam darganfod, awgrymodd rhai defnyddwyr data fod yr opsiynau ymateb ar gyfer amhariadau wedi'u cysoni presennol yn eithaf eang ac nad ydynt yn ddigon manwl i roi arweiniad i lunwyr polisïau.

#### 4.7.1.3 Categorïau ymateb

Dylai categorïau ymateb ddefnyddio'r iaith seiliedig ar ferfau o fersiwn 2 gan fod hyn yn cael ei ffafrio gan gyfranogwyr mewn profion gwybyddol, yn hytrach na'r iaith a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1. Argymhellwyd cadw'r penawdau categori fersiwn 2 canlynol:

- Gweld
- Clywed
- Symud o gwmpas

- Defnyddio eich dwylo neu’ch bysedd
- Dysgu pethau newydd
- Cofio neu ganolbwyntio
- Rhyngweithio â phobl eraill
- Bod mewn poen neu anghysur

Dylid cadw’r categorïau ymateb ‘Iechyd meddwl’ a ‘Prosesu synhwyraidd’ o fersiwn 1.

Dylid defnyddio gweddill penawdau’r opsiynau ymateb gyda’r addasiadau canlynol.

- Dylid ailenwi’r categori ‘Lefelau egni neu anadlu’ i ‘Rheoli lefelau egni neu anadlu’ i fod yn gydnaws â'r iaith seiliedig ar ferfau a argymhellir. Cynigiwyd cynnwys ‘rheoli’ hefyd i gyfleu y gall pobl y mae eu lefelau egni’n amrywio ddefnyddio’r categori hwn. Er bod canfyddiadau o gyfweliadau gwybyddol y dylai anadlu fod yn ei gategori ymateb ei hun, yr argymhelliad oedd ei gadw gyda lefelau egni. Byddai rhannu’r categori hwn yn ddau yn ychwanegu at restr o opsiynau ymateb sydd eisoes yn hir, gan gynyddu’r baich ar ymatebwyr.

- Dylid ailenwi’r categori sy’n ymwneud â systemau imiwnedd yn gyfan gwbl. Yr argymhelliad yw defnyddio’r enghraifft o fersiwn 1 fel pennawd categori: ‘Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif’. Nod y newid hwn oedd gwneud y disgrifiad o’r categori yn gliriach, gan ddefnyddio iaith bob dydd.

Dylid cynnwys uchafswm o 3 enghraifft a argymhellir ar gyfer pob categori, gan gadw’r testun mor gryno â phosibl.

Argymhellwyd newidiadau mwy penodol i’r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn y categorïau ymateb canlynol.

- Dylid adolygu enghreifftiau ‘Iechyd meddwl’ i wneud y disgrifiadau’n fwy cryno a rhoi ffocws cliriach ar gyflyrau iechyd meddwl yn hytrach na theimladau neu emosiynau’n fwy cyffredinol. Dylai geiriad fersiwn 1 ‘rheoli hwyliau, emosiynau neu feddyliau’ a fersiwn 2 ‘teimladau amdanoch chi eich hun ac eraill, rheoli eich emosiynau’ gael eu cyfuno a’u mynegi’n fwy cryno fel ‘rheoli meddyliau neu deimladau’. Yn yr un modd, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod yr enghraifft fersiwn 2 ‘gweld neu glywed pethau nad yw pobl eraill yn eu gweld neu glywed’ yn ddryslyd, felly dylid aralleirio hyn fel ‘profi rhithweledigaethau’.

- ‘Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif’ - dylai enghreifftiau fod yn gyfarwydd i’r rheini sydd â chyflyrau awtoimiwnedd. Daeth yr enghraifft a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1 yn bennawd i’r categori, a chanfuwyd bod yr enghraifft yn fersiwn 2 yn ddryslyd. Yn seiliedig ar awgrymiadau gan

gyfranogwyr mewn profion gwybyddol, cynigiwyd y geiriad canlynol yn ystod y cam adolygu: 'bod yn dueddol o gael haint neu lid'.

### 4.7.2 Cwestiwn rhwystrau

Ar sail yr argymhellion a gyflwynwyd gan dîm ymchwil NatCen, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylid cynnwys y ddwy fersiwn o'r cwestiwn rhwystrau yn y prawf maes meintiol.

#### 4.7.2.1 Fersiwn 1 - rhwystrau ym meysydd bywyd

**Geiriad y cwestiwn**

Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd cyfranogwyr yn meddwl am rwystrau ffisegol yn unig, dylid ystyried dileu'r term o'r bôn. Yn hytrach, dylid gofyn i gyfranogwyr a ydynt wedi profi unrhyw un o'r pethau a restrir.

Dylai bôn y cwestiwn gynnwys cyfnod cyfeirio i leihau'r tebygolrwydd y bydd cyfranogwyr sy'n oedolion yn dewis ymatebion yn seiliedig ar brofiadau o blentyndod a thyfu i fyny. Dylai'r cyfnod cyfeirio a argymhellir fod yn 12 mis.

**Fformat ymateb**

Dewisodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr nifer o opsiynau ymateb, gan nodi bod pobl anabl yn gallu nodi'n hawdd yr holl feysydd bywyd maen nhw'n wynebu rhwystrau ynddynt. Argymhellwyd cadw'r fformat 'dewiswch bob un sy'n berthnasol'.

**Categorïau ymateb**

Dylid lleihau faint o destun a ddefnyddir yn yr opsiynau ymateb a'r enghreifftiau cysylltiedig. Gellid cyflawni hyn mewn cyfuniad o ffyrdd, gan gynnwys dileu testun diangen ac ailadrodd, ac aralleirio enghreifftiau i'w gwneud yn fwy cryno tra'n cynnal eglurder. Argymhellwyd hefyd y dylid lleihau nifer yr enghreifftiau ym mhob opsiwn ymateb i 3. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau cyffredinol o'r profion bod y cwestiwn yn hir a bod llawer o destun i'w ddarllen.

Dylid aildrefnu'r enghreifftiau a restrir o dan bennawd testun trwm pob opsiwn ymateb fel nad yw'r enghraifft gyntaf yn rhwystr amgylcheddol. Gall hyn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd rhai cyfranogwyr yn ystyried rhwystrau corfforol yn unig wrth ymateb.

Argymhellwyd newidiadau mwy penodol i'r categorïau canlynol.

- Dylai 'Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith' ymddangos cyn 'Addysg a hyfforddiant'. Bydd hyn yn helpu i liniaru yn erbyn cyfranogwyr a brofodd rwystrau mewn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd yn ei gategoreiddio o dan yr opsiwn ymateb 'Addysg a hyfforddiant'.

- Dylid byrhau ‘Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol’ i ‘Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol’ er mwyn mynd i’r afael ag adborth cyfranogwyr bod y cwestiwn yn rhy hir gyda gormod o destun i’w brosesu.

- Dylid aralleirio ‘Cyfleoedd pleidleisio a chyfranogiad gwleidyddol’ i ‘Pleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth’, i ddefnyddio iaith fwy plaen na ‘chyfranogiad gwleidyddol’.

- Nid oedd gan Fersiwn 1 opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’, ac nid oedd llawer o dystiolaeth yn awgrymu bod y cwestiwn yn sensitif. Dylid cynnwys yr opsiwn ymateb hwn yn y prawf maes meintiol ym mhecyn gwaith 6 i sefydlu canran y cyfranogwyr sy’n ei ddewis, gan y bydd hyn yn darparu tystiolaeth ar dderbynioldeb y cwestiwn.

- Dylid cadw opsiwn ymateb ‘Arall’, gydag opsiwn dewisol i ysgrifennu, i asesu pa mor gyflawn yw’r opsiynau ymateb presennol sydd wedi’u diffinio ymlaen llaw o ran cofnodi’r ystod o rwystrau mewn meysydd bywyd a brofwyd. Byddai cadw hyn hefyd yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ddisgrifio, yn eu geiriau eu hunain, eu profiad personol.

- Roedd y testun trwm ym mhob opsiwn ymateb yn cynnwys yr ymadrodd ‘nad ydyn nhw'n cefnogi fy anghenion’. Roedd y cyfieithiad Cymraeg ‘nad ydyn nhw’ yn cael ei ystyried yn ffurfiol iawn gan gyfranogwyr Cymraeg. Awgrymwyd ‘sydd ddim’ fel cyfieithiad mwy priodol.

- Nododd cyfranogwyr fod ‘hygyrch’ yn cael ei ddefnyddio ar draws enghreifftiau mewn nifer o opsiynau ymateb ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio’n aml yn Gymraeg. Yn seiliedig ar adborth gan gyfranogwyr, cafodd hyn ei ddisodli gan ‘ddim yn addas’.

- Yn ‘Cymorth a gwasanaethau ariannol’, ystyriwyd bod ‘lles’ yn rhy ffurfiol ac awgrymwyd bod ‘budd-dal’ yn gyfieithiad mwy priodol.

#### 4.7.2.2 Fersiwn 2 - mathau o rwystrau a brofwyd

**Geiriad y cwestiwn**

Er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn ystyried yr un cyfnod o amser yn gyson, dylid ychwanegu cyfnod cyfeirio o 12 mis at fôn y cwestiwn.

Ar sail adborth gan gyfranogwyr ei bod yn anodd cofio pwrpas y cwestiwn pan gafodd ei ddarllen gan gyfwelydd, dylid cynnwys bôn y cwestiwn ochr yn ochr â’r opsiynau ymateb ar gerdyn arddangos.

**Fformat ymateb**

Yn yr un modd â fersiwn 1 y cwestiwn rhwystrau a brofwyd, er mwyn adlewyrchu'r profiad bywyd y mae llawer o bobl anabl yn ei brofi o ran rhwystrau ar draws sawl maes bywyd, dylid cadw'r fformat 'dewiswch bob un sy'n berthnasol'. Dangosodd tystiolaeth o'r profion gwybyddol fod cyfranogwyr anabl wedi profi mwy nag un math o rwystr.

**Categorïau ymateb**

Dylid adolygu'r holl opsiynau ymateb a'r enghreifftiau cysylltiedig i fynd i'r afael ag adborth cyfranogwyr y dylai'r cwestiwn fod yn gliriach ac nid mor hir.

Er mwyn lliniaru'r dryswch a welwyd yn ystod y profion, dylid aildrefnu'r 4 opsiwn ymateb ynghylch math o rwystr fel nad yw'r rhwystr amgylcheddol ('Adeiladau a mannau dan do ac awyr agored') yn ymddangos yn gyntaf.

Dylid cyfnewid trefn yr opsiynau ymateb sefydliadol ac agweddol i wella eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng y 2 opsiwn. Gall hyn hefyd helpu i liniaru yn erbyn cyfranogwyr yn dewis yr opsiwn 'Rheolau, polisïau ac arferion' yn anghywir i ddisgrifio profiad o driniaeth annheg, ymddygiad negyddol, ac agweddau. Dylid categoreiddio hyn fel agweddol o dan 'Safbwyntiau ac ymddygiad', ac nid rhwystrau sefydliadol.

Dylid adolygu'r enghreifftiau i adlewyrchu rhwystrau ar draws pob agwedd ar fywyd. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r dystiolaeth bod rhai cyfranogwyr yn teimlo bod yr enghreifftiau'n eang iawn.

Argymhellwyd newidiadau mwy penodol i'r canlynol:

- Dylid byrhau 'Adeiladau a mannau dan do ac awyr agored nad ydynt yn addas' i 'Adeiladau a mannau sydd ddim yn addas'
- dylid lleihau'r enghreifftiau yn 'Gwybodaeth a chyfathrebu' i 3 er mwyn cyfrannu at y nod o fyrhau'r cwestiwn
- dylid diwygio enghreifftiau yn 'Rheolau, polisïau ac arferion' i wella eglurder ac annog cyfranogwyr i ystyried opsiynau ar wahân i gyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau'r llywodraeth; mae hyn yn unol ag argymhelliad cynharach i ddefnyddio enghreifftiau ar draws pob agwedd ar fywyd
- dylid cadw opsiwn ymateb 'Arall' a defnyddio unrhyw ymatebion ysgrifenedig i asesu pa mor gyflawn yw'r opsiynau ymateb
- er bod tystiolaeth o'r profion yn dangos efallai nad oedd angen opsiwn 'Mae'n well gen i beidio â dweud' penodol, argymhellwyd y dylid ymchwilio ymhellach i hyn ym mhecyn gwaith 6

- nododd cyfranogwyr nad oedd ‘hygyrch’ a ddefnyddir ar draws enghreifftiau mewn opsiynau ymateb lluosog yn cael ei ddefnyddio’n gyffredin yn Gymraeg - yn seiliedig ar adborth cyfranogwyr, disodlwyd hyn gan ‘ddim yn addas’

## 4.8 Profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Y cynllun gwreiddiol oedd cynnal profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar yr un pryd â’r profion gwybyddol Cymraeg, Saesneg a hawdd ei ddeall. Fodd bynnag, oherwydd oedi cytundebol a gweinyddol, cynhaliwyd profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain ochr yn ochr â’r prawf maes meintiol (pecyn gwaith 6). Roedd hyn yn gyfle i brofi’n wybyddol y cwestiynau amhariadau a rhwystrau sy’n cael eu profi yn y maes, gydag oedolion byddar sy’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Dyma’r cwestiynau a brofwyd:

- safon amhariadau wedi’i chysoni GSS
- y cwestiwn am amhariadau sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol
- fersiynau diwygiedig o’r 2 gwestiwn rhwystrau

Mae rhagor o fanylion am y cwestiynau sydd wedi’u cynnwys yn y prawf maes meintiol (pecyn gwaith 6) ar gael yn Atodiad G.

Nodau profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain oedd asesu:

- a yw’r cwestiynau amhariadau
    - yn nodi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau yn gywir
    - wedi golygu bod rhai pobl wedi cael eu methu y dylid eu cynnwys (canlyniadau negyddol anghywir)
    - wedi arwain at gynnwys pobl na ddylent fod wedi cael eu cynnwys (canlyniadau cadarnhaol anghywir)
- a oedd y cyfranogwyr yn deall y cwestiynau a’r opsiynau ymateb yn ôl y bwriad
- a oes modd gwella geiriad y cwestiynau, ac os felly, sut
- a oedd yn well gan gyfranogwyr fersiynau 1 neu 2 o’r cwestiynau amhariadau a rhwystrau

Cydweithiodd NatCen ag ymchwilwyr yn y grŵp Ymchwil Gymdeithasol gyda Phobl Fyddar (SORD) ym Mhrifysgol Manceinion. Rhoddodd NatCen y fersiwn i oedolion o’r cwestiynau Saesneg a oedd yn cael eu profi yn y maes, a’r daflen holi, i SORD. Darparwyd fersiynau Saesneg hawdd eu deall o’r hysbysiad preifatrwydd a’r daflen wybodaeth i gyfranogwyr a ddefnyddiwyd yn y profion gwybyddol cynharach. Gan

weithio’n agos gyda NatCen, addasodd SORD y rhain a’u cyfieithu ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain.

### 4.8.1 Dulliau

Roedd profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain yn dilyn dull tebyg a ddefnyddiwyd mewn profion cynharach yn Gymraeg, Saesneg a Chymraeg a Saesneg hawdd eu deall, gydag addasiadau. Y nodweddion tebyg oedd defnyddio samplu bwriadus i recriwtio cyfranogwyr ag amrywiaeth o nodweddion demograffig-gymdeithasol, a defnyddio meddwl yn uchel a holi i archwilio dealltwriaeth cyfranogwyr o’r cwestiynau. Fodd bynnag, nid oedd y profion Iaith Arwyddion Prydain yn cynnwys amrywio’r dull cyflawni na’r drefn y gofynnwyd cwestiynau oherwydd cyfyngiadau ymarferol. Cyflwynwyd yr holl gwestiynau yn y dull hunan-lenwi ar-lein heb hap-ddethol ym mha drefn y gofynnwyd cwestiynau’r prawf.

#### 4.8.1.1 Recriwtio

Recriwtiodd SORD gyfranogwyr drwy rwydweithiau hysbys o arwyddwyr BSL byddar sy’n byw yng Nghymru, gan ddefnyddio holiadur sgrinio. Cytunwyd ar darged o 4 cyfweliad Iaith Arwyddion Prydain gyda Llywodraeth Cymru, gydag o leiaf 1 cyfweliad yn cael ei gynnal gyda chyfranogwyr ym mhob un o’r grwpiau oedran canlynol: 18 i 29, 30 i 64, a 65 a hŷn.

Cafodd fersiynau Iaith Arwyddion Prydain o’r daflen wybodaeth i gyfranogwyr a’r hysbysiad preifatrwydd a ddefnyddiwyd i brofi cwestiynau mewn Saesneg hawdd eu deall eu cynhyrchu, eu golygu a’u gwirio gan gyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain/Saesneg cymwys.

#### 4.8.1.2 Gwaith maes

Cynhaliwyd pedwar cyfweliad gwybyddol ym mis Rhagfyr 2025 gan 2 aelod o dîm ymchwil SORD, gan ddefnyddio protocol a ddatblygwyd ar y cyd â NatCen. Roedd nodweddion y rhai a gyfwelwyd fel a ganlyn:

- 2 rhwng 18 a 39 oed; 2 40 oed neu hŷn
- 2 ddyn a 2 fenyw
- pob un mewn gwaith neu hyfforddiant ar hyn o bryd neu’n aros i ddechrau gwaith neu hyfforddiant
- 1 yn byw mewn ardal drefol; 3 mewn ardal wledig

Profwyd y cwestiynau Iaith Arwyddion Prydain yn y drefn ganlynol: safon amhariadau wedi’i chysoni GSS, cwestiwn amhariadau wedi’i alinio â'r model cymdeithasol, cwestiwn rhwystrau fersiwn 1, yna cwestiwn rhwystrau fersiwn 2.

Cynhaliwyd y cyfweliadau gan ddefnyddio'r llwyfan fideo-gynadledda Zoom a Qualtrics er mwyn gweld y fersiynau safonol o gwestiynau'r arolwg mewn BSL. Defnyddiwyd rhannu sgrin i alluogi cyfranogwyr a chyfwelwyr i weld eitemau'r arolwg ar yr un pryd mewn amser real. Aeth y cyfwelwyr drwy'r holiaduron prawf ar ran y cyfranogwyr, a gofynnwyd iddynt ymateb gyda 'ie' neu 'na' i bob opsiwn ymateb. Roedd y dull hwn yn sicrhau bod data'n cael ei fewnbynnu'n gyson ar draws cyfweliadau, gan ganiatáu i gyfranogwyr ganolbwyntio ar gynnwys y cwestiynau a'u dealltwriaeth. Recordiwyd cyfweliadau gyda chytundeb y cyfranogwyr.

Yn ystod y cyfweliad, gwyliodd y cyfranogwyr uchafswm o 2 fideo ar y sgrin ar y tro, gyda'r cyfwelydd yn sgrolio i lawr i weld gweddill y fideos.

Ar ddiwedd y cyfweliadau gwybyddol, rhoddwyd taflen wybodaeth am gymorth ychwanegol i'r cyfranogwyr, a addaswyd i adlewyrchu adnoddau mewn BSL a'r gymuned fyddar ehangach. Cafodd pawb a gymerodd ran e-bost i ddiolch hefyd, gan gynnwys e-god ar gyfer taleb siopa ar-lein gwerth £40.

#### 4.8.1.3 Rheoli a dadansoddi data

Roedd y broses rheoli a dadansoddi data yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd ym mhecyn gwaith 5: profion gwybyddol. Cafodd cyfweliadau eu recordio a chyfeiriwyd atynt gan gyfwelwyr wrth wneud nodiadau a chrynhoi cyfweliadau, gan ddefnyddio profforma a ddarparwyd gan dîm ymchwil NatCen. Roedd y profforma hwn yn gyfres o fatricsau (taflenni gwaith yn Excel). Roedd pob cwestiwn yn un matrics a oedd yn cynnwys manylion pob cyfranogwr, eu hatebion i'r cwestiynau amhariadau a rhwystrau, a'u hymatebion i'r cwestiynau meddwl yn uchel a phob cwestiwn treiddgar. Cafodd ymchwilwyr SORD hyfforddiant gan NatCen ar y broses hon.

Cafodd y matricsau wedi'u cwblhau eu hadolygu gan dîm ymchwil NatCen, a fu'n asesu'r data ar gyfer pob cwestiwn yn ei dro. Archwiliwyd yr ymatebion gan bob cyfranogwr yn annibynnol ac ar y cyd i ateb cwestiynau'r ymchwil.

### 4.8.2 Canfyddiadau - cwestiynau amhariadau

Cafodd y 2 gwestiwn amhariadau a gynhwyswyd ym mhrawf Panel NatCen (pecyn gwaith 6) eu profi'n wybyddol mewn BSL: cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS a'r cwestiwn amhariadau wedi'i alinio â'r model cymdeithasol.

Mae nifer o ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddehongli canfyddiadau'r profion gwybyddol ar gyfer y cwestiynau amhariadau. Mae'r rhain yn ymwneud â'r iaith (BSL) a sut y mynegwyd y cwestiynau Saesneg yn yr holiadur BSL; cyflwyniad geiriau anghyfarwydd mewn BSL; a sut y gall gwahanol hunaniaethau, a chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol ymhlith arwyddwyr BSL byddar lunio ymatebion i gwestiwn amhariadau sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol.

#### 4.8.2.1 Safon amhariadau wedi'i chysoni GSS

Roedd y cyfranogwyr yn deall bod y cwestiwn yn gofyn a oedd ganddynt unrhyw un o'r 'cyflyrau' neu'r 'anhwylderau' a restrwyd. Dehonglwyd y cyfeiriad at anhwylderau a chyflyrau yn y cwestiwn mewn gwahanol ffyrdd: fel cyfeiriad at "anabledd"; "problemau" a "rhwystredigaeth" gyda'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Doedd un cyfranogwr ddim yn deall yr arwyddion ar gyfer 'cyflyrau' ac 'anhwylderau' a gofynnodd i'r termau hyn gael eu sillafu gyda bys, h.y. mynegiant gweledol y geiriau Saesneg gan ddefnyddio'r wyddor ddeulaw BSL.

Dewisodd y 4 cyfranogwr yr opsiwn ymateb 'Clyw', ynghyd ag opsiynau eraill. Roedd yr opsiynau eraill a ddewiswyd gan gyfranogwyr yn adlewyrchu sut roedd bod yn fyddar yn effeithio arnyn nhw - eu dysgu, eu blinder a'u cof.

Roedd y term 'Deheurwydd' yn anghyfarwydd i rai, gan gefnogi'r adborth gan gyfieithwyr BSL (yn Adran 3.4.3.2).

Er bod yr holl gyfranogwyr wedi ateb y cwestiwn, nid oedd rhai cyfranogwyr yn hoffi'r cwestiwn a geiriad y categori 'Clyw', a oedd yn cyfeirio at 'byddardod' a 'rhannol fyddar'. Roedd y termau hyn yn cael eu hystyried yn rhai "wedi dyddio" a negyddol. Holodd un cyfranogwr beth oedd 'byddardod' yn ei olygu:

> "Ydy o'n golygu hollol fyddar? Mae angen mwy o gyd-destun arnaf ynghylch beth mae'r cwestiwn eisiau ei wybod."

Deallodd cyfranogwr arall i ddechrau fod y gair 'Clyw' yn cyfeirio at "berson sy'n clywed" yn hytrach na ffordd o fynegi byddardod (fel yn rhannol fyddar). O ganlyniad, ni fyddent wedi dewis yr opsiwn hwnnw. Presenoldeb y cyfwelydd yn unig a'u harweiniodd i ddarllen y disgrifiad llawn a gwylio'r fideo llawn, ac wrth wneud hynny deall bod y categori yn berthnasol iddynt hwy.

#### 4.8.2.2 Cwestiwn amhariadau wedi'i alinio â'r model cymdeithasol

Cafwyd gwahanol ddehongliadau o'r cwestiwn hwn. O'r 4 cyfranogwr, roedd 2 yn meddwl ei fod yn gofyn a oedd yr amhariadau a restrwyd yn effeithio arnynt. Roedd un cyfranogwr yn meddwl ei fod yn gofyn "a allaf wneud hynny". I ddechrau, roedd un arall yn meddwl ei fod yn gofyn "am fy nghorff ac am fy iechyd".

Roedd cyfranogwyr yn ei chael yn anoddach dewis o'r rhestr o amhariadau ar gyfer y cwestiwn hwn nag ar gyfer y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni. Roedd hyn oherwydd hyd yr opsiynau ymateb a'r ffordd y cyflwynwyd y cwestiwn.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am yr opsiwn ymateb 'Clyw' a sut roeddent yn ei ddeall. Ni ddewisodd un cyfranogwr y categori ymateb 'Clyw'. Nid oeddent yn cefnogi'r opsiwn hwn oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd yn berthnasol iddynt gan eu bod yn fyddar. Dewiswyd 'Clyw' gan y 3 arall. Yn yr un modd â'r cwestiynau amhariadau wedi'u cysoni, roedd un cyfranogwr yn dehongli bod 'Clyw' yn cyfeirio at "berson sy'n

clywed" i ddechrau ac ni fyddai wedi cymeradwyo'r categori. Arweiniodd presenoldeb y cyfwelydd at ddarllen yr opsiwn ymateb cyfan a gwylio'r fideo'n llawn. Wrth wneud hynny, sylweddolasant nad oedd eu dehongliad cychwynnol yn gywir. Pe na bai'r cyfwelydd wedi bod yn bresennol, dywedodd yr ymatebydd na fyddai wedi darllen na gwylio'r fideo y tu hwnt i "Clyw". Roedd cyfranogwr arall yn ansicr beth oedd yr ymadrodd 'deall synau o'm cwmpas' yn ei olygu. Roedd ganddynt "broblemau gyda synau cefndir" o bryd i'w gilydd ac roeddent yn cymeradwyo'r categori.

Er bod yr holl gyfranogwyr wedi ateb y cwestiwn, nid oedd 2 gyfranogwr yn hoffi bod y cwestiwn yn gofyn am 'amhariadau', gydag un o'r cyfranogwyr hyn yn dweud na fyddent yn llenwi holiadur a oedd yn defnyddio'r term hwn.

Gallai'r arwyddion ar gyfer yr ymadrodd 'gallai fynd a dod neu amrywio dros amser' fod yn gliriach, gydag un cyfranogwr yn awgrymu y dylai'r ymadrodd fod yn "fyny ac i lawr fel reid mewn ffair" yn hytrach nag arwyddo "wedi mynd, yna'n ôl, yna wedi mynd", er mwyn adlewyrchu'r adegau "uchel" ac "isel" yn gliriach.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa fersiwn o'r cwestiwn amhariadau oedd orau ganddynt. Roedd y safbwyntiau'n gymysg, gyda rhai'n ffafrio'r safon amhariadau wedi'i chysoni ac eraill yn ffafrio'r fersiwn wedi'i halinio â'r model cymdeithasol. Roedd un cyfranogwr o'r farn bod fersiwn y model cymdeithasol yn gliriach na'r safon wedi'i chysoni ond dywedodd nad oeddent yn hoffi'r naill fersiwn na'r llall oherwydd y termau a ddefnyddiwyd ('byddardod' a 'rhannol fyddar' yn y safon wedi'i chysoni, ac 'amhariad' yn y fersiwn wedi'i halinio â'r model cymdeithasol).

#### 4.8.2.3 Mynegi cwestiynau Saesneg mewn BSL

Roedd mwy nag un cyfranogwr yn gweld yr enghreifftiau o ystyr labeli'r categorïau amhariadau (er enghraifft, 'Deheurwydd') fel enghreifftiau cadarnhaol o allu, yn hytrach nag fel enghreifftiau o amhariad. Efallai fod hyn wedi deillio o'r ffordd y mae BSL wedi'i strwythuro. Mewn BSL nid yw'n anarferol ffurfio ystyr negyddol rhywbeth drwy ddatgan y cadarnhaol ac yna ei negyddu, er enghraifft 'cerdded i fyny'r bryn - ni allaf'. Nid yw'r strwythur hwn yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol a arweiniodd y ffordd y lluniwyd cwestiwn fersiwn 2. Mae'r model cymdeithasol yn symud oddi wrth ddweud beth y gall pobl ei wneud a beth na allant ei wneud, sy'n her ieithyddol i Iaith Arwyddion Prydain.

Yn ogystal, dangoswyd bôn y cwestiwn amhariadau ar wahân i bob categori ymateb i amhariad. Mae perygl y bydd diben y cwestiwn (sydd wedi'i gyfleu ym môn y cwestiwn) yn cael ei anghofio pan fydd y cyfranogwr yn edrych ar y categori ymateb. Mae'r gwahanu hwn yn creu baich gwybyddol ychwanegol mewn iaith weledol (BSL) pan gaiff ei gyflwyno yn y fformat hwn. Pe bai arwyddwr BSL byddar yn creu'r rhan hon o'r arolwg o'r newydd, ni fyddai o reidrwydd yn defnyddio'r strwythur hwn beth bynnag fo cynnwys y cwestiynau gan nad yw'n addas ar gyfer BSL.

#### 4.8.2.4 Cyflwyno geiriau anghyfarwydd yn ddwyieithog

Mae sillafu gyda bysedd yn ffordd o gyflwyno gair ysgrifenedig fel llythrennau'r wyddor wedi'u harwyddo gan ddefnyddio'r bysedd. Mae'n cael ei ddefnyddio weithiau fel ffordd o dynnu sylw at derm neu gysyniad yn Saesneg nad oes iddo derm cyfatebol uniongyrchol neu nad oes iddo derm cyfarwydd sy'n cael ei ddefnyddio mewn BSL. Er enghraifft, yn nyddiau cynnar pandemig Covid-19, cafodd y gair C-O-V-I-D ei sillafu â bysedd nes i arwydd penodol ddod i'r amlwg gan y gymuned BSL fyddar. Fodd bynnag, pan fydd ymatebydd yn gofyn am i air Saesneg gael ei sillafu â bysedd oherwydd nad yw'n siŵr beth yw'r arwydd ar gyfer y gair hwnnw, nid yw'n golygu y bydd yn deall y cysyniad y mae'r gair yn ei gynrychioli. Yn hytrach, gall arwain at gamddealltwriaeth pellach. Roedd y cwestiynau ffynhonnell (a ysgrifennwyd yn Saesneg) yn defnyddio termau fel 'Deheurwydd' a oedd yn cael eu cyfieithu'n gywir i Iaith Arwyddion Prydain ond a oedd yn anghyfarwydd i rai cyfranogwyr. Nid oedd sillafiad y termau hyn o reidrwydd yn gwella dealltwriaeth.

#### 4.8.2.5 Effaith hunaniaethau, a chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol

I bobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mae bod yn fyddar yn aml yn hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol, nid yn amhariad. Gwelwyd hyn yn glir yn yr enghraifft o'r cyfranogwr a fynegodd ansicrwydd ynghylch cymeradwyo'r categori 'Clyw' oherwydd o'i safbwynt ef mae'n "Fyddar".

Mae'r term 'clyw' yn gyffredinol hefyd yn cael ei ddeall yn fwy cyffredin o safbwynt rhywun byddar fel nod hunaniaeth, nid disgrifiad o gyflwr. O ganlyniad, gall gofyn cwestiwn i arwyddwr BSL byddar gyda 'Clyw' fel opsiwn ymateb fod yn ddryslyd pan gaiff ei weld drwy lens hunaniaeth. Roedd hynny'n wir am y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr.

Roedd y sefyllfa ddiwylliannol hon yn effeithio ar sut roedd cyfranogwyr yn penderfynu a oeddent am ddewis unrhyw un o'r categorïau amhariadau eraill a restrwyd. Er enghraifft, dewisodd un cyfranogwr yr opsiwn 'Gweld' yn y fersiwn sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol, oherwydd pe bai'n ystafell dywyll ni fyddai'n gallu gweld gwefusau nac arwyddo'n ddigon da i ddilyn a chymryd rhan mewn sgwrs. Nid oeddent yn ymateb i'r cwestiwn mewn perthynas â golwg fel agwedd ar amhariad, ond yn hytrach golwg aneglur fel rhwystr posibl i gyfathrebu. Dewisodd cyfranogwr arall y categori 'Golwg' yn y safon wedi'i chysoni oherwydd:

> "gall gwylio arwyddo neu gyfieithydd ar y teledu fod yn flinedig iawn yn weledol. Mae'n tynnu fy sylw ac nid ydw i'n gallu canolbwyntio. Nid yw fel pobl sy'n clywed sy'n dibynnu ar eu clustiau i wrando; rhaid inni wylio'n weledol. Rhaid inni hefyd yrru a dibynnu ar ein llygaid i gadw'n ddiogel, gan na allwn glywed. Felly mae ein llygaid yn dod yn gyfrifoldeb arnom ni. Mae'n flinedig".

Enghraifft arall oedd y penderfyniad i ddewis y categori ymateb 'Dysgu pethau newydd'. Dywedodd un cyfranogwr y gallai dehonglwyr BSL byddar gymeradwyo'r categori hwn oherwydd y rhwystrau i gyfathrebu, diffyg addasiadau i hoff ffyrdd pobl o ddysgu, diffyg mynediad mewn BSL, a chyrhaeddiad addysgol is yn aml ymysg arwyddwyr BSL byddar. Tynnwyd sylw at hyn yn ymatebion ymatebydd arall, a ddewisodd y categori ymateb safonol wedi'i gysoni, sef 'Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio':

> "...oherwydd dydw i ddim yn gallu deall pobl sy'n clywed pan fyddan nhw'n siarad. Pan fyddan nhw'n siarad, dydw i ddim yn deall a byddai angen cyfieithiad arna i. Mae llawer o rwystrau, yn enwedig yn fy mywyd i."

Mewn rhai achosion, effaith gwahanol hunaniaethau, a chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol ymhlith pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain oedd bod cyfranogwyr wedi colli'r hyn a oedd yn cael ei awgrymu, yn enwedig yn y fersiwn sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Roedd y cyfranogwyr yn dehongli'r opsiynau'n fwy pendant o safbwynt pobl fyddar. Er enghraifft, cafodd y categori 'Rhyngweithio â phobl eraill' ei ddylunio i gwmpasu pobl niwrowahanol. Fodd bynnag, mae rhyngweithio ag eraill yn fater sy'n ymwneud llawer mwy ag agwedd ymarferol cyfathrebu, ac felly'n fwy tebygol o gael ei dicio am y rheswm hwnnw. Fel y dywedodd un cyfranogwr ynghylch pam eu bod yn cymeradwyo'r categori: "Ie, gyda phobl sy'n clywed".

### 4.8.3 Canfyddiadau - cwestiynau rhwystrau

Cafodd y 2 gwestiwn rhwystrau ym mhrawf Panel NatCen (pecyn gwaith 6) eu profi'n wybyddol mewn BSL: roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn am brofiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd; roedd yr ail yn gofyn am y gwahanol fathau o rwystrau a brofwyd. Roedd y ddau gwestiwn yn gofyn i'r cyfranogwyr ystyried y 12 mis diwethaf wrth ateb.

#### 4.8.3.1 Profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd

Roedd y 4 cyfranogwr yn gallu ateb y cwestiwn am rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd. Dewisodd tri o'r cyfranogwyr 'ie' i'r 9 rhwystr a restrwyd. Mae'r darlun cyffredinol hwn o brofi rhwystrau ar draws llawer o feysydd bywyd yn cyd-fynd i raddau helaeth ag ymchwil gyfredol am bobl fyddar yn y DU a'r amrywiaeth o anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd y maent yn eu profi.

Roedd dealltwriaeth o'r cwestiwn yn ymddangos yn gymysg, gyda'r holl gyfranogwyr yn dweud eu bod yn meddwl am fyddardod wrth ateb. Er ei bod yn amlwg bod un cyfranogwr yn anhapus â'r cwestiwn, roedd yn deall ei fod yn gofyn am ei brofiad personol o rwystrau o safbwynt model cymdeithasol. Dywedodd un arall ei fod yn gofyn am "beth rydw i wedi bod yn mynd drwyddo yn ystod y 12 mis diwethaf".

Fel y gwelwyd gyda'r cwestiynau am amhariadau, roedd tystiolaeth bod mynegi'r cwestiwn Saesneg mewn BSL yn achosi problemau i rai. Dangoswyd bôn y

cwestiwn ar wahân i bob opsiwn ymateb, gan greu baich gwybyddol ychwanegol mewn iaith weledol pan gafodd ei gyflwyno yn y fformat hwn. I un cyfranogwr, roedd hyn yn effeithio ar ddehongli a dewis rhai o'r categorïau ymateb cynnar a restrwyd.

> "Mae hynny'n broblem fawr. Beth yw'r cwestiwn? Yr oedd yn gofyn imi'n syml. Waw, beth sy'n digwydd? Beth mae'r cwestiwn yn ei ofyn? Roedd yr opsiynau'n rhoi rhywfaint o eglurder, ond byddai'n well gen i pe bai'r cwestiwn yn egluro, er enghraifft, "Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cael unrhyw broblemau gyda chyfathrebu, mynediad, neu gymdeithas?" Byddwn yn deall hynny'n well. Roedd y cwestiwn yn rhy gryno o lawer a doedd dim cyd-destun iddo.
>
> "Mae angen mwy o gyd-destun arnaf. Arwyddodd y cwestiwn heb gyd-destun, ac nid oedd yn gwneud synnwyr i mi. Hoffwn iddo gael ei newid."

Ni ddywedodd yr un cyfranogwr eu bod yn gweld y cwestiwn yn hawdd ei ateb, gyda safbwyntiau naill ai'n gymysg neu'n gweld ei fod yn anodd. Roedd y rhesymau dros yr anhawster yn ymwneud â diffyg eglurder a'i natur ddryslyd. Ategwyd y safbwyntiau hyn gan y cais i ailadrodd fideos sawl gwaith.

Roedd y gofyniad ym môn y cwestiwn i ystyried y 12 mis diwethaf wrth ateb, wedi cyfrannu at yr anhawster i 3 cyfranogwr. Wedi dweud hynny, roedd yn amlwg bod cyfranogwyr yn ystyried y cyfnod cyfeirio hwn yn gywir wrth ddewis ymatebion.

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn gallu mynegi eu rhesymeg dros ddewis opsiynau, ac roedd y cyfiawnhad yn cyfateb i'r ymatebion a ddewiswyd. Roedd rhai materion penodol yn ymwneud â'r cwestiwn am rwystrau a brofwyd mewn gwahanol feysydd bywyd.

- Soniodd un cyfranogwr am faterion yn ymwneud â hyfforddiant staff wrth egluro pam ei fod wedi dewis yr opsiwn ymateb 'Addysg a hyfforddiant'. Dylai hyn fod wedi dod o dan yr ymateb 'Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith'.

- Roedd yr unig gyfranogwr na ddewisodd 'Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad oedd yn cefnogi fy anghenion' yn hunangyflogedig. Nid yw'n glir a oedd y cyfranogwr yn credu nad oedd yr ymateb yn berthnasol iddo neu a oedd yn ymwybodol ei fod yn berthnasol iddo ond nad oedd yn wynebu rhwystrau yn y maes hwn.

- Gallai llawer o'r ymatebion 'Arall' a gofnodwyd fod wedi cael eu hôl-godio'n gategorïau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Er enghraifft, roedd "addysg i oedolion" yn dod o dan 'Addysg a hyfforddiant' a gallai "cyfleoedd i wirfoddoli, a chymryd rhan mewn clybiau cymunedol" fod wedi cael eu cofnodi o dan y pennawd 'Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol'.

Roedd un cyfranogwr yn gwrthwynebu i'r cwestiwn gael ei ofyn mewn egwyddor ac yn cwestiynu gwerth y data a gasglwyd.

> “...Ond nid yw’r model cymdeithasol o anabledd yn esbonio’r unigolyn o hyd. Mae’n canolbwyntio ar broblemau fel rhwystrau, er enghraifft, gofal iechyd ddim yn cefnogi fy anghenion, apwyntiadau, diffygion cyfathrebu. Y rheswm am y broblem yw hynny, ond nid yw’n fy nghydnabod o hyd fel person ag amrywiaeth, iaith a diwylliant. Mae’r rhan honno ar goll.”

Roedd barn pobl eraill am dderbynioldeb yn tueddu i gael ei disgrifio yn nhermau gwelliannau yr oedd angen eu gwneud i’r cwestiwn.

> “...Mae angen newid y fideo cyntaf.... Rwy’n credu, pe baem yn newid y cwestiwn cyntaf i fod yn gliriach ac i roi cyd-destun, y byddwn yn deall yr opsiynau’n gliriach o’r dechrau.”
>
> Rwy’n teimlo y dylid cael mwy o enghreifftiau neu fwy o fanylion. Rwy’n credu y dylai’r prif gwestiwn roi’r opsiynau’n fyr, ac yna gallwn ehangu’r opsiynau hyn gydag enghreifftiau pellach.”

Awgrym arall, mwy penodol, oedd defnyddio disgrifiad llai ffurfiol ar gyfer ‘Addysg a hyfforddiant’.

Roedd yr unig fater cyfieithu a godwyd yn ymwneud â’r arwydd ar gyfer y gair ‘hyfforddiant’, gydag un cyfranogwr yn anghyfarwydd ag ef.

#### 4.8.3.2 Profiad o wahanol fathau o rwystrau

Roedd y 4 cyfranogwr yn gallu ateb y cwestiwn ar y mathau o rwystrau roeddent wedi’u hwynebu yn ystod y 12 mis blaenorol, gyda nifer yr ymatebion a ddewiswyd yn amrywio rhwng 3 a 5. Dywedodd yr holl gyfranogwyr eu bod wedi profi rhwystrau cyfathrebu, agweddol a sefydliadol.

Roedd yn ymddangos bod y cyfranogwyr i gyd yn deall bod y cwestiwn yn gofyn am rwystrau a brofwyd fel arwyddwr BSL byddar, hyd yn oed os oedd eu barn am ba mor hawdd oedd ateb y cwestiwn yn gymysg.

> “Mae’r geiriau’n dda ac rwy’n eu deall. Nid oes unrhyw eiriau anodd na chymhleth”. Mae’r iaith yn syml. Mae gen i ddyslecsia, felly mae darllen yn anodd i mi, ond roeddwn i’n ei ddeall ar unwaith. Pe bai’r testun yn rhy hir, byddwn yn cael anawsterau. Mae’n ddigon da ac mae’n gryno.”

Disgrifiodd un cyfranogwr y cwestiwn fel un hawdd ei ateb, tra dywedodd pawb arall ei fod yn anodd. Yn yr un modd â fersiwn 1, achosodd y cwestiwn ddryswch a barnwyd ei fod yn rhy fyr ac nad oedd yn eglur. Roedd yn ymddangos bod hyn yn bennaf oherwydd y ffordd y gofynnwyd y cwestiwn mewn BSL. Mae dangos bôn y cwestiwn ar wahân i bob math o rwystr yn cynyddu’r baich gwybyddol mewn iaith weledol. I un cyfranogwr, parhaodd y dryswch i ddehongli’r opsiynau ymateb cyntaf, cyn i bwrpas bwriadedig y cwestiwn ddod yn glir.

Mynegodd cyfranogwr arall ansicrwydd ynghylch a oeddent i fod i feddwl am eu cyflwr wrth ateb.

> "Dylai ychwanegu mwy o gyd-destun a bod yn fwy disgrifiadol. A yw'n gysylltiedig â'm cyflwr? Rwy'n teimlo ei fod yn fyr iawn ac nid yw'n esbonio beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd."
>
> "Nid yw'n glir...?"

Yn yr un modd â'r cwestiwn rhwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd, roedd pryderon ynghylch y gofyniad yn y cwestiwn i ystyried cyfnod o 12 mis. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar allu cyfranogwyr i ddehongli ac ateb y cwestiwn.

Ar wahân i fôn y cwestiwn, mynegwyd materion yn ymwneud â'r opsiynau ymateb hefyd. Roedd un cyfranogwr yn disgwyl gweld 'iaith' ochr yn ochr â 'Gwybodaeth a chyfathrebu'. Yn hytrach, fe wnaeth ei gofnodi o dan 'Arall'. Gallai'r dryswch hwn godi gan ei bod yn nodweddiadol mewn BSL i gyflwyno iaith a chyfathrebu gyda'i gilydd. Mae hyn er mwyn adlewyrchu hawliau ieithyddol sylfaenol a digonolrwydd ac ansawdd cyfathrebu.

> "Ble mae iaith? Mae iaith ar goll."

Teimlai un cyfranogwr y dylid crybwyll goleuadau llachar ac anhawster gweld drwy ffenestri yn 'Adeiladau a mannau'. Mae hyn yn flaenoriaeth i bobl sy'n defnyddio iaith weledol. Roedd un arall yn ystyried gorfod gofyn am gapsiynau wrth wylio pethau'n gyhoeddus.

Roedd llawer o'r ymatebion 'Arall' a ddarparwyd yn dod o dan gategorïau a oedd eisoes wedi'u diffinio ymlaen llaw. Er enghraifft:

- Mae "hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael i bobl Fyddar" yn dod o dan 'Gwybodaeth a chyfathrebu', fel y mae "iaith".
- Mae "diffyg newid yn y lwfans i fyfyrwyr anabl (DSA) dros y blynyddoedd" yn dod o dan 'Rheolau, polisïau ac arferion'

Fel y trafodwyd uchod, cwestiynodd y cyfranogwyr y cyfnod cyfeirio o 12 mis. Roedd consensws hefyd bod pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn wynebu rhwystrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn ac yn aml yn ystod y cyfnod hwnnw. Er nad oedd cyfranogwyr wedi nodi'n benodol eu bod yn teimlo bod y cyfnod cyfeirio'n annerbyniol, mae lle i ymchwilio ymhellach i'r cyfyngiad o 12 mis. Os oes barn eang ymysg pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain nad oedd hyn yn adlewyrchu eu profiadau'n gywir, mae gan hyn y potensial i ddylanwadu ar safbwyntiau ynghylch derbynioldeb a pharodrwydd i ateb.

> "...nid yn ystod y 12 mis diwethaf yn unig. Mae hanes rhwystrau ar goll hefyd. Mae'r cyfnod o 12 mis yn rhy fyr. Mae'r effeithiau'n mynd ymhell y tu hwnt i 12

> mis. Nid yw hon yn stori newydd; mae’n hen stori sy’n ymestyn yn bellach o lawer yn ôl.“

Roedd y newidiadau a argymhellwyd yn ymwneud yn bennaf â gwella bôn y cwestiwn drwy gyd-destun ychwanegol a gwneud y cysylltiad â chyflyrau yn fwy amlwg:

> “Dylai’r cwestiwn ddweud, “Byddwn yn dangos yr opsiynau i chi. Dyma’r opsiynau, hyn a hyn... Pa rai o’r rhain ydych chi wedi’u profi yn ystod y 12 mis diwethaf?”

> “Dylai ychwanegu mwy o gyd-destun a bod yn fwy disgrifiadol. A yw’n gysylltiedig â’m cyflwr?”

#### 4.8.3.3 Materion ynghylch gofyn a chyfieithu'r cwestiynau

Rhoddodd cyfranogwyr rywfaint o adborth cyffredinol a phenodol yn ymwneud ag arwyddo a gofyn y cwestiynau; er enghraifft, yn yr opsiwn ymateb ‘Rheolau, polisïau ac arferion’, arwyddwyd ‘gwleidyddiaeth’ yn anghywir yn lle ‘polisïau’. Hefyd, nid oedd un cyfranogwr yn hoffi’r cydbwysedd roedd yr arwyddwr yn ei geisio rhwng sicrhau niwtraliaeth mynegiant a chadw elfennau gramadegol gofynnol mynegiant yr wyneb. Fodd bynnag, roedd yr arwyddo yn gywir ar gyfer y cyd-destun hwn.

Mae’n bwysig cydnabod y gall arwyddwr BSL byddar brofi’r rhwystrau a restrir am resymau sy’n wahanol i bobl eraill. Mae’r canfyddiadau’n awgrymu bod yna ddehongliadau penodol o ystyr a goblygiadau rhai rhwystrau i bobl fyddar sy’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain na fyddent yn croesi meddwl pobl eraill.

Roedd y naratif yn aml yn ymwneud â’r ffaith nad oedd gofynion cyfathrebu pobl fyddar sy’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn cael eu bodloni. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr:

> “Mae iaith ar goll. Adeilad a mannau: ddim yn addas. Ond does dim byd am bethau fel goleuadau llachar. Mae sôn am olau, ond ffenestri hefyd. Er enghraifft, mewn gwaith swyddfa neu gyfarfodydd, gall ffenestri llachar fod yn broblem, neu os oes rhywun yn curo ar y drws y tu ôl i chi, ni allwch glywed. Teimlaf bod yr enghreifftiau hyn ar goll. Mae’n anodd gweld y ffenestr oherwydd adlewyrchiadau. Yr un fath wrth archebu tocynnau trên, goruchwylwyr trenau ac ati. Allwch chi ddim gweld drwy’r ffenestr mewn gwirionedd. Dim ond pethau untro mae’r enghreifftiau’n eu hystyried, fel ramp, ond mae mwy. Mae llawer mwy o enghreifftiau i’w gweld mewn adeiladau.“

Cyflwynodd cyfranogwr arall set wahanol o enghreifftiau. Unwaith eto, sut bynnag y cânt eu diffinio, profir rhwystrau oherwydd eu cysylltiad â chyfathrebu ac iaith yn bennaf, hyd yn oed y rheini y gellid eu hystyried yn rwystrau ffisegol:

“Adeiladau a mannau: Does dim arwyddion, dehonglwyr na chapsiynau lle bynnag rydw i’n mynd. Byddwn yn gofyn i rywun roi capsiynau ymlaen os wyf yn gwylio rhywbeth yn gyhoeddus, felly mae’n rhwystr. Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill: Ydyn, maen nhw’n siarad â mi. Byddwn yn dweud wrthynt fy mod yn Fyddar. Gallwn i eu helpu, ond bydden nhw’n rhoi’r ffidil yn y to ac yn gofyn i rywun arall oherwydd fy mod i’n Fyddar. Felly ie. Rheolau, polisïau ac arferion: Cant y cant. Nid oes digon o ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff o hyd. Mae angen mwy o ymwybyddiaeth arnom. Mae problem hefyd gyda throsiant staff, felly gwelwn staff newydd nad ydynt yn gwybod dim am bobl Fyddar nac ymwybyddiaeth o Fyddardod. Er enghraifft, yn fy meddygfa, teimlais agwedd amhriodol am ofyn iddynt ychwanegu trydydd cadair ar gyfer y dehonglydd. Mae angen gwella hynny. Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o archebu dehonglwyr. Gallen nhw archebu drwy sefydliad, ac nid yw rhai ohonyn nhw’n gwybod hynny.“

# 5. Cam alffa - pecyn gwaith 6: prawf maes meintiol

Cyflwynir canfyddiadau pecyn gwaith 6, pecyn gwaith terfynol y cam alffa, yn yr adran hon. Roedd pecyn gwaith 6 yn brawf maes meintiol o fersiynau diwygiedig o gwestiynau'r arolwg a brofwyd yn wybyddol. Cafodd cwestiynau'r arolwg eu cynnwys ym Mhanel tebygolrwydd ar hap NatCen (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Panel) i gynhyrchu data meintiol ar sut mae'r cwestiynau'n perfformio mewn arolwg ffôn ar y we ar gyfer y boblogaeth gyffredinol. Dilynir nodau penodol y pecyn gwaith hwn gan adran dulliau sy'n amlinellu prif nodweddion y Panel. Cyflwynir y canfyddiadau'n fanwl o dan 3 phennawd: deall amhariadau, deall rhwystrau, a mesur cyffredinrwydd pobl anabl.

## 5.1 Nodau

Nodau cytunedig pecyn gwaith 6 oedd:

- casglu amcangyfrifon o gyffredinrwydd pobl anabl sy'n oedolion, gan ddefnyddio cwestiynau arolwg y model cymdeithasol sydd newydd gael eu datblygu: y cwestiwn diwygiedig am amhariadau a phob un o'r cwestiynau newydd am rwystrau
- cymharu ymatebion oedolion i gwestiynau'r model cymdeithasol sydd newydd eu datblygu â data o safonau cyfredol wedi'u cysoni
- casglu adborth gan gyfranogwyr ar y cwestiynau model cymdeithasol sydd newydd eu datblygu, yng nghyd-destun y boblogaeth gyffredinol

Dim ond fersiynau oedolion o gwestiynau'r arolwg oedd wedi'u cynnwys yn y Panel, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gan nad oedd yn bosibl cymryd rhan yn y Panel mewn fformat hawdd ei ddeall nac Iaith Arwyddion Prydain, nid oedd y fersiynau hyn o gwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn y prawf maes. Er bod y Panel yn cynnwys canran sylweddol o rieni, cytunwyd â Llywodraeth Cymru na fyddai fersiynau rhieni o'r cwestiynau'n cael eu profi ym mhecyn gwaith 6, gan y byddai'n rhy feichus gofyn i gyfranogwyr ateb y ddau fersiwn - y fersiynau i oedolion a rhieni - o'r cwestiynau. Fel arall, byddai gofyn iddynt ateb y fersiynau rhieni o'r cwestiynau yn unig yn lleihau'n sylweddol y sampl o gyfranogwyr sy'n ymateb i'r fersiynau oedolion. Byddai hyn yn lleihau potensial dadansoddol yn sylweddol a'r gallu i ddod i gasgliadau ystyrlon o'r data.

## 5.2 Dulliau

Cynhaliwyd y prawf maes meintiol yn nhon Tachwedd 2025 y Panel. Disgrifir prif nodweddion y Panel yma, a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad G.

### 5.2.1 Samplo

Ar gyfer yr astudiaeth hon, roedd holl aelodau'r panel 'gweithredol' 16 oed a hŷn a recriwtiwyd o arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain a'r Astudiaeth Niwed i Ddefnyddwyr yn gymwys i gael eu gwahodd. Dewiswyd is-sampl ar hap o 4,383, gan gynnal y dyluniad sy'n seiliedig ar debygolrwydd. Cafodd tebygolrwydd dethol ei addasu drwy samplu yn gymesur â phwysoliadau, gan adlewyrchu i ba raddau roedd nodweddion aelodau'r panel yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli ar y panel cymwys. Nod hyn oedd gwella pa mor gynrychioliadol oedd y sampl a gyhoeddwyd gymaint â phosibl.

Roedd ton Tachwedd 2025 y Panel yn cynnwys hwb o 750 o aelodau panel a oedd yn byw yng Nghymru. O ganlyniad, dewiswyd 896 o aelodau panel yng Nghymru i gymryd rhan. Cymharwyd canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n byw yng Nghymru â'r rhai sy'n byw mewn mannau eraill ym Mhrydain i wirio am unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y ffordd yr atebwyd y cwestiynau.

### 5.2.2 Gwaith maes

Roedd y gwaith maes yn dilyn dyluniad dull cymysg dilyniannol. Gwahoddwyd aelodau'r panel i gymryd rhan yn yr ymchwil ar-lein i ddechrau. Os na chafwyd ymateb o fewn pythefnos, cysylltodd Uned Ffôn NatCen â nhw, os oedd rhifau ffôn ar gael.

Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 13 Tachwedd a 14 Rhagfyr 2025. Cwblhaodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yr arolwg yn ystod yr wythnos gyntaf. Roedd yr amserlen o fis yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle i gymryd rhan, yn hytrach na dim ond y rheini a oedd ar gael ar unwaith.

Cafwyd cyfradd ymateb o 57%, a chynhaliwyd cyfanswm o 2,507 o gyfweliadau. O'r rhain, cyfweliadau ar y we oedd y mwyafrif llethol (2,361) a nifer fach o gyfweliadau dros y ffôn (146).

### 5.2.3 Cynnwys yr arolwg

Roedd cyfranogwyr yn gallu dewis a oeddent am gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Roedd 10 o gyfranogwyr wedi llenwi'r arolwg yn Gymraeg; roedd 9 o'r rhain yn byw yng Nghymru ac un yn Lloegr.

Roedd y modiwl yn cynnwys 2 'set' o gwestiynau ynghyd â chwestiwn ôl-drafod i gyfranogwyr:

- set 1 - safonau wedi'u cysoni: yn cynnwys safonau presennol GSS wedi'u cysoni ar gyfer cyflyrau iechyd a salwch hirdymor a chyfyngu ar weithgarwch, yn ogystal â safon amhariadau wedi'i chysoni GSS

- set 2 - model cymdeithasol: yn cynnwys fersiwn diwygiedig o'r safon amhariadau wedi'i chysoni, un cwestiwn ar rwystrau a brofir mewn gwahanol feysydd bywyd, ac un cwestiwn ar y mathau o rwystrau a brofir

Gofynnwyd pob cwestiwn yn y modiwl i'r holl gyfranogwyr, yn unol â'r cyfarwyddiadau llwybro. Er mwyn rheoli unrhyw effeithiau cychwynnol, ymgorfforwyd yr ymarferion hap-ddethol canlynol yn nyluniad yr astudiaeth:

- gofynnwyd 'set 1 - safonau wedi'u cysoni' i hanner y sampl, ac yna 'set 2 - model cymdeithasol', a gofynnwyd i'r hanner arall yr un ddwy set yn y drefn groes
- cyflwynwyd neu darllenwyd i hanner y sampl y rhestr o ddewisiadau ymateb gyda'r ymatebion 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio ateb' wedi'u cynnwys; dim ond os oedd cyfranogwyr yn yr hanner arall yn ceisio bwrw ymlaen heibio i gwestiwn heb ei ateb yr oedd yr ymatebion hyn yn weladwy neu'n cael eu cynnig iddynt
- roedd y drefn yr ymddangosodd opsiynau ymateb yn y rhestr wedi'i hap-ddethol yn 'set 2 - model cymdeithasol' ar gyfer y cwestiwn amhariadau a'r cwestiwn ar brofi rhwystrau mewn gwahanol barthau bywyd

Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau a gyflwynir ac a drafodir yma yn seiliedig ar y sampl cyfun llawn.

#### 5.2.4 Dadansoddiad

Cynhaliwyd dadansoddiad disgrifiadol a deunewidiol yn SPSS, a phrofwyd pob gwahaniaeth am eu harwyddocâd ystadegol. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ddata wedi'i bwysoli oni nodir yn wahanol.

Yn unol â'r arfer safonol mewn arolygon cymdeithasol yn y DU, adolygwyd yr holl ymatebion 'Arall' ysgrifenedig a, lle bo angen, eu hôl-godio i'r opsiwn ymateb rhestredig priodol cyn dadansoddi.

## 5.3 Canfyddiadau

#### 5.3.1 Deall amhariadau

Roedd y Panel yn cynnwys 2 gwestiwn arolwg ar amhariadau. Cafodd fersiwn safonol cyfredol y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS ei gynnwys, ynghyd â fersiwn ddiwygiedig o'r cwestiwn a oedd yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Mae Adran 3.2 yn cynnwys golwg gyffredinol ar y broses o ddylunio cwestiynau ar gyfer datblygu'r fersiwn sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Darperir canfyddiadau profion gwybyddol a gwelliannau dilynol yn Adrannau 4.5 a 4.7.1.

Yn y dadansoddiad disgrifiadol a deunewidiol a gynhaliwyd ar ddwy fersiwn y cwestiwn, archwiliwyd patrymau ymateb yn systematig am unrhyw anghysondebau

neu ragfarnau. Ar gyfer y safon amhariadau wedi'i chysoni, aseswyd cywirdeb a chysondeb ymhellach drwy gymharu â ffynhonnell allanol (Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS)). Dadansoddwyd cyfraddau'r ymatebion 'Arall' a'r diffyg ymatebion hefyd i weld a oedd problemau posibl o ran dylunio cwestiynau neu ymgysylltu â chyfranogwyr. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn seiliedig ar ddata cyn ôl-godio, oni nodir yn wahanol. Mae disgrifiadau tabl yn dangos a yw'r ffigurau a gyflwynir yn seiliedig ar ddata wedi'i bwysoli neu heb ei bwysoli.

#### 5.3.1.1 Mesur amhariadau gan ddefnyddio'r cwestiwn GSS wedi'i gysoni

Gofynnwyd cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS i'r cyfranogwyr a ymatebodd "ie" i'r cwestiwn am gyflyrau iechyd a salwch hirdymor. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, ni chafodd 'Dim un o'r uchod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' ('Gwrthod' yn y fersiwn GSS) eu cyflwyno ymlaen llaw. Gellid eu dewis gan gyfranogwyr a geisiodd symud ymlaen heibio'r cwestiwn heb ei ateb, neu gan gyfranogwyr dros y ffôn a soniodd yn ddigymell am y naill ymateb neu'r llall wrth gyfwelydd.

Gan ddefnyddio'r cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni, dywedodd tua thraean (35%) o'r cyfranogwyr fod ganddynt un neu fwy o amhariadau. Cyflwynir y mathau o amhariadau a gofnodwyd yn Nhabl 1. Cyflwynir canlyniadau ar gyfer pawb y gofynnwyd y cwestiwn iddynt (h.y. y rheini sydd â salwch neu gyflwr iechyd hirdymor), a'r rheini a oedd hefyd yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd (cyfranogwyr sydd â salwch neu gyflwr iechyd hirdymor, ac roedd eu gweithgarwch wedi'i gyfyngu 'llawer' neu 'ychydig').

Yn seiliedig ar y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni, y mathau mwyaf cyffredin o amhariadau oedd 'Symudedd' (47%) ac 'Iechyd meddwl' (46%). Roedd 'Stamina, anadlu a blinder' (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Stamina') hefyd yn cael ei adrodd yn gyffredin (38%). Cafodd yr opsiwn ymateb 'Arall' ei ddewis gan 9%. Roedd diffyg ymateb ('Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb', gyda'i gilydd) ar gyfer y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni yn 0.5%.

**Tabl 1: Cyfran y mathau o amhariadau gan ddefnyddio cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS, ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr a oedd yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd [nodyn 1]**

| Math o amhariad wedi'i gysoni GSS | Yr holl gyfranogwyr (%) [nodyn 2] | Cyfranogwyr anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) (%) |
|---|---:|---:|
| Golwg | 8 | 9 |
| Clyw | 16 | 16 |
| Symudedd | 39 | 47 |

| Math o amhariad wedi'i gysoni GSS | Yr holl gyfranogwyr (%) [nodyn 2] | Cyfranogwyr anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) (%) |
|---|---|---|
| Deheurwydd | 21 | 25 |
| Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio | 17 | 20 |
| Cof | 19 | 22 |
| Iechyd meddwl | 43 | 46 |
| Stamina neu anadlu neu flinder | 35 | 38 |
| Cymdeithasol neu ymddygiadol | 18 | 21 |
| Arall | 10 | 9 |
| Dim un o'r rhain [Nodyn 3] | 7 | 2 |
| Ddim yn gwybod [Nodyn 3] | 0.3 | 0.3 |
| Mae'n well gen i beidio ateb [Nodyn 3] | 0.1 | 0.2 |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **950** | **773** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl yn dangos bod cyfran y bobl anabl (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a adroddodd am bob un o'r 9 math o amhariad yn uwch nag ar gyfer yr holl gyfranogwyr y gofynnwyd y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni iddynt.

[Nodyn 1] Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bawb a ddywedodd 'ie' i'r safon wedi'i chysoni ar gyfer cyflyrau iechyd a salwch hirdymor.

[Nodyn 2] Mae 'Pob cyfranogwr' yn cyfeirio at y rhai y gofynnwyd cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS, ar ôl ateb 'ydw' i'r cwestiwn am gyflyrau iechyd a salwch hirdymor. Mae cyfanswm y colofnau'n fwy na 100% oherwydd gall cyfranogwyr nodi mwy nag un amhariad.

[Nodyn 3] Roedd 'Dim un o'r rhain', 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' i gyd yn ddewisiadau ymateb cudd.

Un o fanteision defnyddio cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS yw ei bod yn bosibl cymharu canfyddiadau'r Panel â data sydd eisoes wedi'i gyhoeddi. Roedd data diweddar o Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) 2023 i 2024 yn seiliedig ar sampl poblogaeth gwahanol ac yn defnyddio gwahanol ddulliau casglu data, sy'n golygu y

dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cymariaethau uniongyrchol. Wedi dweud hynny, mae'n dal yn rhesymol rhagweld y byddai'r canfyddiadau am amhariadau o'r ddwy ffynhonnell yn eithaf tebyg. 'Symudedd', 'Iechyd meddwl' a 'Stamina' oedd y 3 amhariad mwyaf cyffredin a gofnodwyd gan bobl anabl ar y Panel a'r FRS, gyda chyfrannau tebyg wedi'u cofnodi (Tabl 2).

**Tabl 2: Cyfran y cyfranogwyr gyda phob math o amhariadau wedi'u cysoni GSS - cymharu Panel NatCen (2025) a'r FRS (2023 i 2024) [nodyn 1]**

| **Math o amhariad wedi'i gysoni GSS** | **Yr holl gyfranogwyr anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb)** **Panel NatCen (%) [nodyn 2, 3]** | **Yr holl gyfranogwyr anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb)** **FRS (%)** **[nodyn 4]** |
|---|---:|---:|
| Golwg | 9 | 13 |
| Clyw | 16 | 13 |
| Symudedd | 47 | 48 |
| Deheurwydd | 25 | 25 |
| Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio | 20 | 16 |
| Cof | 22 | 17 |
| Iechyd meddwl | 46 | 48 |
| Stamina neu anadlu neu flinder | 38 | 36 |
| Cymdeithasol neu ymddygiadol | 21 | 15 |
| Arall | 9 | 17 |
| Dim | 2 | x |
| Ddim yn gwybod | 0.3 | x |
| Mae'n well gen i beidio ateb | 0.2 | x |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **950** | **9,686** [nodyn 1] |

Disgrifiad o'r tabl: Mae’r tabl yn dangos bod cyfran y bobl anabl (fel y’u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a adroddodd am bob un o’r 9 math yn debyg ymysg cyfranogwyr Panel NatCen a’r Arolwg o Adnoddau Teulu. Nid yw canlyniadau rhai opsiynau ymateb wedi’u cynnwys ar gyfer cyfranogwyr yr Arolwg o Adnoddau Teulu.

[Nodyn 1] Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Arolwg o Adnoddau Teulu: blwyddyn ariannol 2023 i 2024, tabl anabledd 4.5b. Mae data’r FRS yn seiliedig ar sampl o 9,686. Nid yw’r ffynhonnell yn disgrifio a yw hwn yn ddata wedi’i bwysoli neu heb ei bwysoli.

[Nodyn 2] Mae cyfanswm y colofnau’n fwy na 100% oherwydd gall cyfranogwyr nodi mwy nag un amhariad.

[Nodyn 3] Roedd ‘Dim un o’r rhain’, ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ i gyd yn ddewisiadau ymateb cudd.

[Nodyn 4] Mae ‘x’ yn dynodi lle nad oedd data ar gael.

#### 5.3.1.2 Dull model cymdeithasol o fesur amhariadau

Yn wahanol i fersiwn safonol y cwestiwn amhariadau wedi’i gysoni sy’n cael ei ddefnyddio dim ond pan fydd ymatebydd wedi dweud “oes”, mae ganddo gyflwr meddygol presennol, drwy ddefnyddio’r cwestiwn cyflyrau iechyd a salwch hirdymor, gofynnwyd cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol i’r holl gyfranogwyr. Gofynnwyd iddynt ym mha un o’r meysydd a restrwyd yr oedd cyflyrau neu amhariadau hirdymor yn effeithio arnynt. Roedd bôn y cwestiwn yn cynghori cyfranogwyr i gynnwys unrhyw rai a allai fynd a dod neu amrywio dros amser, ac i ddewis yr holl opsiynau a oedd yn berthnasol. Roedd yna opsiwn ‘Dim o’r uchod’ penodol, tra bod ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ wedi cael eu rhestru neu eu darllen ar gyfer hanner y sampl ar hap a’u cuddio ar gyfer yr hanner arall. Ar gyfer yr hanner olaf, gellid dewis yr opsiynau hyn pe bai cyfranogwr yn ceisio symud ymlaen heibio’r cwestiwn heb ei ateb neu’n sôn am hynny yn ddigymell wrth y cyfwelydd dros y ffôn.

Roedd gan dros hanner (57%) yr holl gyfranogwyr un amhariad neu fwy o dan fersiwn model cymdeithasol y cwestiwn. Yn Nhabl 3, cyflwynir y mathau o amhariadau a gofnodwyd ar wahân ar gyfer yr holl gyfranogwyr, ac ar gyfer y rhai a ddosbarthwyd yn anabl yn ôl diffiniadau’r model cymdeithasol:

- model cymdeithasol 1 (SMD1): un neu fwy o amhariadau wedi’u cofnodi, ac wedi profi rhwystrau mewn un neu fwy o opsiynau ‘meysydd bywyd’
- model cymdeithasol 2 (SMD2): un neu fwy o amhariadau wedi’u cofnodi, ac wedi profi un neu fwy o’r opsiynau ‘mathau o rwystrau’

Ar gyfer yr holl gyfranogwyr, y mathau mwyaf cyffredin o amhariadau gan ddefnyddio’r cwestiwn model cymdeithasol oedd: ‘Bod mewn poen neu’n anghysur’

(25%), ‘Iechyd meddwl’ (22%), ‘Rheoli lefelau egni neu anadlu’ (20%), a ‘Cofio neu ganolbwyntio’ (20%). Dywedodd 43% nad oedd ganddynt unrhyw un o’r amhariadau a restrwyd, dywedodd 2% fod ganddynt amhariad yn yr opsiwn ymateb ‘Arall’, ac roedd diffyg ymateb (‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ gyda’i gilydd) yn isel ar 0.1%.

Mae data cyhoeddedig gan ddefnyddio fersiwn safonol cwestiwn amhariadau wedi’i gysoni GSS yn tueddu i ganolbwyntio ar bobl anabl, wedi’i gyfeirio o’r cwestiwn am gyflyrau iechyd a salwch hirdymor. Er mwyn gallu cymharu, mae Tabl 3 yn cyflwyno ffigurau ar gyfer yr holl gyfranogwyr a’r rheini sydd wedi’u dosbarthu’n anabl yn ôl diffiniadau’r model cymdeithasol ar gyfer SMD1 a SMD2.

Waeth beth fo diffiniad y model cymdeithasol o anabledd a ddefnyddiwyd, roedd yr amhariadau a adroddwyd yn debyg. Yr amhariadau a adroddwyd amlaf oedd ‘Iechyd meddwl’ (50% ar gyfer SMD1, a 53% ar gyfer SMD2) a ‘Bod mewn poen neu anghysur’ ( 49% ar gyfer SMD1, a 52% ar gyfer SMD2). Roedd cyfran y cyfranogwyr anabl a ddywedodd fod ganddynt amhariadau yn ymwneud â ‘Rheoli lefelau egni neu anadlu’ a ‘Cofio neu ganolbwyntio’ hefyd yn uchel. Y mathau hyn o amhariadau a adroddwyd amlaf ar gyfer yr holl gyfranogwyr.

**Tabl 3: Cyfran y mathau o amhariadau gan ddefnyddio cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol, ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr a oedd yn bodloni 2 ddiffiniad y model cymdeithasol o anabledd**

| Math o amhariad | Yr holl gyfranogwyr (%) [nodyn 1] | Cyfranogwyr anabl yn ôl diffiniad SMD1 (%) [nodyn 2] | Cyfranogwyr anabl yn ôl diffiniad SMD2 (%) [nodyn 2] |
|---|---:|---:|---:|
| Gweld | 9 | 15 | 16 |
| Clywed | 15 | 26 | 25 |
| Symud o gwmpas | 15 | 32 | 32 |
| Defnyddio dwylo neu fysedd | 8 | 17 | 18 |
| Dysgu pethau newydd | 9 | 23 | 25 |
| Cofio neu ganolbwyntio | 20 | 44 | 47 |
| Iechyd meddwl | 22 | 50 | 53 |
| Rheoli lefelau egni neu anadlu | 20 | 44 | 45 |
| Rhyngweithio â phobl eraill | 16 | 38 | 39 |

| Math o amhariad | Yr holl gyfranogwyr (%) [nodyn 1] | Cyfranogwyr anabl yn ôl diffiniad SMD1 (%) [nodyn 2] | Cyfranogwyr anabl yn ôl diffiniad SMD2 (%) [nodyn 2] |
|---|---|---|---|
| Bod mewn poen neu anghysur | 25 | 49 | 52 |
| Prosesu synhwyraidd | 9 | 24 | 25 |
| Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif | 10 | 23 | 22 |
| Arall | 2 | 4 | 4 |
| Dim un o'r rhain | 43 | z | z |
| Ddim yn gwybod [nodyn 3] | 0.0 | z | z |
| Mae’n well gen i beidio ateb [nodyn 3] | 0.1 | z | z |
| **Sail wedi’i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **686** | **706** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae’r tabl yn dangos bod cyfran y bobl anabl (diffiniadau wedi’u halinio â’r model cymdeithasol) a nododd bob un o’r 12 math o amhariadau yn uwch nag ar gyfer pob cyfranogwr.

[Nodyn 1] Mae cyfanswm y colofnau’n fwy na 100% oherwydd gall cyfranogwyr nodi mwy nag un amhariad.

[Nodyn 2] Mae rhai celloedd yn ‘z’ oherwydd er mwyn bod yn anabl, roedd angen amhariad ar gyfer ‘wedi alinio â’r model cymdeithasol’.

[Nodyn 3] Roedd 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio ateb' i'w gweld ynghyd ag opsiynau ymateb eraill ar gyfer hanner y sampl ar hap. Cafodd yr opsiynau hyn eu cuddio ar gyfer yr hanner arall.

#### 5.3.1.3 Cymharu gwahanol ddulliau o fesur mathau o amhariadau

Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar archwilio cysondebau a gwahaniaethau rhwng y cwestiwn amhariadau wedi’i gysoni a fersiwn model cymdeithasol y cwestiwn. Cymharwyd dosbarthiad yr ymatebion lle bo modd, yn ogystal â’r ymatebion ‘Arall’, a’r diffyg ymatebion - ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ gyda’i gilydd.

Y cyntaf o sawl ffactor a ystyriwyd oedd y gwahanol nifer o opsiynau ymateb a ddefnyddiwyd yn y 2 fersiwn wahanol o’r cwestiwn. Y man cychwyn oedd y gellir ystyried rhai opsiynau’n fras fel rhai swyddogaethol gyfatebol, ac y gellir eu cymharu.

Enghraifft o hyn oedd ‘Golwg’ yn y cwestiwn wedi’i gysoni a ‘Gweld’ yn y model cymdeithasol cyfatebol. Fodd bynnag, nid oedd rhai opsiynau’n cyfateb. Cafodd opsiynau ymateb ‘Bod mewn poen neu anghysur’, ‘Prosesu synhwyraidd’, a ‘Bod â system imiwnedd sy’n rhy actif neu ddim digon actif’ i gyd eu hychwanegu at fersiwn model cymdeithasol y cwestiwn. Gwnaed hyn i fynd i’r afael â rhai o gyfyngiadau hysbys y safon amhariadau wedi’i chysoni bresennol, a chyfyngiadau a nodwyd gan gyfranogwyr yn ystod y cam darganfod. Lle nad oedd cyfatebiaeth swyddogaethol tybiedig ar gyfer categori ymateb penodol, nodwyd hyn.

Ystyriaeth ddadansoddol arall wrth gymharu canlyniadau oedd delio â diffyg ymateb. Mae gwahanol ddulliau o ymdrin â hyn wrth adrodd ar ganfyddiadau arolygon, gyda goblygiadau gwahanol i ganlyniadau. Mewn arolygon cymdeithasol, nid yw’n anghyffredin eithrio ymatebion ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ wrth gyflwyno canlyniadau. Fodd bynnag, gan fod hon yn astudiaeth fethodolegol gyda diddordeb arbennig mewn deall lefelau diffyg ymateb i eitemau ac unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar ansawdd data, roedd achos cryf dros gynnwys y rhain mewn dadansoddiad.

**Cymharu ymatebion**

Mae Tabl 4 yn dangos canlyniadau’r ddau fersiwn o’r cwestiwn am amhariadau, ar gyfer pob cyfranogwr pan gafodd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ eu cynnwys. Roedd y gwahaniaeth a welwyd mewn cyfraddau amhariadau yn arbennig o amlwg ar gyfer yr opsiwn cwestiwn wedi’i gysoni - ‘Cof’ (7%) - o’i gymharu â’r opsiwn sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol - ‘Cofio neu ganolbwyntio’ (20%). Gwelwyd gwahaniaeth o 9 pwynt canran ar gyfer ‘Clyw’ (6% ar gyfer y cwestiwn wedi’i gysoni a 15% gan ddefnyddio cwestiwn y model cymdeithasol). I’r gwrthwyneb, nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng yr opsiwn safonol wedi’i gysoni o ‘Symudedd’ a’r model cymdeithasol cyfatebol ‘Symud o gwmpas’, gyda'r ddau ar 15%. Roedd yr opsiwn safonol wedi’i gysoni, sef ‘Deheurwydd’, a’r model cymdeithasol cyfatebol ‘Defnyddio dwylo neu fysedd’, hefyd yr un fath, ar 8%. Nid yw’r categorïau ‘Cymdeithasol ac ymddygiadol’ a ‘Rhyngweithio gyda phobl eraill’ yn cyfateb a dylid bod yn ofalus wrth drin y gwahaniaeth o 9 pwynt canran a welwyd.

**Tabl 4: Cyfran yr holl gyfranogwyr sy’n nodi math o amhariad, gan gymharu fersiwn amhariadau wedi’i chysoni GSS a fersiwn y model cymdeithasol**

| **Math o amhariad**<br><br>**(disgrifiad wedi’i gysoni GSS / disgrifiad y model cymdeithasol)** | **Pob cyfranogwr, cwestiwn amhariad wedi’i gysoni (%) [nodyn 1]** | **Pob cyfranogwr, cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol (%)** |
|---|---:|---:|
| Golwg / Gweld | 3 | 9 |
| Clyw | 6 | 15 |

| **Math o amhariad**<br><br>**(disgrifiad wedi'i gysoni GSS / disgrifiad y model cymdeithasol)** | **Pob cyfranogwr, cwestiwn amhariad wedi'i gysoni (%) [nodyn 1]** | **Pob cyfranogwr, cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol (%)** |
|---|---:|---:|
| Symudedd / Symud o gwmpas | 15 | 15 |
| Deheurwydd / Defnyddio dwylo neu fysedd | 8 | 8 |
| Dysgu, deall, canolbwyntio / Dysgu pethau newydd | 6 | 9 |
| Cofio / Cofio neu ganolbwyntio | 7 | 20 |
| Iechyd meddwl | 16 | 22 |
| Stamina, anadlu, blinder / Rheoli lefelau egni neu anadlu | 13 | 20 |
| Cymdeithasol neu ymddygiadol | 7 | z |
| Rhyngweithio ag eraill | z | 16 |
| Bod mewn poen neu anghysur | z | 25 |
| Prosesu synhwyraidd | z | 9 |
| Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif | z | 10 |
| Arall | 4 | 2 |
| Dim un o'r rhain [nodyn 3] | 3 | 43 |
| Ddim yn gwybod | 0.1 | 0.0 |
| Mae'n well gen i beidio ateb | 0.0 | 0.1 |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **2,507** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl yn dangos, lle'r oedd mathau cyfatebol o amhariadau, roedd cyfran yr holl gyfranogwyr a adroddodd am y rhain yn debyg neu'n uwch ar gyfer y fersiwn o'r cwestiwn wedi'i alinio â'r model cymdeithasol nag ar gyfer y fersiwn safonol wedi'i chysoni.

[Nodyn 1] Mae cyfanswm y colofnau'n fwy na 100% oherwydd gall cyfranogwyr nodi mwy nag un amhariad. I gyflwyno'r ffigur 'pob cyfranogwr', dosbarthwyd y rhai na ofynnwyd y cwestiwn iddynt fel rhai heb unrhyw amhariadau.

[Nodyn 2] Mae 'z' yn golygu na chafodd yr opsiwn hwn ei restru fel opsiwn ymateb.

[Nodyn 3] Ar gyfer y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni, roedd 'Dim un o'r rhain', 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' i gyd yn opsiynau ymateb cudd. Yn y fersiwn model cymdeithasol, roedd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' i'w gweld ar gyfer hanner y sampl ar hap a heb eu cuddio ar gyfer yr hanner arall.

Fel y nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â chanfyddiadau'r FRS, mae allbynnau cyhoeddedig sy'n seiliedig ar y safon amhariadau wedi'i chysoni yn tueddu i seilio'r canfyddiadau ar gyfranogwyr y nodwyd eu bod yn anabl, yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb. Fel y trafodwyd yn fanwl yn Adran 5.5.3, roedd y Panel yn cynnwys cwestiynau a oedd yn caniatáu amcangyfrif 'anabledd' mewn 3 ffordd wahanol: defnyddiodd un ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb ac roedd 2 yn ddulliau gwahanol a oedd yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Mae Tabl 5 yn cyflwyno data amhariadau ar gyfer pobl anabl gan ddefnyddio'r gwahanol ddulliau hyn o ddiffinio anabledd.

Yr amhariadau a nodwyd amlaf ar gyfer pobl anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) oedd 'Symudedd' (47%), 'Iechyd meddwl' (46%), a 'Stamina, anabl a blinder' (38%). Yr amhariadau a adroddwyd amlaf ar gyfer pobl anabl yn seiliedig ar ddiffiniadau sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol oedd 'Iechyd meddwl' (50% ar gyfer SMD1 a 53% ar gyfer SMD2), 'Poen neu anghysur' (49% ar gyfer SMD1 a 52% ar gyfer SMD2), 'Lefelau egni' (44% ar gyfer SMD1 a 45% ar gyfer SMD2), a 'Cofio neu ganolbwyntio' (44% ar gyfer SMD1 a 47% ar gyfer SMD2).

Yn gyffredinol, pan fydd categori yn bodoli yn y ddau fersiwn o'r cwestiwn am amhariadau, roedd y cyfraddau cyffredinrwydd yn tueddu i fod yn uwch o dan y diffiniadau o anabledd a oedd wedi'u halinio â'r model cymdeithasol. Gwelwyd y patrwm hwn ar gyfer 7 o'r categorïau. I'r gwrthwyneb, roedd y cyfraddau cyffredinolrwydd safonol wedi'u cysoni yn uwch ar gyfer 'Symudedd' (47%) o'i gymharu â 'Symud o gwmpas' (32% ar gyfer SM1 ac SMD2); a 'Deheurwydd' (25%) o'i gymharu â 'Defnyddio dwylo neu fysedd' (17% ar gyfer SMD1 a 18% ar gyfer SMD2).

**Tabl 5: Cyfran y mathau o amhariadau gan ddefnyddio gwahanol fersiynau o'r cwestiwn amhariadau a gwahanol ddiffiniadau o anabledd [nodyn 1]**

| Math o amhariad (disgrifiad wedi'i gysoni GSS / disgrifiad wedi'i alinio â'r model cymdeithasol) | Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (%) | Anabl o dan fodel cymdeithasol (SMD1) (%) [nodyn 2] | Anabl o dan fodel cymdeithasol (SMD2) (%) [nodyn 2] |
|---|---|---|---|
| Golwg / Gweld | 9 | 15 | 16 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clyw | 16 | 26 | 25 |
| Symudedd / Symud o gwmpas | 47 | 32 | 32 |
| Deheurwydd / Defnyddio dwylo neu fysedd | 25 | 17 | 18 |
| Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio / Dysgu pethau newydd | 20 | 23 | 25 |
| Cofio / Cofio neu ganolbwyntio | 22 | 44 | 47 |
| Iechyd meddwl | 46 | 50 | 53 |
| Stamina neu anadlu neu flinder / Rheoli lefelau egni neu anadlu | 38 | 44 | 45 |
| Cymdeithasol neu ymddygiadol | 21 | z [nodyn 3] | z |
| Rhyngweithio â phobl eraill | z | 38 | 39 |
| Bod mewn poen neu anghysur | z | 49 | 52 |
| Prosesu synhwyraidd | z | 24 | 25 |
| Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif | z | 23 | 22 |
| Arall | 9 | 4 | 4 |
| Dim un o'r rhain [nodyn 4] | 2 | z | z |
| Ddim yn gwybod | 0.3 | z | z |
| Mae'n well gen i beidio ateb | 0.2 | z | z |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **773** | **686** | **706** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl yn dangos bod cyfran y bobl anabl (diffiniadau wedi'u halinio â'r model cymdeithasol) a ddywedodd fod ganddynt fath o amhariad (wedi'i alinio â'r model cymdeithasol) weithiau'n uwch na chyfran y cyfranogwyr anabl

(diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) a nododd fathau cyfatebol o amhariadau wedi'u cysoni GSS. Ar gyfer rhai mathau o amhariadau, gwelwyd y gwrthwyneb.

[Nodyn 1] Mae'r ffigurau a gyflwynir yng ngholofn anabledd y Ddeddf Cydraddoldeb yn defnyddio mathau o amhariadau wedi'u cysoni GSS a diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn SMD1 ac SMD2 ar gyfer mathau o amhariadau sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol ac maent yn defnyddio diffiniadau model cymdeithasol o anabledd.

[Nodyn 2] Mae rhai celloedd yn 'z' oherwydd er mwyn bod yn anabl, roedd angen amhariad ar gyfer 'wedi alinio â'r model cymdeithasol'.

[Nodyn 3] Mae 'z' yn golygu na chafodd yr opsiwn hwn ei restru fel opsiwn ymateb.

[Nodyn 4] Ar gyfer y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni, roedd 'Dim un o'r rhain', 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' i gyd yn opsiynau ymateb cudd. Ar gyfer y fersiwn model cymdeithasol, roedd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' i'w gweld ar gyfer hanner y sampl ar hap a heb eu cuddio ar gyfer yr hanner arall.

**Cymharu dewis yr opsiwn ymateb 'Arall'**

Gellir defnyddio cyfran y cyfranogwyr sy'n dewis yr ymateb 'Arall' fel dangosydd o effeithiolrwydd cwestiwn o ran casglu'r ystod o ymatebion posibl. Efallai y bydd cyfran is sy'n dewis 'Arall' yn awgrymu bod y rhestr o opsiynau ymateb sydd ar gael wedi cofnodi'r holl atebion perthnasol yn ddigonol. Ar gyfer y fersiwn amhariadau wedi'i gysoni, dywedodd 12% o gyfranogwyr fod ganddynt amhariad 'Arall'. Mae'r ganran hon yn seiliedig ar y cyfranogwyr hynny a oedd yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o 'anabledd'. Roedd gan gwestiwn y model cymdeithasol ymatebion 'Arall' sylweddol is, ar 3% (Tabl 6). Mae hyn yn awgrymu bod yr opsiynau ymateb ar gyfer fersiwn y model cymdeithasol wedi cofnodi'r ystod o atebion posibl yn well. Hyd yn oed ar ôl defnyddio ôl-godio, roedd cyfran yr ymatebion 'Arall' yn dal yn sylweddol uwch ar gyfer fersiwn y model meddygol (11%) o'i gymharu â fersiwn y model cymdeithasol (2%).

**Tabl 6: Canran yr ymatebion 'Arall' yn fersiwn amhariadau wedi'i gysoni GSS o'r cwestiwn, a chwestiwn amhariadau'r model cymdeithasol**

| | **'Arall' (cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni) (%)** | **'Arall' (cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol) (%)** |
|---|---:|---:|
| Dim ôl-godio | 12 | 3 |
| Wedi defnyddio ôl-godio | 11 | 2 |
| **Sail heb ei phwysoli (nifer)** | **1,027** | **2,507** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae Tabl 6 yn dangos bod gan y cwestiwn sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol gyfran sylweddol is o gyfranogwyr a ymatebodd gyda 'Arall', cyn ac ar ôl ôl-godio.

Rhoddodd tua thraean (36%) o'r 78 o gyfranogwyr a ddewisodd 'Arall' ar gyfer y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni ddisgrifiad cysylltiedig. Roedd yr ymatebion nad oedd modd eu hôl-godio yn gymysgedd o amhariadau a chyflyrau. Roedd rhai o'r rhain yn cyd-fynd â chategori amhariad y cwestiwn model cymdeithasol (er enghraifft, "poen", "blinder cyffredinol", "problemau awto-imiwn"), ac nid oedd rhai eraill (er enghraifft, "diabetes math 2", "anymataliaeth", "problemau gyda'r coluddyn").

Ar gyfer y fersiwn model cymdeithasol, dewisodd 45 o gyfranogwyr 'Arall' a rhoddodd ychydig dros hanner (51%) ddisgrifiad cysylltiedig. Cafodd 16 o'r rhain eu hail-aseinio i gategori arall. Er enghraifft, pan gofnododd cyfranogwr "gorbryder" o dan 'Arall', cafodd hyn ei ôl-godio a'i ail-aseinio i 'Iechyd meddwl'. Pryder, problemau anadlu a blinder oedd yr amhariadau mwyaf cyffredin i gael eu hail-aseinio i gategori ymateb a oedd eisoes yn bodoli. Roedd yr ymatebion ysgrifenedig nad oedd modd eu hail-aseinio yn cynnwys "cyflyrau ar y coluddyn", "problemau prostad", "problemau cyhyrol", "osteoarthritis", "niwropathi", a "chodi". Nid oedd yr un o'r disgrifiadau 'Arall' sy'n weddill ar ôl ôl-godio yn cyd-fynd ag ymatebion amhariadau presennol GSS wedi'u cysoni, chwaith. Roedd materion yn ymwneud â'r coluddyn a'r prostad yn ymddangos fel ymatebion 'Arall' yn fersiynau wedi'u cysoni GSS a model cymdeithasol o'r cwestiwn amhariadau.

### Cymharu diffyg ymateb

Mae cyfraddau diffyg ymateb yn ddangosydd arall o broblemau posibl gyda chwestiwn. Gall cyfran uchel o bobl sy'n dewis peidio ag ateb cwestiwn awgrymu materion fel eglurder, baich, sensitifrwydd a pherthnasedd y cwestiwn. Fodd bynnag, nid oes trothwy a argymhellir ar gyfer asesu cyfraddau diffyg ymateb yn ei erbyn. Roedd y cyfraddau diffyg ymateb i'r ddau fersiwn o'r cwestiynau amhariadau yn isel, sy'n awgrymu nad oedd unrhyw broblemau mawr o ran gallu ateb y cwestiwn. Ar gyfer y fersiwn amhariadau wedi'i chysoni, atebodd 0.4% o'r cyfranogwyr y cwestiwn gyda 'Ddim yn gwybod' neu 'Mae'n well gen i beidio ateb'. Ar gyfer y fersiwn o'r cwestiwn a oedd yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol, y ffigur cyfatebol oedd 0.1%.

### Deall ymatebion unigol i wahanol fersiynau o'r cwestiynau amhariadau

Roedd y dadansoddiad hefyd yn archwilio cysondeb yn yr atebion a ddarparwyd gan gyfranogwyr unigol. Mae Tabl 7 yn dangos cyfran y cyfranogwyr a atebodd y ddau gwestiwn yn gyson. Roedd dewis yr un categori gan yr un cyfranogwr yn dynodi cywerthedd categori. Y categorïau 'Iechyd meddwl', 'Clyw', a 'Symudedd' neu 'Symud o gwmpas' oedd â'r gyfran uchaf o gyfranogwyr a ddewisodd y rhain yn nwy fersiwn y cwestiwn. Y categorïau â'r cyfraddau dethol isaf yn y ddau gwestiwn gan yr

un cyfranogwr oedd ‘Dysgu, deall neu ganolbwyntio’ a ‘Dysgu pethau newydd’, a ‘Golwg’ a ‘Gweld’.

Mae sawl ffactor i’w hystyried wrth ddehongli’r canfyddiadau hyn, yn enwedig y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli gwahaniaethau rhwng samplau bach. Yn ogystal, roedd y ddau fersiwn o’r cwestiynau yn mesur amhariad mewn gwahanol ffyrdd ac felly disgwylir y gall cyfranogwyr ateb pob cwestiwn mewn ffordd wahanol.

Mae geiriad categorïau ymateb a bôn y cwestiwn hefyd yn wahanol, er bod rhai categorïau wedi’u geirio’n fwy tebyg nag eraill, er enghraifft defnyddiwyd ‘Clyw’ ac ‘Iechyd meddwl’ yn y ddau fersiwn. Yn yr un modd, gallai’r newid yng ngeiriad ‘Dysgu, deall neu ganolbwyntio’ i ‘Dysgu pethau newydd’ a ‘Cof’ i ‘Cofio neu ganolbwyntio’ fod wedi arwain at wahaniaethau yn y ffordd yr atebodd cyfranogwyr bob fersiwn.

Efallai fod gwahaniaethau yn yr enghreifftiau a ddarparwyd ar gyfer pob categori ymateb hefyd wedi dylanwadu ar sut roedd cyfranogwyr wedi ateb y 2 gwestiwn. Er enghraifft, roedd cwestiwn amhariadau wedi’i gysoni GSS yn defnyddio enghreifftiau fel ‘dallineb neu olwg rhannol’ ar gyfer y categori ‘Golwg’, ac roedd fersiwn y model cymdeithasol yn cyfeirio at ‘mynd o gwmpas mannau anghyfarwydd’ neu ‘ddarllen, hyd yn oed gyda sbectol neu lensys cyffwrdd’. Nid oedd rhai categorïau yn y cwestiwn amhariadau wedi’i gysoni GSS fel ‘Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio’, ‘Cof’, ‘Iechyd meddwl’, a ‘Stamina neu anadlu neu flinder’, yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o gwbl.

Mae hefyd yn werth nodi y gallai trefn cwestiynau fod wedi effeithio ar ymatebion cyfranogwyr. Er bod hap-ddethol wedi cael ei ddefnyddio i leihau effaith y cwestiwn cyntaf sy’n dylanwadu ar ddehongli cwestiynau dilynol, efallai fod rhywfaint o wallau mesur wedi aros.

**Tabl 7: Cymharu ymatebion cyfranogwyr i fersiwn amhariadau wedi’i chysoni GSS o’r cwestiwn a chwestiwn amhariadau y model cymdeithasol**

| Math o amhariad (disgrifiad wedi’i gysoni GSS / disgrifiad wedi’i alinio â'r model cymdeithasol) | Dim ond wedi’i ddewis ar gyfer cwestiwn amhariadau wedi’i gysoni (%) | Dewiswyd 'tebyg' ar gyfer y ddau gwestiwn (%) [nodyn 1] | Dim ond wedi’i ddewis ar gyfer cwestiwn y model cymdeithasol (%) | Sail heb ei phwysoli (nifer) |
|---|---|---|---|---|
| Golwg / Gweld | 20 | 37 | 43 | 162 |
| Clyw | 6 | 61 | 34 | 296 |

| Math o amhariad (disgrifiad wedi'i gysoni GSS / disgrifiad wedi'i alinio â'r model cymdeithasol) | Dim ond wedi'i ddewis ar gyfer cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni (%) | Dewiswyd 'tebyg' ar gyfer y ddau gwestiwn (%) [nodyn 1] | Dim ond wedi'i ddewis ar gyfer cwestiwn y model cymdeithasol (%) | Sail heb ei phwysoli (nifer) |
|---|---|---|---|---|
| Symudedd / Symud o gwmpas | 21 | 70 | 9 | 484 |
| Deheurwydd / Defnyddio dwylo neu fysedd | 35 | 40 | 24 | 297 |
| Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio / Dysgu pethau newydd | 33 | 35 | 32 | 185 |
| Cof / Cofio neu ganolbwyntio | 12 | 46 | 43 | 347 |
| Iechyd meddwl | 14 | 74 | 13 | 390 |
| Stamina neu anadlu neu flinder / Rheoli lefelau egni neu anadlu | 21 | 55 | 24 | 511 |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl yn dangos bod rhai cyfranogwyr wedi cofnodi amhariad ar gyfer yr opsiwn ymateb 'tebyg' ar gyfer dwy fersiwn y cwestiwn. Roedd rhai wedi cofnodi amhariad ar gyfer y fersiwn safonol wedi'i chysoni ond nid oeddent wedi cofnodi hyn yn y fersiwn gyfatebol a oedd wedi'i halinio â'r model cymdeithasol, ac i'r gwrthwyneb.

[Nodyn 1] Mae 'tebyg' yn golygu'r hyn sy'n swyddogaethol gyfatebol.

### 5.3.2 Deall rhwystrau

Yn dilyn y profion gwybyddol a gynhaliwyd ym mhecyn gwaith 5, penderfynwyd y byddai 2 gwestiwn ar rwystrau yn cael eu symud ymlaen i'r prawf panel, pob un yn mesur cysyniad gwahanol. Dyluniwyd y cyntaf i gasglu data ar y rhwystrau a brofir mewn gwahanol feysydd bywyd, ac roedd yr ail yn bwriadu casglu data ar y gwahanol fathau o rwystrau y gellir eu profi.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob cyfranogwr gael cyfle i ateb y cwestiynau ar rwystrau, p'un a oeddent yn dweud bod ganddynt amhariad ai peidio. Nid oedd y naill gwestiwn na'r llall yn cynnwys y gair 'rhwystrau' ym môn y cwestiwn, yn hytrach gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi a oeddent yn bersonol wedi profi unrhyw un o'r pethau a restrwyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y ddau yn perthyn i'r 'set model cymdeithasol' ac fe'u rhagflaenwyd gan fersiwn model cymdeithasol y cwestiwn amhariadau. Roedd gan bob un ymateb 'Arall (ysgrifenedig)' ac opsiwn 'Dim un o'r rhain', a chafodd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' eu rhestru neu eu darllen ar gyfer hanner y sampl ar hap a'u cuddio ar gyfer yr hanner arall. Ar gyfer yr hanner olaf, gellid dewis yr opsiynau hyn pe bai cyfranogwr yn ceisio symud ymlaen heibio'r cwestiwn heb ei ateb neu'n sôn am hynny yn ddigymell wrth y cyfwelydd dros y ffôn. Roedd trefn gofyn y 2 gwestiwn wedi'i hap-ddethol er mwyn lleihau effeithiau trefn cwestiynau.

#### 5.3.2.1 Profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd

**Dosbarthiad yr ymatebion**

Gall archwilio dosbarthiad ymatebion i gwestiwn arolwg helpu i nodi problemau posibl, deall nodweddion y boblogaeth darged, a chynnig cipolwg ar amrywioldeb ac amrywiaeth yr ymatebion. Mae Tabl 8 yn dangos pa mor aml yr oedd cyfranogwyr yn nodi anghenion heb eu diwallu ('rhwystrau') ar draws gwahanol feysydd bywyd, yn ystod y 12 mis blaenorol. Cyflwynir canlyniadau ar wahân ar gyfer yr holl gyfranogwyr, ac ar gyfer y rhai ag un neu fwy o amhariadau, fel y'u cofnodir gan gwestiwn amhariadau y model cymdeithasol. Cafodd y rhestr o 9 maes bywyd ei hap-ddethol i liniaru yn erbyn yr uchafiaeth neu'r effeithiau diweddar a all ddigwydd gyda rhestrau hir.

Ar gyfer yr holl gyfranogwyr, nid oedd 62% wedi profi rhwystrau yn unrhyw un o'r meysydd bywyd rhestredig yn ystod y flwyddyn flaenorol. 48% oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer y rheini ag un neu ragor o amhariadau. Roedd cyfranogwyr ag un amhariad neu fwy yn adrodd yn gyson am fwy o brofiad o rwystrau ym mhob maes bywyd o'u cymharu â chyfranogwyr eraill. Y rhwystrau a nodwyd amlaf oedd y rhai ym maes 'Gofal iechyd' (26%). Y meysydd bywyd mwyaf cyffredin nesaf y profwyd rhwystrau ynddynt oedd: 'Mannau a chyfleusterau cyhoeddus' (18%), 'Trafnidiaeth a theithio' (15%), a 'Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau' (15%).

**Tabl 8: Canran sy'n adrodd am brofiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr sydd ag un neu fwy o amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol)**

| Maes bywyd | Yr holl gyfranogwyr (%) [nodyn 1] | Un amhariad neu fwy (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol) (%) |
|---|---|---|
| Gofal iechyd nad yw'n cefnogi fy anghenion | 18 | 26 |
| Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 9 | 12 |
| Addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 5 | 7 |
| Trafnidiaeth a theithio nad ydynt yn diwallu fy anghenion | 10 | 15 |
| Trefniadau tai a byw'n annibynnol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 6 | 9 |
| Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 5 | 8 |
| Mannau cyhoeddus a chyfleusterau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 11 | 18 |
| Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 9 | 15 |
| Pleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 3 | 5 |
| Arall | 1 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 62 | 48 |
| Ddim yn gwybod [nodyn 2] | 1.2 | 1.2 |
| Mae'n well gen i beidio ateb | 1.6 | 2.3 |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **1,418** |

Disgrifiad o'r tabl: Yn gyffredinol, mae’r tabl yn dangos bod cyfranogwyr sydd ag amhariadau wedi wynebu mwy o rwystrau’n gyson na’r holl gyfranogwyr yn ystod y 12 mis diwethaf.

[Nodyn 1] Mae cyfanswm y colofnau’n fwy na 100% oherwydd gall cyfranogwyr nodi mwy nag un amhariad.

[Nodyn 2] Roedd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ yn opsiynau ymateb cudd ar gyfer hanner y sampl, a heb eu cuddio ar gyfer yr hanner arall.

Profodd un o bob 5 cyfranogwr ag amhariad (19%) rwystrau mewn un maes bywyd yn unig yn ystod y 12 mis diwethaf, tra dywedodd cyfran debyg (20%) eu bod wedi profi rhwystrau mewn naill ai 2 neu 3 maes bywyd (Tabl 9). Nifer cyfartalog y meysydd bywyd y profwyd rhwystrau ynddynt oedd 1.2 ar gyfer y rhai ag amhariadau, o’i gymharu â 0.8 ar gyfer yr holl gyfranogwyr.

**Tabl 9: Nifer y meysydd bywyd y profwyd rhwystrau ynddynt ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr ag un neu fwy o amhariadau (wedi’u halinio â’r model cymdeithasol)**

| Nifer y rhwystrau | Yr holl gyfranogwyr (%) | Cyfranogwyr sydd ag un amhariad neu fwy (wedi’u halinio â'r model cymdeithasol) (%) |
|---|---:|---:|
| 0 [nodyn 1] | 65 | 52 |
| 1 | 16 | 19 |
| 2 neu 3 | 13 | 20 |
| 4 neu fwy | 6 | 9 |
| **Sail wedi’i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **1,418** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae’r tabl hwn yn dangos bod cyfranogwyr ag amhariad yn fwy tebygol na’r holl gyfranogwyr o fod wedi profi un neu fwy o fathau o rwystrau.

[Nodyn 1] Cafodd cyfranogwyr a ymatebodd ‘Ddim yn gwybod’ neu ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ eu neilltuo i’r categori ‘0’ yn y dadansoddiad hwn.

**Profiad o rwystrau mewn meysydd bywyd ‘Arall’**

Yn ogystal â’r 9 maes bywyd a restrwyd, roedd cyfranogwyr hefyd yn gallu dewis ‘Arall’, gyda’r opsiwn o ddisgrifio hyn yn eu geiriau eu hunain. Gall defnyddio’r opsiwn ymateb ‘Arall’ ddarparu tystiolaeth ynghylch a yw’r holl ymatebion posibl i gwestiwn wedi cael eu cofnodi, a pha mor effeithiol. Gall cyfran uchel o ymatebion ‘Arall’ awgrymu nad yw rhestr yn cyfleu’n ddigonol yr ystod o atebion posibl. Gall

adolygu'r disgrifiadau ysgrifenedig helpu i wirio hyn a thynnu sylw at broblemau posibl wrth ddehongli'r ymatebion rhestredig.

Dim ond 1% o'r cyfranogwyr a ddewisodd yr ymateb 'Arall' ar gyfer y cwestiwn hwn. Adolygwyd yr ymatebion ysgrifenedig, heb unrhyw dystiolaeth bod unrhyw brif faes bywyd ar goll o'r rhestr. Amrywiol oedd y 28 o ymatebion air am air, a gallai tua hanner (15) gael eu hail-aseinio i un o'r categorïau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Er enghraifft, ail-aseiniwyd "anhawster gyda phleidlais bost sydd angen llofnod digidol" o dan opsiwn 9: 'Pleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus'. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys "cyfyngu ar gyfleoedd gwaith oherwydd gallu cyfyngedig i yrru yn y tywyllwch" a gafodd ei ail-aseinio o dan opsiwn ymateb 2: 'Cyfleoedd gwaith a chyflogaeth'; a 'chost uwch llety â chymorth e.e. llety tai gwarchod' a ail-aseiniwyd i opsiwn ymateb 5: 'Trefniadau tai a byw'n annibynnol'.

Ymysg yr ymatebion nad oedd modd eu hail-aseinio i gategori presennol roedd "Diffyg cefnogaeth gan yr Heddlu", a nodwyd hefyd yn ystod profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd yr ymatebion 'Arall' nad oedd modd eu hail-aseinio yn tueddu i berthyn i 3 grŵp:

- ymatebion sy'n adlewyrchu profiadau cyffredinol o fywyd yn hytrach na meysydd bywyd penodol, er enghraifft, "agweddau'r cyhoedd, mwy negyddol" a "chostau cynyddol"
- ymatebion a oedd yn rhy benodol ac nad oeddent wedi'u fframio mewn ffordd a oedd yn gallu cael ei gwmpasu gan y cwestiwn; er enghraifft, "Ni allaf weld yr wybodaeth fân ac mewn amrywiol liwiau am faeth ar becynnau bwyd, sy'n hanfodol i reoli fy diabetes T1"
- ymatebion yn manylu ar rwystrau a brofir gan rywun arall; er enghraifft, aelod o'r teulu

**Diffyg ymateb**

Roedd diffyg ymateb ar gyfer y sampl llawn a gymerodd ran yn gymharol isel, sef 2.7% (Tabl 10). Gan y gall dewis peidio ag ateb fod yn arwydd o broblemau posibl gyda chwestiwn, archwiliwyd dadansoddiad pellach o'r grŵp nad oedd wedi ymateb. Mae'n arbennig o bwysig deall y grŵp hwn gan fod y cwestiwn hwn yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu amcangyfrifon o gyffredinrwydd anabledd sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol.

Roedd y rhai a ymatebodd bron yn gyfan gwbl yn cynnwys aelodau sampl a gyflwynwyd gyda'r opsiynau 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' ymlaen llaw. Mae hyn yn cefnogi'r ddamcaniaeth, pan fydd opsiynau peidio ymateb

ar gael yn, y gallai cyfranogwyr fod yn fwy tebygol o'u dewis.[18] Gallai hyn fod naill ai oherwydd nad ydynt wir yn gwybod yr ateb, neu ei bod yn well ganddynt beidio â datgelu eu hymateb.

**Tabl 10: Cyfran y diffyg ymateb ar gyfer rhwystrau mewn meysydd bywyd, yn ôl dull cyflwyno - lle'r oedd yr opsiynau'n gudd neu heb eu cuddio**

| Opsiwn Ymateb | Opsiwn cudd (%) | Opsiwn heb ei guddio (%) | Pob un (%) |
|---|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 0.1 | 3.2 | 1.1 |
| Mae'n well gen i beidio ateb | 0.1 | 2.2 | 1.6 |
| Cyfanswm heb ymateb ('Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' gyda'i gilydd) | 0.2 | 5.4 | 2.7 |
| **Sail heb ei phwysoli (nifer)** | **1,262** | **1,245** | **2,507** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl hwn yn dangos bod diffyg ymateb yn is pan gafodd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' eu cuddio, ac yn uwch pan oedden nhw i'w gweld ochr yn ochr ag ymatebion eraill.

Roedd proffil oedran y rhai na ymatebodd yn debyg i broffil y sampl llawn a gymerodd ran, sy'n dangos nad oedd unrhyw grŵp oedran penodol yn fwy tebygol o ateb gyda 'Ddim yn gwybod' neu 'Mae'n well gen i beidio ateb'. Roedd y grŵp 'Mae'n well gen i beidio ateb' yn cynnwys cyfran anghymesur o'r rheini nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau addysgol. Weithiau, gellir ystyried cyrhaeddiad addysgol yn brocsi defnyddiol ar gyfer dealltwriaeth, a all, yn ei dro, fod yn gysylltiedig â pheidio ymateb. Gall anhawster deall cwestiwn effeithio ar y tebygolrwydd o beidio ymateb.

Roedd y grŵp heb ymateb hefyd yn cynnwys yn anghymesur y rheini a gafodd set o gwestiynau amhariadau wedi'u cysoni GSS yn gyntaf, ac yna'r set model cymdeithasol. Mae hyn o bosibl yn arwydd o flinder, a allai gynyddu'r tebygolrwydd o gymryd llwybr byr gwybyddol drwy ddewis peidio ag ateb. Gallai hefyd ddeillio o'r profi a chael yr un cwestiynau ddwywaith. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir pan ofynnwyd y set model cymdeithasol yn gyntaf.

[18] Krosnick, J. A., Holbrook, A. L., Brent, M.K., et al. (2002). The impact of "No Opinion" response options on data quality: non-attitude reduction or an invitation to satisfice? Public Opinion Quarterly. 66 (3); 371-403.

**Profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd yn ôl math o amhariad**

Mae Tabl 21 yn Atodiad H yn tynnu sylw at y ffaith bod rhwystrau'n cael eu profi ar draws pob agwedd ar fywyd, ni waeth beth fo'r amhariad. Ar draws pob math o amhariad, 'Gofal iechyd' oedd y maes bywyd mwyaf cyffredin lle profwyd rhwystrau. Meysydd bywyd eraill a oedd yn gymharol gyffredin ar draws pob math o amhariad oedd: 'Mannau a chyfleusterau cyhoeddus', 'Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau', a 'Trafnidiaeth a theithio'. Er bod y rhwystrau i 'Bleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth' yn gymharol isel, dywedodd 12% o'r rheini sydd ag amhariad sy'n ymwneud â 'Gweld' neu 'Dysgu pethau newydd' eu bod wedi wynebu rhwystrau yn y maes hwn, yn ogystal ag 11% o'r rheini sydd ag amhariadau sy'n gysylltiedig â 'Prosesu synhwyraidd'.

Er mai'r rheini sydd ag amhariad 'Clyw' oedd fwyaf tebygol o ddweud nad oeddent yn profi rhwystrau yn unrhyw un o'r meysydd bywyd a restrir (52%), roeddent yn dal i wynebu rhwystrau mewn 1.2 maes bywyd ar gyfartaledd. Roedd y profiad o rwystrau'n fwyaf cyffredin mewn 'Gofal iechyd' (27%), 'Trafnidiaeth a theithio' (17%), a 'Mannau a chyfleusterau cyhoeddus' (17%).

Fel y trafodwyd yn Adran 4.8, canfu profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain cynharach ei bod yn ymddangos bod hunaniaeth cyfranogwyr, yn ogystal â chyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol, yn effeithio ar ymatebion i gwestiwn amhariadau y model cymdeithasol, a dylid ystyried hyn ochr yn ochr â'r canfyddiadau hyn. Yn ystod profion gwybyddol, roedd ystyried byddardod fel hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol, ac nid amhariadau, yn effeithio ar sut roedd cyfranogwyr yn penderfynu a oeddent am dicio unrhyw un o'r categorïau amhariadau eraill a restrwyd. Gall hefyd fod yn wir bod cyfranogwyr yn darllen ac yn dehongli'r cwestiynau rhwystrau drwy lens debyg, gan feddwl o bosibl am rwystrau sy'n atal cyfathrebu.

### 5.3.2.2 Profiad o wahanol fathau o rwystrau

**Dosbarthiad yr ymatebion**

Mae dosbarthiad amlder yr ail gwestiwn rhwystrau, a oedd yn gofyn am y gwahanol fathau o rwystrau a brofwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, yn cael ei gyflwyno ar wahân ar gyfer pob oedolyn a'r rheini sydd ag amhariad, yn Nhabl 11. Roedd pob opsiwn ymateb yn cyd-fynd ag un o'r pedwar categori rhwystr y cyfeirir atynt yn gyffredin o dan y model cymdeithasol fel a ganlyn:

- rhwystrau agweddol: 'Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol'
- rhwystrau sefydliadol: 'Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion'
- rhwystrau cyfathrebu: 'Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw'n hygyrch'

- rhwystrau amgylcheddol: ‘Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas’

Ni chynhwyswyd opsiwn ‘Dim un o’r rhain’ a rhestrwyd opsiwn ‘Arall’ (ysgrifenedig) hefyd, gan alluogi cyfranogwyr i ddisgrifio unrhyw fathau eraill o rwystrau yr oeddent wedi eu hwynebu, yn eu geiriau eu hunain. Gan fod llai o opsiynau ymateb i ddewis ohonynt, ni chafodd y rhestr ei hap-ddethol. Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un ymateb, petai hynny'n berthnasol.

Rhwystrau agweddol oedd y math mwyaf cyffredin a adroddwyd, gyda 30% o’r rhai ag amhariadau (wedi’u halinio â'r model cymdeithasol) yn dweud eu bod wedi profi ‘Safbwyntiau ac ymddygiad anghefnogol gan eraill’ yn ystod y 12 mis blaenorol. Rhwystrau sefydliadol oedd y rhwystr mwyaf cyffredin nesaf (23%), ac yna rhwystrau amgylcheddol (19%). Er mai rhwystrau cyfathrebu oedd y lleiaf tebygol o gael eu hadrodd, roeddent yn dal i gael eu profi gan tua 1 o bob 6 o’r rhai ag amhariadau (15%).

**Tabl 11: Canran sy’n adrodd am brofiad o wahanol fathau o rwystrau, ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr sydd ag un neu fwy o amhariadau (wedi’u halinio â'r model cymdeithasol)**

| **Math o rwystr** | **Yr holl gyfranogwyr (%) [nodyn 1]** | **Cyfranogwyr sydd ag un amhariad neu fwy (wedi’u halinio â'r model cymdeithasol) (%)** |
|---|---:|---:|
| Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw’n hygyrch’ | 10 | 15 |
| Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas | 13 | 19 |
| Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol | 20 | 30 |
| Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | 16 | 23 |
| Arall (rhowch fanylion) | 2 | 2 |
| Dim un o'r rhain | 63 | 47 |
| Ddim yn gwybod [nodyn 2] | 1.0 | 0.8 |
| Mae’n well gen i beidio ateb | 2.0 | 2.6 |
| **Sail wedi’i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **1,418** |

Disgrifiad o'r tabl: Yn gyffredinol, mae'r tabl yn dangos bod cyfranogwyr ag amhariadau wedi cael mwy o brofiad yn gyson o wahanol fathau o rwystrau yn ystod y 12 mis diwethaf na'r holl gyfranogwyr.

[Nodyn 1] Mae cyfanswm y colofnau'n fwy na 100% oherwydd gall cyfranogwyr nodi mwy nag un amhariad.

[Nodyn 2] Roedd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' yn opsiynau ymateb cudd ar gyfer hanner y sampl, a heb eu cuddio ar gyfer yr hanner arall.

Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd 26% o'r rheini ag amhariadau wedi profi un math o rwystr yn unig, ac roedd 10% wedi profi 3 neu 4 math o rwystr, fel y dangosir yn Nhabl 12. Nifer cyfartalog y mathau o rwystrau a brofwyd gan y rheini sydd ag amhariadau oedd 0.9.

**Tabl 12: Nifer y mathau o rwystrau a brofwyd ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chyfranogwyr ag un neu fwy o amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol)**

| Nifer y rhwystrau | Yr holl gyfranogwyr (%) | Cyfranogwyr sydd ag un amhariad neu fwy (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol) (%) |
|---|---|---|
| 0 | 65 | 50 |
| 1 | 19 | 26 |
| 2 | 9 | 13 |
| 3 | 5 | 8 |
| 4 | 2 | 2 |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **1,418** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl yn dangos bod canran y cyfranogwyr ag amhariad sy'n profi un neu fwy o fathau o rwystrau yn uwch na'r ganran ar gyfer yr holl gyfranogwyr.

### Mathau 'Arall' o rwystrau a brofwyd

Cafodd yr holl gyfranogwyr gyfle i ddewis 'Arall' a rhoi manylion unrhyw fathau ychwanegol o rwystrau a brofwyd, ynghyd ag unrhyw un o'r 4 math o rwystr a restrwyd i ddewis ohonynt. Dewiswyd yr opsiwn hwn gan 1.5% o'r holl gyfranogwyr ac 1.6% o'r rhai ag amhariad. Roedd nifer uwch o ymatebion ysgrifenedig yma (44) nag ar gyfer y cwestiwn ar rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd (28). Adolygwyd yr ymatebion a ysgrifennwyd ac, er nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod math pwysig o rwystr heb gael ei gynnwys ar y rhestr, soniwyd am rai themâu fwy nag unwaith.

Disgrifiodd tua hanner (26) yr atebion ysgrifenedig rwystrau y gellid eu hail-aseinio i un o'r categorïau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Er enghraifft, mae "anghwrteisi ac ymddygiad hunanol" yn disgrifio rhwystr agweddol a gafodd ei ail-aseinio o dan 'Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol'. Yn yr un modd, mae 'Dim canllawiau wrth risiau i'r rheini sydd â phroblemau symudedd' yn rhwystr amgylcheddol a gafodd ei ail-aseinio o dan 'Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas'.

Roedd gweddill yr ymatebion ar ôl adolygu ac ail-aseinio yn perthyn i 3 grŵp:

- ymatebion sy'n fframio profiadau o ran y meysydd bywyd roeddent yn profi rhwystrau ynddynt, heb fod yn glir beth oedd y mathau o rwystrau
- ymatebion sy'n rhoi lefel o fanylder nad oedd y cwestiwn wedi'i gynllunio i'w nodi
- ymatebion sy'n disgrifio profiadau rhywun arall ac nid nhw eu hunain yn bersonol

**Diffyg ymateb**

Ar 2.6% ar gyfer yr holl gyfranogwyr a 3.4% ymhlith y rhai ag amhariadau (wedi'u halinio â'r model cymdeithasol), roedd diffyg ymateb yn uwch ar gyfer y cwestiwn hwn nag ar gyfer y cwestiwn arall ar rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd (Tabl 13). 'Mae'n well gen i beidio ateb' oedd yr uchaf o'r 2 grŵp heb ymateb, gyda 2.6% o'r rheini sydd ag amhariad yn dewis hyn.

Yn yr un modd â'r cwestiwn am rwystrau ym meysydd bywyd, roedd y grŵp heb ymateb bron yn gyfan gwbl yn cynnwys y rheini y cyflwynwyd y ddau opsiwn iddynt ymlaen llaw, ochr yn ochr â'r holl ymatebion eraill. Mae hyn yn awgrymu bod y ffordd y cyflwynir yr opsiynau hyn yn cael effaith sylweddol ar lefel y diffyg ymateb. Pan fydd opsiynau peidio ag ymateb ar gael yn rhwydd, efallai y bydd ymatebwyr yn fwy tebygol o'u dewis, naill ai oherwydd nad ydynt yn gwybod yr ateb go iawn, neu oherwydd ei bod yn well ganddynt beidio â datgelu eu hymateb. Ar y llaw arall, pan nad yw'r opsiynau hyn yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw, efallai y bydd cyfranogwyr wedi teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ddarparu ateb dilys, efallai oherwydd canfyddiad o ddisgwyliad i wneud hynny.

**Tabl 13: Cyfran y diffyg ymateb ar gyfer mathau o rwystrau, yn ôl dull cyflwyno - lle’r oedd yr opsiynau’n gudd neu heb eu cuddio**

| Opsiwn Ymateb | Opsiwn cudd (%) | Opsiwn heb ei guddio (%) | Pob un (%) |
|---|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 0.3 | 3.0 | 1.6 |
| Mae’n well gen i beidio ateb | w [nodyn 1] | 1.9 | 1.0 |
| Cyfanswm heb ymateb (‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ gyda’i gilydd) | 0.3 | 4.9 | 2.6 |
| **Sail heb ei phwysoli (nifer)** | **1,262** | **1,245** | **2,507** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae’r tabl hwn yn dangos bod diffyg ymateb yn is pan gafodd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ eu cuddio, ac yn uwch pan oedden nhw i’w gweld ochr yn ochr ag ymatebion eraill.

[Nodyn 1] Mae ‘w’ yn dynodi lle na chofnodwyd unrhyw ymatebion.

Roedd proffil oedran y sampl na ymatebodd yn debyg i broffil y sampl lawn, tra bod cyfran y rhai na ymatebodd heb unrhyw gymwysterau addysgol ychydig yn uwch na’r hyn sy’n cyfateb yn y sampl llawn a gymerodd ran. Roedd y grŵp na ymatebodd hefyd yn cynnwys ychydig mwy o gyfranogwyr a gafodd y set o gwestiynau amhariadau wedi’u cysoni GSS yn gyntaf yn hytrach nag yn ail.

Roedd gwahaniaeth bach hefyd yn ôl y drefn y gofynnwyd y cwestiynau rhwystrau, gyda chyfran uwch wedi derbyn y cwestiwn ar brofi rhwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd yn gyntaf. Mae’r cwestiwn am rwystrau mewn meysydd bywyd yn llawer hirach, a gallai’r canfyddiad hwn fod yn dystiolaeth o flinder neu lai o sylwgarwch, gan effeithio o bosibl ar ansawdd a chywirdeb ymatebion dilynol mewn rhai achosion.

### Mathau o rwystrau a brofir yn ôl math o amhariad

Mae Tabl 23 yn Atodiad H yn dangos, er bod amlder yn amrywio, bod ymatebwyr ym mhob grŵp amhariad wedi profi pob un o’r mathau o rwystrau a restrir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar draws pob math o amhariad, rhwystrau agweddol oedd fwyaf cyffredin, yn amrywio o ‘Clyw’ ar 27% i ‘Prosesu synhwyraidd’ ar 61%. Yn yr un modd, rhwystrau cyfathrebu oedd y lleiaf tebygol o fod wedi cael eu profi ar draws pob math o amhariad, yn amrywio o 18% ar gyfer ‘Clyw’ a ‘Bod mewn poen neu’n anghysur’, i 32% ar gyfer ‘Dysgu pethau newydd’.

Fel y gwelwyd gyda'r cwestiwn rhwystrau maes bywyd, roedd profiad o bob math o rwystr ar ei isaf ymysg y rhai ag amhariad sy'n gysylltiedig â 'Clyw'. Roedd profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain yn dangos ei bod yn ymddangos bod hunaniaethau, a chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yn effeithio ar ymatebion i gwestiwn amhariadau y model cymdeithasol, y dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r canfyddiadau hyn gan y Panel. Mae'n bosibl bod y cyd-destun hwn, y dehonglwyd y cwestiynau ynddo, wedi effeithio ar eu hymatebion i'r ddau gwestiwn am rwystrau.

#### 5.3.2.3 Profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd yn ôl y mathau o rwystrau a wynebwyd

Cafodd y 2 gwestiwn gwahanol ar rwystrau eu cynllunio i gofnodi dimensiynau gwahanol. Roedd un yn edrych ar y gwahanol feysydd bywyd lle mae pobl yn profi rhwystrau ac roedd y llall yn edrych ar y gwahanol fathau o rwystrau y gellir eu profi mewn ystyr ehangach. Cafodd canlyniadau'r ddau eu croesdablu i archwilio patrymau ymateb unigol.

Mae Tabl 14 yn dangos bod tua chwarter y cyfranogwyr (626 o bobl) wedi dweud eu bod wedi wynebu rhwystrau mewn un neu fwy o feysydd bywyd ac wedi wynebu un neu fwy o rwystrau yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yna grŵp sylweddol a ddywedodd eu bod wedi profi rhwystr mewn un neu fwy o feysydd bywyd ond nad oeddent wedi dweud eu bod wedi profi unrhyw fath penodol o rwystr (244 o gyfranogwyr). Dywedodd grŵp o faint tebyg (241 o gyfranogwyr) eu bod wedi profi un neu fwy o fathau o rwystrau yn y flwyddyn flaenorol ond nid oeddent yn dweud eu bod wedi wynebu rhwystrau mewn unrhyw faes penodol o fywyd.

**Tabl 14: Patrymau mewn ymatebion unigol i'r ddau gwestiwn rhwystrau**

| Cwestiwn rhwystrau | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| Wedi profi rhwystrau mewn perthynas â'r ddau gwestiwn am rwystrau | 626 |
| Wedi profi rhwystrau mewn meysydd bywyd ond heb brofi unrhyw fath o rwystrau | 244 |
| Wedi profi mathau o rwystrau ond heb brofi rhwystrau mewn meysydd bywyd | 241 |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl hwn yn dangos bod rhai cyfranogwyr wedi nodi eu bod wedi profi rhwystrau mewn perthynas â dau gwestiwn yr arolwg am rwystrau, tra bod eraill wedi profi rhwystrau mewn perthynas ag un cwestiwn arolwg ond nid y llall.

Esboniad posibl dros y patrymau ymateb hyn yw bod y cwestiynau wedi llwyddo i gyfleu dimensiynau gwahanol o rwystrau, ac felly ni fyddai disgwyl i atebion cyfranogwyr gyd-fynd yn berffaith. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl nad oedd un

cwestiwn neu'r ddau yn mesur y lluniadau arfaethedig yn effeithiol. Mae adborth o brofion gwybyddol eu bod yn heriol yn wybyddol, yn enwedig y cwestiwn am feysydd bywyd, yn cefnogi'r esboniad hwn.

### 5.3.3 Deall cyffredinrwydd pobl anabl

Roedd cwestiynau'r arolwg a ofynnwyd yn y Panel yn caniatáu cynhyrchu 3 amcangyfrif penodol o gyffredinrwydd pobl anabl. Roedd un amcangyfrif yn defnyddio cwestiynau safonau cyfredol wedi'u cysoni GSS ac yn cyd-fynd â diffiniad Deddf Cydraddoldeb (2010) o anabledd. Roedd y ddau amcangyfrif arall yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd. Cynhyrchwyd yr amcangyfrifon hyn gan ddefnyddio'r cwestiwn model cymdeithasol am amhariadau, a naill ai'r cwestiwn ar rwystrau mewn meysydd bywyd neu'r cwestiwn ar wahanol fathau o rwystrau a brofwyd. Gofynnwyd pob cwestiwn i bob cyfranogwr, a threfn y setiau cwestiynau wedi'i hap-ddethol i asesu unrhyw effeithiau trefn.

Gan nad oedd yna fesur gwrthrychol o ran a oedd cyfranogwr yn anabl, roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar archwilio cysondebau a gwahaniaethau mewn ymatebion, a'r cyfraddau diffyg ymateb ar draws y gwahanol ddulliau o fesur cyffredinrwydd cyfranogwyr anabl.

#### 5.3.3.1 Dull safonol wedi'i gysoni o fesur cyffredinrwydd pobl anabl

Er mwyn mesur 'anabledd' gan ddefnyddio diffiniad Deddf Cydraddoldeb (2010), roedd safonau wedi'u cysoni presennol GSS ar gyflyrau iechyd a salwch hirdymor (LLHCI) a chyfyngu ar weithgarwch wedi'u cynnwys yn y Panel. Roedd geiriad y cwestiwn a'r opsiynau ymateb yn cyfateb yn union i'r geiriad presennol.

Cafodd cyfranogwr ei ddosbarthu fel 'anabl (wedi'i alinio â'r Ddeddf Cydraddoldeb)' os oedd wedi ymateb 'ie' i'r safon cyflyrau iechyd a salwch hirdymor a naill ai 'ie, ychydig' neu 'ie, llawer' i'r cwestiwn cyfyngu ar weithgarwch. Yn ôl y diffiniad hwn, roedd 30.8% o'r 2,507 o gyfranogwyr yn anabl, gyda 69% yn cael eu dosbarthu fel 'ddim yn anabl'. Roedd diffyg ymateb, a ddiffinnir yn y dadansoddiad hwn fel ateb 'Ddim yn gwybod' neu 'Mae'n well gen i beidio ateb' i'r cwestiynau gofynnol yn 0.1%.

Gan fod yr amcangyfrif hwn o 30.8% yn seiliedig ar ymatebion i'r cwestiynau wedi'u cysoni, roedd modd ei ddilysu'n allanol drwy ei gymharu ag amcangyfrifon a gyhoeddwyd. Roedd defnydd eang o'r safonau wedi'u cysoni yn golygu bod nifer o ffynonellau ar gael ar gyfer cymharu gan gynnwys Cyfrifiad 2021, yr Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS). Dylid bob amser ddehongli cymariaethau o amcangyfrifon a gasglwyd o boblogaethau gwahanol, neu'r un poblogaethau mewn ffyrdd gwahanol, yn ofalus, hyd yn oed pan fydd y

cwestiynau a ddefnyddiwyd yn union yr un fath.[19] Wedi dweud hynny, roedd yn rhesymol rhagweld y dylai'r Panel, ar sail dyluniad tebygolrwydd ar hap, gynhyrchu amcangyfrifon gweddol debyg i'r rhai a gyhoeddwyd gan ddefnyddio'r un safonau.

Roedd cyffredinrwydd pobl anabl, ar sail diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, ar ei uchaf ar y Panel, fel y dangosir yn Nhabl 15. Gallai fod yna nifer o esboniadau sy'n cyd-daro ynghylch pam y gallai hyn fod wedi digwydd. Ar wahân i wahaniaethau methodolegol a allai esbonio gwahanol amcangyfrifon o wahanol ffynonellau, dyma'r unig ddata a gesglir gan ddefnyddio dyluniad panel. Hefyd, roedd llythyr ymlaen llaw gan y Panel yn sôn yn benodol y byddai'r arolwg yn cynnwys "cwestiynau am anabledd", a allai arwain at lefelau uwch o gymhelliant i gymryd rhan ymysg pobl anabl. Mae'n bosibl hefyd bod disgwyl i'r cyffredinrwydd uwch hwn ddigwydd, o ystyried bod y data a gyhoeddwyd yn cyfeirio at duedd o gynnydd yn nifer y bobl anabl dros amser; tuedd y rhagwelir y bydd yn parhau.[20]

**Tabl 15: Cyffredinrwydd pobl anabl (diffiniad o'r Ddeddf Cydraddoldeb) yn ôl ffynhonnell data [nodyn 1]**

| Ffynhonnell data | Pobl anabl (%) |
|---|---:|
| Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr) | 17.8 |
| FRS 2023 i 2024 (y DU) | 25 .0 |
| APS Gorffennaf 2024 i Fehefin 2025 (y DU) | 28.4 |
| Panel NatCen 2025 (y DU) [nodyn 2] | 30.6 |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl hwn yn dangos bod canran y bobl anabl ar ei huchaf ar Banel NatCen. Dros amser, ar draws y ffynonellau data hyn, mae canran y bobl anabl wedi cynyddu.

[Nodyn 1] Mae'r ffynonellau fel a ganlyn: Cyfrifiad 2021; FRS 2023-2024 (y DU); APS 2024-2025.


[Nodyn 2] Mae ffigur y Panel a gyflwynir yma yn wahanol i'r rhai a gyflwynir yn Nhabl 17. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y rheini a roddodd ymatebion dilys i'r cwestiynau gofynnol, gyda'r rheini a atebodd 'Ddim yn gwybod' neu 'Mae'n well gen i beidio ateb' wedi'u heithrio o'r dadansoddiad.

[19] Mae rhai data cyhoeddedig ar anabledd wedi'u safoni yn ôl oedran, ond nid yw eraill, a dylid ystyried hyn wrth gymharu data o wahanol ffynonellau. Dyma'r dull ystadegol a ddefnyddir i ganiatáu cymariaethau tecach rhwng poblogaethau a allai fod â dosbarthiad oedran gwahanol.
[20] The employment of disabled people 2024 - GOV.UK; Watt, T., Raymond, A., Rachet-Jacquet, L., et al. (2023). Health in 2040: projected patterns of illness in England. The Health Foundation. https://doi.org/10.37829/HF-2023-RC03

Roedd dilysu'r amcangyfrif sy'n cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb y Panel ymhellach yn bosibl drwy driongli'r patrymau a welwyd ar draws grwpiau poblogaeth gyda data cyhoeddedig. Mae data cyhoeddedig ar bobl anabl yn tynnu sylw at y ffaith bod cyffredinrwydd yn amrywio ar draws cymdeithas. Mae'n dilyn, er y gall amcangyfrifon a phatrymau amrywio yn dibynnu ar gyd-destun a ffynhonnell yr wybodaeth, y dylai'r patrymau cyffredinrwydd a welwyd mewn data cyhoeddedig fod wedi cael eu gweld, i raddau mwy neu lai, yn nata'r Panel hefyd.

**Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU:** Roedd 40% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn cael eu hystyried yn anabl (yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb), 10 pwynt canran yn uwch nag mewn mannau eraill yn y DU (30%). Roedd y gwahaniaeth hwn, o gyffredinrwydd uwch yng Nghymru, yn cyd-fynd â'r data a gyhoeddwyd. Y ffigurau cyfatebol yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 21.1% a 17.7%, yn y drefn honno. Yn fwy diweddar, roedd data APS yn amcangyfrif bod 32.0% o'r boblogaeth yng Nghymru yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd, o'i gymharu â 28.2% o'r rhai a oedd yn byw mewn mannau eraill yn y DU.

**Ffigur 1: Cyffredinrwydd rhyw ac oedran pobl anabl ar sail diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb [nodyn 1]**





Disgrifiad o'r ffigur: Nodwyd bod mwy o fenywod na dynion yn anabl ac roedd cyfranogwyr 70 oed a hŷn yn fwy tebygol o fod yn anabl, yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb.

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: Menywod = 1,280; Dynion = 1,221. Oedran: 16 i 29 = 150; 30 i 39 = 334; 40 i 49 = 441; 50 i 59 = 483; 60 i 69 = 479; 70 a hŷn = 647.

**Rhyw ac oedran:** Yng Nghymru, ac mewn mannau eraill yn y DU, mae data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod cyfran uwch o bobl anabl yn fenywod, a bod cyffredinrwydd yn cynyddu'n fras yn unol ag oedran. Mae Ffigur 1 yn dangos bod y patrymau hyn hefyd wedi cael eu gweld yn nata'r Panel, gyda 35% o fenywod a 27% o ddynion yn cael eu hystyried yn anabl (yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb). Er ei fod yn llai amlwg ar y Panel, roedd yna batrwm yn ôl grŵp oedran gyda chyffredinrwydd pobl anabl ar ei uchaf yn y grŵp oedran hynaf (41%).

**Ffigur 2: Cyffredinrwydd pobl anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) ac incwm misol [nodyn 1] [nodyn 2]**




Disgrifiad o'r ffigur: Yn gyffredinol, roedd cyffredinrwydd pobl anabl fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb yn gostwng wrth i incwm misol aelwydydd gynyddu.


[Nodyn 1] Incwm misol aelwydydd yw'r incwm misol cyfwerthedig diweddaraf (2025).

[Nodyn 2] Seiliau heb eu pwysoli: £1000 neu lai = 382; £1001 i £1500 = 403; £1501 i 2500 = 746; Mwy na £2500 = 860.

**Dosbarthiad incwm ac addysgol:** Yn unol â data a gyhoeddwyd ar fylchau cyflog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd cyffredinrwydd pobl anabl yn gysylltiedig ag incwm aelwydydd (cyfwerthedig). Mae Ffigur 2 yn dangos bod 48% o'r cyfranogwyr yn y grŵp incwm aelwyd isaf wedi cael eu dosbarthu fel pobl anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb), gan ostwng i 20% ar gyfer y rheini sydd â'r incwm aelwyd uchaf, gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o 28 pwynt canran. Roedd cyffredinrwydd ar ei isaf ymysg y rhai a addysgwyd i lefel gradd o leiaf neu gyfwerth (25%), ac ar ei uchaf ymysg cyfranogwyr a nododd nad oedd ganddynt unrhyw

gymwysterau addysgol (43%) (Ffigur 3). Roedd y canfyddiadau hyn hefyd yn cyd-fynd â data cydraddoldeb cyhoeddedig.

**Ffigur 3: Cyffredinrwydd pobl anabl (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) a'r lefel uchaf o gymhwyster ffurfiol [nodyn 1] [nodyn 2]**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae cyffredinrwydd pobl anabl yn tueddu i ostwng gyda lefelau uwch o gymwysterau ffurfiol.

[Nodyn 1] Cyrhaeddiad addysgol yw'r cymhwyster ffurfiol uchaf diweddaraf a gyflawnwyd. Mae lefel gradd neu uwch yn cynnwys cymwysterau sy'n cyfateb i lefel gradd.

[Nodyn 2] Seiliau heb eu pwysoli: Gradd neu gymhwyster cyfatebol neu uwch = 1,190; Cymwysterau islaw lefel gradd = 1,082; Dim cymwysterau = 225.

#### 5.3.3.2 Dull model cymdeithasol o anabledd o fesur cyffredinrwydd pobl anabl

Amlygodd yr adolygiad o gwestiynau presennol yr arolwg, a gynhaliwyd fel rhan o becyn gwaith 2 yn ystod y cam darganfod, mai ychydig o ymdrechion a wnaed yn rhyngwladol i fesur cyffredinrwydd pobl anabl mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Lle'r oedd dull gweithredu a oedd yn cyd-fynd yn well â'r model cymdeithasol wedi cael ei ddefnyddio, roedd cwestiynau'n tueddu i ofyn i gyfranogwyr yn benodol am y meysydd bywyd y maent yn wynebu rhwystrau ynddynt; neu ofyn am gymysgedd o feysydd bywyd a mathau o rwystrau mewn cwestiwn penodol. Roedd Adran 3.3 yn trafod dymuniad Llywodraeth Cymru i ddylunio a phrofi 2 ffordd wahanol o gasglu data ar y rhwystrau y mae pobl sydd â chyflwr neu amhariad hirdymor yn eu hwynebu. Roedd mesur dau ddimensiwn y rhwystrau, ynghyd â fersiwn ddiwygiedig wedi'i halinio â'r model cymdeithasol o'r safon amhariadau wedi'i chysoni, yn golygu ei bod yn bosibl cynhyrchu ac archwilio

2 amcangyfrif o gyffredinrwydd ar wahân sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol ar gyfer pobl anabl.

Ar gyfer y cyntaf o’r amcangyfrifon hyn, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel model cymdeithasol 1 (SMD1), dosbarthwyd cyfranogwr yn anabl os nododd fod ganddynt un neu fwy o amhariadau, gan ddefnyddio cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol; ac wedi nodi eu bod wedi profi rhwystr mewn un neu fwy o'r opsiynau ‘meysydd bywyd’.

Yn ôl y diffiniad hwn, roedd 27.4% o’r cyfranogwyr yn anabl, ac nid oedd 69.8% yn anabl. Roedd 1.6% wedi ateb ‘Ddim yn gwybod’ i un neu’r ddau o’r cwestiynau, ac roedd yn well gan 1.2% beidio ag ateb un neu’r ddau gwestiwn, fel y dangosir yn Nhabl 16.

Ar gyfer yr ail amcangyfrif, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel model cymdeithasol 2 (SMD2), dosbarthwyd cyfranogwr yn anabl os oeddent yn dweud bod ganddynt un neu fwy o amhariadau, gan ddefnyddio cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol, ac wedi nodi eu bod wedi profi un neu fwy o rwystrau o dan y cwestiwn ‘mathau o rwystrau’.

Yn ôl y dull hwn, roedd 28.2% o’r cyfranogwyr yn cael eu hystyried yn anabl ac nid oedd 68.8% yn anabl. Ymatebodd 2.0% arall ‘Ddim yn gwybod’ i un cwestiwn neu’r ddau, a dewisodd 1.0% beidio ag ateb un cwestiwn neu’r ddau.

**Tabl 16: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 ddull gwahanol sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol**

| | **Anabl yn ôl model cymdeithasol (SMD1) (%)** | **Anabl yn ôl model cymdeithasol (SMD2) (%)** |
|---|---|---|
| Anabl | 27.4 | 28.2 |
| Ddim yn anabl | 69.8 | 68.8 |
| Ddim yn gwybod [nodyn 1] | 1.6 | 2.0 |
| Mae’n well gen i beidio ateb | 1.2 | 1.0 |
| **Sail wedi’i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **2,507** |


Disgrifiad o'r tabl: Mae’r tabl hwn yn dangos cyfran gweddol debyg o gyfranogwyr a ddosbarthwyd yn anabl ar gyfer y ddau ddull seiliedig ar fodel cymdeithasol, 27.4% ar gyfer SMD1 a 28.2% ar gyfer SMD2.

[Nodyn 1] Roedd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ yn opsiynau ymateb cudd ar gyfer hanner y sampl, a heb eu cuddio ar gyfer yr hanner arall.

Roedd dadansoddiad o batrymau mewn cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio dull y Ddeddf Cydraddoldeb yn cadarnhau'r hyn a oedd eisoes yn hysbys mewn data a gyhoeddwyd yn flaenorol. Nid oedd unrhyw beth yn hysbys am y patrymau disgwyliedig pan ddefnyddid dull sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol.

**Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU:** Yn yr amcangyfrif cyntaf a oedd yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol (SMD1), roedd 32% o gyfranogwyr yng Nghymru yn cael eu hystyried yn anabl, o'i gymharu â 28% mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r gwahaniaeth hwn o 4 pwynt canran yn llai na'r gwahaniaeth o 10 pwynt canran a welwyd wrth ddefnyddio dull y Ddeddf Cydraddoldeb. Roedd gwahaniaeth bach iawn rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn yr ail o'r 2 ddull (SMD2), gyda 30% a 29%, yn y drefn honno.

**Ffigur 4: Cyffredinrwydd pobl anabl yn ôl rhyw, gan ddefnyddio'r 2 fesur model cymdeithasol [nodyn 1]**





Disgrifiad o'r ffigur: Roedd cyffredinrwydd pobl anabl yn uwch ymysg menywod ar gyfer y ddau ddiffiniad model cymdeithasol.

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: SMD1 Menywod = 1,246; SMD1 Dynion = 1188. SMD2 Menywod = 1,242; SMD2 Dynion = 1,196.

**Rhyw:** Yn amcangyfrifon y model cymdeithasol, ac yn unol ag amcangyfrif y Ddeddf Cydraddoldeb a data cyhoeddedig, roedd cyffredinrwydd pobl anabl ar ei uchaf ymysg menywod. Ar gyfer SMD1, roedd 31% o fenywod yn cael eu hystyried yn

anabl, o’i gymharu â 25% o ddynion. Ar gyfer SMD2, roedd 33% o fenywod a 24% o ddynion yn cael eu hystyried yn anabl (Ffigur 4). Roedd maint y gwahaniaeth rhwng cyffredinrwydd menywod a dynion yn debyg ar draws pob dull.

**Ffigur 5: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 fesur model cymdeithasol, mewn gwahanol grwpiau oedran [nodyn 1]**





Disgrifiad o'r ffigur: Roedd patrwm pobl anabl ar gyfer y ddau ddiffiniad model cymdeithasol yn amrywiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o ystodau oedran, ar wahân i 40 i 49 oed, a 70 oed a hŷn, roedd gan SMD1 gyffredinrwydd uwch o bobl anabl

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: SMD1 16 i 29 oed = 149; 30 i 39 = 319; 40 i 49 = 399; 50 i 59 = 468; 60 i 69 = 469; 70 a hŷn = 633. SMD2 16 i 29 oed = 146; 30 i 39 = 321; 40 i 49 = 399; 50 i 59 = 470; 60 i 69 = 468; 70 a hŷn = 637.

**Oedran:** Roedd natur y patrwm yng nghyffredinrwydd pobl anabl ar draws grwpiau oedran yn wahanol ar draws y ddau fesur sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol, fel y dangosir yn Ffigur 5. Ar gyfer SMD1, roedd cyffredinrwydd ar ei uchaf ymysg y grwpiau oedran ieuengaf a hynaf (34% a 32%, yn y drefn honno). Ar gyfer SMD2 y grŵp oedran ieuengaf (pobl 16 i 29 oed) oedd â’r ganran uchaf o gyfranogwyr a oedd yn cael eu hystyried yn anabl, sef 36%. Dilynwyd hyn gan y rhai 30 i 39 oed, gyda 29% yn cael eu hystyried yn anabl.

**Ffigur 6: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio'r 2 fesur model cymdeithasol, yn ôl lefelau incwm misol [nodyn 1] [nodyn 2]**




Disgrifiad o'r ffigur: Gan ddefnyddio'r ddau ddiffiniad model cymdeithasol, gostyngodd cyfran y bobl anabl wrth i incwm misol aelwydydd gynyddu.


[Nodyn 1] Incwm misol aelwydydd yw'r incwm misol cyfwerthedig diweddaraf (2025).

[Nodyn 2] Seiliau heb eu pwysoli: SMD1 £1000 neu lai = 356; £1001 i £1500 = 390; £1501 i £2500 = 736; Mwy na £2501 = 847. SMD2 £1000 neu lai = 362; £1001 i £1500 = 391; £1501 i £2500 = 736; Mwy na £2500 = 847.

**Incwm:** Roedd y cysylltiad ag incwm aelwydydd yn debyg ar gyfer amcangyfrifon sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Mae Ffigur 6 yn dangos bod cyffredinrwydd pobl anabl yn gostwng wrth i incwm cyfwerthedig aelwydydd gynyddu. Er enghraifft, roedd 20% o'r rheini yn y grŵp incwm aelwyd uchaf yn anabl (SMD2), gan gynyddu i 44% ymysg y rheini sydd â'r incwm aelwyd isaf. Ar ben hynny, roedd y gwahaniaeth yng nghanran yr unigolion anabl rhwng y grwpiau incwm isaf ac uchaf yn debyg ar draws y ddau amcangyfrif sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Roedd y patrwm incwm hwn yn cyd-fynd â'r patrymau a welwyd gan ddefnyddio'r dull safonol wedi'i gysoni.

**Cyrhaeddiad addysgol:** Fel y gwelwyd yn yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb, roedd cyffredinrwydd pobl anabl yn gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol. Ar gyfer SMD1, roedd cyffredinrwydd pobl anabl ar ei uchaf ymysg y rheini heb unrhyw gymwysterau, ar 38%. Fodd bynnag, yn SMD2, roedd 26% o'r cyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau yn cael eu hystyried yn anabl, o'i gymharu â 32% o'r rhai â chymhwyster uchaf o dan lefel gradd (Ffigur 7).

**Ffigur 7: Cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio’r 2 fesur model cymdeithasol, gyda'r lefel uchaf o gymhwyster ffurfiol [nodyn 1] [nodyn 2]**




Disgrifiad o'r ffigur: Ar gyfer SMD1, gostyngodd cyfran y bobl anabl gyda chymwysterau ffurfiol uwch. Roedd SMD2 yn dilyn y patrwm hwn ar y cyfan, ac eithrio cyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.

[Nodyn 1] Cyrhaeddiad addysgol yw’r cymhwyster ffurfiol uchaf diweddaraf a gyflawnwyd. Mae lefel gradd neu uwch yn cynnwys cymwysterau sy’n cyfateb i lefel gradd.

[Nodyn 2] Seiliau heb eu pwysoli: SMD1 Gradd neu gymhwyster cyfatebol neu uwch = 1,175; Cymwysterau islaw lefel gradd = 1,057; Dim cymwysterau = 199.
SMD2 Gradd neu gymhwyster cyfatebol neu uwch = 1,172; Cymwysterau islaw lefel gradd = 1,053; Dim cymwysterau = 210.

#### 5.3.3.3 Cymharu amcangyfrifon o gyffredinrwydd pobl anabl

Roedd y gymhariaeth rhwng diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb a dulliau model cymdeithasol yn canolbwyntio ar ddeall tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y 3 dull. Mae ystyriaethau dadansoddol wrth ddehongli canfyddiadau yn cynnwys delio â diffyg ymateb ac a oedd y dadansoddiad wedi defnyddio sampl cyfyngedig o gyfranogwyr. Mae yna ddulliau gwahanol hefyd o drin diffyg ymateb wrth ddadansoddi ac adrodd ar ddata arolygon cymdeithasol.

Cynhyrchwyd dwy set o amcangyfrifon i helpu i ddeall effaith diffyg ymateb ar amcangyfrifon, a ddiffinnir yma fel ymateb ‘Ddim yn gwybod’ neu ‘Mae’n well gen i

beidio ateb' i gwestiwn. Mae'r amcangyfrifon a gyflwynir yn Nhabl 17 yn seiliedig ar yr holl gyfranogwyr, gan gynnwys y rheini a ymatebodd gyda 'Ddim yn gwybod' neu 'Mae'n well gen i beidio ateb', ac ni chafodd y ddau gategori hyn eu cynnwys yn yr amcangyfrifon a gyflwynir yn Nhabl 19.  Disgrifir cyfyngau hyder, sef yr ystod ble mae 'gwir' werth amcangyfrif ar gyfer y boblogaeth yn debygol o fodoli, fel a ganlyn:[21]

- mae cyfyngau hyder ynghylch cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio amcangyfrif y Ddeddf Cydraddoldeb (30.8%) ac amcangyfrif SMD1 (27.4%) yn gorgyffwrdd ar lefel hyder 99%, sy'n golygu nad oeddent yn arwyddocaol wahanol; fodd bynnag, roeddent yn arwyddocaol wahanol ar lefel 95%
- ar gyfer amcangyfrif y Ddeddf Cydraddoldeb ac SMD2, mae'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd ar hyder o 99% a 95%, sy'n golygu nad oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol yn y naill achos na'r llall
- roedd y cyfyngau hyder ar gyfer SMD1 ac SMD2 yn gorgyffwrdd yn sylweddol ar 95% a 99%, sy'n golygu nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol ar y naill lefel na'r llall, rhwng y ddau ddull sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o fesur cyffredinrwydd pobl anabl

**Tabl 17: Cyffredinrwydd pobl anabl (gan gynnwys 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb'), ar sail diffiniadau'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r model cymdeithasol**

| | **Diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (%)** | **Diffiniad y model cymdeithasol - SMD1 (%)** | **Diffiniad y model cymdeithasol - SMD2 (%)** |
|---|---:|---:|---:|
| Anabl | 30.8 | 27.4 | 28.2 |
| Ddim yn anabl | 69 | 69.8 | 68.8 |
| Ddim yn gwybod [nodyn 1] | 0.0 | 1.6 | 2.0 |

[21] Ar gyfer cyfwng hyder o 95%, mae siawns o 5% nad yw'r amcangyfrif yn cynnwys gwir werth yr amcangyfrif. Ar gyfer cyfwng hyder o 99%, mae siawns o 1% nad yw'r amcangyfrif yn cynnwys gwir werth yr amcangyfrif. Po fwyaf yw'r cyfwng hyder, y lleiaf manwl gywir yw amcangyfrif, ac mae lefelau hyder uwch yn cynhyrchu cyfyngau ehangach ynghylch yr un amcangyfrif, sy'n golygu y byddai'r cyfwng 99% yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen mwy o sicrwydd. Os bydd cyfyngau hyder yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, yna gellir tybio nad oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhyngddynt. Os nad ydynt yn gorgyffwrdd, yna mae'n debygol y bydd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol.

| | Diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (%) | Diffiniad y model cymdeithasol - SMD1 (%) | Diffiniad y model cymdeithasol - SMD2 (%) |
|---|---|---|---|
| Mae’n well gen i beidio ateb | 0.1 | 1.2 | 1.0 |
| **Sail wedi’i phwysoli (nifer)** | **2,507** | **2,507** | **2,507** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae’r tabl hwn yn dangos bod ‘anabledd’ yn weddol debyg ar draws y gwahanol ffyrdd o’i amcangyfrif. Mae diffyg ymateb yn uwch ar gyfer y dulliau sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol.

[Nodyn 1] Ar gyfer cwestiynau seiliedig ar ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, cafodd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ eu cuddio. Ar gyfer cwestiynau seiliedig ar ddiffiniadau’r model cymdeithasol, cuddiwyd y rhain ar gyfer hanner y sampl a’u datguddio ar gyfer yr hanner arall.

Cynhaliwyd profion ystadegol pellach i gyfrif am y ffaith bod mesurau’n gysylltiedig a’u bod yn cael eu casglu o’r un sampl ymateb. Fodd bynnag, roedd y profion hyn yn eithrio cyfranogwyr a atebodd ‘Ddim yn gwybod’ neu ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ ar gyfer y ddau fesur a gafodd eu profi.

Gan ddefnyddio profion cymharu parau McNemar, roedd y canfyddiadau’n debyg i’r cyfyngau hyder. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng amcangyfrif SMD2 ac amcangyfrifon SMD1 na’r Ddeddf Cydraddoldeb ar y lefelau arwyddocâd o 5% neu 1%. Canfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng amcangyfrifon SMD1 a’r Ddeddf Cydraddoldeb ar arwyddocâd o 5% ond nid 1%. Cynhaliwyd prawf Cochran heb ei bwysoli hefyd a nodwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng pob un o’r 3 mesur. Bydd y gwahaniaethau hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau yn y diffiniad o ‘anabledd’ a ddefnyddir gan y 2 fesur.

Un dangosydd defnyddiol o ran a oes problemau posibl gyda chwestiwn yw cyfran y rhai nad ydynt yn ymateb iddo. Gall cyfran uchel o bobl sy’n dewis peidio ag ateb cwestiwn awgrymu problemau gyda chwestiwn, fel eglurder, baich, sensitifrwydd a pherthnasedd y cwestiwn. Fodd bynnag, nid oes trothwy a argymhellir ar gyfer asesu cyfraddau diffyg ymateb.

Mae cymharu cyfraddau diffyg ymateb yn uniongyrchol rhwng y dull sy’n seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb a dulliau model cymdeithasol yn gymhleth. Roedd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' yn opsiynau ymatebion cudd yn y cwestiynau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcangyfrifon seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn amcangyfrifon y model cymdeithasol, cafodd hanner y sampl ei neilltuo ar hap i opsiynau 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' ymlaen llaw ac ochr yn ochr â gweddill yr opsiynau ymateb. Cuddiwyd yr opsiynau hyn ar

gyfer hanner arall y cyfranogwyr a dim ond os oeddent yn ceisio symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf heb ei ateb y daethant ar gael.

Am y rheswm hwn, mae well cymharu'r amcangyfrif o ddiffyg ymateb seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb o 0.1% â chyfradd diffyg ymateb y model cymdeithasol ar gyfer hanner y sampl y cuddiwyd yr opsiynau 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' ar eu cyfer. Ar sail y dull hwn, roedd y cyfraddau diffyg ymateb yn debyg ar gyfer y model meddygol (0.1%) a'r dull SMD1 (0.2%), fel y dangosir yn Nhabl 18. Roedd gan SMD2 gyfradd ymateb uwch o 0.9%. Roedd y cyfraddau diffyg ymateb SMD2 hyn yn cael eu sbarduno'n bennaf gan ymatebion 'Mae'n well gen i beidio ateb' i gwestiynau am brofiad o fathau o rwystrau yn hytrach na'r cwestiwn am amhariadau. Mae'r ffigurau yn Nhabl 18 yn dangos, lle nad oedd opsiynau ymateb 'Mae'n well gen i beidio ateb' a 'Ddim yn gwybod' wedi'u cuddio, roedd y cyfraddau diffyg ymateb yn sylweddol uwch. Roedd cael yr opsiynau ymateb hyn ar gael (h.y., heb eu cuddio) wedi arwain at lefel uwch gyffredinol o gyfraddau diffyg ymateb ar gyfer yr amcangyfrifon o gyffredinrwydd sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol.

**Tabl 18: Cyfraddau diffyg ymateb, yn ôl y dull o gyflwyno ymatebion 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio ateb'**

| Opsiwn Ymateb | Y Ddeddf Cydraddoldeb: Cudd (%) | SMD1: Cudd (%) | SMD1: Heb eu cuddio (%) | SMD2: Cudd (%) | SMD2: Heb eu cuddio (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 0.0 | 0.1 | 2.4 | 0.0 | 2.1 |
| Mae'n well gen i beidio ateb | 0.1 | 0.1 | 3.2 | 0.9 | 3.0 |
| Cyfanswm heb ymateb ('Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' gyda'i gilydd) | 0.1 | 0.2 | 5.6 | 0.9 | 5.1 |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl hwn yn dangos bod yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' yn uwch pan oedd yr opsiynau hyn heb eu cuddio.

Nid yw'n anghyffredin i allbynnau arolwg cymdeithasol eithrio'r rhai nad ydynt yn ymateb o ddadansoddiad, ac weithiau nid yw bob amser yn glir sut mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' wedi cael eu trin mewn dadansoddiad sylfaenol. Am y rheswm hwn, atgynhyrchwyd amcangyfrifon o gyffredinrwydd i gynnwys cyfranogwyr a roddodd ymateb dilys i'r mesur perthnasol yn unig (h.y. heb ateb gyda 'Ddim yn gwybod' neu 'Mae'n well gen i beidio ateb').

Arweiniodd cynhyrchu amcangyfrifon fel hyn at fwy o gyffredinrwydd yn yr amcangyfrifon sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Fel yr amlinellwyd yn Nhabl 19, roedd cyffredinrwydd ar gyfer SMD1 yn 28.2% (27.4% gyda diffyg ymateb) ac ar gyfer SMD2 roedd yn 29.0% (28.2% gyda diffyg ymateb). Roedd hyn yn lleihau'r bwlch rhwng diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd ac amcangyfrifon y model cymdeithasol. Gan ddefnyddio profion cymharu parau McNemar, roedd y canfyddiadau'n debyg i'r cyfyngau hyder. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng amcangyfrif SMD2 ac amcangyfrifon SMD1 neu'r amcangyfrifon sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb ar lefelau arwyddocâd o 5% neu 1% (dau gyfeiriad). Canfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng amcangyfrif SMD1 a'r amcangyfrif sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb, gydag arwyddocâd o 5% ond nid 1% (dwy gyfeiriad hefyd).[22]

**Tabl 19: Cyffredinrwydd pobl anabl lle cafodd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ateb' eu heithrio, yn seiliedig ar ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb a diffiniad y model cymdeithasol**

| | **Diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (%)** | **Diffiniad y model cymdeithasol - SMD1 (%)** | **Diffiniad y model cymdeithasol - SMD2 (%)** |
|---|---:|---:|---:|
| Anabl | 30.9 | 28.2 | 29.0 |
| Ddim yn anabl | 69.1 | 71.8 | 71.0 |
| **Sail wedi'i phwysoli (nifer)** | **2,504** | **2,435** | **2,432** |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl hwn yn dangos bod y gwahanol ddulliau o amcangyfrif anabledd yn eithaf tebyg pan nad yw'r rhai nad ydynt yn ymateb yn cael eu cynnwys.

**Deall patrymau yng nghyffredinrwydd cyfranogwyr anabl**

Er y gellid disgrifio'r amcangyfrifon o gyffredinrwydd ar gyfer y dull seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb a'r dull model cymdeithasol fel rhai gweddol debyg, mae hefyd yn bwysig deall yr ymatebion i'r cwestiynau sylfaenol ar lefel unigol. Mae hyn yn

---

[22]Cynhaliwyd prawf Cochran heb ei bwysoli a nodwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng pob un o'r 3 mesur. Bydd hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau rhwng mesurau seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb a mesurau'r model cymdeithasol. Cynhaliwyd profion cymharu parau McNemar gan ddefnyddio cyfranogwyr a roddodd ateb dilys i gwestiynau o'r 3 model yn unig (maint sampl heb ei bwysoli 2,372). Roedd canlyniadau'r profion hynny yr un fath, dim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng mesurau SMD2 ac SMD1 neu'r mesurau seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb, a gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng mesurau SMD1 a'r mesurau seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb, ond dim ond ar y lefel arwyddocâd o 5%.

caniatáu cysondeb ar draws cwestiynau i'w harchwilio. Er bod anghysondeb yn gallu dangos camddealltwriaeth neu amwysedd yn y cwestiynau, neu amrywioldeb mewn canfyddiadau unigol, nid yw hyn bob amser yn wir o reidrwydd. Gallai hefyd fod oherwydd bod cwestiynau arolwg sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol yn newydd, a bod y dull methodolegol o amcangyfrif cyffredinrwydd yn newydd, ac felly dylid disgwyl gwahaniaethau. Fel arall, gall cyfuniad o resymau esbonio anghysondebau a dim ond profion pellach fyddai'n helpu i ddeall yn llawn unrhyw wahaniaethau a welwyd.

Roedd gofyn yr holl gwestiynau i'r holl gyfranogwyr yn golygu ei bod yn bosibl archwilio i ba raddau yr oedd unigolyn yn cael ei ddosbarthu'n gyson ar draws y gwahanol ddulliau o'i fesur. Dyma'r grwpiau o ddiddordeb penodol:

- y rheini a oedd yn cael eu hystyried yn anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb ond nid yn ôl amcangyfrifon sy'n cyd-fynd â'r naill fodel cymdeithasol na'r llall
- y rheini sy'n cael eu hystyried yn anabl mewn amcangyfrifon sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol ond nid yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd

Mae Tabl 20 yn dangos bod 374 o gyfranogwyr yn anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb a'r ddau ddiffiniad model cymdeithasol. Dosbarthwyd 247 o gyfranogwyr yn anabl gan ddefnyddio'r Ddeddf Cydraddoldeb, ond nid drwy ddefnyddio diffiniad y naill fodel cymdeithasol na'r llall. Ar y llaw arall, roedd 161 o gyfranogwyr yn cael eu dosbarthu fel pobl anabl yn ôl amcangyfrifon y ddau fodel cymdeithasol ond nid diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb. Roedd yn bosibl archwilio proffil demograffig y rheini a oedd yn cael eu hystyried yn anabl gan ddefnyddio un dull ond nid y llall.

**Tabl 20: Cymharu categorïau cyfranogwyr yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb a dulliau model cymdeithasol**

| Diffiniad | Nifer y cyfranogwyr (n) |
|---|---|
| Anabl yn ôl y 3 dull (Deddf Cydraddoldeb a model cymdeithasol) | 374 |
| Anabl yn ôl y dull seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb yn unig | 247 |
| Anabl yn ôl dulliau model cymdeithasol yn unig | 161 |

Disgrifiad o'r tabl: Mae'r tabl hwn yn dangos bod rhai cyfranogwyr wedi'u categoreiddio'n anabl ar sail y 3 dull gwahanol.

**Anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb ond nid y model cymdeithasol o anabledd**

Roedd 247 o gyfranogwyr yn y grŵp a oedd wedi cael eu dosbarthu fel pobl anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb ond nid diffiniad y model cymdeithasol, yn anghymesur:

- rhwng 40 a 59 oed, neu 70 oed a hŷn
- yn meddu ar gymhwyster ffurfiol uchaf o dan lefel gradd

Edrychwyd ar effeithiau posibl effaith trefn. Rhagdybiwyd y gallai'r cyfranogwyr a dderbyniodd y set fyrrach o gwestiynau a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yna set hirach y model cymdeithasol, deimlo blinder neu ystyried bod y cwestiynau'n ailadroddus neu'n gorgyffwrdd o ran cynnwys. Gall hyn arwain at lefel is o ymgysylltu neu sylwgarwch, a allai effeithio ar ansawdd eu hymateb. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn y data hwn, gan awgrymu nad oedd effaith trefn yn dylanwadu ar ymatebion y cyfranogwyr hyn.

**Anabl yn ôl y model cymdeithasol ond nid diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb**

Roedd y 162 o gyfranogwyr a oedd yn anabl yn ôl dau ddosbarthiad y model cymdeithasol ond nid y Ddeddf Cydraddoldeb, yn anghymesur:

- o dan 60 oed.
- yn meddu ar gymhwyster ffurfiol uchaf ar lefel gradd a chyfatebol neu uwch

Ar gyfer y grŵp hwn o gyfranogwyr, roedd rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu effeithiau trefn posibl. Y ddamcaniaeth oedd y gallai derbyn cwestiynau'r model cymdeithasol yn gyntaf effeithio ar yr ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb a oedd yn dilyn. Roedd y data hwn yn awgrymu bod hyn yn wir. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a oedd yn cael eu hystyried yn anabl yn ôl y model cymdeithasol, ond nid diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, wedi cael y cwestiynau a oedd yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol yn gyntaf.

### 5.3.4 Crynodeb o'r canfyddiadau

#### 5.3.4.1 Amhariadau

Yn unol â'r data a gyhoeddwyd, ar gyfer y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni, 'Symudedd', 'Iechyd meddwl' a 'Stamina neu anadlu neu flinder' oedd y mathau mwyaf cyffredin o amhariadau a nodwyd gan gyfranogwyr anabl.

Gan ddefnyddio dull wedi'i alinio â model cymdeithasol o fesur amhariadau, y mathau o amhariadau a adroddwyd amlaf gan gyfranogwyr anabl oedd 'Iechyd meddwl' (50% ar gyfer SMD1, a 53% ar gyfer SMD2) a 'Bod mewn poen neu anghysur' (gyda 49% ar gyfer SMD1, a 52% ar gyfer SMD2).

Lle’r oedd cyfatebiaethau swyddogaethol ar draws dau fersiwn y cwestiwn, roedd cyffredinrwydd yn tueddu i fod ar ei uchaf ar gyfer y dull a oedd yn cyd-fynd â’r model cymdeithasol.

Fersiwn y model cymdeithasol oedd â’r gyfran isaf o gyfranogwyr a ddewisodd ‘Arall’, sy’n awgrymu ei fod yn cyfleu’n well yr ystod o opsiynau posibl y gallai pobl anabl fod eisiau eu darparu.

#### 5.3.4.2 Profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd

Ar draws pob math o amhariad, y meysydd bywyd mwyaf cyffredin y dywedodd cyfranogwyr anabl eu bod yn profi rhwystrau ynddynt oedd ‘Gofal iechyd’ a ‘Mannau a chyfleusterau cyhoeddus’. Dywedodd un o bob deg eu bod wedi wynebu rhwystrau ar draws o leiaf 4 maes bywyd.

Mae’r ganran isel o gyfranogwyr sy’n dewis ‘Arall’, ynghyd â’r disgrifiadau a ddarperir o dan yr ymateb hwn, yn awgrymu bod yr opsiynau ymateb a ddiffiniwyd ymlaen llaw yn cwmpasu’n effeithiol yr ystod eang o feysydd bywyd y gellir profi rhwystrau ynddynt.

Roedd diffyg ymateb yn gymharol isel ac roedd y ffordd y cafodd ei gyflwyno yn effeithio ar y dewisiadau. Roedd ar ei uchaf pan oedd yr opsiynau ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ i’w gweld ochr yn ochr â’r holl ymatebion eraill.

Y rheini ag amhariad ‘Clyw’ oedd fwyaf tebygol o ddweud nad oeddent yn profi rhwystrau yn unrhyw un o’r meysydd bywyd a restrwyd.

#### 5.3.4.3 Profiad o wahanol fathau o rwystrau

Y math o rwystr a nodwyd amlaf yn ystod y 12 mis blaenorol oedd rhwystr agweddol. Dywedodd tri o bob 10 o’r rheini a oedd ag amhariad eu bod wedi profi ‘Safbwyntiau ac ymddygiad gan eraill’ a oedd yn anghefnogol.

Roedd 23% o’r rheini a oedd ag o leiaf un math o amhariad wedi wynebu mwy nag un math o rwystr.

Ychydig o gyfranogwyr a ddewisodd yr opsiwn ymateb ‘Arall’ gan awgrymu bod y cwestiwn yn cofnodi’n effeithiol yr ystod o fathau o rwystrau y mae’n bosibl eu profi.

Roedd diffyg ymateb, sy’n cael ei sbarduno’n bennaf gan yr opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio ateb’, yn uwch ymysg y rheini sydd ag amhariad. Roedd cuddio’r opsiynau ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’ yn lleihau’r gyfradd diffyg ymateb.

#### 5.3.4.4 Mesur cyffredinrwydd pobl anabl

Gan ddefnyddio'r dull seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb o fesur cyffredinrwydd, roedd tua 3 o bob 10 cyfranogwr yn anabl. Roedd hyn yn sylweddol uwch na’r cyntaf

o’r amcangyfrifon sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol (SMD1), ond nid yr ail (SMD2).

Roedd eithrio’r rhai oedd heb ymateb o’r dadansoddiad yn lleihau’r bwlch rhwng y Ddeddf Cydraddoldeb ac amcangyfrifon sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol.

Roedd y patrymau a welwyd ar draws gwahanol grwpiau o bobl pan ddefnyddiwyd dull wedi’i alinio â model cymdeithasol o fesur cyffredinrwydd yn debyg i’r rhai a welwyd pan ddefnyddiwyd y dull seiliedig ar y Ddeddf Cydraddoldeb.

Roedd cyfranogwyr wedi’u categoreiddio fel pobl anabl yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb ond nid diffiniadau’r model cymdeithasol, ac i’r gwrthwyneb.

# 6. Argymhellion

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r profion meintiol ar y cwestiynau am amhariadau a rhwystrau. Mae'n defnyddio canlyniadau'r profion gwybyddol i ddehongli'r canfyddiadau hyn ac i lywio argymhellion. Gwneir argymhellion ar gyfer y cwestiwn amhariadau a'r ddau gwestiwn rhwystrau. Yn ogystal, gwneir rhai argymhellion cyffredinol sy'n berthnasol i'r holl gwestiynau.

Dim ond fersiwn oedolion y cwestiynau a brofwyd ar y Panel, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddwyd sylw i ffurfioldeb rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir mewn profion gwybyddol cyn cynnal profion maes meintiol. Cwblhawyd cyfweliad y Panel yn Gymraeg gan 10 cyfranogwr, ac ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â'r cyfieithiad.

## 6.1 Amhariadau

Datblygwyd cwestiwn newydd ar amhariadau sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol, a oedd yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer safon amhariadau wedi'i chysoni GSS. Gan adeiladu ar yr adborth gan bobl anabl a gymerodd ran yn y cam darganfod, diwygiwyd nifer a disgrifiad y categorïau ymateb. Newidiwyd bôn y cwestiwn hefyd, gan gyfeirio at fannau y mae cyflyrau neu amhariadau hirdymor yn effeithio arnynt. Cafodd y cwestiwn ei fireinio ymhellach, yn dilyn profion gwybyddol gyda phobl anabl, a'i brofi ar y Panel. Dangosodd y prawf meintiol hwn ar raddfa fawr fod cyfranogwyr yr arolwg yn fodlon ac yn gallu ei ateb.

### 6.1.1 Dehongli canfyddiadau'r cam alffa

#### 6.1.1.1 Cyffredinrwydd amhariadau

Cafodd safon amhariadau wedi'i chysoni GSS a'r cwestiynau amhariadau newydd sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol eu profi gan y Panel. Wrth gymharu amcangyfrifon o'r ddau fesur, darparodd y fersiwn sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol amcangyfrif uwch o amhariadau ymysg poblogaeth y DU o'i gymharu â safon amhariadau wedi'i chysoni GSS (35% o'i gymharu â 57%). Mae hyn yn awgrymu bod y 2 gwestiwn yn mesur y cysyniad o amhariadau mewn gwahanol ffyrdd. Roeddent hefyd wedi cynhyrchu amcangyfrifon gwahanol o gyffredinrwydd ar gyfer mathau penodol o amhariad. Mae'r gwahaniaethau hyn i'w disgwyl o ystyried bod y 2 gwestiwn wedi'u geirio'n wahanol ac yn disgrifio amhariadau mewn gwahanol ffyrdd. Dylid cadw'r gwahaniaethau hyn mewn cof wrth ddehongli canlyniadau.

#### 6.1.1.2 Pa mor gynhwysfawr yw'r categorïau ymateb

Mae tystiolaeth o'r profion maes meintiol yn dangos bod y cwestiwn yn cofnodi ystod ehangach o amhariadau na safon amhariadau wedi'i chysoni GSS, gan arwain at gyfradd is o lawer o atebion 'Arall'. Mae tystiolaeth bod y gyfradd isel hon o

ymatebion ‘Arall’ yn deillio o gynnwys categorïau ymateb ychwanegol a defnyddio disgrifiadau sy’n adlewyrchu profiadau bywyd cyfranogwyr yn well.

#### 6.1.1.3 Derbynioldeb

Roedd y cwestiwn yn dderbyniol i’r cyhoedd. Canfu profion gwybyddol fod cyfranogwyr yn fodlon darparu ymatebion i gwestiwn amhariadau gyda fformat ymateb ‘Dewiswch bob un sy’n berthnasol’. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn yn y profion meintiol, gyda lefelau isel iawn o ddiffyg ymateb (‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ateb’) ar gyfer cwestiwn y model cymdeithasol.

#### 6.1.1.4 Argymhellion

**Argymhellion cyffredinol**

Dylid bwrw ymlaen â’r cwestiwn amhariadau sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol a brofwyd ym mhecyn gwaith 6 a’i ddefnyddio mewn ystod ehangach o arolygon a chyd-destunau casglu data. Anogir defnyddwyr y cwestiynau hyn yn y dyfodol i gymharu amcangyfrifon o’r cwestiwn sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol â safon amhariadau wedi’i chysoni GSS, er mwyn deall sut gallai’r 2 fod yn wahanol. Dylid annog defnyddwyr i gyhoeddi canlyniadau gan ddefnyddio’r cwestiwn, gan roi manylion y dull(iau) casglu data a ddefnyddiwyd, a lleoliad y cwestiwn yn yr holiadur neu’r ffurflen. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu’r canfyddiadau hyn, er mwyn creu sylfaen dystiolaeth ar ddefnyddio’r cwestiwn a sefydlogrwydd yr amcangyfrifon y mae’n eu cynhyrchu. Gallai’r dystiolaeth hon hysbysu a oes angen rhagor o waith datblygu a lle dylid ei ganolbwyntio.

**Argymhellion penodol**

**Hawdd ei ddeall:** Amlygodd profion gwybyddol y fersiynau Cymraeg a Saesneg hawdd eu deall o’r cwestiwn amhariadau bwysigrwydd bod delweddau’n glir ac yn cyfleu ystyr y categori ymateb yn gywir heb i gyfranogwyr orfod darllen y testun. Argymhellir bod delweddau’n cael eu profi’n wybyddol gyda defnyddwyr hawdd ei ddeall i sicrhau hyn.

**Iaith Arwyddion Prydain (BSL):** Cafodd y cwestiwn amhariadau sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol a brofwyd ar y Panel ei brofi’n wybyddol gyda 4 arwyddwr BSL byddar. Roedd canfyddiadau’r prawf hwn yn tynnu sylw at broblemau gyda fformat presennol y cwestiwn amhariadau, a drafodir yn nes ymlaen yn yr adran hon, ac yn benodol gyda’r opsiwn ‘Clyw’. Ni wnaeth rhai cyfranogwyr ddewis y categori hwn oherwydd ei fod yn cyfeirio at glyw yn hytrach na bod yn fyddar. Yn y prawf meintiol, nid oedd yn bosibl pennu a oedd cyfranogwyr byddar wedi dewis y categori ‘Clyw’ ai peidio. Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith gyda phobl Fyddar i benderfynu sut y gellir gwella geiriad y categori.

**Rhieni:** Amlygodd profion gwybyddol fod angen cyfarwyddyd ar y fersiwn i rieni ar yr hyn y dylai rhieni ei wneud os oes ganddynt fwy nag un plentyn sydd ag amhariadau.

Efallai y bydd angen cynnwys cwestiwn ychwanegol yn yr holiadur sy'n nodi nifer y plant ar yr aelwyd a'u hoedran, gydag atebion yn cael eu defnyddio i benderfynu pa blentyn y mae'r rhiant yn ateb amdano. Byddai angen profi unrhyw gyfarwyddiadau neu ddull llwybro.

## 6.2 Rhwystrau

### 6.2.1 Dehongli canfyddiadau'r cam alffa

#### 6.2.1.1 Deall a dehongli

Roedd tystiolaeth o'r prawf maes meintiol yn dangos y gallai pobl ateb y ddau gwestiwn ac mae'n ymddangos bod y ddau ohonynt yn cofnodi'r hyn y cawsant eu cynllunio i'w fesur - profiad o wahanol fathau o rwystrau ac mewn gwahanol feysydd bywyd. Yn unol â chanfyddiadau'r profion gwybyddol, roedd tystiolaeth o broblemau posibl o ran dealltwriaeth a dehongliad ymhlith rhai cyfranogwyr, y dylid eu cadw mewn cof wrth ddehongli data.

Er bod y cyfraddau diffyg ymateb yn ddigon isel i gael eu hystyried yn amhroblemus, gallent awgrymu rhywfaint o anhawster o ran deall y cwestiynau, yn enwedig ymysg y rheini sydd â chymwysterau is neu ddim cymwysterau ffurfiol. Yn yr un modd, efallai bod y berthynas rhwng y 2 gwestiwn ar lefel unigol yn ddisgwyliedig o ystyried y gwahanol agweddau ar rwystrau y maent yn ceisio eu nodi. Fodd bynnag, gallai hefyd fod yn dystiolaeth o broblemau deall gydag un neu'r ddau gwestiwn ar gyfer grŵp bach o bobl. Byddai ymchwil bellach yn helpu i archwilio'r berthynas a'r rhyngweithio rhwng y 2 gwestiwn.

#### 6.2.1.2 Pa mor gynhwysfawr yw'r categorïau ymateb

Cadarnhaodd prawf maes y Panel ganfyddiadau'r cyfweliadau gwybyddol fod yr opsiynau ymateb ar gyfer y ddau gwestiwn rhwystrau yn gynhwysfawr. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw brif feysydd bywyd na mathau o rwystrau wedi cael eu methu, na bod unrhyw opsiynau amherthnasol wedi cael eu cynnwys. Roedd canran isel yr ymatebion 'Arall', ynghyd ag adolygiad o'r ymatebion cysylltiedig, yn cadarnhau bod yr opsiynau ymateb wedi'u diffinio'n dda ac yn briodol. Trafodir rhai mân newidiadau i'r enghreifftiau o ymatebion yn yr adran argymhellion sy'n dilyn.

#### 6.2.1.3 Derbynioldeb

Roedd y ddau gwestiwn yn dderbyniol i'r cyhoedd. Dangosodd cyfweliadau gwybyddol nad oedd y naill na'r llall yn ymwthiol nac yn rhy bersonol, a chadarnhaodd data'r Panel barodrwydd cyffredinol i'w hateb. Ar ôl y profion gwybyddol, gwnaed gwelliannau i'r ddau gwestiwn, gan fynd i'r afael â phryderon am hyd a chymhlethdod y cwestiwn, a'r baich ymateb. Ar gyfer y ddau gwestiwn, cyfranogwyr â chymwysterau ffurfiol is oedd y rhan fwyaf o'r grŵp oedd heb ymateb. Gallai hyn fod yn dystiolaeth bod cymhlethdod y cwestiynau wedi arwain at fwy o lwyth gwybyddol a arweiniodd at ddiffyg ymateb gan rai cyfranogwyr. Roedd cyfradd

uwch o ddiffyg ymateb hefyd ymysg y rhai a gafodd y set o gwestiynau'r model cymdeithasol yn ail. Gallai hyn fod yn dystiolaeth o flinder cyfranogwyr, neu o ganlyniad i'r broses brofi. Byddai ymchwil bellach yn caniatáu archwilio'r rhesymau dros ddiffyg ymateb yn llawn.

**Iaith Arwyddion Prydain (BSL)**

Un mater penodol a nodwyd mewn profion gwybyddol oedd y dehongliad unigryw o'r cwestiwn gan arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar. Mae'r canfyddiad hwn yn tanlinellu'r angen i archwilio addasiadau diwylliannol ac ieithyddol i sicrhau bod y cwestiwn yn gynhwysol ac yn cael ei ddehongli'n gywir gan yr holl gyfranogwyr.

### 6.2.1.4 Argymhellion

**Argymhellion cyffredinol**

Mae dull sy'n cyd-fynd â model cymdeithasol o gofnodi profiad pobl o rwystrau ar draws bywyd mewn arolwg yn newydd yng Nghymru, ac yng nghyd-destun ehangach y DU. Mae tystiolaeth o'r ymchwil hwn yn dangos y dylid bwrw ymlaen â'r fersiynau terfynol a ddarperir a'u defnyddio mewn ystod ehangach o arolygon a gwahanol gyd-destunau casglu data. Gan fod y naill a'r llall yn dychwelyd amcangyfrifon tebyg o gyffredinrwydd pobl anabl (o'u defnyddio ar y cyd â'r cwestiwn amhariadau newydd), dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cymhwyso'r naill a'r llall, yn dibynnu ar bwrpas a natur y cyd-destun ehangach y cânt eu defnyddio ynddo.

Dylai defnyddwyr yn y dyfodol gofio canfyddiadau'r profion gwybyddol y gall hyd cwestiynau achosi heriau i rai pobl anabl. Mae potensial hefyd ar gyfer arbrofi pellach, gan archwilio a yw newid fformat y cwestiynau yn lleihau diffyg ymateb, yn enwedig ar gyfer y cwestiwn sy'n gofyn am rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd. Un opsiwn, er enghraifft, fyddai rhannu'r cwestiwn yn ddau, gan ddefnyddio'r un bôn cwestiwn ond gyda dwy restr fyrrach. Neu, gellid trawsnewid y cwestiwn o fformat aml-god', 'dewiswch bob un sy'n berthnasol' i gyfres o gwestiynau 'ie' neu 'na' ar wahân, a phob un yn mynd i'r afael ag un maes bywyd. Gallai hyn leihau llwyth gwybyddol drwy ganiatáu i gyfranogwyr ganolbwyntio ar un maes ar y tro. Byddai'r ddau ddull yn arwain at fwy o gwestiynau arolwg, yn cymryd lle, ac o bosibl yn cymryd amser mewn perthynas ag offerynnau casglu data. Gallai hyn effeithio ar fabwysiadu'r cwestiynau newydd hyn, a dylid ei brofi.

Anogir defnyddwyr i gyhoeddi data ychwanegol a gynhyrchir i ddarparu corff cynyddol o dystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae'r cwestiynau'n perfformio, ac a oes unrhyw faterion o ran mesur. Dylai'r data hwn lywio penderfyniadau ynghylch a oes angen unrhyw waith datblygu pellach a ble y dylid canolbwyntio arno.

**Argymhellion penodol**

**Pob fersiwn:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cyflwyno 'anghenion nad ydynt yn cael eu cefnogi gan yr Heddlu' naill ai fel opsiwn ymateb newydd neu fel enghraifft ar gyfer opsiwn presennol. Byddai angen cydbwyso unrhyw newid ochr yn ochr â'r canfyddiad cyffredinol bod y cwestiwn eisoes yn feichus yn wybyddol.

**Hawdd ei ddeall:** Ynghylch y ddau gwestiwn am rwystrau:

- dylai geiriad bôn y cwestiwn ei gwneud yn glir na fwriedir i'r enghreifftiau a ddarperir ar gyfer pob opsiwn ymateb fod yn rhestr gynhwysfawr; dylid profi'r argymhelliad hwn yn wybyddol
- dylid diwygio'r opsiwn ymateb 'Rhywbeth arall' i'w gwneud yn glir bod darparu ymateb ysgrifenedig cysylltiedig yn ddewisol

Ar gyfer y cwestiwn ar brofiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd, dylid adolygu'r delweddau ar gyfer yr opsiynau ymateb canlynol a'u profi'n wybyddol i asesu a ydynt yn glir ac i helpu pobl i ddeall yn gywir beth yw'r categori.

- **Gofal iechyd:** Dylai'r ddelwedd gael ei newid am ddelwedd o feddyg, nyrs, neu rywun mewn meddygfa.
- **Eich ardal leol:** Disodli'r ddelwedd a'r enghreifftiau â mathau o adeiladau lleol.
- **Gweithgareddau a digwyddiadau:** Disodli'r ddelwedd gyda delwedd o weithgaredd, chwaraeon neu gyfuniad o ddigwyddiadau.

Ar gyfer y cwestiwn am brofiad o wahanol fathau o rwystrau, dylid adolygu'r delweddau ar gyfer yr opsiynau ymateb canlynol a'u profi'n wybyddol i asesu a ydynt yn glir ac i helpu pobl i ddeall yn gywir beth yw'r categori.

- **Rheolau nad ydynt yn cefnogi eich anghenion:** Dylai'r ddelwedd annog cyfranogwyr i feddwl yn ehangach am reolau. Arweiniodd y ddelwedd bresennol at rai cyfranogwyr yn canolbwyntio ar gyflogaeth wrth ateb.
- **Cael eich trin yn wahanol:** Mae angen delwedd newydd sy'n dangos ystyr y categori hwn yn gliriach ac yn fwy cyson i gyfranogwyr.
- **Mannau neu adeiladau sy'n anodd eu defnyddio:** Dylid disodli'r ddelwedd â llun o fynedfa hygyrch i adeilad.

**Iaith Arwyddion Prydain (BSL)**

Cafodd cwestiynau'r model cymdeithasol am rwystrau a brofwyd ar y Panel eu profi'n wybyddol gyda 4 arwyddwr BSL byddar. Amlygodd canfyddiadau'r prawf hwn broblemau gyda fformat presennol y ddau gwestiwn, a drafodir yn ddiweddarach yn

yr adran hon. Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith gydag arwyddwyr BSL byddar i benderfynu sut y gellir gwella geiriad y categori.

**Rhieni:** Ar gyfer y ddau gwestiwn rhwystrau, argymhellir bod bôn y cwestiwn yn cael ei brofi'n wybyddol ymhellach i sicrhau bod rhieni'n glir y gofynnir iddynt ateb am eu plentyn.

Mae angen i riant gyda mwy nag un plentyn fod yn glir ynghylch pa blentyn i ateb y cwestiynau hyn. Dylai canllawiau sy'n cyd-fynd â chwestiynau'r arolwg wneud hyn yn glir ac amlinellu rhai dulliau posibl ar gyfer defnyddwyr. Byddai angen profi unrhyw ddull sy'n cynnwys cyfarwyddiadau neu lwybro i rieni.

### 6.2.2 Argymhellion cyffredinol sy'n berthnasol i'r cwestiynau am amhariadau a rhwystrau

#### 6.2.2.1 Fersiwn rhieni

Nid oedd yn bosibl profi fersiynau rhieni y cwestiynau'n feintiol am wahanol resymau. Felly, cynigir fersiynau rhieni o'r cwestiynau ar sail yr egwyddorion a fabwysiadwyd ym mhecyn gwaith 4, canfyddiadau profion gwybyddol o gwestiynau rhieni ac oedolion (pecyn gwaith 5), a phrofion meintiol (pecyn gwaith 6) o'r cwestiynau oedolion. Argymhellir cynnal profion gwybyddol pellach o'r cwestiynau hyn cyn eu defnyddio. Pan ddefnyddir y cwestiynau hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ac adolygu data i benderfynu pa ddatblygiadau a diwygiadau pellach, os o gwbl, y gallai fod eu hangen.

#### 6.2.2.2 Fersiwn plant

Dylid datblygu fersiwn plant o'r cwestiwn a'i brofi'n wybyddol gyda phlant anabl, fel y gellir casglu data'n uniongyrchol gan blant hŷn, yn hytrach na rhieni.

#### 6.2.2.3 Fersiwn hawdd ei ddeall

Dylai delweddau a geiriad y fersiwn hawdd ei ddeall fod yn destun profion gwybyddol pellach, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn gyson yn y ffordd a fwriadwyd.

#### 6.2.2.4 Fersiwn BSL

Dylid ymgynghori ymhellach â phobl Fyddar i esbonio ac ymhelaethu ar ganfyddiadau profion gwybyddol Iaith Arwyddion Prydain, ac i lywio gwelliannau pellach. Gallai archwiliad i effaith gwahanol strwythurau a fformatau cwestiynau ar y llwyth gwybyddol ar gyfer arwyddwyr BSL byddar awgrymu gwelliannau i gasglu data mewn iaith weledol. Dylai hefyd archwilio ymhellach y materion ynghylch terminoleg a amlygwyd yn y profion gwybyddol BSL sy'n ymwneud â'r holiadur ffynhonnell Saesneg.

#### 6.2.2.5 Dull casglu data

Roedd y prawf maes meintiol yn cynnwys dulliau casglu data dros y we a thros y ffôn ond nid wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, nid oedd yn asesu i ba raddau yr effeithiodd y dull o gasglu data a sut y cyflwynir cwestiynau i gyfranogwyr ar atebion iddynt. Yn seiliedig ar ganfyddiadau o astudiaethau methodolegol blaenorol, gallai diffyg atgoffa am y cwestiwn yn weledol a'r opsiynau ateb yn y dull ffôn effeithio ar ymatebion[23]. Er mwyn gwirio hyn yn iawn a gweld pa mor fawr yw'r effaith, argymhellir profi ymhellach effaith atgoffa am y cwestiwn a'r opsiynau ymateb. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r prawf hwn a darparu canllawiau ar ba gamau, os o gwbl, y dylai cynhyrchwyr data eu cymryd i ddelio ag unrhyw effeithiau dull.

## 6.3 Canllawiau'r cwestiynau

Wrth ddefnyddio'r set newydd o gwestiynau, dylid dilyn y canllawiau canlynol.

### 6.3.1 Gofyn y cwestiynau

Rhaid casglu data mewn ffordd gynhwysol. Dylid cynnig fersiynau Cymraeg, BSL a hawdd eu darllen o'r cwestiynau i gyfranogwyr. Mae Canllaw Proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar Arferion Ymchwil Cymdeithasol Cynhwysol yn rhoi arweiniad defnyddiol.

Mae'r cwestiynau'n cynnwys cyfarwyddiadau y mae'n rhaid eu cyfleu i gyfranogwyr.

Os bydd data'n cael ei gasglu drwy gyfweliad wyneb yn wyneb, dylid rhoi bôn y cwestiwn a'r dewisiadau ymateb i'r cyfranogwr ar gerdyn arddangos.

Wrth ofyn cwestiynau mewn sawl dull, dylid cyflwyno opsiynau ymateb yn gyson ar draws dulliau. Bydd hyn yn golygu bod modd asesu effaith trefn.

Mae'r cwestiynau'n defnyddio fformat ymateb 'dewiswch bob un sy'n berthnasol'. Sylwch nad yw 'Dim un o'r rhain', 'Ddim yn gwybod', a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' yn godau sy'n annibynnol ar ei gilydd.

Dylai defnyddwyr ystyried a ydynt am roi opsiynau ymateb 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' i gyfranogwyr ymlaen llaw ai peidio. Os nad ydynt, ni ddylid cynnig yr opsiynau ymateb hyn i ddechrau. Dylai'r cyfwelydd eu codio os yw'n sôn amdanynt yn ddigymell. Os ydych chi'n defnyddio hunan-lenwi ar-lein, yna dylid cuddio'r opsiynau hyn a dylent ddod yn weladwy dim ond os yw'r cyfranogwr yn

[23] Tomova, G. D., Silverwood, R. J., & Wright, L. (2025). Mode effects on survey item measurement: A systematic review of the experimental evidence, Survey Futures Working Paper number 12. Colchester, UK: University of Essex.

ceisio symud ymlaen heb roi ateb. Sylwch y bydd cynnwys ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ ymlaen llaw yn arwain at fwy o ddiffyg ymateb.

Ar gyfer y cwestiwn rhwystrau ‘meysydd bywyd’, gellir eithrio’r opsiwn ymateb ‘Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi anghenion fy mhlentyn’ os nad yw’n berthnasol i’r plentyn (ar sail ei oedran) neu os nad oes diddordeb mewn casglu data ar rwystrau anuniongyrchol y gallai plentyn anabl eu hwynebu.

#### 6.3.2 Prosesu data

Mae’r cwestiynau’n cynnwys categori ‘Arall’. Yn ddelfrydol, lle bo adnoddau’n caniatáu, dylai hyn gynnwys opsiwn ysgrifenedig er mwyn i gyfranogwyr allu cofnodi atebion nad ydynt yn cyd-fynd â’r opsiynau ymateb a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Dylid adolygu’r atebion a gofnodir yn ‘Arall’ a’u hôl-godio i’r opsiynau ymateb presennol lle bo hynny’n bosibl.

#### 6.3.3 Dadansoddi data

Gellir cynhyrchu dau fesur ar wahân sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol o gyffredinrwydd pobl anabl ar sail ymatebion i’r cwestiynau am amhariadau a rhwystrau. Sef:

- **Model cymdeithasol 1 (SMD1):** Mae cyfranogwr yn cael ei gategoreiddio’n anabl os yw’n cofnodi presenoldeb un neu fwy o amhariadau (codau 1 i 13) ac wedi wynebu rhwystrau mewn un neu fwy o opsiynau ‘meysydd bywyd’ (codau 1 i 10)
- **Model cymdeithasol 2 (SMD2):** Mae cyfranogwr yn cael ei gategoreiddio’n anabl os yw’n cofnodi presenoldeb un neu fwy o amhariadau (codau 1 i 13) ac wedi profi un neu fwy o fathau o rwystrau (codau 1 i 5)

### 6.4 Cwestiynau newydd a argymhellir

Mae’r adran hon yn rhoi manylion fersiwn Saesneg y set newydd o gwestiynau a argymhellir ar gyfer cwestiwn amhariadau a 2 gwestiwn rhwystrau gwahanol. Mae fersiynau ar wahân wedi’u cynllunio ar gyfer oedolion a rhieni. Mae’r set o gwestiynau i oedolion wedi cael ei chynhyrchu ar wahân yn Gymraeg, hawdd ei ddeall (Cymraeg a Saesneg), ac Iaith Arwyddion Prydain.

Mae’r set o gwestiynau i rieni wedi cael ei llunio yn Gymraeg a hawdd ei ddeall (Cymraeg a Saesneg). Dim ond un cyfranogwr a brofodd y cwestiwn BSL i rieni yn wybyddol, a nododd y fersiwn i oedolion broblemau gyda strwythur y cwestiynau. Felly, argymhellir ymgynghori ag arwyddwyr BSL byddar a phrofi’r fersiwn BSL ar gyfer oedolion ymhellach. O gynnal profion ychwanegol, gellir cymhwyso’r canfyddiadau’n ehangach a datblygu’r fersiwn i rieni ymhellach.

### 6.4.1 Cwestiwn amhariadau

#### 6.4.1.1 Fersiwn oedolion

Ym mha rai o'r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae cyflyrau neu amhariadau hirdymor yn effeithio arnoch chi? Dylech gynnwys y rheini sy'n mynd a dod, neu sy'n amrywio dros amser.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

1. **Gweld** - er enghraifft, mynd o gwmpas llefydd anghyfarwydd, darllen, hyd yn oed gyda sbectol neu lensys cyffwrdd
2. **Clywed** - er enghraifft, dilyn sgyrsiau mewn mannau swnllyd, clywed synau
3. **Symud o gwmpas** - er enghraifft, cerdded, mynd i fyny neu i lawr grisiau heb gymorth
4. **Defnyddio eich dwylo neu'ch bysedd** - er enghraifft, gwisgo, defnyddio bysellfwrdd
5. **Dysgu pethau newydd** - er enghraifft, darllen, dilyn cyfarwyddiadau, neu roi trefn ar eich meddyliau ar bapur
6. **Cofio neu ganolbwyntio** - er enghraifft, cofio enwau neu ddyddiadau, canolbwyntio ar dasgau
7. **Iechyd meddwl** - er enghraifft, rheoli emosiynau neu feddyliau, profi rhithweledigaethau
8. **Rheoli lefelau egni neu anadlu** - er enghraifft, cysgu'n dda, bod â'r egni i wneud gweithgareddau bob dydd
9. **Rhyngweithio â phobl eraill** - er enghraifft, mynegi eich hun, teimlo eich bod yn cael eich llethu gan sefyllfaoedd cymdeithasol
10. **Bod mewn poen neu anghysur** - er enghraifft, teimlo poen cronig neu gosi sy'n effeithio ar eich hwyliau, eich cwsg neu eich gallu i ganolbwyntio
11. **Prosesu synhwyraidd** - er enghraifft, bod yn fwy neu'n llai sensitif i olau, cyffyrddiad neu dymheredd
12. **Bod â system imiwnedd sy'n rhy actif neu ddim digon actif** - er enghraifft, bod yn dueddol o gael haint neu lid
13. **Arall** (rhowch fanylion)
14. **Dim un o'r uchod**

    Ddim yn gwybod

Mae’n well gen i beidio â dweud

#### 6.4.1.2 Fersiwn rhieni

Ym mha rai o’r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae cyflyrau neu amhariadau hirdymor yn effeithio ar [Enw’r plentyn / eich plentyn]? Dylech gynnwys y rheini sy’n mynd a dod, neu sy’n amrywio dros amser.

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

1. **Gweld** - er enghraifft, mynd o gwmpas llefydd anghyfarwydd, darllen, hyd yn oed gyda sbectol neu lensys cyffwrdd
2. **Clywed** - er enghraifft, dilyn sgyrsiau mewn mannau swnllyd, clywed synau
3. **Symud o gwmpas** - er enghraifft, cerdded, mynd i fyny neu i lawr grisiau heb gymorth
4. **Defnyddio eich dwylo neu’ch bysedd** - er enghraifft, gwisgo’u hunain, defnyddio bysellfwrdd, codi tegan
5. **Dysgu pethau newydd** - er enghraifft, darllen, dilyn cyfarwyddiadau, neu roi trefn ar eu meddyliau ar bapur
6. **Cofio neu ganolbwyntio** - er enghraifft, cofio enwau neu ddyddiadau, canolbwyntio ar dasgau
7. **Iechyd meddwl** - er enghraifft, rheoli emosiynau neu feddyliau, profi rhithweledigaethau
8. **Rheoli lefelau egni neu anadlu** - er enghraifft, cysgu’n dda, bod â’r egni i wneud gweithgareddau bob dydd neu chwarae
9. **Rhyngweithio â phobl eraill** - er enghraifft, mynegi eu hun, teimlo eu bod yn cael eu llethu gan sefyllfaoedd cymdeithasol
10. **Bod mewn poen neu anghysur** - er enghraifft, teimlo poen cronig neu gosi sy’n effeithio ar eu hwyliau, eu cwsg neu eu gallu i ganolbwyntio
11. **Prosesu synhwyraidd** - er enghraifft, bod yn fwy neu’n llai sensitif i olau, cyffyrddiad neu dymheredd
12. **Bod â system imiwnedd sy’n rhy actif neu ddim digon actif** - er enghraifft, bod yn dueddol o gael haint neu lid
13. **Arall** (rhowch fanylion)
14. **Dim un o’r uchod**

Ddim yn gwybod

Mae’n well gen i beidio â dweud

### 6.4.2 Profiad o rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd

#### 6.4.2.1 Fersiwn oedolion

Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u profi yn ystod y 12 mis diwethaf?

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

1. **Gofal iechyd nad yw’n cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, cael eich trin yn annheg gan staff, systemau trefnu apwyntiadau anodd eu defnyddio, mannau aros sy’n anodd i symud o gwmpas ynddynt

2. **Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, cael eich gadael allan o weithgareddau cymdeithasol, recriwtio neu addasiadau i’r gweithle anhyblyg, gweithleoedd sy’n anodd mynd i mewn iddynt ac o’u cwmpas

3. **Addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, gwneud rhagdybiaethau am fy ngalluoedd, deunyddiau dysgu nad ydynt yn y fformat sydd ei angen arnaf, ystafelloedd â mynediad anodd neu sy’n rhy swnllyd

4. **Trafnidiaeth a theithio nad ydynt yn diwallu fy anghenion**

   Er enghraifft, staff ddim yn fy nhrin ag urddas, systemau trefnu apwyntiadau anodd eu defnyddio, diffyg seddi hygyrch

5. **Trefniadau tai a byw’n annibynnol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, pobl yn tybio na allaf fyw ar fy mhen fy hun, rhestrau aros hir am dai hygyrch, diffyg addasiadau i’r cartref presennol

6. **Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, pobl yn tybio na allaf gymryd rhan mewn digwyddiadau, gwybodaeth am leoliadau nad ydynt mewn fformatau hygyrch, siopau a busnesau sydd â mannau parcio anaddas

7. **Mannau cyhoeddus a chyfleusterau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, nid yw adborth ar hygyrchedd yn cael ei gymryd o ddifrif, mae’r oriau agor yn gyfyngedig, mae diffyg toiledau hygyrch a chyfleusterau cyhoeddus hygyrch

8. **Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, pobl yn tybio na allaf ofalu am fy arian fy hun, nid yw taliadau lles yn talu am gostau byw, gwasanaethau bancio anodd eu defnyddio

9. **Pleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, pobl yn meddwl nad ydw i'n deall materion gwleidyddol, dim llawer o gefnogaeth i ymuno mewn bywyd cyhoeddus, ddim yn gallu pleidleisio'n breifat mewn gorsaf bleidleisio

10. **Arall** (rhowch fanylion)

11. **Dim un o'r rhain**

   Ddim yn gwybod

   Mae'n well gen i beidio â dweud

#### 6.4.2.2 Fersiwn rhieni

Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, y mae [Enw'r plentyn / eich plentyn] wedi'u profi yn ystod y 12 mis diwethaf? Atebwch am eich plentyn.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

1. **Gofal iechyd nad yw'n cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, cael eu trin yn annheg gan staff, systemau archebu anodd eu defnyddio, mannau aros sy'n anodd iddynt symud o gwmpas

2. **Addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, gwneud tybiaethau am eu galluoedd, deunyddiau dysgu nad ydynt yn y fformat sydd ei angen arnynt, ystafelloedd â mynediad anodd neu sy'n rhy swnllyd

3. **Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn ***

   Er enghraifft, oriau gwaith nad ydynt yn hyblyg, dim man tawel i wneud galwadau i feddygon neu'r ysgol

4. **Cludiant a theithio nad ydynt yn diwallu anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, staff ddim yn eu trin ag urddas, systemau trefnu apwyntiadau anodd eu defnyddio, diffyg seddi hygyrch

5. **Trefniadau tai a byw’n annibynnol nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, pobl yn tybio eu bod yn gwybod beth y gall fy mhlentyn ei wneud, rhestrau aros hir am dai hygyrch, diffyg addasiadau i’r cartref presennol

6. **Nid yw gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, pobl yn tybio na all gymryd rhan mewn digwyddiadau, gwybodaeth am leoliadau nad ydynt mewn fformatau hygyrch, siopau a busnesau sydd â mannau parcio anaddas

7. **Mannau cyhoeddus a chyfleusterau nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, nid yw adborth ar hygyrchedd yn cael ei gymryd o ddifrif, mae’r oriau agor yn gyfyngedig, mae diffyg toiledau hygyrch a chyfleusterau cyhoeddus hygyrch

8. **Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, nid yw taliadau lles yn talu am gostau byw, gwasanaethau bancio anodd cael mynediad atynt

9. **Arall** (rhowch fanylion)

10. **Dim un o'r rhain**

   Ddim yn gwybod

   Mae’n well gen i beidio â dweud

* Gellir eithrio’r opsiwn ymateb ‘cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi anghenion fy mhlentyn’ os nad yw’n berthnasol i’r plentyn (yn seiliedig ar ei oedran) neu os nad oes diddordeb mewn casglu data ar rwystrau anuniongyrchol y gallai plentyn anabl eu hwynebu.

### 6.4.3 Profiad o wahanol fathau o rwystrau

#### 6.4.3.1 Fersiwn oedolion

Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u profi yn ystod y 12 mis diwethaf?

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

1. **Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw’n hygyrch’**

   Er enghraifft, gwybodaeth iechyd nad yw mewn fformat sydd ei angen arnaf, dim digon o amser i brosesu gwybodaeth, systemau archebu sy’n anodd eu defnyddio

2. **Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas**

   Er enghraifft, adeiladau cyhoeddus sy’n rhy swnllyd neu olau, gweithleoedd heb rampiau na lifftiau, toiledau hygyrch nad ydynt yn addas

3. **Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol**

   Er enghraifft, staff iechyd yn gwneud rhagdybiaethau amdanaf fi, cydweithwyr yn defnyddio iaith sarhaus tuag ataf neu’n fy ngadael allan, fy safbwyntiau ddim yn cael eu cymryd o ddifrif

4. **Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, staff iechyd heb eu hyfforddi’n ddigonol i gefnogi fy anghenion, diffyg addasiadau gan gyflogwyr, dim digon o arian na chefnogaeth i fyw’n annibynnol

5. **Arall** (rhowch fanylion)

6. **Dim un o'r rhain**

   Ddim yn gwybod

   Mae’n well gen i beidio â dweud

#### 6.4.3.2 Fersiwn rhieni

Pa rai o’r canlynol, os o gwbl, y mae [Enw’r plentyn / eich plentyn] wedi’u profi yn ystod y 12 mis diwethaf? Atebwch am eich plentyn.

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

1. **Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw’n hygyrch’**

   Er enghraifft, gwybodaeth iechyd nad yw mewn fformat sydd ei angen arnynt, dim digon o amser i brosesu gwybodaeth, systemau archebu teithiau sy’n anodd eu defnyddio

2. **Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas**

   Er enghraifft, adeiladau sy’n rhy swnllyd neu olau, mannau cyhoeddus heb rampiau na lifftiau, toiledau hygyrch nad ydynt yn addas

3. **Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol**

   Er enghraifft, staff iechyd yn gwneud rhagdybiaethau amdanynt, pobl yn defnyddio iaith sarhaus tuag atynt neu’n eu gadael allan, peidio â chymryd eu safbwyntiau o ddifrif

4. **Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, staff iechyd heb eu hyfforddi’n ddigonol i gefnogi eu hanghenion, diffyg addasiadau yn yr ysgol neu’r feithrinfa, dim digon o arian na chefnogaeth i fyw’n annibynnol

5. **Arall** (rhowch fanylion)

6. **Dim un o'r rhain**

   Ddim yn gwybod

   Mae’n well gen i beidio â dweud

## Atodiad A: Safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS)

Mae safonau wedi'u cysoni GSS yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Y fersiynau a restrir isod oedd y rhai diweddaraf a oedd ar gael pan gynhaliwyd yr ymchwil.

Mae'r canllawiau presennol gan dîm safonau wedi'u cysoni GSS yn nodi bod y safon cyflyrau iechyd ac afiechydon hirdymor (LLHCI) a'r safon cyfyngu ar weithgarwch yn cael eu cyfuno i benderfynu a fyddai unigolyn yn cael ei ystyried yn anabl.

Mae hyn er mwyn alinio â'r diffiniad o anabledd fel y darperir o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010): bod person yn cael ei ystyried yn anabl os oes ganddo 'amhariad corfforol neu feddyliol' a bod yr amhariad hwnnw'n cael effaith andwyol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

### Safon cyflyrau iechyd ac afiechydon hirdymor (LLHCI)

'Oes gennych chi unrhyw salwch neu gyflwr iechyd meddwl neu gyflwr corfforol sy'n para 12 mis neu'n debygol o bara am gyfnod tebyg i hynny?'

1. Oes
2. Nac oes
3. Ddim yn gwybod (digymell yn unig)
4. Gwrthod (digymell yn unig)

### Safon cyfyngu ar weithgarwch

'A yw eich cyflwr neu eich salwch yn cyfyngu ar eich gallu i wneud gweithgareddau bob dydd?'

1. Ydy, yn fawr iawn
2. Ydy, rhywfaint
3. Dim o gwbl

Yn ôl y dull hwn, ystyrir bod person yn anabl os yw'n ateb 'oes' i'r cwestiwn cyntaf ac 'ydy, ychydig' neu 'ydy, yn fawr iawn' i'r ail gwestiwn.

### Safon amhariadau

Yn ogystal â'r ddau gwestiwn craidd a amlinellir uchod, mae'r safon amhariadau yn darparu trydydd cwestiwn dewisol, y gellir ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth fanylach am y math o amhariad:

'A oes unrhyw un o'r cyflyrau neu'r afiechydon hyn yn effeithio arnoch chi yn unrhyw un o'r meysydd canlynol?'

1. Golwg (er enghraifft, yn ddall neu’n rhannol ddall)
2. Clyw (er enghraifft, yn fyddar neu’n rhannol fyddar)
3. Symudedd (er enghraifft, wrth gerdded pellter byr neu ddringo grisiau)
4. Deheurwydd (er enghraifft, anhawster codi a chario gwrthrychau neu ddefnyddio bysellfwrdd)
5. Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio
6. Cof
7. Iechyd meddwl
8. Stamina neu anadlu neu flinder
9. Cymdeithasol neu ymddygiadol (er enghraifft yn gysylltiedig ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) sy’n cynnwys syndrom Asperger, neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))
10. Arall (rhowch fanylion)
11. Dim un o’r uchod (digymell yn unig)
12. Gwrthod (digymell yn unig)

# Atodiad B: Pecyn gwaith 4 - cwestiynau amhariadau

Nod pecyn gwaith 4 oedd datblygu iteriad cyntaf cwestiynau newydd sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Mae'r Atodiad hwn yn rhestru'r cwestiynau amhariadau a ddeilliodd o'r broses dylunio cwestiynau. Cafodd y rhain eu profi drwy gyfres o gyfweliadau gwybyddol ym mhecyn gwaith 5 a'u mireinio ymhellach ar sail y canfyddiadau.

Cynigiwyd y byddai 2 fersiwn amgen o gwestiwn amhariadau yn cael eu profi:

- byddai fersiwn 1 yn cyd-fynd yn agos â'r cwestiwn safon amhariadau presennol ond yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu iaith y model cymdeithasol
- byddai fersiwn 2 yn gwestiwn newydd, yn seiliedig yn fwy llac ar y safon amhariadau ond yn gwneud newidiadau mwy helaeth yn unol ag egwyddorion y model cymdeithasol i fesur y cysyniad o 'amhariad'

Profwyd y ddwy fersiwn gydag oedolion, a gyda rhieni am eu plant.

## Fersiwn 1

Roedd y cwestiwn hwn yn cyd-fynd yn well â'r safon amhariadau wedi'i chysoni GSS presennol ac roedd llai o newidiadau iddo na fersiwn 2. Dyma'r prif ystyriaethau ar gyfer fersiwn 1 y cwestiwn amhariadau:

- roedd bôn y cwestiwn yn cynnwys y gair 'hirdymor heb ddiffiniad, ac yn cyfeirio at y cyflwr
- nid oedd bôn y cwestiwn yn cynnwys datganiad penodol ar gyflyrau anwadal
- roedd bôn y cwestiwn yn defnyddio'r termau 'amhariadau' a 'chyflyrau'
- roedd categorïau atebion yn seiliedig ar y categorïau amhariadau wedi'u cysoni, ond wedi'u diwygio i ddefnyddio iaith model cymdeithasol
- nid oedd yr ymateb 'mae'n well gen i beidio â dweud' wedi'i gynnwys
- gofynnwyd i'r cyfranogwyr dicio'r holl ymatebion sy'n berthnasol
- dull gofyn: hunan-lenwi

**Cwestiwn oedolion**

[Fersiwn 1 o'r cwestiwn amhariadau, wedi'i gynllunio i'w ofyn i gyfranogwyr sy'n oedolion]

Ym mha rai o'r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae amhariadau neu gyflyrau hirdymor yn effeithio arnoch?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- **Golwg** - er enghraifft, dallineb, rhannol ddall
- **Clyw** - er enghraifft, byddardod, rhannol fyddar
- **Symudedd neu gryfder** - er enghraifft, symud yn annibynnol neu gario pethau trwm
- **Deheurwydd** - er enghraifft, cyflawni tasgau gofalus gyda'ch dwylo
- **Dysgu** - er enghraifft, deall syniadau newydd, darllen ac ysgrifennu neu ddefnyddio rhifau
- **Cof neu ganolbwyntio** - er enghraifft, cofio gwybodaeth, cynnal ffocws
- **Iechyd meddwl** - er enghraifft, rheoli hwyliau, emosiynau neu feddyliau, gwneud synnwyr o'r byd o'ch cwmpas
- **Stamina, anadlu neu egni** - er enghraifft, rheoli lefelau egni, cysgu'n rheolaidd
- **Rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu** - er enghraifft, mynegi eich hun, cynnal perthnasoedd
- **Poen neu anghysur** - er enghraifft poen neu gosi cronig
- **Prosesu synhwyraidd** - er enghraifft, gorysgogi neu danysgogi gan sain, golau, blas neu gyffyrddiad
- **Rheoleiddio'r system imiwnedd** - er enghraifft, system imiwnedd sy'n rhy actif neu ddim digon actif
- **Arall** (rhowch fanylion)
- **Dim un o'r uchod**

**Cwestiwn rhiant a phlentyn**

[Fersiwn 1 o'r cwestiwn am amhariadau, wedi'i gynllunio i'w ofyn i rieni am eu plentyn]

Ym mha rai o'r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae [enw'r plentyn/eich plentyn] yn cael ei effeithio gan amhariadau neu gyflyrau hirdymor?

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

**Golwg** - er enghraifft, dallineb, rhannol ddall

**Clyw** - er enghraifft, byddardod, rhannol fyddar

**Symudedd neu gryfder** - er enghraifft, symud yn annibynnol neu gario pethau trwm

**Deheurwydd** - er enghraifft, gwneud tasgau gofalus gyda’u dwylo

**Dysgu** - er enghraifft, deall syniadau newydd, darllen ac ysgrifennu neu ddefnyddio rhifau

**Cof neu ganolbwyntio** - er enghraifft, cofio gwybodaeth, cynnal ffocws

**Iechyd meddwl** - er enghraifft, rheoli eu hwyliau, emosiynau neu feddyliau, gwneud synnwyr o’r byd o’u cwmpas

**Stamina, anadlu neu egni** - er enghraifft, rheoli lefelau egni, cysgu’n rheolaidd

**Rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu** - er enghraifft, mynegi eu hunain, cynnal perthnasoedd

**Poen neu anghysur** - er enghraifft poen neu gosi cronig

**Prosesu synhwyraidd** - er enghraifft, gorysgogi neu danysgogi gan sain, golau, blas neu gyffyrddiad

**Rheoleiddio’r system imiwnedd** - er enghraifft, system imiwnedd sy’n rhy actif neu ddim digon actif

**Arall** (rhowch fanylion)

**Dim un o’r uchod**

## Fersiwn 2

Gwnaeth y cwestiwn hwn newidiadau mwy helaeth, yn unol â’r model cymdeithasol o anabledd. Dyma’r prif ystyriaethau ar gyfer fersiwn 2 y cwestiwn amhariadau:

- nid oedd bôn y cwestiwn yn cynnwys y gair ‘hirdymor’ na chyfnod amser diffiniedig
- yr oedd bôn y cwestiwn yn cynnwys datganiad penodol ar gynnwys cyflyrau a allai amrywio
- roedd bôn y cwestiwn yn gofyn i gyfranogwyr a ydynt yn profi ‘problemau neu wahaniaethau’

- roedd categorïau atebion yn adolygiad mwy radical o'r opsiynau ymateb safonol wedi'u cysoni, yn seiliedig ar iaith y model cymdeithasol
- roedd yr ymateb 'mae'n well gen i beidio â dweud' wedi'i gynnwys
- gofynnwyd i'r cyfranogwyr ymateb gydag 'ie' neu 'na'
- dull gofyn: cyfwelydd

**Cwestiwn oedolion**

[Fersiwn 2 o'r cwestiwn amhariadau, wedi'i gynllunio i'w ofyn i gyfranogwyr sy'n oedolion]

Ydych chi'n profi problemau neu wahaniaethau gydag unrhyw un o'r canlynol?

Cofiwch gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser.

**Gweld** - er enghraifft, mynd o gwmpas llefydd anghyfarwydd, darllen, gwylio teledu, hyd yn oed gyda sbectol neu lensys cyffwrdd

**Clywed** - er enghraifft, dilyn sgyrsiau mewn mannau swnllyd, clywed synau, cyfathrebu â phobl

**Symud o gwmpas** - er enghraifft, cerdded, mynd i fyny neu i lawr grisiau, eistedd mewn cadair neu godi ohoni, symud heb gymorth

**Defnyddio eich dwylo neu'ch bysedd** - er enghraifft, gwisgo, ysgrifennu neu ddefnyddio bysellfwrdd

**Dysgu pethau newydd** - er enghraifft, darllen, cyfrif, dilyn cyfarwyddiadau, rhoi trefn ar eich meddyliau ar bapur

**Cofio neu ganolbwyntio** - er enghraifft, cofio digwyddiadau diweddar, cofio enwau neu ddyddiadau, canolbwyntio ar dasgau

**Lles meddyliol** - er enghraifft, teimladau amdanoch chi eich hun ac eraill, rheoli emosiynau, gweld neu glywed pethau nad yw pobl eraill yn eu gweld neu eu clywed

**Lefelau egni neu anadlu** - er enghraifft cysgu'n dda neu fod ag egni i godi, ymolchi, coginio neu wylio ffilm

**Rhyngweithio â phobl eraill** - er enghraifft, deall beth mae pobl eraill yn ei feddwl neu'n ei deimlo, gwneud ffrindiau, gwrando

**Bod mewn poen neu anghysur** - er enghraifft, teimlo poen neu gosi yn rheolaidd sy'n effeithio ar eich hwyliau, eich cwsg neu eich gallu i ganolbwyntio

**Profi'r byd** - er enghraifft, yn fwy neu'n llai sensitif i olau neu sŵn, gweadau bwyd, cyffyrddiad neu dymheredd

**Ymatebion imiwnedd** - er enghraifft, bwyta beth bynnag maen nhw'n ei hoffi, mynd allan yng ngolau'r haul, ymladd yn erbyn heintiau

Ydw

Nac ydw

Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cwestiwn rhiant a phlentyn**

[Fersiwn 2 o'r cwestiwn am amhariadau, wedi'i gynllunio i'w ofyn i rieni am eu plentyn]

A yw [enw'r plentyn/eich plentyn] yn profi problemau neu wahaniaethau gydag unrhyw un o'r canlynol?

Cofiwch gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser.

**Gweld** - er enghraifft, mynd o gwmpas llefydd anghyfarwydd, darllen, gwylio teledu, hyd yn oed gyda sbectol neu lensys cyffwrdd

**Clywed** - er enghraifft, clywed synau, cyfathrebu â phobl

**Symud o gwmpas** - er enghraifft, cerdded, mynd i fyny neu i lawr grisiau, eistedd mewn cadair neu godi ohoni, chwarae heb gymorth

**Defnyddio eich dwylo neu'ch bysedd** - er enghraifft, gwisgo'u hunain, dal pensil, codi tegan, defnyddio bysellfwrdd

**Dysgu pethau newydd** - er enghraifft, darllen, cyfrif, dilyn cyfarwyddiadau, rhoi trefn ar eu meddyliau ar bapur

**Cofio neu ganolbwyntio** - er enghraifft, cofio beth wnaethon nhw yn yr ysgol, cofio enwau neu ddyddiadau, dal ati i ganolbwyntio ar dasgau

**Lles meddyliol** - er enghraifft, teimladau amdanyn nhw eu hunain ac eraill, rheoli eu hemosiynau, gweld neu glywed pethau nad yw pobl eraill yn eu gweld neu eu clywed

**Lefelau egni neu anadlu** - er enghraifft cysgu'n dda neu gael yr egni i godi, chwarae, gwylio ffilm

**Rhyngweithio â phobl eraill** - er enghraifft, deall beth mae pobl eraill yn ei feddwl neu'n ei deimlo, gwneud ffrindiau, gwrando

**Bod mewn poen neu anghysur** - er enghraifft, teimlo poen neu gosi yn rheolaidd sy'n effeithio ar eu hwyliau, eu cwsg neu eu gallu i ganolbwyntio

**Profi'r byd** - er enghraifft, yn fwy neu'n llai sensitif i olau neu sŵn, gweadau bwyd, cyffyrddiad neu dymheredd

**Ymatebion imiwnedd** - er enghraifft, bwyta beth bynnag maen nhw'n ei hoffi, mynd allan yng ngolau'r haul, ymladd yn erbyn heintiau

Ydy

Nac ydy

Mae'n well gen i beidio â dweud

# Atodiad C: Pecyn gwaith 4 - cwestiynau rhwystrau

Nod pecyn gwaith 4 oedd datblygu iteriad cyntaf cwestiynau newydd sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Mae'r Atodiad hwn yn rhestru'r cwestiynau rhwystrau a ddeilliodd o hyn. Cafodd y rhain eu profi drwy gyfres o gyfweliadau gwybyddol ym mhecyn gwaith 5 a'u mireinio ymhellach ar sail y canfyddiadau.

Yn yr un modd â'r cwestiwn amhariadau, cynigiwyd y byddai 2 fersiwn amgen o'r cwestiwn rhwystrau yn cael eu profi. Mae'r ddau yn dilyn egwyddorion y model cymdeithasol:

- fersiwn 1 sy'n cyd-fynd â meysydd polisi (neu 'feysydd bywyd')
- fersiwn 2 sy'n cyd-fynd â chategorïau ehangach, fel yr amlinellir yn llenyddiaeth y model cymdeithasol

Dyluniwyd opsiwn i oedolion ac opsiwn i rieni.

## Fersiwn 1

Y prif ystyriaethau ar gyfer fersiwn 1 y cwestiwn rhwystrau oedd:

- roedd yr opsiynau ymateb wedi'u fframio o amgylch meysydd polisi - roedd pob opsiwn ymateb yn cynrychioli maes polisi yn fras
- roedd bôn y cwestiwn yn cysylltu'r rhwystrau'n benodol i amhariad(au) neu gyflyrau
- roedd enghreifftiau'n ymdrin â'r 4 prif fath o rwystr e.e. amgylcheddol, cyfathrebu
- nid oedd yn gweithredu fel cwestiwn ar ei ben ei hun
- roedd y cwestiwn yn gofyn 'ydych chi' yn profi
- 'ticiwch bob un sy'n berthnasol' yn opsiynau ymateb i gwestiwn
- heb gynnwys opsiwn 'Mae'n well gen i beidio â dweud'

### Cwestiwn oedolion

[Fersiwn 1 o'r cwestiwn rhwystrau, wedi'i gynllunio i'w ofyn i gyfranogwyr sy'n oedolion]

Gan feddwl am yr amhariad(au) neu gyflwr/cyflyrau hirdymor (hwn/hyn) pa rai o'r rhwystrau canlynol ydych chi'n eu hwynebu, os o gwbl?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

1. **Gofal iechyd a chymorth nad yw'n cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, mae'n anodd symud o gwmpas mannau aros, apwyntiadau nad ydynt yn gweithio i mi, gwybodaeth iechyd nad yw mewn fformat sydd ei angen arnaf, staff gofal iechyd yn fy nhrin yn wahanol

2. **Addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, deunyddiau dysgu nad ydynt mewn fformat sydd ei angen arnaf, dulliau addysgu anhyblyg, ystafelloedd dosbarth â mynediad anodd neu sy'n rhy swnllyd, tiwtoriaid ddim yn deall fy anghenion

3. **Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, dim digon o addasiadau i'm helpu i gyflawni fy swydd, prosesau ymgeisio nad ydynt yn hygyrch, gweithleoedd sy'n anodd mynd iddynt a symud o'u cwmpas, cael eich gadael allan o weithgareddau cymdeithasol

4. **Trafnidiaeth a theithio nad ydynt yn diwallu fy anghenion**

   Er enghraifft, diffyg cyfleusterau neu offer ar drafnidiaeth gyhoeddus, amserlenni ddim mewn fformat y gallaf ei ddefnyddio, staff yn meddwl eu bod yn gwybod beth y gallaf ei reoli, prosesau archebu nad ydynt yn hygyrch

5. **Trefniadau tai a byw'n annibynnol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, mynediad anodd at dai, dim digon o addasiadau i'r cartref presennol, dim digon o gymorth i fyw'n annibynnol, pobl yn meddwl na allaf fyw ar fy mhen fy hun

6. **Nid yw cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, gweithgareddau a gynhelir mewn mannau na allaf gael mynediad iddynt, digwyddiadau sy'n dechrau'n rhy gynnar neu'n rhy hwyr, dim digon o wybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl mewn digwyddiadau, pobl yn tybio na allaf gymryd rhan

7. **Mannau cyhoeddus a chyfleusterau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, mannau cymunedol sy'n anodd eu defnyddio, dim toiledau hygyrch, technoleg gynorthwyol ddim ar gael, nid yw fy adborth ar hygyrchedd yn cael ei gymryd o ddifrif

8. **Cymorth ariannol a gwasanaethau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, gwasanaethau bancio anodd cael mynediad atynt, dim help i reoli fy arian, budd-daliadau nad ydynt yn talu fy nghostau byw, pobl yn tybio na allaf ennill a rheoli fy arian

9. **Pleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**

   Er enghraifft, gwybodaeth am ymgeiswyr nad ydynt mewn fformat y gallaf ei ddefnyddio, ddim yn gallu pleidleisio'n breifat, diffyg cefnogaeth i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, pobl yn meddwl na allaf ddeall materion gwleidyddol

10. **Arall** (rhowch fanylion)

11. **Dim un o'r rhain**

**Cwestiwn rhiant a phlentyn**

[Fersiwn 1 o'r cwestiwn rhwystrau, wedi'i gynllunio i'w ofyn i rieni am eu plentyn]

Gan feddwl am yr amhariad(au) neu gyflwr/cyflyrau hirdymor (hyn) pa rai o'r rhwystrau canlynol, os o gwbl, y mae [enw'r plentyn/eich plentyn] yn eu profi?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

1. **Gofal iechyd a chymorth nad yw'n cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, mae mannau aros yn anodd i fy mhlentyn symud o'u cwmpas, apwyntiadau nad ydynt yn gweithio iddyn nhw, gwybodaeth iechyd nad yw yn y fformat sydd ei angen, staff gofal iechyd yn trin fy mhlentyn yn wahanol

2. **Addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, deunyddiau dysgu nad ydynt mewn fformat sydd ei angen ar fy mhlentyn, dim digon o gymorth yn yr ystafell ddosbarth, ystafelloedd â mynediad anodd neu sy'n rhy swnllyd, staff ysgol ddim yn deall anghenion fy mhlentyn

3. **Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn fy ngalluogi i gefnogi anghenion fy mhlentyn**

   Er enghraifft, dim ardal dawel i wneud galwadau i feddygon neu'r ysgol, oriau gwaith nad ydynt yn hyblyg, dim gwybodaeth glir am bolisïau a chymorth sydd ar gael i mi, penaethiaid yn tybio fy mod yn llai ymroddedig oherwydd bod gennyf blentyn anabl

4. **Cludiant a theithio nad ydynt yn diwallu anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, trafnidiaeth i'r ysgol neu'r feithrinfa nad yw'n addas, cyhoeddiadau ac arwyddion na all fy mhlentyn eu defnyddio, staff yn meddwl eu bod yn gwybod beth y gall fy mhlentyn ei reoli, dim digon o gymorth ar gael ar drafnidiaeth gyhoeddus

5. **Trefniadau tai a byw'n annibynnol nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, mynediad anodd at dai, dim digon o addasiadau i'r cartref presennol i ganiatáu i'm plentyn symud o gwmpas neu wneud tasgau'n annibynnol, dim digon o gymorth i fyw'n annibynnol, pobl eraill yn meddwl eu bod yn gwybod beth y gall ac na all fy mhlentyn ei wneud

6. **Nid yw cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, gweithgareddau yn cael eu cynnal mewn mannau na all fy mhlentyn gael mynediad iddynt, ychydig o gyfleoedd i gymryd rhan mewn pethau fel chwaraeon, y celfyddydau a chwarae, dim delweddau gweledol i helpu fy mhlentyn i ddeall, pobl yn tybio na all fy mhlentyn gymryd rhan

7. **Mannau cyhoeddus a chyfleusterau nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, dim parciau chwarae addas, toiledau hygyrch na mannau newid ar gael, dim technoleg gynorthwyol ar gael, pobl yn tybio bod angen help cyson ar fy mhlentyn

8. **Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau nad ydynt yn cefnogi anghenion eich plentyn**

   Er enghraifft, anodd cael gafael ar gymorth ariannol, dim help i reoli treuliau fy mhlentyn, budd-daliadau nad ydynt yn diwallu anghenion fy mhlentyn, pobl yn meddwl fy mod yn defnyddio anghenion fy mhlentyn i gael arian ychwanegol

9. **Arall** (rhowch fanylion)

10. **Dim un o'r rhain**

## Fersiwn 2

Y prif ystyriaethau ar gyfer fersiwn 2 y cwestiwn rhwystrau oedd:

- lluniwyd opsiynau ymateb o amgylch mathau o rwystrau model cymdeithasol - roedd pob pennawd ymateb yn cynrychioli un o'r 4 prif rwystr
- nid oedd bôn y cwestiwn yn cysylltu rhwystrau i amhariadau neu gyflyrau yn benodol
- roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn fwriadol eang
- yn gweithredu fel cwestiwn ar ei ben ei hun
- roedd y cwestiwn yn gofyn 'ydych chi wedi' profi

- ‘ticiwch bob un sy’n berthnasol’ yn opsiynau ymateb i gwestiwn
- roedd yn cynnwys opsiwn ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’

**Cwestiwn oedolion**

[Fersiwn 2 o’r cwestiwn rhwystrau, wedi’i gynllunio i’w ofyn i gyfranogwyr sy’n oedolion]

Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi eu profi?

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

1. **Adeiladau a mannau dan do ac awyr agored nad ydynt yn addas:**

   Er enghraifft, lleoedd nad ydynt wedi’u cynllunio i mi fynd i mewn iddynt nac o’u cwmpas, sy’n achosi anghysur synhwyraidd i mi, neu nad oes ganddynt y cyfleusterau sydd eu hangen arnaf

2. **Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw’n hygyrch**

   Er enghraifft, gwybodaeth nad yw ar gael mewn fformat sydd ei angen arnaf (fel Iaith Arwyddion Prydain neu brint bras), gwefannau sy’n anodd eu defnyddio, arwyddion na allaf eu gweld na’u deall, ddim yn cael digon o amser i brosesu gwybodaeth

3. **Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn gefnogol**

   Er enghraifft, pethau yn cael eu gwneud mewn ffordd sy’n golygu fy mod yn cael fy nhrin yn annheg, dim cymorth neu gymorth anaddas ar gael, rheolau nad ydynt yn hyblyg, staff nad ydynt wedi’u hyfforddi i ddeall fy anghenion

4. **Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol**

   Er enghraifft, pobl yn meddwl eu bod yn gwybod beth y gallaf ei wneud a beth na allaf ei wneud, bod â barn negyddol amdanaf, fy nhrin yn wahanol neu ddefnyddio iaith dramgwyddus

5. **Arall** (rhowch fanylion os dymunwch)
6. **Dim un o'r rhain**
7. **Mae’n well gen i beidio â dweud**

**Cwestiwn rhiant a phlentyn**

[Fersiwn 2 o’r cwestiwn rhwystrau, wedi’i gynllunio i’w ofyn i rieni am eu plentyn]

Pa rai o’r canlynol, os o gwbl, y mae [enw’r plentyn/eich plentyn] wedi’u profi?

Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

1. **Adeiladau a mannau dan do ac awyr agored nad ydynt yn addas**

   Er enghraifft, lleoedd nad ydynt wedi'u cynllunio i fy mhlentyn fynd i mewn iddynt nac o'u cwmpas, sy'n achosi anghysur synhwyraidd iddynt, neu nad oes ganddynt y cyfleusterau sydd eu hangen ar fy mhlentyn

2. **Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw'n hygyrch**

   Er enghraifft, gwybodaeth nad yw ar gael mewn fformat sydd ei angen ar fy mhlentyn (fel Iaith Arwyddion Prydain, print bras) gwefannau sy'n anodd eu defnyddio, arwyddion neu daflenni gorlawn neu anniben, nid yw fy mhlentyn yn cael digon o amser i brosesu gwybodaeth

3. **Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn gefnogol**

   Er enghraifft, pethau yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n golygu bod fy mhlentyn yn cael ei drin yn annheg, dim cymorth neu gymorth anaddas ar gael, rheolau nad ydynt yn hyblyg, staff nad ydynt wedi'u hyfforddi i ddeall anghenion fy mhlentyn

4. **Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol**

   Er enghraifft, pobl yn meddwl eu bod yn gwybod beth y gall ac na all fy mhlentyn ei wneud, yn arddel barn negyddol amdanynt, yn trin fy mhlentyn yn wahanol neu'n defnyddio iaith dramgwyddus tuag atynt

5. **Arall** (manylwch os dymunwch)
6. **Dim un o'r rhain**
7. **Mae'n well gen i beidio â dweud**

# Atodiad D: Pecyn gwaith 5 - manyleb recriwtio ar gyfer profion gwybyddol

## Cefndir yr ymchwil

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) yn sefydliad ymchwil annibynnol, nid-er-elw. Mae'r prosiect hwn yn cael ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys iechyd, addysg a chynghorau lleol. Maen nhw'n datblygu polisïau, cyfreithiau a gwasanaethau i helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gofleidio'r model cymdeithasol o anabledd (SMD) yn ei gwaith. Mae'r model hwn yn pwysleisio bod 'anabledd' yn cael ei achosi gan y ffordd y mae cymdeithas yn cael ei threfnu, yn hytrach na gan amhariad neu wahaniaeth mewn unigolyn. Mae'n eiriol dros gael gwared ar rwystrau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau bywyd i bobl anabl, gan sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd a mynediad at wasanaethau â phawb arall. Drwy ganolbwyntio ar newid agweddau, polisïau ac amgylcheddau, nod SMD yw creu cymdeithas fwy cynhwysol.

Nod y prosiect hwn yw canfod y ffordd orau o ofyn cwestiynau arolwg am amhariadau neu gyflyrau pobl, ac unrhyw rwystrau y gallent eu hwynebu mewn bywyd bob dydd. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod cwestiynau arolwg yn y dyfodol yn adlewyrchu profiadau bywyd pobl anabl yn well ac yn cofnodi'r problemau maen nhw'n eu hwynebu mewn bywyd bob dydd.

Bydd cymryd rhan yn cynnwys cyfweliad un-i-un gydag ymchwilydd neu gyfwelydd o Shift Insight. Bydd yn cymryd hyd at awr, ar ddiwrnod ac ar amser sy'n gyfleus i'r cyfranogwyr. Bydd y cyfweliad yn digwydd naill ai:

- ar-lein, gan ddefnyddio Zoom neu Microsoft Teams
- dros y ffôn
- neu wyneb yn wyneb mewn lleoliad o ddewis y cyfranogwyr

Ar ddechrau'r cyfweliad, gofynnir am ganiatâd i recordio'r drafodaeth ar fideo (ar-lein) neu sain (ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb). Mae hyn er mwyn i ni gael cofnod cywir o'r hyn sy'n cael ei ddweud. Mae croeso i gyfranogwyr ddiffodd eu camera  os ydynt yn dymuno. Pe na bai cyfranogwr eisiau i sain y cyfweliad gael ei recordio, byddem yn anrhydeddu hyn.

Yn y drafodaeth, gofynnir i gyfranogwyr ateb rhai cwestiynau arolwg sydd wedi cael eu datblygu gan NatCen a Llywodraeth Cymru. Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar fathau o amhariadau neu gyflyrau a allai fod gan bobl anabl a rhwystrau y gallent eu hwynebu yn eu bywyd o ddydd i ddydd. Yna bydd yr ymchwilydd yn gofyn rhai cwestiynau dilynol (cwestiynau treiddgar). Pwrpas y cwestiynau dilynol hyn fydd casglu adborth ar y cwestiynau a gallant gynnwys

pethau fel a ydyn nhw’n meddwl bod cwestiynau’r arolwg yn glir, a ydyn nhw’n gofyn y pethau iawn, beth roedden nhw’n meddwl roedd y cwestiwn yn gofyn amdano ac a ydyn nhw’n hawdd eu deall.

Bydd y rhai sy’n cymryd rhan yn cael taleb Love 2 Shop gwerth £40 i ddiolch iddynt am gymryd rhan yn y cyfweliad. Bydd NatCen yn anfon hwn yn uniongyrchol at gyfranogwyr drwy e-bost ar ôl y cyfweliad.

Mae’r ddogfen hon yn disgrifio manylion y math o bobl yr hoffem i chi eu recriwtio ar gyfer yr ymarfer profion gwybyddol hwn.

## Cwotâu

Ar gyfer y profion hyn, hoffem i chi recriwtio ar gyfer 52 o gyfweliadau gwybyddol, a’u cynnal. Mae angen 30 o gyfweliadau gydag oedolion (18 oed a hŷn), 16 gyda rhieni neu ofalwyr plant (0 i 15 oed), a 4 gydag oedolion a 2 gyda rhieni i gymryd rhan mewn cyfweliadau sy’n profi fersiynau hawdd eu deall o’r cwestiynau.

Byddai cyfweliadau’n cael eu cynnal yn y lle cyntaf drwy Zoom neu Teams, ond gellir trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn ar gyfer y bobl hynny y gallai fod angen un arnynt, ac mae’r holiadur sgrinio yn eich tywys drwy hyn.

Mae’r ffeil ‘cwotâu’ ar wahân yn darparu cwotâu ar yr ystod o nodweddion demograffig a phrofiad yr hoffem iddynt gael eu cynrychioli yn y sampl.

## Canllawiau ychwanegol ar recriwtio cyfranogwyr hawdd ei ddeall

Mae cwestiynau’r arolwg rydyn ni’n eu dangos i bobl hefyd wedi cael eu cyfieithu i fersiwn hawdd ei ddeall. Mae hawdd ei ddeall yn ffordd hygyrch o gyfleu gwybodaeth ysgrifenedig gan ddefnyddio geiriau syml, brawddegau byr a lluniau. I rai pobl mae’n ffordd fwy hygyrch o dderbyn gwybodaeth gymhleth a allai fod yn anodd ei deall. Rydym am wirio pa mor dda mae’r cwestiynau hyn yn gweithio mewn fformat hawdd ei ddeall drwy gynnal rhai cyfweliadau gyda phobl sy’n debygol o gael budd o fersiwn hawdd ei ddeall.

Rydym yn gwybod bod pobl ag anabledd dysgu, y rheini sydd â phroblemau gyda’u cof, ac weithiau’r rheini sy’n cael trafferth darllen neu ysgrifennu, yn cael budd o fersiwn hawdd ei ddeall. Hoffem recriwtio pobl sydd â’r mathau hyn o amhariadau neu gyflyrau ar gyfer y 6 chyfweliad hawdd ei ddeall y mae angen i ni eu cynnal.

## Holiaduron recriwtio

Rydym wedi darparu holiaduron sgrinio y dylai recriwtwyr eu dilyn wrth wahodd pobl i gymryd rhan. Bydd manylion a gesglir wrth sgrinio yn cael eu gwirio ddwywaith ar ddechrau pob cyfweliad.

## Deunyddiau recriwtio

Dyma'r deunyddiau a ddarperir ar gyfer recriwtio:

- y fanyleb recriwtio hon
- cwotâu
- holiadur sgrinio recriwtio i oedolion
- holiadur sgrinio recriwtio i rieni
- holiadur sgrinio recriwtio ar gyfer cyfweliadau hawdd eu deall
- taflen wybodaeth i gyfranogwyr (Saesneg, Cymraeg, Saesneg hawdd ei ddeall, a Chymraeg hawdd ei ddeall)
- hysbysiad preifatrwydd (Cymraeg, Saesneg, Saesneg hawdd ei ddeall, a Chymraeg hawdd ei ddeall)

Ar ddiwedd yr holiaduron sgrinio, gofynnir i'r cyfranogwyr am y ffordd sydd orau ganddynt o dderbyn y daflen wybodaeth a'r hysbysiad preifatrwydd. Ar ôl recriwtio, dylid e-bostio'r rhain at gyfranogwyr yn y fformat o'u dewis.

## Gofyn am gymorth wrth drefnu apwyntiadau

Dylai pwy bynnag sy'n cysylltu â chyfranogwyr ar ôl recriwtio i drefnu amser apwyntiad, ail-ofyn cwestiynau 5 a 15 o'r holiaduron sgrinio. Mae hyn yn unol â'n cais moesegol sy'n nodi y byddwn yn gofyn i gyfranogwyr ar sawl pwynt beth fyddai'n eu cefnogi i gymryd rhan.

Rydym wedi darparu'r cwestiynau i'w gofyn mewn dogfen annibynnol o'r enw 'Cwestiynau hygyrchedd ar gyfer trefnu apwyntiadau'.

## Cwestiynau Cyffredin am gyfweliadau

### Sut beth fydd y cyfweliadau?

Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal dros Zoom neu Teams ac yn para hyd at 60 munud. Yn ystod y cyfweliad, gofynnir rhai cwestiynau arolwg i'r cyfranogwyr. Ar ôl pob cwestiwn neu set o gwestiynau, bydd ymchwilwyr yn siarad â chyfranogwyr am sut brofiad oedd eu hateb ac a ellid gwneud unrhyw welliannau.

### A fydd y wybodaeth a roddaf yn cael ei rhannu ag unrhyw un arall?

Dylid sicrhau cyfranogwyr mai dim ond at ddibenion ymchwil y bydd yr adborth a roddant yn cael ei ddefnyddio, ac y bydd eu holl fanylion personol yn cael eu cadw'n ddiogel o fewn NatCen. Os bydd cyfranogwyr yn cytuno, bydd y cyfweliadau'n cael eu recordio ar Zoom neu Teams, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb (mewn man tawel

o ddewis y cyfranogwyr). Bydd y recordiad hwn yn cael ei grynhoi a'i ddefnyddio i wella'r cwestiynau.

**Fydda i'n cael fy nhalu am gymryd rhan?**

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael taleb Love2Shop gwerth £40 am gymryd rhan yn y cyfweliad, i ddiolch iddynt am eu hamser a'u hadborth. Bydd NatCen yn anfon yr ebost hwn at gyfranogwyr yn dilyn y cyfweliad.

## Cymhellion

Bydd pob cyfweliad yn para tua 60 munud. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael taleb Love2Shop gwerth £40 i ddiolch iddynt am eu hamser. NatCen fydd yn dosbarthu'r cymhellion.

## Diweddariadau a diogelwch data

Disgwylir i'r gwaith maes gael ei gynnal rhwng 8 Medi 2025 a 3 Hydref 2025.

Hoffem gael yr wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r broses recriwtio a chyfweld yn mynd rhagddi bob tri diwrnod gwaith.

Gellir trosglwyddo unrhyw wybodaeth gyfrinachol am gyfranogwyr drwy safle FTP diogel NatCen. Byddwn yn rhoi manylion mewngofnodi i chi ar gyfer hyn.

Fel gyda holl brosiectau NatCen, dylai data personol am gyfranogwyr (gan gynnwys enwau, manylion cyswllt) gael ei storio'n ddiogel gan Acumen, Shift Insight, a NatCen. Bydd NatCen yn dileu unrhyw fanylion personol am recriwtiaid ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei ysgrifennu. Ni fydd NatCen yn cysylltu â phobl a recriwtiwyd gan Acumen neu Shift Insight yn fwriadol i gymryd rhan mewn unrhyw astudiaethau pellach. Gwnewch yn siŵr bod Acumen and Shift Insight yn rhwygo unrhyw holiaduron sgrinio papur ar ôl y broses gwaith maes ac yn dileu'n ddiogel unrhyw negeseuon e-bost sy'n cynnwys data sy'n ymwneud â recriwtio.

Cysylltwch â thîm y prosiect os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein polisïau diogelu data.

# Atodiad E: Pecyn gwaith 5 - cwotâu recriwtio

Ar gyfer y pecyn gwaith hwn, argymhellwyd y dylid cynnal 52 o gyfweliadau gwybyddol gyda phobl sy'n byw yng Nghymru. Mae cwotâu drafft wedi'u cynnwys isod.

## Meini prawf cyfweliadau oedolion nad ydynt ar gyfer fformat hawdd ei ddeall (cyfanswm o 30)

### Cwotâu caled

O leiaf 10 cyfweliad yn Gymraeg.

O leiaf 8 cyfweliad ym mhob un o'r grwpiau oedran canlynol: 18 i 29, 30 i 64, 65 a hŷn.

O leiaf 4 cyfweliad gyda chyfranogwyr sy'n ateb 'na' i'r ddau gwestiwn canlynol:

- Oes gennych chi unrhyw salwch neu gyflwr iechyd meddwl neu gyflwr corfforol sy'n para 12 mis neu'n debygol o bara am gyfnod tebyg i hynny?
- Rydym hefyd yn awyddus i siarad â phobl a allai wynebu rhwystrau mewn bywyd bob dydd ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl, er enghraifft, siaradwyr Iaith Arwyddion Prydain neu bobl niwrowahanol. Ydy hyn yn berthnasol i chi?

Isafswm cwotâu grwpiau amhariadau eang:

- 5 cyfweliad: Mae'n effeithio ar eich golwg, eich clyw neu ar un arall o'ch synhwyrau
- 5 cyfweliad: Mae'n effeithio arnoch yn gorfforol, er enghraifft, efallai yr effeithir ar eich symudedd neu eich cydsymudiad. Neu mae'n effeithio ar eich lefelau egni, ac rydych chi'n teimlo'n flinedig drwy'r amser. Mae ffyrdd eraill yr effeithir arnoch yn gorfforol yn cynnwys effeithio ar eich anadlu, neu ddioddef poen. Neu efallai eich bod yn cael eich effeithio mewn rhyw ffordd arall yn gorfforol
- 5 cyfweliad: Mae'n effeithio ar eich cof, neu ba mor dda y gallwch ddysgu, deall neu ganolbwyntio
- 5 cyfweliad: Mae'n effeithio ar eich iechyd meddwl, ac mae rhai enghreifftiau'n cynnwys iselder, gorbryder, anhwylderau bwyta a seicosis
- 5 cyfweliad: Mae'n effeithio ar sut mae eich ymennydd yn meddwl ac yn prosesu gwybodaeth
- 3 cyfweliad: Mae'n effeithio arnoch chi mewn ffordd arall, na chrybwyllwyd eto

- 2 cyfweliad: Nid yw’n effeithio arnaf fi mewn unrhyw ffordd

**Cwotâu meddal**

O leiaf:

- 12 benyw a 12 gwryw
- 8 o gyfranogwyr mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg (neu’n aros i ymgymryd â gwaith, hyfforddiant neu addysg)
- 8 o gyfranogwyr yn methu gweithio neu wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch neu gyflwr iechyd hirsefydlog
- 6 o gyfranogwyr wedi ymddeol
- 6 o gyfranogwyr yn byw mewn ardal wledig
- 5 o gyfranogwyr nad ydynt yn ‘Wyn, Gwyn Cymreig na Gwyn Prydeinig’
- 8 o gyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau neu gymwysterau o dan Safon Uwch (fel TGAU/Lefel O)
- 8 o gyfranogwyr sy’n derbyn budd-daliadau sy’n seiliedig ar brawf modd

## Meini prawf cyfweliadau rhieni nad ydynt ar gyfer fformat hawdd ei ddeall (cyfanswm o 16)

**Cwotâu caled**

O leiaf 3 cyfweliad gyda rhieni sy’n ateb ‘na’ i’r ddau gwestiwn canlynol:

- A oes gan eich plentyn neu berson ifanc unrhyw salwch neu gyflwr iechyd meddwl neu gyflwr corfforol sy’n para 12 mis neu’n debygol o bara am gyfnod tebyg i hynny?
- Rydym hefyd yn awyddus i siarad â phobl y gallai eu plentyn neu berson ifanc wynebu rhwystrau mewn bywyd bob dydd ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl, er enghraifft, siaradwyr Iaith Arwyddion Prydain neu bobl niwrowahanol. Ydy hyn yn berthnasol i chi?

O leiaf 5 cyfweliad lle mai Cymraeg yw iaith y rhiant.

O leiaf 4 cyfweliad gyda rhiant â phlentyn ym mhob un o’r grwpiau oedran canlynol: 0 i 8, 9 i 11, a 12 i 15.

O leiaf 6 chyfweliad gyda rhieni plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

O leiaf 2 gyfweliad gyda rhieni plentyn sydd â Chynllun Datblygu Unigol.

Grŵp amhariad eang y plentyn, isafswm cwotâu:

- 2 cyfweliad: Mae'n effeithio ar un neu fwy o'i synhwyrau
- 2 cyfweliad: Mae'n effeithio arnynt yn gorfforol, er enghraifft mae'n effeithio ar symudedd, cydsymud, stamina, anadlu neu'n achosi blinder neu boen, neu'n effeithio arnyn nhw mewn rhyw ffordd arall yn gorfforol
- 2 cyfweliad: Mae'n effeithio ar eu gallu i ddysgu, deall neu ganolbwyntio
- 2 cyfweliad: Mae'n effeithio ar sut mae eu hymennydd yn meddwl ac yn prosesu gwybodaeth
- 2 cyfweliad: Mae'n effeithio ar eu hiaith lafar a/neu eu cyfathrebu
- 2 cyfweliad: Mae'n effeithio arnynt mewn ffordd arall nad yw wedi'i rhestru yma neu nad yw'n effeithio ar eu plentyn mewn unrhyw ffordd

**Cwotâu meddal**

O leiaf:

- 7 o fechgyn a 7 o ferched
- 3 phlentyn yn byw mewn ardal wledig
- 4 plentyn lle nad yw ethnigrwydd eu teulu yn 'Wyn, Gwyn Cymreig neu Wyn Prydeinig'
- 4 o blant lle mai cyrhaeddiad addysgol rhiant neu ofalwr yw 'dim cymwysterau neu gymwysterau sy'n is na Safon Uwch (fel TGAU/Lefel O)'

# Atodiad F: Pecyn gwaith 5 - protocol profion

Defnyddiwyd fersiwn o'r protocol profion hwn ar gyfer oedolion, rhieni plant anabl, cyfranogwyr a gafodd y cwestiynau hawdd eu deall, a chwestiynau Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r protocol profion oedolion wedi'i gynnwys isod; mae fersiynau eraill y protocol ar gael ar gais.

Protocol oedolion: rhannwyd y cyfranogwyr yn 2 grŵp yn seiliedig ar eu rhifau cyfresol unigol - grŵp oedolion A (odrifau) a grŵp oedolion B (eilrifau). Derbyniodd pob cyfranogwr yr un wybodaeth ragarweiniol. Derbyniodd grŵp oedolion A y cwestiynau amhariadau yn gyntaf; derbyniodd grŵp oedolion B y cwestiynau rhwystrau yn gyntaf.

## Cyflwyno'r cyfweliad

**Cyfarwyddiadau i'r cyfwelydd:** Nod yr adran hon yw cyflwyno'r cyfweliad i'r cyfranogwr a chael ei ganiatâd gwybodus i gymryd rhan. Dylech ddefnyddio'r awgrymiadau fel canllaw yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y cyfranogwr.

### Cyflwyno'r astudiaeth

**Darllenwch yn uchel:** Helo, fy enw i yw [eich enw]. Rwy'n gweithio i Shift-Insight, asiantaeth ymchwil arbenigol. Rydym yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) rhwng nawr a mis Tachwedd 2025 ar ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Nod yr ymchwil hon yw llunio cwestiynau arolwg newydd sy'n adlewyrchu profiadau bywyd pobl anabl yn well a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu mewn bywyd bob dydd. Dylai'r cwestiynau newydd hyn roi gwell gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am bobl anabl er mwyn helpu i lunio polisïau a gwasanaethau mwy cynhwysol.

Fel rhan o'r ymchwil hon, rydym yn profi'r cwestiynau newydd hyn gydag aelodau o'r cyhoedd. Mae eich adborth yn bwysig iawn i ni a bydd yn ein helpu i gwblhau'r cwestiynau.

### Cymryd rhan

**Darllenwch yn uchel:** Bydd cymryd rhan yn golygu siarad â mi am tua awr. Tua hanner ffordd drwy'r broses, fe wna i holi a hoffech chi gael seibiant. Os ydych chi'n teimlo bod angen seibiant arnoch chi ar unrhyw adeg arall, rhowch wybod i mi neu teipiwch neges ataf yn y sgwrs.

Cyn i ni fynd gam ymhellach, oes unrhyw beth arall y gallaf ei wneud i'ch cefnogi i gymryd rhan? [E.e. lefel sain, cefndir sgrin, sŵn]

Nid oes angen unrhyw wybodaeth arbennig arnoch i gymryd rhan ac nid oes atebion cywir nac anghywir. Mae gennyf ddiddordeb yn eich barn a'ch profiadau.

Wrth i ni siarad, byddaf yn dangos neu'n gofyn cwestiwn arolwg enghreifftiol i chi ac yn gofyn i chi geisio ei ateb. Yna, byddaf yn gofyn rhai cwestiynau dilynol i chi i gael gwybod mwy am eich barn am gwestiwn yr arolwg, sut aethoch chi ati i geisio ei ateb a sut byddech chi'n ei wella.

Byddwch yn cael taleb Love2 Shop gwerth £40 i ddiolch i chi am gymryd rhan yn y cyfweliad. Bydd hwn yn cael ei anfon dros e-bost gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol ar ôl y cyfweliad.

## Cyfrinachedd a defnyddio data

**Darllenwch yn uchel:** Hoffwn yn awr dreulio ychydig funudau'n trafod ein gweithdrefnau cyfrinachedd gyda chi.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Does dim rhaid i chi gymryd rhan os nad ydych chi'n dymuno. Os byddwch yn penderfynu bwrw ymlaen, gallwch roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg a thynnu eich cytundeb yn ôl hyd at bythefnos ar ôl y cyfweliad hwn heb roi rheswm a heb unrhyw ganlyniadau. Does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau rwy'n eu gofyn i chi os nad ydych chi eisiau gwneud hynny. Fodd bynnag, efallai y byddaf yn gofyn i chi pam nad oeddech chi eisiau ateb cwestiwn arolwg, ond does dim rhaid i chi ddweud wrtha i os nad ydych chi eisiau gwneud hynny.

I gofnodi'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn gywir, gyda'ch caniatâd chi, bydd y sgwrs hon yn cael ei recordio.

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio'n ddiogel. Dim ond aelodau o'r tîm ymchwil yn Shift Insight a NatCen fydd â mynediad ati. Dim ond at ddibenion yr ymchwil hon y caiff ei defnyddio. Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei defnyddio i helpu ymchwilwyr NatCen i ddadansoddi'r canlyniadau.

Bydd Shift Insight yn rhannu recordiadau'r cyfweliadau, y trawsgrifiadau a'r crynodebau'n ddiogel â thîm ymchwil NatCen. Ar wahân, bydd Shift Insight yn rhoi eich enw a'ch manylion cyswllt i'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) er mwyn iddynt allu anfon eich taleb Love2Shop atoch.

Bydd NatCen yn defnyddio'r wybodaeth maen nhw'n ei chasglu a'i dadansoddi i ysgrifennu adroddiad i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ei gwefan yn 2026. Ni fydd eich enw na'ch manylion cyswllt yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Efallai y bydd yr adroddiad yn cynnwys rhai o'r pethau rydych chi wedi'u dweud ond ni fydd neb yn gwybod eich bod wedi'u dweud.

Ar ôl i'r prosiect ddod i ben, bydd yr holl wybodaeth sydd gan Shift Insight a NatCen amdanoch chi yn cael ei dileu'n ddiogel.

Mae rhagor o wybodaeth am sut bydd NatCen yn defnyddio eich data yn ystod yr ymchwil hon ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd a anfonwyd atoch dros e-bost.

**Cytundeb cyfranogwyr**

**Y cyfwelydd i'w ddarllen yn uchel:** Ydych chi wedi derbyn a chael cyfle i ddarllen a deall y daflen wybodaeth a anfonwyd atoch dros e-bost?

- Oes gennych chi unrhyw gwestiynau?
- Ydych chi'n hapus i fwrw ymlaen a chymryd rhan?

Cyfarwyddiadau i'r cyfwelydd:

- Ydw - Bwrw ymlaen
- Nac ydw - Diolch a chloi

**Y cyfwelydd i'w ddarllen yn uchel**: Ydych chi'n fodlon i ni recordio'r drafodaeth heddiw?

Cyfarwyddiadau i'r cyfwelydd:

- Ydw - bwrw ymlaen
- Na - ewch i'r adran 'Meddwl yn uchel' a bwrw ymlaen. Peidiwch â recordio.

Cyfarwyddiadau i'r cyfwelydd (os atebwyd ag 'ydw' - bwrw ymlaen):

Dewiswch 'Record' ar Zoom / Teams.

Ar ôl dechrau recordio, gofynnwch eto i'r cyfranogwyr gadarnhau eu bod yn fodlon cymryd rhan ac i'r cyfweliad gael ei recordio (er mwyn cofnodi hyn).

Nodwch rif cyfresol y cyfweliad ar gyfer y recordiad. (e.e. 'At ein dibenion ni, RB01 yw rhif cyfresol y cyfweliad hwn').

## Meddwl yn uchel

**Cyfarwyddiadau i'r cyfwelydd:** Nod yr adran hon yw annog y cyfranogwr i feddwl yn uchel wrth gwblhau'r cwestiynau.

**Darllenwch yn uchel:** Gadewch i mi esbonio ychydig mwy am weddill y sesiwn. Rwy'n mynd i ofyn i chi ddweud wrthyf am beth rydych chi'n meddwl wrth ddarllen ac ateb y cwestiynau.

Rwyf am ichi ddweud wrthyf beth bynnag a ddaw i'ch meddwl wrth ichi benderfynu sut i ateb: os yw'r cwestiwn yr hyn yr ydych yn ei ddisgwyl ai peidio, p'un a ydych yn ei hoffi ai peidio, unrhyw eiriau nad ydych yn eu deall neu'n sy'n rhyfedd, neu unrhyw newidiadau y credwch y dylid eu gwneud, ac yn y blaen. Gelwir hyn yn 'feddwl yn uchel'.

I roi enghraifft i chi, pe bai rhywun yn gofyn i mi y cwestiwn ‘faint o ystafelloedd sydd gen i yn fy nghartref?’, wrth ateb y cwestiwn efallai y byddwn i’n meddwl ‘Mae gen i 2 ystafell wely, 1 ystafell fyw, 1 gegin felly mae hynny’n gyfanswm o 4 ystafell’. Mae rhai pobl yn ei chael hi’n haws meddwl nag eraill. Fe’ch holaf i wneud hynny.

## Profi’r cwestiynau

**Darllenwch yn uchel:** Byddwn nawr yn dechrau mynd drwy gwestiynau’r arolwg. Ar ôl pob cwestiwn, byddwn yn oedi, a byddaf yn gofyn rhai pethau mwy penodol i chi am sut brofiad oedd defnyddio’r cwestiynau.

**Cyfarwyddiadau i’r cyfwelydd:** Rhannwch ddogfen Word (dangos sgriniau) gyda’r cyfranogwr a gweithiwch drwy’r adrannau perthnasol ar y daflen stilio. Oedwch i holi mwy ar adegau a nodir ar y daflen stilio.

Sylwadau i’w nodi wrth siartio:

- a wnaeth yr ymatebydd ofyn am help neu eglurhad?
- a oedd yr atebydd wedi petruso gydag unrhyw gwestiynau?
- a wnaeth yr atebydd newid ei ymateb i unrhyw gwestiynau?

**Cwestiynau amhariadau**

[Gofynnwyd y cwestiynau hyn yn gyntaf i gyfranogwyr yng Ngrŵp A; gofynnwyd y cwestiynau hyn yn ail i gyfranogwyr Grŵp B.]

**Cwestiwn amhariadau, fersiwn 1**

**Darllenwch yn uchel:** Yn awr, rwy’n mynd i ddangos cwestiwn arolwg i chi yr hoffwn i chi ei ateb.

Rhowch Gerdyn Arddangos C i’r cyfranogwyr gyda fersiwn 1: cwestiwn amhariadau ac opsiynau ymateb (fel y dangosir yn Atodiad B).

**Cwestiynau stilio â blaenoriaeth**

- A allwch ddweud wrthyf, yn eich geiriau eich hun, am beth y mae’r cwestiwn hwn yn holi yn eich barn chi?
- Sut oeddech chi’n teimlo am gael y cwestiwn hwn?
  - Trafodwch beth oedd yn gwneud i’r cyfranogwr deimlo felly am y cwestiwn:
    - y derminoleg a ddefnyddir - ‘amhariadau neu gyflyrau hirdymor’
    - gorfod ticio pob un sy’n berthnasol

        - dull - cael eu holi mewn holiadur hunanlenwi o'i gymharu â chael eu holi gan gyfwelydd

- Sut aethoch chi ati i ateb y cwestiwn hwn? Siaradwch â mi am beth, os unrhyw beth, rydych chi wedi'i ddarllen ac wedi meddwl amdano wrth geisio ateb y cwestiwn hwn.
    - Gofynnwch i'r cyfranogwr drafod yr hyn a wnaeth e.e. darllen, ystyried, wrth benderfynu pa opsiynau ymateb i'w cymeradwyo.
- Pa mor hawdd neu anodd oedd ateb y cwestiwn hwn? Pam?
    - Archwiliwch a oedd unrhyw ddisgrifiadau'n aneglur, neu a oedd y cyfranogwr yn ansicr pa opsiynau i'w dewis.
- Roedd y cwestiwn yn gofyn am 'amhariadau neu gyflyrau hirdymor'. Beth oeddech chi'n ei ddeall am y termau hyn: amhariadau hirdymor; cyflyrau hirdymor?
    - Rhowch enghreifftiau o amhariadau hirdymor a chyflyrau hirdymor.
    - A oedd y cyfranogwr yn glir yn eu meddwl ynghylch pa gategorïau, os o gwbl, oedd yn berthnasol iddynt?
        - Pa gategorïau oedden nhw'n ansicr yn eu cylch a pham?
        - Beth oedd y cyfranogwr yn ei ddeall am yr opsiwn ymateb 'Deheurwydd'?
- **Os atebwyd** Dim un o'r rhain: Trafodwch pam eich bod wedi dewis yr opsiwn hwn.
- Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi'n eu gwneud i'r cwestiwn hwn?
    - Edrychwch ar ddewisiadau eraill:
        - termau - 'cyflwr', 'amhariad', 'effeithir gan'
        - disgrifiadau o opsiynau ymateb
        - enghreifftiau o opsiynau ymateb

**Cwestiynau stilio atodol, os bydd amser yn caniatáu**

- Sut oeddech chi'n teimlo am ddefnyddio'r ymadrodd 'rhannol ddall'?
    - Holwch a fyddai'n well ganddynt ddefnyddio term gwahanol, fel amhariad ar y golwg, e.e. beth yw eich barn chi am ddefnyddio'r ymadrodd 'amhariad ar y golwg' yn lle hynny?

- Beth oeddet chi’n ei ddeall am y term ‘rheoli lefelau egni’?
- Beth oeddet chi’n ei ddeall am y term ‘rhyngweithio cymdeithasol’?
- Roedd yr opsiwn ymateb iechyd meddwl yn cynnwys yr enghraifft ‘gwneud synnwyr o’r byd o’ch cwmpas’. Beth oedd hyn yn ei olygu i chi? Gofynnwch am enghreifftiau.
- Roedd yr opsiwn ymateb poen ac anghysur yn cynnwys yr enghraifft ‘poen cronig’. Sut byddech chi’n disgrifio poen cronig?

**Cwestiwn amhariadau, fersiwn 2**

**Darllenwch yn uchel:** Rwyf yn awr yn mynd i ofyn cwestiwn arolwg i chi a hoffwn i chi ei ateb.

**Y cyfwelydd i ddarllen yn uchel bôn y cwestiwn yn unig.**

**Darllenwch yn uchel:** Ydych chi’n profi problemau neu wahaniaethau gydag unrhyw un o’r canlynol? Cofiwch gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser.

**Peidiwch â darllen y 3 opsiwn ateb posibl yn uchel:**

- Ydw
- Nac ydw
- Mae’n well gen i beidio â dweud

Rhowch Gerdyn Arddangos D i’r cyfranogwyr gyda fersiwn 2: categorïau ymateb i gwestiwn amhariadau (fel y dangosir yn Atodiad B).

**Cwestiynau stilio â blaenoriaeth**

- Yn eich geiriau eich hun, am beth ydych chi’n meddwl mae’r cwestiwn hwn yn holi?
- Sut oeddech chi’n teimlo am gael y cwestiwn hwn?
    - Trafodwch beth oedd yn gwneud i’r cyfranogwr deimlo felly am y cwestiwn:
        - y derminoleg a ddefnyddir
        - ateb ‘ydw’ neu ‘nac ydw’ yn hytrach na gorfod nodi pa faterion neu wahaniaethau sy’n berthnasol
        - dull - cael eich holi gan gyfwelydd o’i gymharu â llenwi holiadur eich hun

- Sut aethoch chi ati i ateb y cwestiwn hwn? Siaradwch â mi am beth, os unrhyw beth, rydych chi wedi'i ddarllen ac wedi meddwl amdano wrth geisio ateb y cwestiwn hwn.
    - Gofynnwch i'r cyfranogwr drafod yr hyn a wnaeth e.e. darllen, ystyried, wrth benderfynu pa opsiynau ymateb i'w cymeradwyo.
- Pa mor hawdd neu anodd oedd ateb y cwestiwn hwn? Pam?
    - Archwiliwch unrhyw ddisgrifiadau sy'n aneglur.
- Roedd y cwestiwn yn gofyn a ydych chi'n profi unrhyw 'faterion neu wahaniaethau'. Beth oedd hyn yn ei olygu i chi? Beth oeddech chi'n meddwl oedd ystyr 'problemau neu wahaniaethau'?
    - Gofynnwch am enghreifftiau.
- Roedd y cwestiwn hefyd yn gofyn i bobl 'cynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser' - beth oeddech chi'n ei ddeall am hyn / beth oedd hyn yn ei olygu yn eich barn chi?
    - Rhowch enghreifftiau i mi o bethau a allai fynd neu ddod neu amrywio neu dros amser y gallech eu cynnwys ar gyfer y cwestiwn hwn.
    - Pa bethau na fyddech chi'n eu cynnwys?
        - Pam fyddech chi'n cynnwys neu'n eithrio'r enghreifftiau hyn?
    - A fyddech chi wedi ateb y cwestiwn hwn yn wahanol pe na bai wedi cynnwys yr ymadrodd 'cynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser'?
        - Archwiliwch sut byddai'r ateb yn wahanol.
- Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi'n eu gwneud i'r cwestiwn hwn?
    - Archwiliwch ddewisiadau eraill a'r rhesymau dros newidiadau:
        - i'r termau 'problemau neu wahaniaethau'
        - y term 'profiad'
        - disgrifiadau'r opsiynau ymateb (y testun trwm)
        - enghreifftiau
- Wrth gymharu'r cwestiwn hwn â fersiwn 1, pa fersiwn sydd orau gennych chi?
    - Archwiliwch y rhesymau am hyn:

        - geiriad y cwestiwn - ‘meysydd ble mae amhariadau neu gyflyrau hirdymor yn effeithio arnoch chi’ o’i gymharu â ‘profi problemau neu wahaniaethau gydag unrhyw un o’r canlynol ... gan gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser’
        - opsiynau ymateb - ‘ticiwch bob un sy’n berthnasol’ o’i gymharu â ‘ie neu na’
    - Os nad ydynt yn ffafrio’r naill na’r llall, sut bydden nhw’n awgrymu bod y cwestiwn hwn yn cael ei eirio?

- Ar ôl gweld y cwestiynau hyn am amhariadau a chyflyrau, a fyddech chi’n newid unrhyw rai o’ch atebion i’r cwestiynau cynnar rydych chi wedi’u hateb am y rhwystrau rydych chi’n eu hwynebu, neu ddim? Holwch am fanylion.

**Cwestiynau stilio atodol, os bydd amser yn caniatáu**

- Roedd lles meddyliol yn cynnwys yr enghraifft ‘rheoli emosiynau’. Beth oedd yr ymadrodd hwn yn ei olygu i chi? Gofynnwch am enghraifft.
- Beth oeddech chi’n ei ddeall am yr ymadrodd ‘rhyngweithio â phobl eraill’? Rhowch enghreifftiau.
- Roedd rhyngweithio â phobl eraill yn cynnwys yr enghraifft ‘gwrando’. At beth oeddech chi’n meddwl roedd hyn yn cyfeirio?
- Beth oeddech chi’n ei ddeall am yr ymadrodd ‘profi’r byd’? Rhowch enghreifftiau.
- O dan ‘Ymatebion imiwnedd’ roedd yr enghraifft, ‘mynd allan yng ngolau’r haul’. At beth oeddech chi’n meddwl roedd hyn yn cyfeirio?

**Cyfarwyddyd i’r cyfwelydd**: ar y cam hwn, oedwch a gofynnwch i’r cyfranogwr a fyddai’n hoffi cymryd seibiant byr.

**Cwestiynau rhwystrau**

Gofynnwyd y cwestiynau hyn yn ail i gyfranogwyr Grŵp A; gofynnwyd y rhain yn gyntaf i gyfranogwyr Grŵp B.

**Cwestiwn rhwystrau 1 ( fersiwn 2)**

**Y cyfwelydd i ddarllen yn uchel bôn y cwestiwn yn unig**

**Darllenwch yn uchel:** Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi eu profi? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

Rhowch Gerdyn Arddangos A i’r cyfranogwyr gyda fersiwn 2: categorïau ymateb ar gyfer rhwystrau (fel y dangosir yn Atodiad C).

**Cwestiynau stilio â blaenoriaeth**

- A allwch ddweud wrthyf, yn eich geiriau eich hun, am beth y mae'r cwestiwn yn holi yn eich barn chi?
- Sut oeddech chi'n teimlo am ateb y cwestiwn hwn?
    - Trafodwch beth oedd yn gwneud i'r cyfranogwr deimlo felly am y cwestiwn:
        - sensitifrwydd o ran y cwestiwn a darparu ateb (yn enwedig os yw'n dewis 'mae'n well gen i beidio â dweud')
        - y derminoleg a ddefnyddir
        - sut y cafodd y cwestiwn a'r opsiynau ymateb eu geirio e.e. yn gadarnhaol neu'n negyddol
        - gorfod ticio bob un sy'n berthnasol
        - dull - cael fy holi gan gyfwelydd yn hytrach nag ateb cwestiynau fy hun
- Allwch chi egluro i mi sut aethoch chi ati i ateb y cwestiwn?
    - Beth wnaethoch chi ei ddarllen?
    - Beth wnaethoch chi ei ystyried?
- Pa mor hawdd neu anodd oedd ateb y cwestiwn hwn? Beth sy'n gwneud i chi ddweud hynny?
    - Geiriad yr opsiynau ymateb ac enghreifftiau
    - Unrhyw beth arall
- Roedd y cwestiwn yn gofyn i chi pa rai o'r pethau a restrwyd rydych chi 'wedi'u profi'? Pa fath o bethau oeddech chi'n meddwl amdanyn nhw yma? Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael profiad o'r pethau rydych chi wedi dweud wrtha i amdanyn nhw, neu ydych chi ddim yn siŵr?
- Am ba gyfnod o amser oeddech chi'n meddwl wrth ateb y cwestiwn hwn? Pe bai rhywun wedi gofyn i chi a oeddech chi wedi profi'r pethau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf, a fyddech chi wedi rhoi'r un ateb, neu ateb gwahanol?
- **Os atebwyd** Dim un o'r rhain - Esboniwch pam eich bod wedi dewis yr opsiwn hwn.
- **Os atebwyd** Mae'n well gen i beidio ateb - Esboniwch pam eich bod wedi dewis yr opsiwn hwn.
- Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi'n eu gwneud i'r cwestiwn hwn?

- Archwiliwch ddewisiadau eraill a’r rhesymau dros newidiadau
  - termau a ddefnyddir (dewisiadau amgen i ‘ddim yn addas’, ‘ddim yn hygyrch’ a ‘ddim yn gefnogol’)
  - disgrifiadau’r opsiynau ymateb (y testun trwm)
  - enghreifftiau a roddwyd (gwahanol enghreifftiau, mwy neu lai)

**Cwestiynau stilio atodol, os bydd amser yn caniatáu**

- Pa feysydd o’ch bywyd oeddech chi’n meddwl amdanyn nhw wrth ateb y cwestiwn hwn? [Os oes angen, gofynnwch am waith, bywyd cartref, hamdden, eich iechyd, symud o gwmpas.]
- Allwch chi ddweud wrthyf yn eich geiriau eich hun beth mae’r term ‘rheolau, polisïau ac arferion’ yn ei olygu i chi?
- Mae opsiwn ymateb 2 yn cyfeirio at ‘cyfathrebu nad yw’n hygyrch’, beth wnaeth hynny i chi feddwl amdano? Allwch chi feddwl am ffyrdd gwell o ddweud hynny y gallen ni eu defnyddio?

**Cwestiwn rhwystrau 2 ( fersiwn 1)**

**Darllenwch yn uchel:** Yn awr, rwy’n mynd i ddangos cwestiwn arolwg arall i chi yr hoffwn i chi ei ateb.

Rhowch Gerdyn Arddangos B i’r cyfranogwyr gyda fersiwn 1: cwestiynau rhwystrau a chategorïau ymatebion (fel y dangosir yn Atodiad C).

**Cwestiynau stilio â blaenoriaeth**

- Yn eich geiriau eich hun, am beth ydych chi’n meddwl mae’r cwestiwn hwn yn holi?
- Sut oeddech chi’n teimlo am ateb y cwestiwn hwn?
  - Trafodwch beth oedd yn gwneud i’r cyfranogwr deimlo felly am y cwestiwn:
    - y derminoleg a ddefnyddir
    - gorfod ticio pob un sy’n berthnasol
    - sensitif
    - dull - cael eu holi mewn holiadur hunanlenwi o’i gymharu â chael eu holi gan gyfwelydd
- Dywedwch wrthyf sut aethoch chi ati i ateb y cwestiwn?

- Gofynnwch i'r cyfranogwr drafod yr hyn a wnaeth e.e. ei ddarllen, ystyried pa opsiynau ymateb i'w cymeradwyo.

- Pa mor hawdd neu anodd oedd ateb y cwestiwn hwn? Pam?
  - Archwiliwch a oedd unrhyw ddisgrifiadau'n aneglur, neu a oedd y cyfranogwr yn ansicr pa opsiwn/opsiynau i'w dewis, i ba raddau roeddent yn teimlo bod yr opsiynau ateb yn berthnasol iddynt.
- Roedd y cwestiwn yn gofyn am y 'rhwystrau' rydych chi'n eu profi. Beth oeddech chi'n ei ddeall am y term 'rhwystrau' yma?
  - A oedd y cyfranogwr yn meddwl am amhariadau penodol wrth ddewis yr opsiwn/opsiynau rhwystrau?
  - A oedd y cyfranogwr yn glir yn eu meddwl ynghylch pa gategorïau, os o gwbl, oedd yn berthnasol iddynt?
  - Pa gategorïau oedden nhw'n ansicr yn eu cylch a pham?
- Am ba gyfnod o amser oeddech chi'n meddwl wrth ateb y cwestiwn hwn? [Holwch am fanylion]
  - Pe bai'r cwestiwn wedi gofyn i chi a oeddech chi wedi profi unrhyw un o'r rhwystrau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf, a fyddech chi wedi rhoi'r un ateb, neu ateb gwahanol? [Holwch am fanylion]
- **Os atebwyd** Dim un o'r rhain - Esboniwch pam eich bod wedi dewis yr opsiwn hwn.
- Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi'n eu gwneud i'r cwestiwn hwn?
  - Edrychwch ar ddewisiadau eraill:
    - termau - 'problemau' yn hytrach na rhwystrau, gair gwahanol (neu ei ddileu'n llwyr?)
    - nifer yr opsiynau ymateb (mwy neu lai?) - unrhyw beth y gwnaethon ni ei fethu?
    - disgrifiadau o opsiynau ymateb
    - mwy, llai, neu roi gwell enghreifftiau
- Wrth gymharu'r cwestiwn hwn â'r cwestiwn blaenorol (cwestiwn 1: rhwystrau fersiwn 2), pa fersiwn sydd orau gennych chi?
  - Archwiliwch y rhesymau am hyn:

    - geiriad y cwestiwn - a yw'n well ganddynt gwestiwn sy'n cyfeirio'n benodol at 'rwystrau' yn hytrach nag un nad yw'n gwneud hynny? Neu 'ydych chi'n profi' o'i gymharu â 'ydych chi wedi profi'?
    - opsiynau ymateb - wedi'u rhestru yn ôl 'meysydd bywyd' o'i gymharu â rhestru yn ôl 'math o rwystr a brofwyd'
    - nifer a math yr enghreifftiau a roddwyd - mae gan fersiwn 1 lawer o enghreifftiau manwl, o'i gymharu â fersiwn 2 sydd â llai o enghreifftiau ac enghreifftiau ehangach
    - cysylltu ag amhariad yn fersiwn 1 o'i gymharu â pheidio â chysylltu ag amhariad yng nghwestiwn 1: rhwystrau fersiwn 2)
  - Os nad ydynt yn ffafrio'r naill na'r llall, sut bydden nhw'n awgrymu bod y cwestiwn hwn yn cael ei eirio?

**Cwestiynau stilio atodol, os bydd amser yn caniatáu**

- Beth, yn eich geiriau eich hun, mae'r term 'nad yw'n cefnogi fy anghenion' yn ei olygu i chi?
- [Os nad yw wedi'i drafod eisoes] Pa amhariad(au) neu gyflwr/gyflyrau hirdymor oeddech chi'n meddwl amdanynt wrth ateb y cwestiwn hwn?
- Mae rhai o'r enghreifftiau'n crybwyll nad yw gwybodaeth ar gael mewn fformat sydd ei angen arnoch e.e. amserlenni nad ydynt mewn fformat sydd ei angen arnoch. Beth oedd y term 'fformat' yn ei olygu i chi?
- Opsiwn 3 oedd 'trafnidiaeth a theithio nad yw'n cefnogi fy anghenion'. Beth oedd hyn yn ei olygu i chi? Rhowch enghreifftiau.
- Opsiwn 7 oedd 'mannau a chyfleusterau cyhoeddus nad ydynt yn cefnogi fy anghenion'. Allwch chi ddweud wrtha i pa fath o bethau roeddech chi'n meddwl amdanyn nhw yma?
- Roedd Opsiwn 8 yn cyfeirio at 'wasanaethau ariannol a budd-daliadau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion'. Allwch chi ddweud wrtha i, yn eich geiriau eich hun, beth mae'r term hwn yn ei olygu i chi? Holwch am enghreifftiau o gymorth gwasanaethau ariannol a ystyriwyd, ac am y budd-daliadau a ystyriwyd.
- Beth am opsiwn 9, beth mae'r term 'cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth' yn ei olygu yn eich barn chi? A beth am 'cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus'?

## Cloi

Nodau'r adran hon yw cael barn gyffredinol y cyfranogwyr am gwestiynau'r arolwg a sut brofiad oedd llenwi'r arolwg.

Gofynnir y cwestiynau hyn ar ôl i'r cyfranogwyr gwblhau'r holiadur.

**Cyffredinol**

- Pa mor hawdd neu anodd oedd deall beth oedd y cwestiynau yn yr arolwg yn ei ofyn?
- Sut brofiad oedd ateb y cwestiynau yn yr arolwg?
- Beth oedd eich barn chi am hyd pob un o'r cwestiynau? Oeddech chi'n teimlo bod swm y testun i'w ddarllen ar gyfer rhai cwestiynau wedi achosi unrhyw anawsterau ai peidio?
- A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y cwestiynau?
- A oes unrhyw beth arall am gwestiynau'r arolwg yr hoffech ei weld yn cael ei newid, neu beidio?

**Cyfwelydd**: diolchwch i'r cyfranogwr ac ewch i'r cwestiynau sgrinio.

**Cwestiynau sgrinio**

Nod yr adran hon yw gwirio bod cyfranogwyr wedi cael eu sgrinio'n gywir.

**Darllenwch yn uchel:** Y peth olaf y mae angen i mi ei wneud yw gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer yn gywir. Dyma'r pethau y byddai'r recriwtiwr wedi gofyn i chi pan gysylltwyd â chi gyntaf i gymryd rhan. Nid profi pwy ydych chi yw'r bwriad, ond gwneud yn siŵr ein bod yn siarad â'r grwpiau cywir o bobl ar gyfer yr astudiaeth hon.

1. Oes gennych chi unrhyw gyflwr neu salwch iechyd meddwl neu gorfforol sy'n para neu y mae disgwyl iddo bara am 12 mis neu fwy, neu a ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Oes - Ewch ymlaen i 3

Nac oes - Ewch ymlaen i 2b

[Gofynnwch os yw C3='Nac ydy']

2b. Rydym hefyd yn awyddus i siarad â phobl a allai wynebu rhwystrau mewn bywyd bob dydd ond nad ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl, er enghraifft, siaradwyr Iaith Arwyddion Prydain neu bobl niwrowahanol. Ydy hyn yn berthnasol i chi?

Ydy - Ewch ymlaen i 3

Nac ydy - Parhewch os oes dal angen cyfranogwyr arnoch ar gyfer y cwota dim cyflwr iechyd ac ewch i gwestiwn 4, neu fel arall sgrinio allan

3. Rwyf nawr yn mynd i ddarllen rhestr o rai o'r ffyrdd y gall salwch a chyflyrau iechyd hirdymor effeithio ar bobl. Ar gyfer pob un o'r opsiynau a ddarllenaf, dywedwch 'ydy' os yw hyn yn effeithio arnoch chi neu 'nac ydy' os nad ydyw.

**Cyfwelydd:** Os 'ydy', ticiwch y blwch. Os nad yw'r cyfranogwr yn siŵr, peidiwch â thicio.

Mae'n effeithio ar eich golwg, eich clyw neu ar un arall o'ch synhwyrau

Mae'n effeithio arnoch yn gorfforol, er enghraifft, efallai yr effeithir ar eich symudedd neu eich cydsymudiad. Neu mae'n effeithio ar eich lefelau egni, ac rydych chi'n teimlo'n flinedig drwy'r amser.

Mae ffyrdd eraill yr effeithir arnoch yn gorfforol yn cynnwys effeithio ar eich anadlu, neu ddioddef poen.

Neu efallai eich bod yn cael eich effeithio mewn rhyw ffordd arall yn gorfforol

Mae'n effeithio ar eich cof, neu ba mor dda y gallwch ddysgu, deall neu ganolbwyntio

Mae'n effeithio ar eich iechyd meddwl, ac mae rhai enghreifftiau'n cynnwys iselder, gorbryder, anhwylderau bwyta a seicosis

Mae'n effeithio ar sut mae eich ymennydd yn meddwl ac yn prosesu gwybodaeth

Mae'n effeithio arnoch chi mewn ffordd arall, heb ei chrybwyll eto [**Cyfwelydd**: gofyn a naill ai ôl-godio neu aseinio i gategori 'ffordd arall']

Nid yw'n effeithio arnaf fi mewn unrhyw ffordd

4. Faint yw eich oed?

18 i 29

30 i 64

65 a hŷn

5. Beth yw eich rhyw?

Gwryw

Benyw

Mae'n well gen i beidio â dweud

6. Beth yw eich statws cyflogaeth presennol?

Mewn gwaith, hyfforddiant (neu'n aros i ddechrau hynny)

Ddim yn gallu gweithio neu wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch neu gyflwr iechyd hirdymor

Wedi ymddeol

Gwneud rhywbeth arall

7. Ydych chi'n byw mewn ardal drefol neu wledig?

**Cyfwelydd:** Darllen os oes angen.

Trefol: Mae ardal drefol fel arfer yn cynnwys dinasoedd, trefi a maestrefi. Mae ardaloedd trefol yn tueddu i fod â mwy o bobl nag ardaloedd gwledig.

Gwledig: Mae ardal wledig fel arfer yn cynnwys ffermydd, trefi bach a phentrefi. Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fod â llai o bobl nag ardaloedd trefol.

Trefol

Gwledig

Mae'n well gen i beidio â dweud

8. Beth yw eich grŵp ethnig? (Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich grŵp neu eich cefndir ethnig)

Gwyn, Gwyn Cymreig, neu Wyn Prydeinig

(hefyd yn cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig; Roma; Unrhyw gefndir Gwyn arall)

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd

Grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig

Grwpiau ethnig eraill

9. Beth yw eich cyrhaeddiad addysgol uchaf?

**Cyfwelydd**: os oes angen, dywedwch: Hynny yw, beth yw'r arholiadau neu'r cymwysterau uchaf rydych chi wedi'u hennill.

Hyd at lefel TGAU neu gymhwyster cyfatebol

Cymwysterau Safon Uwch neu gyfatebol neu uwch

10. Ydych chi'n cael unrhyw fudd-daliadau prawf modd ar hyn o bryd (mae'r rhain yn fudd-daliadau sy'n seiliedig ar eich incwm neu'ch cynilion, fel Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, neu Fudd-dal Tai)?

Ydw

Nac ydw

**Darllenwch yn uchel:** Diolch ichi am ateb y cwestiynau sgrinio hynny. Dyna ddiwedd y cyfweliad heddiw.

**Darllenwch yn uchel:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill cyn i mi stopio'r recordiad?

**Cyfarwyddyd i'r cyfwelydd**: (Pan fyddwch yn barod) stopio'r recordiad.

**Trefniadau a chloi'r cyfweliad**

**Cyfwelydd:** Gofynnwch i'r cyfranogwr a oes ganddynt ragor o gwestiynau.

Esboniwch y byddwn yn anfon cod cymhelliant Love 2 Shop gwerth £40 atynt a chyfarwyddiadau. Esboniwch y gall hyn gymryd hyd at 10 diwrnod i gyrraedd ac y byddant yn dod o gyfeiriad e-bost NatCen. Yr union gyfeiriad fydd: NatCen@comms.natcen.ac.uk

Byddwn hefyd yn anfon taflen o gysylltiadau defnyddiol. Bydd hyn yn cynnwys dolenni i sefydliadau sy'n berthnasol i'r pynciau a drafodwyd yn y cyfweliad.

# Atodiad G: Pecyn gwaith 6 - Gwybodaeth dechnegol Panel Barn NatCen

## Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2025, cynhaliodd NatCen arolwg ymysg aelodau ei Banel Barn ar ran Llywodraeth Cymru i gasglu data ar brofiadau pobl o anabledd yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am y newidynnau sydd wedi'u cynnwys, geiriad holiaduron, dyluniad samplau, dull gwaith maes, a'r fethodoleg bwysoli.

## Samplo

Mae Panel Barn NatCen yn seiliedig ar ddyluniad tebygolrwydd ar hap, gydag aelodau'r panel yn cael eu dewis yn wreiddiol ar hap, ac ymdrech sylweddol yn cael ei wneud i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ac i leihau'r risg o ragfarn.

Mae aelodau Panel Barn NatCen yn cael eu recriwtio drwy arolygon sy'n seiliedig ar debygolrwydd, sy'n defnyddio'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) fel y ffrâm samplu. Dewisir cyfranogwyr ar hap, a gwneir ymdrech sylweddol i sicrhau cyfweliadau i sicrhau data cynrychioliadol o ansawdd uchel.

Ar gyfer yr arolwg hwn, roedd holl aelodau'r panel 16 oed a hŷn a recriwtiwyd o Agweddau Cymdeithasol Prydain (BSA) 2015 ymlaen ac Astudiaeth Niwed i Ddefnyddwyr (CDS) Cymru, nad oedd wedi gadael y panel ers hynny nac wedi dod yn 'anweithredol', yn gymwys i gael eu gwahodd. O'r gronfa hon, dewiswyd is-sampl ar hap o 4,383 o achosion, gan gynnal y dyluniad sy'n seiliedig ar debygolrwydd. Roedd hyn yn cynnwys hwb o 750 o aelodau panel a oedd yn byw yng Nghymru pan wnaethant ateb yr arolwg, at gyfanswm o 896 o aelodau panel yng Nghymru a ddewiswyd i gymryd rhan.

Cafodd tebygolrwydd dethol ei addasu drwy samplu yn gymesur â phwysoliadau a oedd yn adlewyrchu i ba raddau roedd nodweddion aelodau'r panel (oedran, rhyw, rhanbarth, strwythur aelwydydd, incwm, addysg, gweithgarwch economaidd, ethnigrwydd, deiliadaeth, dosbarth cymdeithasol, diddordeb mewn gwleidyddiaeth a chefnogaeth plaid) yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli yn y panel cymwys. Mae'r weithdrefn yn gwella pa mor gynrychioliadol yw'r sampl gymaint â phosibl.

## Dyluniad gwaith maes

### Dull

Roedd y gwaith maes yn dilyn dyluniad dull cymysg dilyniannol. Gwahoddwyd aelodau'r panel i gymryd rhan yn yr ymchwil ar-lein i ddechrau, ac anfonwyd nifer o negeseuon atgoffa drwy'r post, e-bost a/neu neges destun. Os nad oeddent wedi

cwblhau'r cyfweliad o fewn pythefnos, ac os oedd rhifau ffôn ar gael, cysylltwyd â nhw wedyn gan Uned Ffôn (TU)  NatCen i'w hannog i gwblhau ar-lein neu gynnig cyfweliad dros y ffôn. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni gynnwys unigolion nad oeddent yn gallu neu nad oeddent yn fodlon llenwi'r arolwg ar-lein.

**Strategaeth gyfathrebu**

Cysylltir ag aelodau'r panel sawl gwaith, a thrwy sawl dull i roi'r wybodaeth ofynnol iddynt a'u hannog i gymryd rhan yn yr arolwg byw. Defnyddir sawl dull cysylltu (llythyr, e-bost ac SMS), negeseuon amrywiol (effaith gymdeithasol, gwobr ar ôl cwblhau, brys) a gwahanol ddiwrnodau o'r wythnos i gynyddu'r siawns o gyrraedd gwahanol grwpiau. Mae'r rhain wedi'u gwasgaru dros bythefnos gyntaf y gwaith maes er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n llenwi'r holiadur ar-lein cyn i'r sampl sy'n weddill gael ei rhoi i Uned Ffôn NatCen gysylltu â nhw. Anfonir set derfynol o nodiadau atgoffa 3 wythnos ar ôl dechrau'r gwaith maes at y rhai nad ydynt wedi llenwi'r holiadur ac nad oes gennym rif ffôn cyswllt ar eu cyfer, gan na fydd yr Uned Ffôn yn cysylltu â'r aelodau panel hyn yn ystod wythnosau olaf y gwaith maes.

**Cyfnod y gwaith maes**

Parhaodd cyfnod y gwaith maes am fis. Cynhaliwyd gwaith maes ar y we rhwng 13 Tachwedd 2025 a 14 Rhagfyr 2025 a chynhaliwyd gwaith maes dros y ffôn rhwng 20 Tachwedd 2025 a 14 Rhagfyr 2025. Er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi cwblhau'r arolwg o fewn yr wythnos gyntaf, roedd yr amserlen o fis yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle i gymryd rhan, yn hytrach na dim ond y rheini a oedd ar gael ar unwaith.

**Cwblhau yn ôl iaith a gwlad**

Cafodd holl aelodau'r panel yr opsiwn i lenwi'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg, ni waeth ym mha wlad roeddent yn byw adeg cwblhau'r arolwg. Derbyniodd y rhai a oedd yn byw yng Nghymru lythyr gwahoddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cwblhaodd cyfanswm o 10 aelod o'r panel yr arolwg yn Gymraeg, gyda 9 yn byw yng Nghymru ac 1 yn byw yn Lloegr.

**Cymhelliant**

Cafodd y cyfranogwyr daleb Love2Shop gwerth £5 neu £10 (yn ddigidol neu'n ffisegol) i ddiolch iddynt am eu hamser.

**Dull wedi'i dargedu**

Er mwyn gwella ansawdd y sampl, cafodd adnoddau gwaith maes eu hailgyfeirio oddi wrth unigolion sydd fel arfer yn cael eu gorgynrychioli yn y sampl ac sy'n cymryd rhan yn rheolaidd, tuag at y rheini sy'n cael eu tangynrychioli ac sy'n cymryd rhan yn llai aml. Er enghraifft, roedd unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol yn

gymwys i gael cymhelliant uwch, yn cael mwy o negeseuon atgoffa, a/neu roedd ein cyfwelwyr yn cysylltu â nhw'n amlach (hyd at 8 galwad).

## Cyfraddau ymateb

Cafodd yr arolwg hwn gyfradd ymateb gyffredinol o 57% ymysg aelodau'r panel a gafodd wahoddiad i gymryd rhan.[24]

## Pwysoliad

Gall diffyg ymateb i arolygon Panel Barn NatCen ddigwydd ar wahanol adegau: yr arolwg recriwtio, y gwahoddiad i ymuno â'r panel (ar ddiwedd y cyfweliad recriwtio), cyfradd gadael dilynol y Panel, a'r arolwg o aelodau'r panel ei hun. Mae'r arolygon recriwtio eisoes wedi'u pwysoli er mwyn addasu ar gyfer diffyg ymateb. Cyfrifir pwysoliadau pellach er mwyn addasu ar gyfer diffyg ymateb yn y camau dilynol. Pwysoliad terfynol yr arolwg yw cynnyrch y pwysoliadau hyn. Mae'r dull aml-gam hwn yn ddelfrydol oherwydd gall y gydberthynas rhwng diffyg ymateb fod yn wahanol ar bob cam.

### Diffyg ymateb

Mae'r pwysoliad terfynol a ddarparwyd yn gynnyrch pwysoliad yr arolwg recriwtio, pwysoliad dethol y sampl, a phwysoliad diffyg ymateb y panel.

**Pwysoliad yr arolwg recriwtio:** Roedd y pwysoliadau o'r arolygon recriwtio yn dilyn dyluniadau tebyg: pwysoliadau dethol i addasu ar gyfer tebygolrwydd dethol anghyson; pwysoliadau diffyg ymateb yn cael ei gyfrifiannu drwy fodelau ymateb atchweliad logistaidd (ar lefel cyfeiriad) i addasu ar gyfer diffyg ymateb gwahaniaethol; a graddnodi yn ôl amcangyfrifon poblogaeth.[25]

**Pwysoliad samplu:** Mae'r pwysoliad hwn yn addasu ar gyfer tebygolrwydd dethol a ddefnyddir yn y broses samplu a'r holl ddiffyg ymateb neu gyfradd gadael sy'n digwydd ar ôl yr arolygon recriwtio ond cyn samplu.

Yn gyntaf, cafodd model atchweliad logistaidd ei greu i sefydlu pwysoliad diffyg ymateb i addasu ar gyfer y diffyg ymateb a ddigwyddodd cyn samplu, h.y. yn ystod cam recriwtio'r panel ynghyd ag unrhyw gyfradd gadael dilynol. Defnyddiwyd y newidynnau canlynol fel rhagfynegyddion yn y model: grwpiau oedran a rhyw, rhanbarth, math o aelwyd, incwm aelwyd, lefel addysg, ethnigrwydd, deiliadaeth, grŵp dosbarth cymdeithasol, gweithgarwch economaidd, nodi pleidiau gwleidyddol,

---

[24]Nid yw'r gyfradd ymateb hon yn cyfrif am ddiffyg ymateb o ganlyniad i bobl ddim yn cymryd rhan yn yr arolwg recriwtio, ddim yn ymuno â'r panel, neu gyfradd gadael y panel. Fodd bynnag, gan fod llawer o'r rhagfarn hon yn cael ei lliniaru drwy ein dull samplo wedi'i bwysoli, credwn fod y gyfradd ymateb hon yn arwydd gwell o'r risg o ragfarn.
[25]Mae rhagor o fanylion am y pwysoliad BSA ar gael yn bsa.natcen.ac.uk/

a diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Y pwysoliad diffyg ymateb oedd gwrthdro'r tebygolrwydd o ymuno neu aros ar y panel.

Dewiswyd is-sampl ar hap o aelodau'r panel ar gyfer yr arolwg hwn, gan roi hwb i rai poblogaethau. Defnyddiwyd pwysoliadau i addasu tebygolrwydd dethol, felly cyfrifwyd pwysoliad 'detholiad sampl' i gyfrif am y tebygolrwyddau dethol gwahaniaethol hyn (yn hafal i wrthdro'r tebygolrwydd o gael eu dewis ar gyfer y sampl). Mae'r 'pwysoliad samplu' terfynol yn deillio o bwysoliad yr arolwg recriwtio, pwysoliad diffyg ymateb y panel a phwysoliad y detholiad sampl.

**Pwysoliad yr arolwg:** Defnyddir y pwysoliad hwn i addasu ar gyfer diffyg ymateb i'r arolwg panel hwn.

Defnyddiwyd modelau atchweliad logistaidd i amcangyfrif y tebygolrwydd o ymateb ar gyfer pob aelod o'r panel a roddwyd i'r arolwg. Roedd pwysoliad yr arolwg panel yn hafal â gwrthdro'r tebygolrwyddau ymateb. Mae'r pwysoliad hwn yn addasu ar gyfer diffyg ymateb gan ddefnyddio'r un newidynnau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer pwysoliad recriwtio'r panel uchod h.y. grwpiau oedran a rhyw, rhanbarth, math o aelwyd ac ati.

Defnyddiwyd dau fodel gwahanol, un ar gyfer yr arolygon wyneb yn wyneb ac un ar gyfer yr arolygon gwthio i'r we. Ym mhob achos, lluoswyd pwysoliad yr arolwg a ddeilliodd o hynny â'r pwysoliad samplu i greu'r pwysoliad cyn graddnodi. Yn olaf, defnyddiwyd pwysoliad graddnodi i addasu proffil y sampl a ymatebodd fel ei fod yn cyfateb i broffil poblogaeth y DU.

**Effaith dylunio a maint sampl effeithiol**

Mae Effaith Dylunio (Deff) yn mesur effeithlonrwydd dyluniad samplu o'i gymharu â hapsamplu syml. Mae'n dangos faint yn fwy y mae'n rhaid i faint y sampl fod er mwyn cyflawni'r un manylder â hapsampl syml gan dybio cyfradd ymateb o 100%. Mae Deff sy'n fwy nag 1 yn golygu bod y dyluniad yn llai effeithlon, sy'n gofyn am sampl mwy; i'r gwrthwyneb, mae Deff sy'n llai nag 1 yn golygu bod y dyluniad yn fwy effeithlon. Y Deff ar gyfer y prosiect hwn yw 1.70.

Mae effaith dylunio yn arbennig o bwysig mewn dyluniadau samplu haenedig neu glystyrog cymhleth, fel y rhai a ddefnyddir ym Mhanel NatCen, lle gall y gydberthynas mewn clystyrau neu strata effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon.

Mae maint effeithiol y sampl yn cynrychioli nifer yr arsylwadau annibynnol sy'n cyfrannu at y dadansoddiad. Mae'n cyfrif am y gostyngiad yn amrywiaeth y sampl a achosir gan yr effaith ddylunio. Caiff ei gyfrifo drwy addasu cyfanswm maint y sampl yn seiliedig ar y Deff. Ar gyfer y prosiect hwn, maint effeithiol y sampl yw 1,478.

## Set ddata’r arolwg

### Newidynnau samplu

Mae dyluniad sampl arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain (BSA) a’r Arolwg o Niwed i Ddefnyddwyr (CDS) - ac felly Panel Barn NatCen sy’n cael ei recriwtio drwy’r arolygon hyn - yn cynnwys haenu a chlystyru. Mae’r nodweddion dylunio hyn yn effeithio ar wallau safonol a dylid rhoi cyfrif amdanynt yn y dadansoddiad. Darperir newidynnau i ganiatáu ar gyfer hyn:

- Yr Uned Samplu Sylfaenol y cafodd aelodau’r panel eu recriwtio ohoni yn ystod eu harolwg recriwtio; mae’n cyfeirio naill ai at yr aelwyd y cafodd ein sampl recriwtio gwthio i’r we ei recriwtio ohoni (ers 2020) neu at bwynt recriwtio ar gyfer y sampl wyneb yn wyneb (cyn 2019)
- y stratwm samplu y dewiswyd aelodau’r panel ohono, gyda phob cod yn cynrychioli rhanbarth gwahanol; mae’n ystyried cwintelau’r Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD)

### Newidyn pwysoliad diffyg ymateb

Mae diffyg ymateb yn effeithio ar amcangyfrifon arolwg o samplau tebygolrwydd ar hap; os na roddir sylw i hyn, gall achosi i amcangyfrifon fod yn rhagfarnllyd. Er mwyn sicrhau bod y sampl o ymatebwyr a gyflawnwyd yn cynrychioli’r boblogaeth, cyfrifwyd set o bwysoliadau diffyg ymateb i gyfrif am ddiffyg ymateb i’r arolygon recriwtio, gwrthod ymuno â’r panel, a diffyg ymateb yn yr arolwg o aelodau’r panel ei hun.

### Gwybodaeth paradata yr arolwg

Mae dau ddarn o baradata yr arolwg wedi’u cynnwys yn set ddata’r arolwg: y dyddiad y cwblhawyd yr arolwg a dull cwblhau’r arolwg (ar-lein neu dros y ffôn).

### Data wedi’i rag-fwydo

Gan fod aelodau Panel Barn NatCen yn cael eu cyfweld yn rheolaidd, mae gennym gyfoeth o wybodaeth gefndir am aelodau ein panel y gellir ei defnyddio wrth ddadansoddi.

### Trefn cwestiynau

**Model cymdeithasol o anabledd neu safonau wedi’u cysoni wedi’u gosod yn gyntaf:** Dangoswyd cwestiynau safon amhariadau wedi’i chysoni (HS) i’r ymatebwyr yn gyntaf neu’r mesurau model cymdeithasol (SMD) yn gyntaf. Mae'r newidyn “sampsplit3_qtypeorder” yn dangos y drefn,  gydag 1 yn golygu mai HS gafodd ei ddangos gyntaf a SMD yn ail, tra bo 2 yn golygu bod set o gwestiynau SMD wedi cael ei dangos yn gyntaf a HS yn ail.

**Dangos cwestiwn rhwystrau 1 neu 2 yn gyntaf:** Dangoswyd naill ai ASMDBar1 (cwestiwn rhwystrau 1) neu ASMDBar2 (cwestiwn rhwystrau 2) i'r ymatebwyr yn gyntaf. Mae'r newidyn "sampsplit4_smdbarorder" yn dangos ym mha drefn y cafodd y cwestiynau eu dangos: mae gwerth o 1 yn dangos bod ASMDBar1 wedi cael ei ddangos yn gyntaf ac ASMDBar2 yn ail, tra bod gwerth o 2 yn dangos bod ASMDBar2 wedi cael ei ddangos yn gyntaf ac ASMDBar1 yn ail.

**Newidynnau deilliedig: cudd neu ymlaen llaw - 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud'**

Yng nghwestiynau ASMDBar1 ac ASMDBar2, cafodd ymatebion 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' eu dangos ymlaen llaw i tua hanner y sampl a'u cuddio ar gyfer tua hanner y sampl. Pennwyd p'un ai a oedd 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi'u cuddio neu wedi'u dangos ymlaen llaw gan y newidyn "sampsplit5_dkpnta" lle mae 1 yn golygu cudd a 2 yn golygu dangos ymlaen llaw.

Petai 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi cael eu cuddio a bod yr ymatebwyr wedi ceisio peidio ag cwestiwn hwn, byddai'r atebion cudd hyn yn ymddangos ar y sgrin a byddai modd eu dewis. Dyma sut mae 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' yn ymddangos fel mater o drefn ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu gofyn ar Banel Barn NatCen.

Mae'r newidynnau deilliedig a restrir isod yn dangos yr holl ymatebion 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio â dweud' (boed yn rhai cudd neu'n rhai sy'n cael eu dangos ymlaen llaw):

- ASMDBar1_PNTA_DV
- ASMDBar1_DK_DV
- ASMDBar2_PNTA_DV
- ASMDBar2_DK_DV

Mae newidynnau deilliedig ychwanegol hefyd wedi cael eu cyfrif yn seiliedig ar ddata'r arolwg a'u cynnwys yn y set ddata. I hwyluso dadansoddiad, set o newidynnau demograffig-gymdeithasol gyda chategorïau wedi'u grwpio i ddiwallu anghenion dadansoddi penodol.

**Ôl-godio ymatebion 'Arall'**

Cafodd y cyfranogwyr ddewis 'Arall' a rhoi atebion air am air ar gyfer y cwestiynau canlynol:

- AHSImp – A oes unrhyw un o'r cyflyrau neu'r afiechydon hyn yn effeithio arnoch chi yn unrhyw un o'r meysydd canlynol?

- ASMDImp – Ym mha rai o'r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae cyflyrau neu amhariadau hirdymor yn effeithio arnoch chi?
- ASMDBar1 - Ydych chi'n bersonol wedi cael profiad o unrhyw un o'r problemau canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf?
- ASMDBar2 - Ydych chi'n bersonol wedi cael profiad o unrhyw un o'r problemau canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf?
- DebQ1 - Fe wnaethom ofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw rwystrau rydych chi wedi'u hwynebu yn ystod y 12 mis diwethaf. Wrth ateb y cwestiynau hyn, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, wnaethoch chi feddwl amdanynt?

Cafodd yr ymatebion 'Arall' a ddarparwyd yng nghwestiynau AHSImp ac ASMDImp eu hôl-godio. Er mwyn hwyluso ôl-godio cyson, cafodd newidynnau ôl-godio dyblyg eu creu ar gyfer pob opsiwn ymateb i rieni (er enghraifft, AHSImp01BkC, AHSImp02BkC, a newidynnau cyfatebol ar gyfer ASMDImp).

Cafodd yr holl ymatebion air am air a ddarparwyd o dan yr opsiwn 'Arall (rhowch fanylion)' eu hadolygu â llaw. Pan oedd disgrifiad ymatebydd yn cyfateb yn glir i gategori ymateb a oedd eisoes yn bodoli, cafodd yr ymateb air am air ei ailgodio i'r categori rhieni perthnasol gan ddefnyddio'r newidyn ôl-godio cyfatebol. Lle nad oedd ymatebion air am air yn cyd-fynd yn glir ag unrhyw opsiwn ymateb presennol, cawsant eu gadael wedi'u codio fel 'Arall' ac ni chawsant eu hail-aseinio. Er enghraifft, os oedd ymatebydd wedi dewis 'Arall' ac wedi rhoi gwybod am gyflwr fel 'asthma', cafodd yr ymateb hwn ei ôl-godio i'r newidyn perthnasol yn ASMDImp yn benodol, sef y categori 'Rheoli lefelau ynni neu anadlu'.

Roedd y dull hwn yn sicrhau bod ymatebion a gofnodwyd yn wreiddiol o dan 'Arall' yn cael eu hymgorffori mewn categorïau presennol dim ond lle bo hynny'n briodol yn gysyniadol, gan gadw ymatebion na ellid wir eu categoreiddio yn y categori 'Arall'.

## Sicrhau ansawdd

Yn ystod y cam dadansoddi, cynhaliwyd dadansoddiad ar gyfer y sampl llawn a oedd yn cymryd rhan, ac ar wahân ar gyfer y rhai a oedd yn byw yng Nghymru o'i gymharu â mannau eraill yn y DU. Roedd hwn yn archwiliad ansawdd i sicrhau nad oedd cyfranogwyr yng Nghymru yn ateb y cwestiynau'n arwyddocaol wahanol i bobl yng ngweddill Prydain. Gwelwyd rhai gwahaniaethau, er enghraifft, mwy o bobl anabl yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, ac roeddent yn cyd-fynd â'r data a gyhoeddwyd.

## Manyleb yr holiadur

Mabwysiadwyd dull dylunio holiadur un dull ar gyfer datblygu offeryn yr arolwg. Mae hyn yn golygu bod y gwahaniaethau rhwng yr arolwg ar y we a'r arolwg dros y ffôn wedi cael eu lleihau. Mae'r gwahaniaethau rhwng y ddau ddull, pan nad oedd modd eu hosgoi, wedi'u marcio ym manyleb yr holiadur a gyflwynir isod.

Allwedd lliwiau:

**Cyfarwyddiadau i raglenwyr**

**Dechrau a diwedd hidlyddion a/neu fanylebau sy'n benodol i adran**

Anodiadau:

<b> Testun trwm yn dechrau

</b> Testun trwm yn gorffen

<i> Italig yn dechrau

</i> Italig yn gorffen

HL Helplink: mae'n ymddangos wrth ymyl categorïau ateb

HS Helplink: mae'n ymddangos ar ôl bôn cwestiwn, neu at ddibenion dull cwestiynau cyffredin o dan fôn cwestiwn

## Dechrau'r arolwg

### Dewis iaith

**{ASK IF CATI}**

**Cyflwyniad LIC:** Mae'r cwestiynau nesaf yn ymwneud â chyflyrau pobl, a'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn bywyd bob dydd.

**{ASK IF WEB}**

**Iaith:** Mae'r set nesaf o gwestiynau'n ymwneud â chyflwr pobl, a'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn bywyd bob dydd.

Ym mha iaith hoffech chi lenwi'r adran hon?

1. Cymraeg
2. Saesneg

### Y prif arolwg: Saesneg

**DECHRAU HIDLO: IF (MODE =WEB AND Lang=1) OR MODE=CATI**

**RHAGLENNU: HAP-DDETHOL TREFN SET1A a SET2A**

**IF Nov25SampSplit3=1 THEN HARMONISED FIRST AND SMD SECOND**

**IF Nov25SampSplit3=2 THEN SMD FIRST AND HARMONISED SECOND**

**Safon wedi'i chysoni (SET 1A)**

**{ASK ALL}**

**AHSLLHC**

Oes gennych chi unrhyw salwch neu gyflwr iechyd meddwl neu gyflwr corfforol sy'n para 12 mis neu'n debygol o bara am gyfnod tebyg i hynny?

1. Oes
2. Nac oes

**{IF AHSLLHC=1}**

**AHSActR**

A yw unrhyw rai o'r cyflyrau neu'r salwch yn amharu ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

Cyfwelydd: Holwch os atebwyd ag 'ydy': "Ydi hynny'n rhywfaint neu'n fawr iawn?"

1. Ydy, yn fawr iawn
2. Ydw, rhywfaint
3. Dim o gwbl

**{IF AHSLLHC=1}**

**AHSImp [MULTICODE] [items fixed order, not randomised]**

A oes unrhyw un o'r cyflyrau neu'r afiechydon hyn yn effeithio arnoch chi yn unrhyw un o'r meysydd canlynol?

**G_Multi_Il1**

1. Golwg (er enghraifft, yn ddall neu'n rhannol ddall)
2. Clyw (er enghraifft, yn fyddar neu'n rhannol fyddar)
3. Symudedd (er enghraifft, wrth gerdded pellter byr neu ddringo grisiau)
4. Deheurwydd (er enghraifft, anhawster codi a chario gwrthrychau neu ddefnyddio bysellfwrdd)
5. Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio
6. Cof
7. Iechyd meddwl

8. Stamina neu anadlu neu flinder
9. Cymdeithasol neu ymddygiadol (er enghraifft yn gysylltiedig ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) sy'n cynnwys syndrom Asperger, neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))
10. Arall (rhowch fanylion)

**RHAGLENNU: OCHR YN OCHR Â'R OPSIYNAU CUDD ARFEROL AR GYFER DIFFYG YMATEB, YCHWANEGWCH "Dim un o'r uchod". LLEOLIAD: AR OL PNTA.**

**Mesurau SMD (SET 2A)**

**{ASK ALL}**

ASMDImp **[MULTICODE – RANDOMISE 1..12]**

Ym mha rai o'r meysydd canlynol, os o gwbl, y mae cyflyrau neu amhariadau hirdymor yn effeithio arnoch chi?

Dylech gynnwys y rheini sy'n mynd a dod, neu sy'n amrywio dros amser.

**G_Multi_Il1**

1. <b>**Gweld**</b> – er enghraifft, mynd o gwmpas llefydd anghyfarwydd, darllen, hyd yn oed gyda sbectol neu lensys cyffwrdd
2. <b>**Clywed**</b> - er enghraifft, dilyn sgyrsiau mewn mannau swnllyd, clywed synau
3. <b>**Symud o gwmpas**</b> - er enghraifft, cerdded, mynd i fyny neu i lawr grisiau heb gymorth
4. <b>**Defnyddio eich dwylo neu'ch bysedd**</b> - er enghraifft, gwisgo, defnyddio bysellfwrdd
5. <b>**Dysgu pethau newydd**</b> - er enghraifft, darllen, dilyn cyfarwyddiadau, neu roi trefn ar eich meddyliau ar bapur
6. <b>**Cofio neu ganolbwyntio**</b> - er enghraifft, cofio enwau neu ddyddiadau, canolbwyntio ar dasgau
7. <b>**Iechyd meddwl**</b> - er enghraifft, rheoli emosiynau neu feddyliau, profi rhithweledigaethau
8. <b>**Rheoli lefelau egni neu anadlu**</b> - er enghraifft, cysgu'n dda, bod â'r egni i wneud gweithgareddau bob dydd

9. <b>**Rhyngweithio â phobl eraill**</b> - er enghraifft, mynegi eich hun, teimlo eich bod yn cael eich llethu gan sefyllfaoedd cymdeithasol
10. <b>**Bod mewn poen neu anghysur**</b> - er enghraifft, teimlo poen cronig neu gosi sy'n effeithio ar eich hwyliau, eich cwsg neu eich gallu i ganolbwyntio
11. <b>**prosesu synhwyraidd**</b> - er enghraifft, bod yn fwy neu'n llai sensitif i olau, cyffyrddiad neu dymheredd
12. <b>**Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif**</b> - er enghraifft, bod yn dueddol o gael haint neu lid
13. <b>**Arall**</b> (rhowch fanylion)
14. <b>**Dim un o'r uchod**</b>

**RHAGLENNU: HAP-DDETHOL TREFN ASMDBar1 AC ASMDBar2**

**IF Nov25SampSplit4=1 THEN ASMDBar1 FIRST AND ASMDBar2 SECOND**

**IF Nov25SampSplit4=2 THEN ASMDBar2 FIRST AND ASMDBar1 SECOND**

**{ASK ALL}**

ASMDBar1 **[MULTICODE – RANDOMISE 1..9]**

Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u profi yn ystod y 12 mis diwethaf?

**G_Multi_ll1**

1. </b>**Gofal iechyd nad yw'n cefnogi fy anghenion</b>**

   Er enghraifft, cael eich trin yn annheg gan staff, systemau trefnu apwyntiadau anhygyrch, mannau aros sy'n anodd symud o'u cwmpas

2. </b>**Cyflogaeth a chyfleoedd gwaith nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, cael eich gadael allan o weithgareddau cymdeithasol, recriwtio neu addasiadau i'r gweithle anhyblyg, gweithleoedd sy'n anodd mynd i mewn iddynt ac o'u cwmpas

3. </b>**Addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, gwneud rhagdybiaethau am fy ngalluoedd, deunyddiau dysgu nad ydynt yn y fformat sydd ei angen arnaf, ystafelloedd â mynediad anodd neu sy'n rhy swnllyd

4. </b>**Trafnidiaeth a theithio nad ydynt yn diwallu fy anghenion**</b>

Er enghraifft, staff ddim yn fy nhrin ag urddas, systemau archebu anhygyrch, diffyg seddi hygyrch

5. </b>**Trefniadau tai a byw'n annibynnol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, pobl yn tybio na allaf fyw ar fy mhen fy hun, rhestrau aros hir am dai hygyrch, diffyg addasiadau i'r cartref presennol

6. </b>**Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, pobl yn tybio na allaf gymryd rhan mewn digwyddiadau, gwybodaeth am gyfleusterau lleoliadau nad ydynt ar gael mewn fformatau hygyrch, siopau a busnesau nad ydynt yn hygyrch

7. </b>**Mannau cyhoeddus a chyfleusterau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, nid yw adborth ar hygyrchedd yn cael ei gymryd o ddifrif, mae'r oriau agor yn gyfyngedig, mae diffyg toiledau hygyrch a chyfleusterau cyhoeddus hygyrch

8. </b>**Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, pobl yn tybio na allaf ofalu am fy arian fy hun, nid yw taliadau lles yn talu am gostau byw, gwasanaethau bancio anodd eu defnyddio

9. </b>**Pleidleisio a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft, pobl yn meddwl nad ydw i'n deall materion gwleidyddol, dim llawer o gefnogaeth i ymuno mewn bywyd cyhoeddus, ddim yn gallu pleidleisio'n breifat mewn gorsaf bleidleisio

10. <b>**Arall**</b> (rhowch fanylion)

11. <b>**Dim un o'r rhain**</b>

**RHAGLENNU: OPSIYNAU DK A PNTA**

**IF Nov25SampSplit5=1 THEN DK & PNTA HIDDEN AND TRIGGERED (Panel standard)**

**IF Nov25SampSplit5=2 THEN DK & PNTA DISPLAYED UPFRONT**

**{ASK ALL}**

ASMDBar2 **[MULTICODE]**

Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u profi yn ystod y 12 mis diwethaf?

**G_Multi_ll1**

1. <b>**Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw’n hygyrch**</b>

   Er enghraifft, gwybodaeth iechyd nad yw mewn fformat sydd ei angen arnaf, dim digon o amser i brosesu gwybodaeth, systemau archebu teithiau sy’n anodd eu defnyddio

2. </b>**Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas**</b>

   Er enghraifft: adeiladau cyhoeddus sy’n rhy swnllyd neu olau, gweithleoedd heb rampiau na lifftiau, toiledau hygyrch nad ydynt yn addas

3. </b>**Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol</b>**

   Er enghraifft: staff iechyd yn gwneud rhagdybiaethau amdanaf fi, cydweithwyr yn defnyddio iaith sarhaus tuag ataf neu’n fy ngadael allan, fy safbwyntiau ddim yn cael eu cymryd o ddifrif

4. </b>**Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion**</b>

   Er enghraifft: staff iechyd heb eu hyfforddi’n ddigonol i gefnogi fy anghenion, diffyg addasiadau gan gyflogwyr, dim digon o arian na chefnogaeth i fyw’n annibynnol

5. </b>**Arall** (rhowch fanylion)
6. <b>**Dim un o’r rhain**</b>

**RHAGLENNU: OPSIYNAU DK A PNTA**

**IF Nov25SampSplit5=1 THEN DK & PNTA HIDDEN (Panel standard)**

**IF Nov25SampSplit5=2 THEN DK & PNTA SHOW UPFRONT**

**Cwestiynau adborth**

**{ASK ALL}**

**DebQ1 [MULTICODE]**

Fe wnaethom ofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw rwystrau rydych chi wedi’u hwynebu yn ystod y 12 mis diwethaf. Wrth ateb y cwestiynau hyn, pa rai o’r canlynol, os o gwbl, wnaethoch chi feddwl amdanynt?

**G_Multi_ll1**

1. Amhariadau neu gyflyrau hirdymor

2. Pethau fel oedran, rhyw, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol
3. Pethau eraill (rhowch fanylion)
4. Doeddwn i ddim yn siŵr beth roeddwn i fod i feddwl amdano wrth ateb [EXCLUSIVE]

**END FILTER: IF (MODE=WEB AND Lang=1) OR MODE=CATI**

## Atodiad H: Pecyn gwaith 6 - profiad o rwystrau yn ôl math o amhariad

**Tabl 21: Canran y rhwystrau mewn meysydd bywyd a brofir gan gyfranogwyr â gwahanol fathau o amhariadau**

| | Gweld | Clywed | Symud o gwmpas | Defnyddio dwylo neu fysedd | Dysgu pethau newydd | Cofio neu ganolbwyntio | Iechyd meddwl | Lefelau egni neu anadlu | Rhyngweithio â phobl eraill | Poen neu anghysur | Prosesu synhwyraidd | System imiwnedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal iechyd | 31 | 27 | 36 | 38 | 41 | 35 | 36 | 38 | 38 | 34 | 48 | 37 |
| Cyflogaeth a swydd | 16 | 12 | 15 | 22 | 29 | 19 | 22 | 20 | 25 | 14 | 31 | 20 |
| Addysg a hyfforddiant | 9 | 7 | 8 | 9 | 24 | 14 | 15 | 13 | 16 | 7 | 20 | 13 |
| Trafnidiaeth a theithio | 19 | 17 | 25 | 27 | 27 | 20 | 19 | 22 | 19 | 21 | 25 | 25 |
| Trefniadau tai a byw'n annibynnol | 13 | 10 | 16 | 20 | 23 | 14 | 17 | 15 | 17 | 11 | 23 | 23 |
| Gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol | 15 | 11 | 16 | 17 | 19 | 15 | 13 | 11 | 17 | 11 | 19 | 18 |

| | Gweld | Clywed | Symud o gwmpas | Defnyddio dwylo neu fysedd | Dysgu pethau newydd | Cofio neu ganolbwyntio | Iechyd meddwl | Lefelau egni neu anadlu | Rhyngweithio â phobl eraill | Poen neu anghysur | Prosesu synhwyraidd | System imiwnedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mannau a chyfleusterau cyhoeddus | 22 | 17 | 33 | 34 | 30 | 23 | 25 | 26 | 28 | 24 | 35 | 32 |
| Gwasanaethau ariannol a budd-daliadau | 22 | 16 | 23 | 28 | 35 | 25 | 27 | 22 | 28 | 17 | 29 | 28 |
| Pleidleisio a gwleidyddiaeth | 12 | 6 | 9 | 10 | 12 | 8 | 8 | 7 | 7 | 6 | 11 | 9 |
| Arall | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Dim un o'r rhain | 45 | 52 | 33 | 33 | 29 | 36 | 34 | 34 | 30 | 40 | 25 | 29 |
| Ddim yn gwybod neu Mae'n well gen i beidio ateb | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 |

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: Gweld = 228; Clywed = 479; Symud o gwmpas = 452; Defnyddio dwylo neu fysedd = 238; Dysgu pethau newydd = 191; Cofio neu ganolbwyntio = 469 Iechyd meddwl = 462; Rheoli lefelau egni neu anadlu = 531; Rhyngweithio â phobl eraill = 362; Bod mewn poen neu anghysur = 680; Prosesu synhwyraidd = 196; Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif = 247.

**Tabl 22: Nifer cyfartalog y rhwystrau mewn meysydd bywyd a brofir gan gyfranogwyr â gwahanol fathau o amhariadau**

| Math o amhariad | Nifer cyfartalog y rhwystrau mewn meysydd bywyd |
|---|---|
| Gweld | 1.6 |
| Clywed | 1.2 |
| Symud o gwmpas | 1.8 |
| Defnyddio dwylo neu fysedd | 2 |
| Dysgu pethau newydd | 2.4 |
| Cofio neu ganolbwyntio | 1.7 |
| Iechyd meddwl | 1.8 |
| Lefelau egni neu anadlu | 1.7 |
| Rhyngweithio â phobl eraill | 1.9 |
| Poen neu anghysur | 1.4 |
| Prosesu synhwyraidd | 2.4 |
| System imiwnedd | 2 |

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: Gweld = 228; Clywed = 479; Symud o gwmpas = 452; Defnyddio dwylo neu fysedd = 238; Dysgu pethau newydd = 191; Cofio neu ganolbwyntio = 469 Iechyd meddwl = 462; Rheoli lefelau egni neu anadlu = 531; Rhyngweithio â phobl eraill = 362; Bod mewn poen neu anghysur = 680; Prosesu synhwyraidd = 196; Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif = 247.

**Tabl 23: Cyfran y mathau o rwystrau a brofir gan gyfranogwyr â gwahanol fathau o amhariadau (canran, %)**

| | Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw'n hygyrch | Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas | Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol | Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | Arall | Dim un o'r rhain | Ddim yn gwybod neu Mae'n well gen i beidio ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweld | 22 | 23 | 34 | 29 | 1 | 43 | 2 |
| Clywed | 18 | 20 | 27 | 23 | 2 | 51 | 2 |
| Symud o gwmpas | 20 | 35 | 38 | 32 | 2 | 33 | 3 |
| Defnyddio dwylo neu fysedd | 26 | 36 | 41 | 38 | 3 | 30 | 1 |
| Dysgu pethau newydd | 32 | 39 | 51 | 43 | 1 | 20 | 3 |
| Cofio neu ganolbwyntio | 25 | 28 | 46 | 34 | 2 | 30 | 2 |
| Iechyd meddwl | 20 | 27 | 50 | 34 | 1 | 30 | 3 |

| | Gwybodaeth a chyfathrebu nad yw'n hygyrch | Adeiladau a mannau nad ydynt yn addas | Safbwyntiau ac ymddygiad pobl eraill nad ydynt yn gefnogol | Rheolau, polisïau ac arferion nad ydynt yn cefnogi fy anghenion | Arall | Dim un o'r rhain | Ddim yn gwybod neu Mae'n well gen i beidio ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli lefelau egni neu anadlu | 19 | 30 | 44 | 34 | 2 | 33 | 2 |
| Rhyngweithio â phobl eraill | 25 | 30 | 50 | 39 | 1 | 25 | 5 |
| Bod mewn poen neu anghysur | 18 | 29 | 37 | 29 | 2 | 36 | 3 |
| Prosesu synhwyraidd | 28 | 40 | 61 | 48 | 3 | 17 | 5 |
| Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif | 24 | 32 | 42 | 39 | 1 | 30 | 3 |

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: Gweld = 228; Clywed = 479; Symud o gwmpas = 452; Defnyddio dwylo neu fysedd = 238; Dysgu pethau newydd = 191; Cofio neu ganolbwyntio = 469 Iechyd meddwl = 462; Rheoli lefelau egni neu anadlu = 531; Rhyngweithio â phobl eraill = 362; Bod mewn poen neu anghysur = 680; Prosesu synhwyraidd = 196; Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif = 247.

**Tabl 24: Nifer cyfartalog y mathau o rwystrau a brofir gan gyfranogwyr â gwahanol fathau o amhariadau**

| Math o amhariad | Nifer cyfartalog y mathau o rwystrau |
|---|---:|
| Gweld | 1.1 |
| Clywed | 0.9 |
| Symud o gwmpas | 1.3 |
| Defnyddio dwylo neu fysedd | 1.4 |
| Dysgu pethau newydd | 1.7 |
| Cofio neu ganolbwyntio | 1.3 |
| Iechyd meddwl | 1.3 |
| Lefelau egni neu anadlu | 1.3 |
| Rhyngweithio â phobl eraill | 1.5 |
| Poen neu anghysur | 1.1 |
| Prosesu synhwyraidd | 1.8 |
| System imiwnedd | 1.4 |

[Nodyn 1] Seiliau heb eu pwysoli: Gweld = 228; Clywed = 479; Symud o gwmpas = 452; Defnyddio dwylo neu fysedd = 238; Dysgu pethau newydd = 191; Cofio neu ganolbwyntio = 469 Iechyd meddwl = 462; Rheoli lefelau egni neu anadlu = 531; Rhyngweithio â phobl eraill = 362; Bod mewn poen neu anghysur = 680; Prosesu synhwyraidd = 196; Bod â system imiwnedd rhy actif neu ddim digon actif = 247.